AMSER,

A

Diwedd Amſer;

Yn Ddau Draethawd:

Y cyntaf ynghylch *Prynnu'r Amſer*: Yr ail ynghylch *Yſtyried ein Diwedd.*

A oſodwyd allan gyntaf yn *Saeſonaeg* gan *John Fox.* Ac a gyfieithiwyd yr awrhon i'r *Gymraeg* er daioni i'r *Cymru.*

Pſal. 90. 12. *Dyſg i ni felly gyfrif ein dyddiau fel y dygom ein calonau i ddoethineb.*

Galar. 1. 9. *Ei haſlendid ſydd yn ei godreu, nid yw hi yn meddwl am ei diwedd; am hynny y ſyrthiodd hi yn rhyfedd.*

Non pudet te reliquias vitæ tibi reſervare, & id ſolum Tempus bonæ menti deſtinare, quod in nullam rem conferri poſſit! Quam ſerum eſt, tunc vivere incipere, cum deſinendum eſt? *Sen. de brev. vit.*

Argraphwyd yng *NGWRECSAM*, gan R. MARSH, Gwerthwr Llyfrau, 1784.

BRITISH MUSEUM

At y Gwir-Barchedig Dad yng Hrift HUMPHREY gan Rad Duw Arglwydd Eſgob Caerffawydd.

Gwir-Barchedig Dâd,

GAN weled mai Defod ac arfer Yſgrifennyddion yn gyffredin, a'r rheini yn gyſtal, Griſtianogion a Chenhedloedd, ym mhob oes oedd cyflwyno eu Llyfrau, a'u danfon allan i olwg y Byd anwadal-farn hwn, tan henw a nodded y cyfryw rai a dybygent hwy a fyddent yn Ymddiffynwyr tradewrion ac yn Goleddwyr haelionus iddynt; i'w cyſgodi a'u hadeinio rhag enllib a chamfarn dynion drygionus a ſertheiriawg. A minneu, rhag bod o honaf yn unigawl yn yr oes gynfigennus hon (gan na fu erioed reittiach wrth Noddwyr nag yn awr) wedi cyfieithu'r Llyfran bychan hwn yn oraf ag y medrwn i'n tafodiaith genedigol ni yng *Hymru*; yr hwn a arhoſodd rai blynyddoedd yn fy Llyfrgell i yn ddïymgeledd, a'r Geiriau hyn ar ei

gefn, *Y plant a ddaethant hyd yr anedigaeth, ond nid oes grym i eſgor*, 2 Bren. 19, 3. O ran nad oedd gennyf na gallu na gobaith (ar ol fy llafur yn ei gyfieithu ef) i gael ei blod ef allan byth mewn Print, nes darfod i rai Ewyllyſwyr Da (taled yr Arglwydd iddynt am eu daioni) ei gymmeryd yn llaw, a'i ddangos yn ddïarwybod i mi, i'ch Arglwyddïaeth chwi, Wîr-Barchedig Dâd; a chael o honynt hefyd eich tirionfarn hynawſaidd chwi arnaw, y gellid ei ddangos ef allan i'r Wlad mewn Print: A fernais yn anaddas ac yn ormod bai ynnof fy hun ei anfon ef allan yn Enw nêb arall; heb-law ddarfod i mi yſtyried nad oedd nêb arall i'w gael yn iawnach i'r *Cymru* mewn dyled a dïolwchgarwch i orchymmyn eu Llyfrau iddo nag i chwi, o rân eich bod nid yn unig (fel y mae'n perthyn i'ch Swydd Gyſſegredig) yn Ben-Bugail da dan Ghriſt i lywodraethu ei braidd ef, ac i ofalu tros ei Eglwys; eithr hefyd yn Ben-Colofn ardderchog i gynnal i fynu hên Iaith y *Brutaniaid*, yn gwîr garu llwyddiant eich Gwlad, yn hoffi clywed llafar plant ein *Sion* yn canu mawl cydleiſiawl i Dduw yn eu Tafodiaith eu hunain, ac yn Ganllaw ymgeleddus i ymddiffyn Iaith-Mam (ſy wedi myned yn ddigyfriſ tan draed a'i braint yn niffodd ym

myſg

myſg pobl goeg-feilchion y Genhedlaeth ſerch-newyddiawg hon) trwy chwilio allan yn ofalus eich hunain, ei Henaduriaeth a'i Choffadwriaethau, a'u codi i fynu o dywyllwch a llwch anghof, i fod yn oleuni i'r rhai a ſynient arnynt ac annog pawb eraill a'u cefnogi i ſtudio a darllen yr Hen-fam-iaith odidog hon, a'ch dangos eich hun ym hôb ffordd yn Dadmaeth da, ac yn Achleſwr ymgeleddus iddi.

Er dywedyd o *Salomon* ddoeth *nad oes diben ar wneuthur Llyfrau lawer*, Preg. 12. 12. Etto yr wyfi'n tybied y gallaf ddywedyd yn hŷf yn y gwerthwyneb, nad oes ond prin Dechreuad o hynny ym *Gymraeg* mewn cyffelybiaeth i'r llioſogrwydd a'r amledd ſydd o honynt mewn leithoedd eraill: A'r rhai ſy gennym mewn Print beth ydynt gan mwyaf ond Cyfieithiadau o leithoedd eraill, a'r rheini yn ychydig iawn, yn gymmaint ag y dichon Gŵr na bo ond egwan eu dwyn yn hawdd yn ei Gôd. Yr hyn ſydd reſyndod ei fod, wrth yſtyried na wyddus pa nifer llwyth Men ſydd o honynt yn leithoedd ein Cymydogion. A hyn oll yſywaeth ſydd yn digwydd i ni yn anad dim oblegid anewyllyſgarwch Gwŷr 'ein Gwlad ni'n hunain i wneuthur un Tro da na dim lleſſad yn un modd i laith eu Mammau. Ac nid y Bonedd yn unig, y rhai

ſy'n cymmeryd arnynt nad ynt yn deall *Cymraeg*, a rhai min-grynnion eraill na fynnant ſiarad dim ond rhyw goeg-gymhendod lledieithiog ſy'n euog o'r bai hwn: Eithr hefyd y mae hyd yn yn Nôd y Gwyr Llen a'r Periglorion gan mwyaf mor chwyddedig ac uchel-teddwl, na wnant, o ran dïyſtyrwch i'r Iaith, gymmaint a phregethu yn *Gymraeg* i'r Gwerinos un-iaith tlodion ſy'n eu myſg, a chanddynt Eneidiau i'w hachub yn gyſtadl ag eraill.

Ni ddarfu i mi gyfieithu mor Llyfr hwn o ran y tyb lleiaf yn un modd y medrwn i wneud dim yn agos mor berffaith ag y gwnelſai un arall cyfarwydd yn yr Iaith, ond o ran fy chwant yn ol fy ngallu i wneuthur rhyw ddaioni yn oreu ag y medrwn i'm Gwlad a Chenedl y *Brutaniaid*. Ac yma y mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod i yn rhy hŷf yn hyn o beth, ïe ac yn rhy anfoeſol hefyd, yn enwedig trwy ryfygu anrheg u Cyfieithiad mor Drwſgwl ac anghymmen a hwn i'ch Arglwyddïaeth chwi. Am hynny mi attolygaf i chwi o'ch addfwynder, Wîr-barchedig Dad, ei groeſafu ef yn y fath Drwſiad anhydlws ag y mae efe wedi ei anfon i'w ofod i lawr gyd-a phob goſtyngeiddrwydd wrth draed eith Arglwyddiaeth chwi, ac edrych arnaw nid yn ol anghyweinrwydd y Cyfieithiad, ond yn ol pur-

deb

deb yr Athrawiaeth ; a phwyſo y rhodd nid yn ol ei maintiolaeth ond yn ol ewyllyſgarwch y Rhoddwr. Ac nid i'ch ſyfrdanu ym mhellach oblegid peth mor wael, rhag i rai dybied fy mod i yn ceiſio udcanu Udcorn eich mawl i'r byd ; yr hyn beth mi wn yn dda na's mynnech i nêb ei wneuthur ; Gan hynny erfyniaf eich nawdd am fy eondra, ac i chwi roi cwr o Gochl eich cariad i guddio fy ngwendid i, a bod yn wiw gennych dderbyn y cwbl megis arwydd diffuant o niolwchgarwch i i'ch Arglwyddiaeth chwi am eich tra-mawr aml Garedigrwydd a'ch Haelioni digymmar i'ch Gwlad a laith yr hên *Frutaniaid* ; Gan ddymuno ar Arglwydd yr Arglwyddi fendithio eich Arglwyddïaeth chwi a hîr ddyddiau i lywodraethu ei Eglwys ef yma ar y Ddaiar, a'ch coroni ar ôl hyn a Choron gogoniant o anllygredigaeth a bywyd tragywyddol yn y Nefoedd uchod. Hyn a gaiff fod yn rhan o Weddïau beunyddiol.

Eich Goſtyngeiddiaf a'ch Ufuddaf Was,
wrth Orchymmyn eich Arglwyddiaeth,

Samuel Williams,

At

At y Darllenydd o Gymro diledryw ; Annerch.

Y Darllenydd addfwyn, yſtyried mor anhyddyſg yw ein Cydwladwyr ni, y Cymru *Un-iaith, i ddeall un mâth o Lyfr a ſgrifennir attynt mewn ymadroddion parablaidd dyſgedig ; a bod y Llyfryn hwn yn cynnwys ynddo ddau o brîf bynciau tra-buddiol ac angenrheidiol i'w ſynied a myſyrio arnynt ym mywyd dŷn ; a'r mawr groeſaw a gafodd efe ym mhôb mangre yn ei dafodiaith a'i drwſiad genedigol, gan ei Genedl ei hun y* Saeſon, *a chan gynnifer ag a ddeallent ei iaith ef o'n Cenedl ninnau, ni bu efe (hyd ag y gwn i) ddim yn anhygar : Ac hefyd farnu o honof nad oedd ond afraid i mi ſyned ynghylch ſgrifennu a chyfanſoddi Llyfr o'm gwaith fy hun, a gadael y fath un godidog ag yw hwn heb ei gyfieithu, ac yntau mor debyg i fod yn Offeryn tra-llwyddiannus tu-ag at hyfforddi addyſg ac atbrawiaeth i'r annwybodol : Y pethau hyn (meddaf fi) gyd ag amryw bethau amgylchiadawl eraill, ynghyd am hewyllyſgarwch a'm chwant i wneuthur daioni i'm Cydwladwyr a'm Cenedl fy hun, a'm hannogodd ac a'm*

a'm hyſhaodd i'w gyſieithu ef (yn ol ſy ngallu egwan) i'n Tafodiaith ni ym mro-dir Cymru; gan obeithio y gwnae efe (wedi dyſgu iddo ſiarad Cymraeg) nid ychydig o ddaioni i'r Gweriniod annyſgedig a'r anghyfarwydd yn ein myſg ni, a bod megis Canwyll mewn Canhwyllren (ac nid tan leſtr) yn goleuo i bawb trwy'r Ty.

Am Amſer a'i dymmhoreiddrwydd, nid achos bychan ſy gennym ni i'w briſio ef yn ddyladwy, yſtyried ei werthfawrogrwydd, a dal gafel arnaw erbyn ei gudyn blaen, cyn y trotho ei wegil a myned o honaw ymaith: Oblegid nid oes ond ei amſer i bob pêth, ac i bob amcan tan y Nefoedd, Preg. 3. 1. *Nid oes ond amſer terfynedig a byr iawn i ddyn ar y ddaiar; y mae hyd yn oed ei ſiſoedd ef, ei ddyddiau a'i oriau tan rif gan yr Hollalluog, a therfynau wedi eu goſod iddynt, fel nad el troſtynt,* Job 7. 1. a'r 14. 15. *Wy gyffelybir einioes Dyn i Wynt a Chwa yn-myned heibio, i Niwl a Tharth yn diflannu, i Fwg a Chyſgod yn cilio, ac i Lifeiriant yn myned ymaith. Nid yw ein Hoedl ond megis hun, breuddwyd neu chwedl, ac y mae ein dyddiau yn ffoi ac yn darfod heb obaith: Nid ydynt ond megis dyrnfedd, lled llaw a diddim yngolwg yr Arglwydd. Nid yw holl drigolion y ddaiar ond fel mân lwch y cloriannau, llai na gwagedd, ac na dim ger ei fron ef: O her-*

wydd

wydd pa achos nid yw'r gwychaf o feibion dynion ond cwbl wagedd pan fo ar y goreu. Nid oes un Athrawiaeth gymmhwyſach i'w dyſgu, un Fyſyrdod angenrheitiach i'w myſyrio, un Wybodaeth ſuddiolach i'w gwybod, nac un Yſtyriaeth ddwyſach i feddwl am dani, nag yw byrder ac anſicrwydd amſer, annigonolrwydd y Creadur, breuolder a thrueni bywyd dyn, gorwagedd a thwyll y byd anwadal hwn, a'r lleied diddanwch y ſydd i'w gael ynmhob gorhoffder ac hyfrydwch a'r y ſy dan yr Haul, yr hyn beth nid ym ni yn ei ddirnad, er ein bod yn ei ddarllen yn ſgrifen pob Carreg, ei wcled ynghwymp pob deilian, ei glywed yn lluis pob Cloch, ei arobwaethu ym mhob diſgliad o fwyd, ei arogli ym nhrymſawyr pob Celain, a'i deimlo yn nhraeiad pob gwthien, ie ni fynnwn ni (*fel y dywed* S. Cyprian) wybod mo honaw, er na's gallwn fod heb ei wybod ef. *Fel hyn y mae'n hamſer yn myned ymaith ddydd a nos, awr ac orig yn ddiattal, a ninnau yn rhy eſgeulus i orphen y gwaith mawr ſy'n perthyn i'n beneidiau anfarwol cyn y dele tywyllwch y nos erchyll ar ein gwartha, a myned o benom i Dragywyddoldeb.* Er ein bod ni yn byw yn yr Amſer ac yn deimladwy o honaw, ni wyddom ni (*fel y dywed* Ariſtotl) er hynny beth yw Amſer na'i werthfawrogrwydd.

Am yſtyried ein Diwedd, buddiol iawn yw

i ni wneuthur hynny ; oblegid nid oes un dyn ar wyneb y ddaiar a ddichon ddadleu anwybodaeth yn erbyn Deddf gyffredin Duw hollalluog, yngbylch angenrheidrwydd marwoldeb Dyn : Canys gosodwyd i ddynion farw unwaith, *Heb.* 9. 27. *Ac fe all pob dyn ddywedyd gyd ár Wraig ddoeth a* Decoab, yr ydym ni oll fel dyfroedd wedi eu tywallt ar y ddaiar, 2 *Sam.* 14. 14. *Nid oes un oes, yſtat, To, na Gradd o adynion, na's cowſant y gwaethaf gan yr Ymdrechwr annoreſgynnol hwn Angau ; yr hwn gan forthogaeth ei gylch i fynu ac i wared ar hyd y Byd ar ei Farch gwelwlas, er ys mwy na phum mil o flynyddoedd, a oſodes y crabl o'i flaen a dyrnod diddeddol yn llawr gwaſtad. Cafodd rhai yn eu Mebyd brofi beth yw marw cyn y gwyddent beth oedd byw ; rhai yn eu Hiſengtid, ac eraill yn eu Henaint ; cyfoethog a thlawd, uchel ac iſel, o bob math a gaiwad ; fe all gwyr ieuainge farw, a rhaid yw i ben ddynion farw ; ie eu Marwoldeb a banodd byd yn oed i'r rhai a alwyd yn Dduwiau (a hynny nid gan un Truthiwr gwenbieithus ; ond gan Dduw ei hun) ddeall uw oeddynt ond dynion iddynt eu hunain, er eu bod fel Luwiau i eraill : Ac mal y dywedodd* Epictetus *wrth yr Ymerodwr gynt,* Fod geni a marw mor gyffredin i'r Brenin ac i'r Cerdottyn. *Clefydon a thrueni 'r fuchedd hon, a wnaeth i'r* Paganiaid *balchaf, gyfaddef a dywedyd fel y dywedodd*

dodd S. Petr *wrth* Cornelius, *Act.* 10. 26. Dŷn marwol wyf finnau hefyd. *Mal hyn y mae prawf (cyn gyſtled a Sgrythyr) yn gweiddi yn groch*, Pa ŵr a fydd byw, ac ni wêl farwolaeth? *Pſal.* 89. 48. *Ac nid oes fan yn y Byd a ddichon gadw dyn yn ddiangol rhag gafaelau ySwyddog didrugaredd hwn*; *ſe ddaliodd* Abel *yn y maes*, Eli *yn eiſtedd wrth y drws*, *Plant* Job *ar wledd*, Eglon *yn ei Stafell haf*, Zacharias *rhwng y Deml a'r Allor*, Zenacherib *yn nhy ei Dduw* Niſroch, Isboſeth *yn gorwedd ar ei welu*, *a* Herod *ar ei orſeddfaingc*: *Hefyd y mae Angau yn ein goddiwes ni trwy amryw o foddion*; Joſiah *a fu farw o friw ſaeth*, *Prophwyd Duw a dannedd llew*, Abimelech *a darn o faen melin*, *St.* Paul *a'r Cleddyf*, Eſay *a llif*, Jezebel *a fwyttawyd gan gwn*, Achitophel *a ymgrogodd*, *yr hen Fyd a foddwyd gan y dwfr Diluw*, Sodoma *a* Gomorra *a loſgwyd a than o'r Nefoedd*, *a'r Ddaiar a lyngcodd* Cora, Dathan *ac* Abiram. *Beth a wnaf fi yn ſiarad*, *y mae myrddiwn* (*medd* Eraſmus) *o ddoluriau yn y Byd*, *ac ni wyr neb yn ei fywyd a'i iechyd pa un o honynt a'i dihenydda ef*; *canys* i'r Arglwydd Dduw y perthyn diangfau rhag marwolaeth, *Pſal.* 68. 20. *Am hynny nid rhyfedd ddywedyd o un*, *mai* Angau o bob pêth erchyll yw'r erchyllaf. *Nid oes un gyfaredd na meddyginiaeth trwy'r holl Fyd a ddichon ein*

ein cadw ni'n ddihangol rhag ei ddyrnod ef; ni ddichon regwch na galluogrwydd, golud nac anrhydedd, cyfeillion na cheraint, na neb, na dim a'r y ſydd, alw yn oly Farn ddiadlam honno, Prîdd wyt ti, ac i'r prîdd y dychweli, Gen. 3. 19 Nid yw pob gwyn a gwaew, pob anhwyl ac afiechyd, a phob cymhyrcynrwydd yn ein Cyrph braulyd, ond megis ymladdfeydd bychein o flaen ymladdfa fawr Marwolaeth; yn yr hon dyn egwan wedi ei orchfygu, a gaethgludir i dy ei hir gartref: A phan arddir unwaith gwyſau Marwoldeb yn wyneb y teccaf ei bryd a'i wedd o ddyn marwol, ſe a'r olwg arno yn y man yn gethinllyd (er hygared ydoedd o'r blaen) a'r diwedd yw, Claddu fy marw allan o'm golwg, Gen. 23. 4. Er pa fodd bynnag y mae pawb yn cyfaddef ac yn cydnabod fod yn angenrhaid i ni farw, ac nad oes le i ochelyd Angau, na diangc rhagddo: etto y mae prawf galarus yn dangos fody rhan fwyaf o ddynion yn byw felly yn y Byd Criſtianogol, fel pe na byddent feirw byth, ac yn meirw o'r diwedd, mal pe na bai iddynt gael byw byth drachefn: A phan ddel amſer eu hymddattodiad, y maent mor ambarod i roeſawi'r gennad ddidoſturi hon Marwolaeth, ac mor ddiarwybod oblegid eu diwedd a'u cyflwr tragywyddol, nad oes ganddynt ddim i'w ddywedyd, na gwybod beth a ddaw o honynt, mwy nag anifeiliaid yſgryblaidd, y rhai nid oes rheſwm ganddynt.

Yn awr fel na bo i ni gamdreulio ein hamſer gwerthfawr a'i wario yn ofer, na bod yn ambarod

rodi ymdrecha'r gelyn diweddaf hwn, (heb law'r mawr gymmorth fy ngair Duw, yn nhrefniadau ei ragluniaeth ef, yn aml ddrychau marwoldeb ger ein bron yn oeſtad, ac yn ein teimladol ddyneſſâd ein hunain at byrth Angau; heb law y rhai'n, meddaf fi, ac aneirif yn rhagor) fe all y Llyfrau bychain hwn (a gyfanſoddwyd mor gyweraint) trwy fendith yr Arglwydd, a'n dirwydrwydd ninnau, roi i ni nid ychydig gymmorth a chyfarwyddyd yn ein taith trwy'r glyn gwael hwn o drueni, a'n pererindod trwy dd'yffryn Baca: *Canys y mae ynddo amryw o Athrawiathau a Gwerſi rhagorol, Yſtyriaethau a Rheſymmau pwyſig, Annogaethau, Hyfforddiadau a Chyngherion defnyddfawr o blegid* Amſer, a diwedd Amſer, *y rhai (yn fy marn i) os darllenir hwynt yn araf ac yn yſtyriol, a allant fod yn fyddion effeithiol* i ddyſgu i ni wadu annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn ſobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd ſydd yr awron, *Tit.* 2. 12. *Gan wneuthur y gorau o'n hamſer, trwy ymbarottoi ac ymarfogi erbyn marwolaeth, fel y gallom ymadael mewn tangneddyf, ddiweddu ein dyddiau, a marw mewn llawn ſiccrwydd a gobaith diogel* y deleir ein pechodau, pan ddelo yr amſeroedd i orphywys o olwg yr Arglwydd, *Act.* 3. 19.

Nid chwant clod ar fy nebeuliaw a'm cymmellodd i gyfleithu'r Llyfran hwn, ac ni châs ofn anglod ar fy llaw aſſwy fy attal rhag ei gyfleithu ef: Eithr gobaith ſiccr y byddai iddo

wneud

wneud daioni i'm Gwlad a'm cynhaliodd i fynu yn erbyn pob anhawsdra hyd onid aethym trwy'r gwaith, a'i osod ef i fynu yn y cyfryw drec wael ag y mae efe. Os bydd i ryw rai craffus ryfeddu gweled y Pererin gwan hwn yn tramwy'r wlad yn eu mysg mewn cyn senglad dillad, a thybied digwydd hynny o anffawd iddo, o eisiau bod y Gymraeg mor gyfoethog a'r Saesonaeg i'w dacclu ef yn bingc ac yn brydferth. Fe attebir, Darfod ei ddanfon ef yn y modd anghymmen hyn (er mai nid ychydig y mae'n hiaith ni yn rhagori ar eu hiaith hwynt, mewn lliosowgrwydd tadogaeth a chyfan-soddiad geiriau, a llwybreiddrwydd ymadrodd) o waith fod yn rhaid i mi linio ei siacced Gymreig ef yn nesaf ag allwn at ddull yr un Saesonig, ac yn gyfattebol iddi, rhag (pe fuasid yn ei addurno ef a meini gwerthfawr, tlysau godidog a gwisgoedd euraid ein hiaith ni) na nabyddsai ei Dad mo honaw, ac iddo yntau fod yn rhy anhebyg iddo; ac rhag na allai pawb o'n Gwlad ni edrych yn graff arno yn y fath drwsiad disglair: O waith darfod i rwd yr amser yssu, i lwch anymarfer orchguddio, ac i Nant anghof olchi ymaith y pethau dymunol hyn eu gyd gan mwyaf, mal nad ynt yn ddat cuddiedig ond i rai: Am hynny mi a wneuthym fy ngoreu er ei anfon ef allan yn y cyfryw ddillad tacclus, fel na bai iddo gael llawer o anghariad gyd-a ni yn Neheubarth; na'i daflu ymaith a cherrig 'chwaith gan ein Cydfrodyr o Wynedd: Ac a baent hwy yn Farbariaid i ni, na ninnau

iddynt huythau. Fy mhrîf amcan i yw, bod i bawb o'm Cydwladwyr cyfiadl a'u gilydd dderbyn lleſſad oddiwrth y Llyfr hwn; ac iddo waſanaethu er adeiladaeth yn gyffredin i bawb o'r Gwerin yn ddilyſiant.

Wele bellach nid oes gan i, y Darllenydd addfwyn, ddim a ſynnwyf a thi yn ychwaneg, and dy orchymmyn i Dduw, ac i air ei Ras ef, *Act.* 20. 32. *Gan ddymuno i ti bob math o lwyddiant tymmhorol ac yſprydol, a buddiant tragywyddol i'th Enaid oddiwrth y Llyfr bychan hwn a phob cyfryngau eraill o'r cyffelyb; a bod i ti hefyd ei roeſawi a'i ddarllain ef, mor ewyllyſgar ag y bum i i'w gyſieithu ef er dy fwyn di: Am hynny bydd wych, ac nac anghofia.*

Aber Troſol ym mhlwyf Llandyfriog ger llaw Emlyn, y 5 o Ebrill yn y flwyddyn, 1703.

Yr eiddot ynddo Ef, yn llaw 'r hwn y mae ein hamſerau.

Samuel Williams.

GWEDDI

Y Traethawd Cyntaf ynghylch Prynnu'r Amſer.

Eph. 5. 16.

Gan brynnu'r amſer, oblegid y dyddiau ſŷ' ddrwg.

YN nechreuad y Bennod hon y mae'r Apoſtol yn cynghori'r Criſtianogion i ſancteiddrwydd yn gyffredin, trwy oſod ger eu bron hwynt eſampl berffaith, *Byddwch ddilynwŷr Duw fel Plant anwŷl, a rhodiwch mewn cariad.* Mae'n rhaid i'r rhai a chwennychant gael y Neſoedd ganlyn eu Tad, ac fel brodyr *Gedeon*, fôd o ddûll meibion Brenin; y Gorchymmyn yw, *Byddwch, ſanctaidd, byddwch berffaith, fel y mae eich Tâd nefol yn berffaith*; Yna y mae efe'n myned rhagddo i gymmell y ddyledſwydd fawr hon yn fwy neilltuol ar bawb yn eu hamryw berthynaſau, yſ hon y mae efe'n annog trwy amryw Re-

fymmau. Ac yn y Teſtun ſe dybygid ei fôd eſe'n pennodi allan yr odfa i oſod y rheini a phôb dyledſwyddau Criſtianogol eraill mewn ymarfer. *Gwelwch pa fodd y rhodioch yn ddieſgeulus; nid fel annoethion, ond fel doethion, gan brynnu'r amſer.*

Agoriad y Geiriau.

Χρονος *Tempus; ſpatium temporis;* καιρος *eſt opportunitas.*

Fe gymmerir amſer mewn dwy yſtyriaeth : y mae ysbaid amſer, ac y mae odfa amſer : *Tempus longum, & Tempus commodum*; amſer hîr, ac amſer cyfaddas : y mae gwahan rhwng amſer ac odfa; Amſer yw parhâd neu ganlyniad cynnifer o funudau, oriau, ddyddiau neu flynyddoedd, ôl yn-ôl, o ddechreu oes gŵr hŷd ei diwedd, *Job* 7. 1. *Onid oes amſer terfynedig i ddyn ar y ddaiar?* Odfa yw 'r amſer a gymmhwyſwyd ac a gyfaddaſwyd i wneuthur y gwaith neu 'r gorchwyl hwn neu 'r llall, *ſef*, cydgyfarfod amſer a moddion i beri 'r diben. Hwn a elwir pryd neu dymmhoreiddrwydd amſer, pan yw amſer, llanw, a gwynt yn cydgyfarfod ac yn rhedeg ynghyd, *Preg.* 3. 1. *Y mae amſer neu odfa i wneuthur pob peth:* Fe ddichon amſer fod yn parhau pan ddarfyddo amſer cyfaddas; fe all hwylau amſer fod yn uchel, pan fo awel amſer cyfaddas wedi myn'd ar goll. Nid yw pob amſer

yn

yn amſer gwanwyn, yn amſer hau, yn amſer ennill; nid oedd y Manna i'w gael ond y boreu. Tegwch amſer yw odfa amſer, *Preg.* 3. 11. *Efe a wnaeth bob pêth yn dêg yn ei amſer*, y rhan hon o amſer ſy' raid i ni ei phrynnu. Prynnu ſy'n dangos prîs godidog a gwerthfawrogrwydd amſer; cymmwynas i'w briſio yn fwy nag Aur *Ophir*. Y mae *Salomon* yn erchi i ni *brynnu'r gwîr*, Dihar. 23. 23. Ein Harglwydd cu a gynghorodd Eglwys reſynol i brynnu gantho ef *Aur a dillad gwynnion*, Datc. 3. 18. Ac y mae St. *Paul* yn ein cynghori ni i *brynnu'r amſer*, megis tlws o'r fath brîs ag ſy raid ei brynnu er drytted a fyddo. Nid ydys yn arfer prynnu pethau gwael a ſalw, ond pethau gwerthfawr, megis Rhyddid dynion, eu Meddiannau, eu Bywyd, *&c.* Felly y mae yn rhaid prynnu ein hamſer gwerthfawr. *Gan brynnu'r amſer, oblegid y dyddiau ſy' ddrwg.*

Y mae'r geiriau yn cynnwys ynddynt ddwy ran gyffredin.

1. *Cyngor i ddyledſwydd, Prynnwch yr amſer.*
2. *Y Rheſwm am hynny, oblegid y dyddiau ſy ddrwg.*

O'r geiriau y gallwn ni ddal ſylw ar yr Athrawiaeth hon, yr hon a fydd defnydd fy Nhraethawd a ganlyn.

Athrawiaeth. *Y mae ar y goreu o'r Sainct, neu y rhai a brynnodd Duw eiſiau prynnu'r amſer* : Yr Epiſtol hwn a ſgrifennwyd at Eglwys glodfawr iawn, oedd yn byw yn amſerau puraf yr Efengyl, ym myſg y rhai yr oedd Criſtianogion rhagorol a godidog, fe a'u galwyd hwy yn *Sainct a ffyddloniaid yng Hriſt Ieſu, Pen.* 1. 1. *ac yn rhai a etholodd Duw yng Hriſt, cyn ſeiliad y byd*,adn 4.ac yn rhai wedi gwîr ddychwelyd, a'u dŵyn i gyflwr o fywyd. Hefyd hwy a ddyſgaſant y ddyledíwydd o farwhad, un o'r gwerſi calettaf yng Hrêd, *Pen.* 4. 22. Ac hefyd *a ſeliwyd hyd ddydd prynnedigaeth*, Pen. 1. 13. 4. 30. Ac a gawſant ernes eu Hetiffeddiaeth nefol : Ac etto mae'n rhaid iddynt hwy, y rhai a gyrhaeddaſant cyn ucheled pethau, brynnu'r amſer, yr un pêth a gymmhellir tan wahanredawl enwau, *Preg.* 9. 10. Fe'i gelwir yn weithio tra ydyw hi yn ddŷdd, *Joan* 9. 4. Wrth drîn yr Athrawiaeth hon, mi ddangoſaf i chwi,

1. *Pa bryd y gellir dywedyd fôd amſer i'w brynnu.*
2. *Pa amſer ſy raid ei brynnu.*
3. *Pa fodd y mae'n rhaid prynnu'r amſer.*
4. *Pa ham y mae'n rhaid prynnu'r amſer.*
5. *Annogaethau a Hyfforddiadau i'ch cynnorthwyo.*

I. *Pa*

I. *Pa bryd y mae amſer i'w brynnu?*

Atteb. 1. Pan yw amſer a dyledſwydd fel y ddau efill hynny, *Jacob* ac *Eſau*, yn ymafiyd yn eu gilydd; neu mal dau gydwedd ſerchog yn myned law-law; Pan yw dyledſwydd yn dilyn amſer, fel y mae'r cyſgod yn dilyn y corph, neu'r Llaw-forwyn ei Meiſtres.

Hyn yw llenwi i fynu amſer â dyledſwydd, ac ymafiyd mewn amſer cyfaddas erbyn ei gudyn-blaen, neu yn iaith yr Yſgrythyr-lan, gweithio gwaith y dŷdd wrth liw dŷdd. Ac i'r diben hyn y mae'n rhaid chwennych amſerau cyfaddas neu odfeydd, fel y mae'nt yn cynnyg achlyſur o waſanaeth ac o wneud ein dyledſwydd. Hyn a allwn ni ganfod yn *Nafydd* dduwiol, Pſal. 122. 1. *Llawenychais pan ddywedent wrthyf, awn i dy'r Arglwydd.* Pan oedd ffordd yn agored i addoli Duw mewn prydferthwch ſancteiddrwydd, *Dafydd* a lawenychodd weled y gwîr Addolwyr yn gwneuthur y goreu o'u hamſer i fyned i'r Ddinas honno, enw'r hon oedd *Jehofah Shammah*, yr Arglwydd ſydd yno, *Ezec.* 48. 35. Ac y mae'r Prophwyd *Zechariah* yn dŵyn i mewn Sainct Duw yn llawenychu yn yr un pethau, *Zech.* 8. 20, 21, 22. *Awn gan fyned i weddio ger bron yr Arglwydd, ac i*

geiſio Arglwydd y lluoedd yn Jeruſalem; minneu a af befyd. Yr oedd y Sainct gynt yn arfer llawenychu pan ddelai'r Sabboth, o achos dyledſwyddau ſanctaidd a nefol y dŷdd hwnnw: amſerau cyfaddas a dyledſwyddau ydynt i'w cyſſulltu ynghŷd bob amſer, *Gal.* 6. 10. Hyn yw byw yn ol ewyllys Duw, 1 *Petr.* 4. 2. a rhodio yn ddieſceulus, gan brynnu'r amſer, *Eph.* 5. 15. 16.

2. Pan ydym yn wîr-ofalus i gyflawni i fynu eſgeuluſdod o'r blaen a dwbl diwydrwydd, gan brynnu'r amſer, yr ydym yn ynnill yn ôl ein colled. Amſer, yn ol yr ymodrodd hwn, a dybygid ei fod wedi ei ddal yn garcharor, ac mae'n rhaid i ni ei brynnu ef. Prynniadau a wneir trwy bwrcas; prynnu pêth, yw ei brynnu ef a phris; y prîs a'r hwn yr ydym yn ei brynnu ef, yw llafur, poen, diwydrwydd ffyddlon a difrifol, a mwy o fywiogrwydd a gwroldeb wrth ddilyn ein dyledſwyddau. Pan wneir i fynu ac y cyflawnir yn y neſaf, yr hyn o amſer neu ddifrifoldeb a fu yn eiſiau mewn un dŷdd neu ddyledſwydd; hon yw'r ffordd i wneuthur ymdal am driſtgolledion ein heneidiau. *Canys digon i ni yr amſer a aeth heibio o'r enioes i weithredu ewyllys y Cenhedloedd,* 1 *Petr.* 4. 3. Griſtianogion,

Quicquid ætatis retro eſt, mors tenet. Senecæ. Epiſt.

anogion, ein pechodau a fuant yn aml ac yn gryfion, eithr ein gwaſanaeth yn ychydig ac yn wael, am hynny goſodwch y fer oreu ymlaen, na fyddwch fel y dïog, yn gyffelyb i'r drŵs ar ei golyn, ond fel yr Haul yn y nefoedd, ſy'n ymlawenhau i redeg ei yrfa. *Llaw y diwyd a gyfoethoga, Dihar.* 10. 4. Mi glywais ſôn am un a fu'n garcharor mewn daiard ŷ tywyll, yr hwn pan ddygoleu atto tros ychydig amſer i fwytta ei fwyd, a dynnai ei Fibl allan ac a ddarllenai Bennod, gan ddywedyd y cai efe gyfwrdd a'i enau yn y tywyllwch, ond nid allai ddarllen yn y tywyllwch. Rheſwm oedd hyn e'i fôd e'n gwneud Cydwybod o brynnu ei amſer. Garedigion, bod yn wiliadwrus, yn ddïwyd, ac yn boenedig yn gwneuthur y goreu yn ffyddlon o'ch holl amſer, eich talentau, eich donniau a'ch graſuſau, yw'r pêth a amcenir yma. Y gorchymmyn ſy am ymdrech a diwydrwydd, *Luc.* 13. 24. 2 *Petr.* 1. 10. A chan y diwyd yn ei ddyledſwydd y mae 'r addewid o Ogoniant, *Heb.* 6. 11. *I'r rhai trwy barhau yn gwneuthur da, a geiſiant ogoniant, ac anrhydedd, ac anllygredigaeth, a bywyd tragywyddol,* Ruf. 2. 7.

11. *Pa amſer ſy raid ei brynnu?*

Atteb. Pob amſer.

Y mae Amſer mor werthfawr, na ddylid colli dim o honaw. Mae'n rhaid i ni dreulio

holl amſer ein bywyd naill ai ynghylch ein heneidiau yngwaſanaeth Duw, neu yng-waith ein galwedigaethau, neu ym mherthynas i hynny. Yn enwedig.

1. *Amſer Ieuenctid.*
2. *Amſer Iechyd a nerth.*
3. *Amſer Cyſtudd.*
4. *Amſer yr Efengyl.*
5. *Amſer y Sabbath, neu ddydd yr Arglwydd yn enwedig ſy raid ei brynnu.*

1. Mae'n rhaid prynnu *amſer Ieuenctid.* Y mae'r Duw mawr yn ſefyll yn fawr ar flaenoldeb, gael y cyntaf a'r goreu: Y ffrwyth addfed cyntaf, y cyntaf a agoro'r brû. O yna offrymmwch *Iſaac* eich ieuenctid, gwanwyn a blod au eich oedran i Dduw, ac nac arhoſwch hŷd y dŷdd drŵg. Dechreuwch yn gyntaf ag efo'r hwn y cawſoch eich bod, ewch ynghŷd a gorchwyl mawr a gwaith eich eneidiau anwyl na byddant fŷth feirw, cyn ymfaglu o honoch yngofalon y bŷd hwn. Bwriedwch gyflwyno'r blaen-ffrwyth i'r Duw graſuſol a daionus hwnnw, ſy'n chwennych cael y blaen-ffrwyth addfed. Ym moreu diſglair eich bywyd cymherwch eich hunain a Brenin y Gogoniant, a byddwch yn briodaf-ferch iddo ef, cyn torri eich morwyndod, a'ch halogi gan bechod a'r bŷd. Os heuir had nefol yn y boreu, y blodau hyfryd a pheraidd

yn

yn tarddu o'r had hynny, a wahoddant yr Arglwydd Ieſu i ddyfod i rodio i'w ardd, *Can.* 5. 1. Os mynnwch fod yn Demlau i'r yſpryd Glan, gadewch i'r hwn a wnaeth y tŷ, fod yn breſſwyliwr cyntaf a phennaf ynddo, ac na adewch i'ch calonnau fôd yn drigfannau i Ddreigiau a Chythreuliaid, y rhai a fyddant i'ch dinyſtrio byth ac yn dragywydd.

Chwychwi langciau, a gwyryfon, gwybyddwch, fod y Duw graſuſol anfeidrol yn eſtyn y Deyrn-wialen aur, ac yn eich gwahawdd i ddyfod atto ef. Y *Dafydd* gwridgoch, y bachgen *Samuel*, a'r *Timotheus* ieuangc y mae Duw yn alw, 1 *Sam.* 1. 11, 12. 1 *Sam.* 3. 10. 1 *Tim.* 4. 12. a pha gyntaf y deloch, goreu a ſydd hynny. Dywedwch yna, yr awr hon; wele, Arglwydd, nyni'n dyfod; eiddo ti ydym, ac eiddo ti a fyddwn ni; tyred yn awr a chymmer yr eiddot dy hun; Duw a fydd bodlon i chwi ac a'ch cymmer yn llawen, y mae ei freichiau ef a'i fonwes yn agored i'ch derbyn chwi, *Jer.* 2. 2. 3. *Coſiais di, caredigrwydd dy ieuengctid, a ſerch dy ddyweddi, pan oedd y blaen-ffrwyth yn ſancteiddrwydd i'r Arglwydd.* Os mynnwch i Dduw edrych arnoch a bod yn dirion wrthych, offrymmwch iddo o flaen-ffrwyth eich Defaid, *Gen.* 4. 4. ſef, dyddiau eich ieuengctid. Pe cynnygid cwmpeini o hên

ddynion gweinion, neu efryddion i fod yn wasanaeth-ddynion i'r Brenin, ni fynnai efe mo honynt, 1 *Sam.* 14. 52. *Mal.* 1. 8, 13, 14. *Dafydd* o'i ieuengctid, a *Josiah* pan ydoedd yn tachgen, a ddechreusant geisio'r Arglwydd, *Psal.* 71. 17. 2. *Chron.* 34. 3. Chwychwi rai ieuaingc, os derbyniwch had Gras ym moreu 'ch oes, fe wreiddia yn ddyfnach, ac a graffa'n wêll ar eich calonnau, ac a bair i chwi ddŵyn ffrwyth yn eich henaint. Y Brethyn a liwir yn wlan a geidw ei liw oreu, a'r lleitr a geidw arogl y gwlybwr hynny hwyaf a'r hwn y tymherir ef gyntaf. O gân hynny ŵr ieuangc, *Cofia yn awr dy Greawdr yn nyddiau dy ieuengctid*, Preg. 12. 1. Dihar. 22 6.

2. Y mae yn rhaid gwneuthur y goreu *o amser iechyd a nerth*: Nid oes i chwi y rhai ydych yn awr yn gryfion ac yn heini dybied y byddwch felly yn oestad: Fe fydd yn rhaid i chwi cyn gystled ag eraill, feddwl am glefydion, afiechyd a gwendid, y rhai a barant i chwi gadw eich tai, eich 'Stafell-oedd a'ch gwlau: yn awr am hynny, tra yw eich nerth, iechyd eich Cyrph a bywiogrwydd naturiol yn parhau, cofiwch am eich gwaith a'ch amser. Y dyledswyddau a'r anhawsdra mwyaf yn ffordd y Nefoedd a osodir allan wrth ymdrechu (*Luc.* 13. 24. *Ephes.* 6. 12. 1 *Cor.* 9. 24, 25. 1 *Tim.* 6. 12.) ymaflyd,

ymafiyd, ymladd, a rhedeg, y rhai a ofynnant y goreu o'n hamſer ni, a'r mwyaf o'n nerth. A all gŵr claf a gwan redeg cyn gynted ag y bo iddo ynnill, neu ymdrech ac ymladd fel y bo iddo orchfygu, bernwch chwi: y Brenin *Saul* a ddewiſodd y glew a'r nerthol i'w wafanaeth. Y Cawr neu'r cryf ſy i redeg gyrfa, *Pſalm* 19. 5. a'r ieuainge ſy raid iddynt orchfygu yr un drŵg, 1 *Joan* 2. 14. Pe bai gan wr orchwyl o bŵys mawr, neu fatter bywyd ac angau a fai yn gofyn amſer, nerth a diwydrwydd i'w wneuthur ef, ac a'i gadawai'n ol nes bai mewn gŵth o oedran, neu nes gorfyddai afiechyd neu wendid ef, fe fyddai pawb yn barod i ddywedyd ei fod efe wedi gwallgofi.

Pe byddai gan Gludwr ym myſg llawer o feirch cryfion nerthol, un march truan, cloff afiachus, a goſod o honaw y baich mwyaf ei bŵys a'i werth ar y ſiad truan gwan hwnnw, ni a farnem naill ai ei fod e'n greulon, neu fod arno eiſiau ſynwyr gŵr. Dyma'r modd y mae ein cyflwr ninnau, y mae gorchwyl mawr ein heneidiau anfarwol yn gofyn amſer, nerth a diwydrwydd, ac y mae'r cwbl yn ddigon bychan. Ac a oſodwn ni holl bŵys ein cyflwr tragywyddol ar afiechyd a gwendid ychydig o ddyddiau cyn ein marwolaeth, na atto Duw, *Preg.* 12. 3, 4.

3. Y

3. Y mae'n rhaid prynnu *amſer cyſtudd.* Griſtianogion, *yn amſer adfyd y mae'n rhaid ini yſtyried,* Preg. 7. 14. Amſer blinder *Jacob* oedd hi, pan ddarfu i'r Apoſtol gynghori 'r ffyddloniaid i brynnu'r amſer: Y mae Duw yn llefaru trwy ei wialen, cyn gyſtled a thrwy ei air, i bob un o'r ddau, y mae'n rhaid i ni roi cluſt. Y mae Duw weithiau yn dyſgu ei bobl, fel y dyſgodd *Gedeon* wŷr *Succoth, Barn.* 8. 16. A drain yr anialwch ac a mieri. Bydded y cyſtudd o ba fath neu radd bynnag y fo, naill a'i ar ein perſonau, ein henwau, ein meddiannau, ein teuluoedd, ein Heglwys neu 'n Teyrnas, ïe, ac o hir bara, mae'n rhaid i ni edrych arno megis oddïwrth Dduw, ac er daioni i ni. Canys y mae pob cyſtudd yn llefaru wrthym yn iaith *Ehwd* wrth *Eglon, gair oddiwrth Dduw ſydd gennyf attat ti*; A Duw a wna gyfrif a ni am y gwiail a oſodo efe arnom ni. Mi lefaraf fwy am hyn mewn lle arall. p. 39. 40.

Schola crucis, eſt Schola lucis. Luth. Pſal. 94. 12.

4. Mae'n rhaid prynnu *amſer yr Efengyl.* Amſer yr Efengyl yw ein cynhauaf yſpryd-ol ni, ac y mae yn ynfydrwydd anferth gyſgu neu ddiogi y cynhauaf. Amſer cyfaddas yn wîr yw amſer yr Efengyl, hynny yw, amſer goleuni, amſer ſerchawgrwydd, amſer

amſer bywyd, amſer rhydd-did. Yn awr y mae Udcorn y *Jubili* yn canu, ac fe ellir cymmeryd i fynu a rhyddau pob dyledion a gwyſtlon. Yma y *mae rhydd-did i'r Carcharorion truein, ac agoryd y carchar i'r ſawl ydynt yn rhwym. Amſer cymmeradwy yw 'e yn awr, a dydd iechydwriaeth*, 2 *Cor.* 6. 2. Amſer i gymmeradwyo, neu amſer i gael ein cymmeradwyo, amſer euraid a gogoneddus yn wîr. Wele, yn awr y mae ffordd lydan ac amlwg i'w Drugareddfa ef, y Cleddyf tanllyd a aeth ymaith, mur y gwahaniaeth a aeth i lawr, pob barrau a phyrth a dynwyd ymaith, Act o ryddhad a gyhoeddwyd, ac y mae cennad a ffordd rŷdd i bawb ddyfod a bod yn gadwedig; y mae pardynau yn barod, *Eſa.* 55. 6, 7.

Tempus acceptum, neu *tempus acceptabile.* Beza in loc.

Bechaduriaid, y mae'r Arglwydd Ieſu eich anwylyd hygar, y Tangneddyfwr mawr, yn awr yn taer-erfynarnoch am gadw eich eneidiau truein, trwy wahawdd, curo, diſgwyl ac addaw nawdd i chwi, *Dihar.* 1. 23. 9. 4, 5. *Eſa.* 65. 2. *Matth.* 11. 28. *Datc.* 3. 20. *Can.* 5. 2. *Joan* 6. 35. Y mae tryſorau gras wedi eu hagoryd, a'u cynnyg ar werth er brîs bychan, *heb*

Quod offertur gratia ex gratia Dei eſt, qui ſua conſtituit rebus omnibus momenta ut oblatam occaſionem arripiamus.

arian

arian ac heb werth, Eſa. 55. 1. *Datc.* 3. 18. O bryſiwch a dewch, pwrceſwch, prynnwch y perl mawr-brîs ſy wêll na Gemmau, a chwi a gewch dryſor yn y Nefoedd. Ffafor Duw, gwaed gwerthfawr, dillad gwynnion, Aur coeth, a bywyd tragywyddol eich eneidiau na byddant bŷth feirw a dal ei gael: Yſtyriwch hefyd, fod yr yſpryd glan yn awr yn galw, ac yn cynnyg ei ygmmorth i gau'r fargen, ac i glymmu'r clwm prîodas rhwng Criſt a'ch Eneidiau chwi, *Heb.* 3. Os collwch chwi'r cyfamſer yma, chwi ellwch fod bŷth hêb gael y cyffelyb. *Y mae yr Yſpryd a'r briodaſ-ferch yn dywedyd, Tyred,* Datc. 22. 17.

5. *Amſer y Sabbath neu ddydd yr Arglwydd, ſydd raid ei brynnu:* Mae yn rhaid ini gymmeryd gofal yn enwedig am ſanc. teiddio 'r dŷdd hwnnw, gan mai Sabbath yr Arglwydd ein Duw ydyw. Y mae'n rhaid treulio'r Dŷdd euraid hwn o'r boreu hŷd yr hŵyr yngwaſanaeth ac addoliad ein Harglwydd, naill ai mewn dyledſwyddau cyhoedd, neilltuol neu ddirgel, ac nid oes colli un rhan o honaw. Na chymmerwch ddim rhydd-did ar y Dydd hwnnw i ſiarad ymadroddion ofer, coegion ac anfuddiol, neu i chwarae neu farchogaeth, prynnu, gwerthu, neu weithio. Y mae'r pechod ofnadwy hwn (ſy'n annog Duw i ddigofaint

ddigofaint) o dorri 'r Sabbath, yn bechod cyffredin; y mae cantoedd yn y wlad hon yn gwaſanaethu'r Cythraul ar ddŷdd yr Arglwydd yn fwy nag ar un diwrnod arall. Y prŷd hynny y mae dynion yn cael amſer i waſanaethu 'r Diafol, ac i fodloni eu trachwantau, ac i fyned i'r Dafarn, neu i gymmeryd difyrrwch mewn chwaryddiaeth a bibïaeth. O na byddai i Swyddogion, Gweinidogion, Pennau-teuluoedd a Rhieni, edrych at hynny, *Neh.* 13. 17. Arglwydd y Sabbath a orchymynnodd i ti, *a'th fâb a'th ferch, a'th waſanaeth-ddynion a phawb o fewn dy byrth ſanctteiddio'r dydd hwnnw.*

Fe elwir y Sabbath yn gymmanfa ſanctaidd, *Levit.* 23. 2. ac y mae Arglwydd y dŷdd hwnnw yn Dduw ſanctaidd, cyfiawn, ac eiddigus anfeidrol. Galwyd y Sabbath gynt yn *Regina dierum*, Frenhines y dyddiau, yn y Teſtament newydd fe'i gelwir yn *ddydd yr Arglwydd*, Datc, 1. 10. yn ddŷdd ar yr hwn yr ydym yn cadw coffadwriaeth am y drugaredd fwyaf, ſef, am ogoneddus adgyfodiad ein Harglwydd a groeſhoeliwyd 'r hwn y darfu i'r Criſtianogion puraf yn yr amſerau puraf ei gadw yn ofalus.

Yn y prif amſerau yr oedd cadw dŷdd yr Arglwydd yn ddiſrifol ac yn gaeth yn brawf neu nôd o Griſtianogrwydd. Pan fynnwyd y Cweſtiwn, *Servâſti Dominicum?*

cum? a gedwaiſt ti ddŷdd yr Arglwydd? Yr atteb a roddwyd, *Chriſtianus ſum, intermittere non poſſum.* Criſtion ŵyf nid allaf beidio. Ymadrodd Difinydd enwog oedd, dywedyd, y barnai efe am grefydd gwr yn ol y parch a'r gofal a fai ganddo i gadw dŷdd yr Arglwydd. Griſtianogion, y mae'n rhaid i chwi gadw Gorphywyſfa eich Arglwydd, a chyflawni dyledſwyddau ſanctaidd ei addoliad ef yn ofalus, yn barchedig ac yn yſprydol, *Joan* 4. 24. Os meddyliwch bŷth gael cadw Sabbath tragywyddol gyd-a Duw mewn gogoniant, byddwch ofalus am y ddyledſwydd hon. I'w chadarnhau hi yſtyriwch.

1. Mor gaerh y mae'r Yſpryd glan yn ei goſod hi arnom ni, ac i ba ddiben y mae hi: *Coſia y dydd Sabbath i'w ſanctteiddio ef,* Exod. 20. 8. Y dŷdd bendigedig hwn am Gymmundeb a Duw, ſydd i'r agfyfyrio arno cyn y delo ef; am hynny y prydnawn oflaen y Sabbath, gorphennwch eich holl orchwylion angenrheidiol, fel na bo gennych ddim i'w wneuthur ond y gwaith a berthyno i'r dŷdd hwnnw. Byddwch fel gŵr da'r prophwyd *Dafydd,* Pſalm 112. 5. *Yn llywodraethu eich achoſion wrth farn,* yn enwedig eich achoſion yſprydol. Pe diſgwiliech gael cymdeithas rhyw gyfaill anrhydeddus, a fynnech chwi eich cael mewn gwedd

gwedd anrhefnus; neu yn yſgubo ac yn glanhau eich tai ar y dŷdd hwnnw, a'ra cwbl yn annoſparthus? Ar ddŷdd yr Arglwydd chwi a ddylech ddiſgwyl o ddifri' am ddyneſſiad a phreſennoldeb Brenin y Gogoniant, am hynny gwnewch bob pêth yn barod i'w groeſawu ef.

2. Cofiwch Addaſ-eiriau godidog, ac Enwau 'r dŷdd bendiged hwn, fe a'i gelwir yn *ddydd vchel, yn ddydd ſanctaidd, yn ſanct yr Arglwydd, yn ogoneddus*, Eſay. 58. 13. Am hynny prynnwch ef, na chollwch ddim Sabbathau ond hynny.

3. Yſtyriwch fendithion ac Enaid-fuddiant y dŷdd hwnnw, os cedwir ef yn iawn. Diwrnod Marchnad eich Arglwydd ydyw, ar yr hwn y cewch chwi'r Olew gwerthfawr, y mae mŵn-gloddiau Aur, a thryſorau Gras wedi eu hagoryd ar y dŷdd hwnnw. Y mae ammheuthun-fwyd yſprydol i'ch eneidiau newynog, at y rhai y'ch gwahoddir gan Griſt ar y dŷdd hwnnw *Eſa.* 55. 1. Y mae'r Yſpryd glan yn anadlu ac yn chwythu y dŷdd hwnnw, trwy ddirgel a hyfryd awelau'r hwn y mae'r Sainct yn eſgyn tu-a'r nêf. Y mae'r Duw mawr yn dyfod i wared, ac eneidiau graſol yn mynd i fynu 'r dŷdd hwnnw, *Datc.* 1. 10. Ac y mae gan y rhai diſpaddedig a gadwant Sabbothau Duw addewid am enw yn

ei dŷ ef yn dragywydd, *Eſa.* 56. 4, 5. Mal hwn, chwennegu 'r bygythion roſt, a barnedigaethau bynodol Duw ar halogwŷr y Sabboth, neu ddŷdd yr Arglwydd. Y gwr a gafwyd yn cynnyuta ar y dŷdd Sabbath trwy orchymmyn digyfrwng oddiwrth Dduw a labyddiwyd fel y bu efe farw, *Num.* 15. 32, 34, 35, 36.

III. Pa fodd y mae'n rhaid prynnu'r Amſer?

Atteb. 1. *Trwy gymmeryd a gwneuthur y gореu o bob amſer cyfaddas tu-agat ogoneddu Duw.*

2. *Trwy ddal gafel ar yr amſer preſennol, a'r dydd gras yn awr er mwyn ſefydlu a ſicrhau eich cyſtwr tragywyddol.*

3. *Trwy wneuthur y goreu o breſennol foddion gras, er mwyn cynnyddu o honoch yn fuan mewn gras.*

4. *Trwy wneuthur pob daioni ag alloch i eraill tra y galloch.*

5. *Trwy ymdrechu am gadw i fyny gwmundeb diannwadal a Duw mewn dyledſwyddau ſanctaidd.*

6. *Trwy wneuthur y goreu o bob rhaglunieth a chroes oddiallan tuag at fuddiant yſprydol oddifewn.*

7. *Trwy ſwrw i fynu eich cyfrifon beunydd, fel y gwneloch union gyfrif a Duw.*

8. *Trwy*

8. *Trwy ymdrechu am drefnu gwaith pob diwrnod fel y perthynai i'ch dydd di-weddaf; fel y gallech fod, wedi gorphen eich gwaith, yn gymmwys i adel y byd hwn.*

1. *Trwy gymmeryd a gwneuthur y goreu a bob odfa tu-ag at ogoneddu Duw*: Griſtianogion anwyl, hwn yw gorchwyl eich Tad, a'r neges mawr er mwyn yr hwn y'ch ganwyd i'r bŷd.

Fe'ch ganwyd, ac a'ch ganwyd o newydd, i waſanaethu er mwŷn budd i'r Duw ſanctaidd a bendigedig yn y bŷd; hwn yw'r diben gogoneddus er mwyn yr hwn y dylech dreulio eich nerth a'ch amſer, a'ch goſod eich hunain allan hŷd yr eithaf. Nid oes i chwi eſgeuluſo 'r hyn yw prif ddiben eich bywyd, ſef, tanu a goſod allan Ogoniant Duw yn y byd; pethau eraill ydynt yn is o lawer, ac yn rhaid iddynt fod yn waſanaethgar i hwn. Canys meddwl ac amcan gwaſanaethu er elw i'ch Arglwydd, yw'r hwn ſy raid i chwi fod bob amſer yn ei yrru ym mlaen yn y byd drygionus hwn. Y mae Duw yn diſgwyl hynny. *Na fydded it' ddduwiau eraill ger fy mron i*, Exod. 20. 3. Fe fyn Duw ei ddercha-

Tempus non poteſt Deo conſecrari, niſi redemptum. Calv. in loc.

chafu yn y galon ac yn ein buchedd hefyd. Ger bron yr holl bobl i'm gogoneddir medd yr Arglwydd, *Levit.* 10. 3. Fe fyn y Creawdr mawr mewn rhyw ffordd neu gilydd ogoniant oddïwrth ei holl greaduriaid. *Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun*, Dihar. 16. 4. Y Bŷd i fod yn ddanghoſiad gweledig a rhyfeddol o'i ogoniant godidog ef, felly fel mai'r pêth ſy ddyledus iddo ydyw, *Pſal.* 29, 1, 2. & 96. 8. *Rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant ei enw*, Rhodio gŷd-a Duw yn ein holl yrfa, ac amcanu ei ogoniant ef yw'r prîf nod o'n bod ni'n Sainct diragrith. Hwn yw'r man gwyn yn y nod a ddylem ni annelu atto, y pêth a ddylem ei ymlid yn lew, yn galonnog, ac a'n holl egni. Pa un bynnag awnelom ai gweddïo, neu bregethu, neu ddarllain, neu wrando, neu gadw Sabbothau, neu ymddiddan, cynghori neu argyhoeddi, neu brynnu, gwerthu, aredig, hau, bwytta, yfed, na wneler hynny er mwyn y Bŷd, neu foddhau'r cnawd: fe ddylai fod gennym y cyfryw barch mawr i Dduw, a'r cyfryw ddymuniadau nerthol, a ſerch gwreſog tu-ag atto ef, fel mai boddhau, moli a mawrygu Duw, a fyddai ein hamcan pennaf yn ein holl ffyrdd.

Griſtianogion, fe'ch dewiſwyd allan o'r bŷd i fod yn dyſtion i Dduw, Os nid ym-

ddangoſwch

ddangoſwch chwi tros Dduw, ei anrhydedd ef a'i elw, ni ymddengys nêb: *Pawb* (medd yr Apoſtol ſanctaidd) *ſy yn ceiſio yr eiddynt eu hunain*, Phil 2. 21. eithr y mae yn rhaid i chwi ymwadu, a'ch cadw'ch hunain yn iſel, oblegid bod hunan-gariad yn llŵyr wrthwyneb i anrhydedd eich Duw gogoneddus. Y mae'r annuwolion yn hŷf ac yn lew mewn ffordd pechod, i gynnal i ſynu hawl Tywyſog y tywyllwch, ac oni fyddwch chwi mor fywiog ac mor bryſur ar ran eich Arglwydd? Y Merthyron a fyddent feirw yn hytrach na dïanrhydeddu Duw, y rhai yn lloſgi gan Zêl i ogoniant Duw, a'i gogoneddent ef hŷd yn oed yn y tan. Duw a'ch gogoneddodd chwi, *Eſay.* 43. 4. Trwy eich gwneuthur yn Frenhinoedd ac yn Offeiriaid, ac 'ſgrifennu eich henwau ym myſg y rhai cyntaf-anedig a'r y ſy'n 'ſgrifennedig yn y Nefoedd. Y mae gennych chwi le yn ei galon ef, ac enw yn ei dŷ ef, yr ydych chwi yn lleſtri o barch, ac a gewch eich perchi, *fel y byddech yn ogoniant ei ras ef*; Eich tad tragywyddol a'ch nododd chwi, ac a oſododd ei argraff a'i ſêl arnoch, ac a oſododd wyddor o fywyd ynoch, fel y carech ef, a byw iddo ef. Y gwr a wrthododd gynnal i fynu enw ei frawd a fu farw, *Deut.* 25. 9. a boerwyd yn ei wyneb yngwydd y Gynnulleidfa.

Eithr gwarth a dirmyg tragywyddol a fydd ar wynebau y rhai hynny a'r ni safant i fynu er mwyn anrhydedd y Duw sanctaidd, *Dan.* 12. 2. Gristianogion, y pechod sy'n dodi 'r dianrhydedd ar Enw Duw, o herwydd pa achos na oddefwch iddo fod ynoch eich hunain, a rhagflaenwch ef hŷd ag alloch yn eraill. Prynnwch eich amser, a phrynnwch ogoniant Duw, y mae eich dyddiau yn ddrwg, ac nid oes gennych ond ychydig ddyddiau i'r gwaith hwn, gwnewch ef, ac fe ymarddel Duw a chwi, ac a'ch derchafa i Deyrnas.

Garedigion yn yr Arglwydd, er eich bod yn anghyttuno mewn pethau eraill, cyttunwch yn hyn i ogoneddu Duw ar y ddaiar, *fel y galloch yn un-fryd, ac o un genau ogoneddu Duw*, Rhuf. 15. 6 Gan waeddi bob un a'r y sy'n dduwiol gŷd-a *Dafydd* sanctaidd, Psalm 34. 3. *Mawrygwch yr Arglwydd gyd-a mi; a chyd-dderchafwn ei enw ef*, 1 Cor. 10. 32. Joan 14. Ephes. 1. 6. *Cynnifer ag ydynt berffaith a fyniant hyn*, Phil. 3. 15.

2. *Trwy ddal gafael ar yr amser presennol, neu'r dydd gras sy'n awr, er mwyn sefydlu o siccrhau ein cyflwr tragywyddol, neu dragywyddoldeb gwynfydedig.* Y pethau a berthynant i'ch Eneidiau yw'r rhai mwyaf; ie, o bwys anfeidrol, a phethau tragywyddoldeb

a

a ddylid edrych attynt oſgen dim arbed. Od ŷch yn bwriadu gwneud daioni i'ch Eneidiau, mae'n rhaid i chwi yn gyntaf geiſio Teyrnas Dduw, *Matth.* 6. 33. chippio Teyrnas Neſoedd trwy drais, *Matt.* 11. 12. Ni thal dim i chwi pan fyddoch yn mron meirw ddywedyd, *Mae'n wnelwyf o farwoleth yr union*, neu *dryſwydd trugarha wrthyf*, Numb. 23. 10. Matth. 25. 11. A gwybydd Bechadur, fod yn rhaid gwneuthur y pêth yn dy ddydd hwn, beth ach neu beidiaw, *Luc.* 19. 42. Tra fo drws Gras yn agored, cyn tynnu'r Bont, a myned ymaith o drugared, *Eſa.* 55. 6. mae'n rhaid gwneuthur hyn.

1. Trwy gyttuno a phreſennol alwedigaeth yr Efengyl, trwy ymgyſſylltu yn ddïoed ag Ieſu Griſt, a thrwy eich rhoddi eich hunain i fynu yn hwyr ac yn gwbl iddo ef. Hwn yw'r un pêth angenrheidiol hwnnw ſy raid ei wneuthur ar frŷs, dodi eich Eneidiau yn ddïogel a pharottoi iddynt ddedwyddyd tragywyddol. Ac am hynny na oedwch neu ohirio mo honaw er mwyn y Bŷd, eich gorchwyl mawr chwi ydyw, a'ch cynnorthwya neu a'ch llygra yn dragywydd. *Yr hwn ſydd yn credu a fydd cadwedig, eithr yr hwn nid yw yn creda a ddamnwyd euſys*, Joan 3. 18. Joan 8. 24. Joan 1. 12. Oni chroeſawch chwi yn awr yr Arglwydd

wydd Iesu ar ammodau mawrion a gogoneddus yr Efengyl, fe'ch demnir cyn ſiccred a phe baech eusys yn Uffern ym myſg y Cythreuliaid, 2 *Theſ.* 1. 8, 9. *Heb.* 2. 3, 18. Chwychwi y ſawl ſy ag eiſiau Criſt arnoch, a dderbyniwch chwi ef? gàn ddywedyd a'ch Eneidiau, Tyred i mewn ti fendigedig yr Arglwydd, dyre Frenin y gogoniant, *Pſal.* 24. 7. Eiddot ti yw'r deyrnas, cymmer yr Orſeddfaingc, eiſtedd yn y Cerbyd pennaf, cymmer i fynu dy letty yn ein calonnau ni yn dragywydd, ac na adewch i'r Plentyn marw orwedd yn lle'r Plentyn byw; a bŷd marw, a thrachwantau damnedig, lle y dylai eich Arglwydd letteua: Oddŷdd bendigedig ac awr ddedwydd, yn yr hon y cyferfydd Etifedd y Nêf, a Phechaduriaid truein, ac a brïodant! Dyma gymmar i chwi! a ymwrthodwch chwi a phawb eraill, Pechod, y Diafol, a Chymdeithion cnawdol, ac ymgyſſylltu a Thywyſog y bywyd? lleferwch y gair, a thyna ddiwedd o'r gwaith, agorwch y ddor, ac efe a ddaw i mewn yn ddiai, ac a drigyd-a chwi yn dragywydd. Yr hyn oll a roddes y Tad iddo ef, a ddaw atto ef, a'r hwn a ddél ni's bwr' efe allan ddim, *Joan* 6. 37. *Datc.* 3. 20. *Eſay.* 26. 13. & 44. 5. 2 *Cor.* 8. 5. *Actis* 16. 30.

2. Trwy

2. Trwy edifarhau yn ddïoed. Hwn yw'r ail waith mawr yn yr hwn y mae 'n rhaid i chwi fryſio; Canys hŷd om wneler hyn, yr ydych mewn perygl bob awr o ſyrthio i Uffern. Cofiwch yr 'Stori doſt am y wraig, yr hon, pan oedd ei thŷ yn lloſgi, y lloſgwyd ei phlentyn, tra fu hi yn achub peth o'i dodrefn. Bechaduriaid, y mae eich perygl yn fawr, y mae eich amſerau cyfaddas yn ehedeg, ehedwch chwithau cyn gynted. Gadewch i mi lefaru wrthych fel y llefarodd yr Angel wrth *Lot*, *Gen.* 19. 16, 17. Pan oedd efe mewn perygl o gael ei loſgi, *diangc am dy enioes, na ſaf rhag dy ddifetha.* Ni ellir ſiccrhau bywyd ac iechydwriaeth eich Eneidiau hêb hyn, *Actſ* 11. 18. 2. *Cor.* 7. 10. *Luc.* 13. 3. Am hynny ymdrechwch am adnabod Plâ eich calonnau, 1 *Bren.* 8. 28. a *branerwch i chwi franar*, Jer. 4. 3, Hauwch mewn dagrau, ac ewch ynghŷd ar gwaith yr awr hon, cyn darfod y dydd heddyw, cyn diweddu'r bregeth hon; rhag y dywedir am danoch chwi, fel y dywedwyd am y wraig honno *Jezabel*, Datc. 2. 21. *Mi a roddais iddi amſer i edifarhau am ei godineb, ac nid edifarhaodd hi; ac felly i ddigofaint yr Arglwydd ddyfod allan fél tán, a lloſgi fél na byddo diffoddydd*, Jer. 4. 4.

3. Trwy wneuthur yn orchwyl mawr i chwi

chwi ficcrhau hawl yng Hrift, ynnill eich eglurder am y Nefoedd yn loyw ac yn eglur. Griftianogion, hŷd oni ynnilloch wyftlon ac arwyddion cariad Duw i'ch eneidiau, hŷd oni byddoch yn ficcr am wirionedd eich ffŷdd, a phurdeb eich edifeirwch, a thrwy hyn o faddeuant pechod, ac o'ch gafael yn yr Arglwydd Iefu, ni ellwch chwi gael ond ychydig ddiddanwch yn eich Eneidiau, neu hyfder tu-ag at Dduw. Am hynny gweithiwch allan eich Iechydwriaeth a'ch hôll egni, *Phil.* 2. 12. *Gwnewch eich Galwedigaeth a'ch Etholedigaeth yn ficcr*, 2 Petr. 1. 10. Fel y galloch ar fail ddïogel ddywedyd mal y dywedodd yr Eglwys, Galar. 3. 24. *Yr Arglwydd yw fy rhan i, medd fy enaid, am hynny y gobeithiaf yndde, ti yw ein Tad ni*, Eſay. 63. 16. Neu fel y dywedodd *Job* ſanctaidd yn ei ddygn gyftudd, *Job* 19. 25. *Myfi a wn fod fy mhryn-wr yn fyw; eiddo ti ydwyf, caadw fi*, Pſal. 119. 94. *Yn ddiai dy was di ydwyf fi*, Pſal. 116. 16. *Fy anwylyd ſydd eiddo fi, a minneu yn eiddo fy anwylyd*, Cant. 2. 16. Griftianogion, fe ellir cyrrhaeddyd y Ffydd ddïogel hon gweddïwch am dani, a chanlynwch yn lew ar ei hôl hi, fel i'ch ſelier i fynu hŷd ddŷdd prynnedigaeth, fel y trefnir i chwi felly fynediad i mewn i dragywyddol Deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Ieſu

ſu Ghriſt, 2. *Petr.* 1. 10, 11. Ac O mor dda y darfu iddynt hwy byrnnu eu hamſer gwerthfawr, y rhai a ſiccrhaeſant eu Heneidiau na byddant feirw yn dragywydd. Gwybyddwch hyn, fod ſiccrwydd yn gofyn diwydrwydd a dyfal-bara; am hynny mae'n rhaid i chwi fod yn ddianwadal yn arfer y moddion, a dal gafael ar bob amſer cyfaddas ac odfa i fwynhau 'r Efengyl. Hyn y mae ein Harglwydd yn ei ganmol ym *Mair*, gan alw ei gwaith hi yn gwrando'n ddyfal ar bregethiad y gair, yn ddewis y rhan dda, *Luc.* 10. 42. Yno y cewch chwi brofi afonydd Grifial, a gweled mwn-gladd aur Athrawiaeth iachus, a Ffynonnau Iechydwriaeth. Dyma le rhyfeddodau Yſprydol, lle y mae'r meirw wedi eu cyfodi, y Gwahangleifion wedi eu glanhau, llygaid y Deillion wedi eu hagoryd, a'r Cythreuliaid wedi eu bwrw allan; Ordinhadau'r Efengyl ydyw'r Rhodfeydd euraid lle mae Brenin y Gogoniant yn rhodio: Y Gwlau yn y rhai yr ennillir eneidiau anfarwol i Dduw, ac yn y rhai y mae'r calonnau dryllio yn eſgor hŷd oni Ffurfier Criſt ynddynt. Trwy'r Pibellau euraid hyn y tywelltir Dwfr y bywyd ar eneidiau ſychedig hiraethlon, er mŵyn llonni eu hyſprydion. Yma y mae'r Athrawiaeth wedi ei phregethu, a geiriau trwy ba rai y byddwch gadwedig,

gadwedig, *Acts* 10. Yma y cafas Mam Crift ef gan mai 'r lle ydyw, yn yr hwn y mae'r Prïod-fab a'r Brïodas-ferch yn ymgyfarfod ac yn ymhyfrydu ynghŷd. Na ymwrthodwch a 'r Cynnulleidfaoedd arbennig, cofiwch bêth a gollodd *Thomas* trwy fod yn abfennol pan ddaeth Crift. O deuwch at bŷft Pyrth Doethineb, ac a Phiferau gweigion gofodwch eich hunain tan Biftyllau'r Gyffegr. Ar y Dyfroedd hyn y mae 'r Angel yn ymfymmud, ac Eneidiau a iacheïr. Hon yw'r yfgol lle y dyfgir hôll blant Duw gan Dduw, ac a'i hathrawiaethir i Deyrnas Nefoedd.

3. *Trwy wneuthur y goreu o bresennol foddion Grâs, er mwyn cynyddu o honoch yn fuan mewn Grâs.* Fel y bo i'r had Mwftard felly fyned yn bren mawr, *Matth.* 13. 32. Fe gyffelybir trefn Criftion i yrfa, Rhodfa, a goleuni 'r boreu. 1 *Cor.* 9. 24. *Ruf.* 8. 1. ac am hynny mae yn rhaid i chwi fyned rhagoch, a bod yn teithio ym mlaen tra foch byw. Fe ddylai'r rhai fy'n credu fod mor chwannog i ras, ag y mae dynion y bŷd i elw; o waith y tal un gronyn o ras fwy na thŷ yn llawn o Aur, ïe, y mae'n well na Gemmau. Fe 'ch cyffelybir chwi i fêr, a phrennau Frwythlawn, a blannwyd ar lan afonydd dyfroedd, ac chwi a ddylech ddifgleirio a llewyrchu yn y nos dywyll hon o halogrw-

halogrwydd Uffernol, hyw yn ddifrycheulyd, ac argyhoeddi'r Genhedlaeth wyrog drofaus hon Prennau'r Arglwydd a ddylent fod yn llawn ſugn, *Pſ.* 104. 16. Wedi eu himpio yn y wîr Olew-wydden, a than beraidd wlith y Nefoedd, chwi a ddylech flodeuo ynghynteddoedd yr Arglwydd, a Ffrwytho etto yn eich henaint, *Pſal.* 92. 12, 13, 14. Griſtnogion, cedwch eich Lampau 'n lloſgi, ac ewch rhagoch yn eich Fordd, fel yr elo *Dafydd* Gras gryfach gryfach. Na wnewch ddim aros, eithr ymdrechwch am gael a chadw'r blaen, fel yr ennilloch y Gamp. Fe ofynnir i'r Cawr hwyaf dyfu mewn Gras, cyn gyſtled a'r Cor byrraf mewn Gras. Fe ddywed rhai am y Crocodil, ei fod ein tyfu tra fo byw; a phan beidio a thyfu, fe baid a byw. Pa nifer ſydd o Griſtianogion truein yn ymluſgo, y rhai braidd y Cadwant Enaid a bywyd ynghŷd, gan fod yn debyg i'r Drws ar ei golyn, *Dihar.* 26. 14. a pha ham, ond o waith eu bôd wedi dyfod i'w heithaf, a thros ben tyfu, cyn gynted ag y tarddont uwch-law'r Ddaiar. Lle y bo gwirionedd Gras, yno y bŷdd cynnyg am nerth Gras; a lle y mae bywyd, yno y mae tyfiad, 1 *Petr.* 2. 2. *Llwybr y cyfiawn ſydd fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwy-fwy hyd ganol-dydd.* Dihar. 4. 18. Garedigion, codwch a byddwch, ar

waith,

waith, cyrchwch at y nôd, *Chwanegwch at eich Ffydd rinwedd, ac at rinwedd wybodaeth, ac at wybodaeth gymmedrolder, ac at gymmedrolder ammynedd, ac at ammynedd ddwyioldeb; fel na b'ach na ſegur na diffrwyth yngwybodaeth ein Harglwydd Ieſu Chriſt*, 2 Pet. 1. 5, 6, 7, 8. *Am hynny, byddwch ſiecr, a dymmwod, a helaethion yngwaith yr Arglwydd yn aeſtedol*, 1 Cor. 15. 58. *Ac os gwnewch hyn, nid yſgogir chwi yn dragywydd*, Pſal. 15. 5.

4. *Trwy wneuthur pob daioni ag allom i eraill, tra ſo gennym amſer cyfaddas. Am hynny tra 'r ydym yn cael amſer cyfaddas, gwnawn dda i bawb*, Gal. 6. 10. Wrth hyn yr ydym yn canlyn y nod hwnnw o ddaioni Duw, *Pſal.* 119. 68. *Da ydwyt, a daionus. Boddhaed pob un o honom ei gymmydog, yn yr hyn ſy dda iddo er adeiladaeth*, Rh. 15. 2. Y pedair ffordd hon y mae'n rhaid ini wneuthur daioni i eraill.

Yn gyntaf, Mae'n rhaid i chwi wneuthur hyn yn enwedig yn eich Teuluoedd, i'r ſawl ydynt yn fwy digyfrwng tan eich gofal, ac am y rhai y bydd yn rhaid i chwi roi cyfrif ar fyrder i Farnwr ofnadwy y byw a'r meirw. Os daeth Criſt i'ch calonnau, gofodwch grefydd i fynu yn eich tai yn ddioed. Os ydych yn wîr raſol, byddwch yn dda i bawb, gan geiſio lleſſad llaweroedd,

ſel

el y byddoch chwi gadwedig, 1 Cor. 10. 33.
Garedigion, os mynnwch beidio bod yn
euog o waed eneidiau, a llofruddiaeth eneid-
iau, bwriedwch oſod i fynu addoliad Duw
yn eich Teuluoedd, a rhodded gwaith Teu-
luaidd le ac ymoſtynged i addoliad Teulu-
idd. Gwnewch eich goreu er dyſgu eich
Plant a'ch Gwaſanaeth-ddynion i adnabod,
ufuddhau a gwaſanaethu 'r Arglwydd,
r hwn ſy wobrwywr i'r rhai a'i ceiſiant ef
n ddyfal. Os Plant *Abraham* ffyddlon
ydych, gwnewch fel y gwnaeth ynteſ, a
hodiwch yn ei lwybrau ef, *Joan* 8. 39. Y
Duw ſanctaidd chwiliwr y calonnau, a
Dyſtiolaethodd am *Abraham*, Gen. 18. 19.
Mi a'i hadwaen ef, y gorchymmyr efe i'w
lant, ac i'w dylwyth ar ei ol, gadw o honynt
ordd yr Arglwydd. Ymddiried mawr yw
ael gofal a gorchymmyn Eneidiau; o
erwydd pa ham na adewch i'ch plant a 'ch
waſanaeth-ddynion fyw fel y mynnont,
ithr gorchymmynwch iddynt ymadael a
ordd pechod, y rhai a'i dygant yn ddïamai
Uffern. O na chymmerai Rhïeni a Phennau
euluoedd i fynu fwriad Joſhua ſanctaidd,
oſ. 24, 15. *Ond myfi, mi a'm tylwyth a wa-*
naethwn yr Arglwydd. Eithr yn y gwrthwy-
eb, ſe dybygid fod llaweroedd, mal pe
aënt wedi gyrru Duw a'r ymarfer o
duwioldeb ymaith o'u tai; mal pe bai

Rhieni

Rhïeni a Phlant, Meiſtriaid a Gwaſanaeth-ddynion yn bwriadu gwaſanaethu 'r Diafol, a myn'd i Uffern. *Joan* 8. 44. Eſgeuluſo dyledſwyddau teuluaidd ſy bechod ofnadyw a gwaeddfawr, a'r hwn (fel y dywedodd Gweinidog Duwiol) a ddidoa 'r tŷ, ac a bair i Dduw lawio melldithion ar y Ford. Darllenwch a chrynnwch rhag ofn rhêg a melldith y prophwyd, *Jer.* 10. 25. *Tywallt dy lid ar y Cenhedloedd y rhai ni' th adnabuant, ac ar y teuluoedd ni alwaſant ar dy enw.* Pa ſawl un o Wŷr hêb weddïo ſy'n rhoi achlyſur i'w Gwragedd ddywedyd wrthynt, fel y dywedodd *Sephora* wrth ei Gŵr, *Exod.* 4. 25. *Yr wyt ti yn briod gwaedlyd i mi.* Eich Gwragedd, eich Plant, a'ch Gwaſanaethddynion, a gwynant hynny yn dôſt, ac a waeddant, naill ai yn fyw neu yn feirw; O na fuaſem ni erioed heb briodi 'r cyfryw wŷr, ein geni o'r cyfryw Rïeni, ein rhwymo i'r cyfryw Feiſtriaid, nad oeddynt yn edrych am waſanaethu Duw, nac yn gofalu am Eneidiau. Os Criſtianogion mewn gwirionedd ydych, cadwer i fynu yn eich tai drefn waſtadol o ddarllen y Gair, Catechiſo a Gweddïo; canys pan wnelo Angau yſgar rhyngoch chwi a'ch Ceraint, fe fydd yn ddrŵg gan eich calonnau, na ddarfu i chwi wneuthur dim yn rhagor i gynnorthwyo daioni eu heneidiau gwerthfawr, *Act.* 10. 2, 30.

Yn

Yn ail, Trwy gymmeryd pôb achlyſur, pa le bynnag y b'och, neu y deloch, i gynnorthwyo troëdigaeth pechaduriaid colledig. Os profaſoch fod yr Arglwydd yn dirion, ac iddo 'ch dŵyn allan o'r Pair haiarn, fel pentewynion o'r gynneudân, pa le, pa le y mae 'ch toſturi a'ch trugaredd tu-ag at Eneidiau mewn enbydrwydd? A fedrwch chwi ymfodloni bod yn ddedwydd, *Jude* 22. a myn'd i'r Nêf, yn unig, a pheidio gwneuthur eich goreu tryw eich gweddïau, eich cynghorion a'ch Eſamplau, er perſwadio a thynnu eraill i'r ffordd ſy'n arwain i'r Nef? Y mae dynion drŵg yn bryſur tros y Cythraul, y rhai fel malwod, ydynt yn gadael eu llŷs ar eu hol, pa le bynnag y delont, ac ydynt yn arlloes gwenwyn pechod, y naill i'r llall, ac felly yn cynnorthwyo eu damnedigaeth. Pa lïaws a welwch chwi yn ymdrybaeddu yn eu gwaed, ac yn pryſſuro am y cyntaf i Uffern, cyflwr dïobaith a greſynus y cyfryw rai a ddylai eich cyffroi chwi i doſturio, a pheri i chwi lefaru gair mewn prŷd er lechydwriaeth iddynt. Eich Arglwydd anwyl, yr hwn a ddylech chwi ei ganlyn, *a gerddadd o amgylch, gan wneuthur daioni*, Acts 10. 38. Efe a wnaeth y goreu o'i amſer i droi pechadures nodedig; (*Joan* 4.) er ei ſod e'n ddeffygiol ac yn ſyched'g, ni ofalodd am

gael ŷ bwyd, o waith fod yn well ganddo gael yr odfa i ddŵyn ei henaid allan o rwyd Satan, a'i hachub hi. Pan alloch, wrth eich byrddau, neu wrth brynnu a gwerthu, neu deithio, gael achlyſur i ſon am Dduw, a phethau a berthynant i Dduw, a gadel peth dwysbigiad ar y Cwmpeini, gwnewch hynny Mal hyn *Philip* gan gwympo i mewn ar yr Eunuch tra yr oedd 'e'n marchogaeth ar ei ffordd tu ag adref o *Jeruſalem*, a neſſaodd atto, ac a fu yn Offeryn i achub Enaid yr hwn na welodd efe mo hono erioed o'r blaen, *Acts* 8. A thrwy'r ymadrodd nefol a ddiferodd o enau Mr. *Carter*, Bugail *Brainford* yn *Suffolc*, y trowyd Gwraig-fonheddig tra yr oedd hi yn diſgwyl arno yn ei Staffell yn twymno ei Wely ef. Gair wedi ei lefaru mewn amſer a ddichon trwy fendith Dduw gadw Enaid; a'n dyled ni yw cynnyg hynny. Mr. *Ignatius Jordan* o *Exeter*, oedd dda rhyfeddol y ffordd hon; yr hwn a ai o Dŷ i Dŷ i ddŵyn ar gôf i'w gymmydogion y pethau a berthynent i'w heneidiau. Nid oedd ofn na chywilydd ar *Ddafydd* ſanctaidd lefaru am Dduw o flaen Brenhinoedd, *Pſal.* 119. 46. a mynegi yr hyn a wnaeth Duw i'w enaid ef, *Pſal.* 66. 16. ac, eb efe, *Dyſgaf dy ffyrdd i rai anwir, a phechu-*

duriaid

duriaid a droir attat, Pſal. 51. 13. Canys *bydd i'r hwn a dredd bechadur oddiwrth gyfeiliarni ei ffordd, gadw enaid rhag angau, a chuddio lliaws o bechodau*, Jago 5. 20. Pan fu'ch Cymmydogion yn amſer yn gleiſion, a than law Dduw, cymmerweh yr achlyſur honno i ymweled a hwynt, i ddŵyn Angau a Barn ar gôf iddynt, a pheri iddynt ddeall angenrheidrwydd Ffydd ac Edifeirwch, hêb y rhai ni all bod dim gobaith am y Nefoedd. Y mae'n Ddiharèb gan rai, ddywedyd, *Fod yn rhaid taro'r haiarn tra fo'n duwym.* Ar eu claf-wlau, pan fo Angau'n edrych yn gethin yn wynebau dynion, fe dybygid eu bod yn ddifrifol, ac yn gymmwys i dderbyn argraff Cyngor ffyddlon i'w heneidiau. At yr hwn cyſſylltwch weddi brudd; canys *gweddi'r Ffydd*, (medd yr Apoſtol) *a iacha'r claf*, Jago 5. 15. ac a ddichon iachau'r enaid.

Yn drydydd, Trwy annog a chalonni ein Cyd-frodyr yn y ffordd i'r Nefoedd. *Mae'n rhaid i ni gyngheri ein gilydd bob dydd, tra y gelwir hi heddyw*, Heb. 3. 13. *Ac ymannog bawb ei gilydd i gariad a gweithredoedd da; a hynny yn fwy, o gymmaint a'n bod yn gweled y dydd yn neſſau*, Heb. 10. 24, 25. Y mae gan ddynion drŵg a Phlant y Fall en *tyred gyd-a ni*; ac ydynt yn ymannog bawb ei gilydd yn y ffordd i Uffern; ac oni ddylai

Sainct *adeiladu eu gilydd yn eu ſanctteiddiaf ffydd*, Ruf. 14. 19. 15. 2. Epheſ. 4. 29. 1. Cor. 14. 26. Jude 20. *Y rhai oedd yn ofni 'r Arglwydd a leſaraſant bob un wrth ei gymmydog*, Mal. 3. 16. Criſtianogion a ddylent dreulio 'r amſer hwnw mewn ymddiddanion difrifol a buddiol, a'r y mae eraill yn dreulio ac yn ei ei waſtraffu mewn ymddiddanion ofer a llygredig. Dywedwch gyd a'r gŵr oedd wrth fodd calon Duw ei hun, *Dewch, gwrandewch, y rhai oll a ofnwch Dduw, a mynegaf yr hyn a wnaeth efe i'm henaid*, Pſal. 66. 16. Yr hyn a welſoch ac a glywſoch, ſy raid i chwi fynegi i'w gilydd, 1 *Joan* 1. 3. Byddwch wrth hyn yn cynnorthwyo eich gilydd ymlaen tua'r Neſoedd, ac yn diddanu y naill y llall trwy y diddanwch a 'r hwn i'n diddenir ni ein hunain gan Dduw, 1 *Cor.* 1. 4. *Ditbeu pan i'th droer, cadarnha dy frodyr*, Luc. 22. 32.

Yn 4. Mae'n rhaid i ni wneuthur daioni i eraill, trwy gyfrannu i'w diffygion hwynt a'u hangenrheidiau oddïallan, ac wrth wneuthur hyn, *dryſſori i ni dryſſorou yn y Nêf, cyn y pallo ein tryſſorau ar y ddaiar*, a chohi o honom y ddau, *Matth.* 6. 20. 19. 21. Hyn yw anrhydeddu yr Arglwydd a'ch cyfoeth, *Dihar.* 3. 9. Hyn yw gwneuthur cyfeillion o'r Mammon anghyfiawn, a gwneuthur i chwi byrſau, y rhai ni heneiddiant,

iant, a thryſſor yn y Nefoedd, yr hwn ni dderfydd, *Luc.* 16. 9, 12, 33. Nid oes anghofio mo'r ddyledſwydd hon, (*Heb.* 13. 16.) o waith mai hau had yw hi, 2 *Cor.* 9. 6. ac fe a dŷf, ac a ddŵg grop neu gynhauaf yn y bŷd hwn neu'r bŷd arall, *Preg.* 11. 1, 6: Ni anghofia Duw mo honaw, *Heb.* 6. 10. Yr Arglwydd Ieſu a'i gwobrwya yn ſiccr, *Matth.* 25. 40. *Da, was da a ffyddlon*, oddïwrth Grift ar ol hyn, a dal y pwyth am holl waith gweithred-wŷr da yma, *Matth.* 25. 21.

5. *Trwy ymdrechu am gadw i fynu gymmundeb diamwadal â Duw ym mhob dyledſwyddau ſanctaidd.* Griſtianogion, chwi ellwch golli amſer hŷd yn oed yngwaſanaeth Duw, oni byddwch yn ofalus ynddo i ymddiddan ag ef. Gochelwch yſpryd yſgafn mewn gorchwylion pruddaidd. Y mae Duw yn edrych ar y galon, ac yno fwyaf. Y mae rhyw ymbarottoad difritol yn angenrheidiol cyn neſſau o honoch i wŷdd y Duw goruwchaf a ſancteiddiol. *Joſeph* a'i heilliodd ei hun cyn dyfod o honaw i wŷdd *Pharao. Gen.* 41. 14. Aed eich eneidiau nefol-anedig ym mhob dyledſwydd, gŷd-a'r Ddyweddi glaf ogariad, allan i gyfarfod a'ch Arglwydd; ac nac ymhoffwch mewn dim arall. Nid delw'r gŵr, ond preſennoldeb y gŵr, a fodlona'r wîr-ferchog Ddyweddi hiraeth-

lon. Golwg wynfydedig yw gweledeneidiau yn tynnu tu ag at Dduw, yn dylyfu gên ac yn hiraethu am yr Arglwydd Iesu Grist, *Psalm* 42. 1, 2. O ymdrechwch am gael y fath agwedd o galon, ac achwynwch rhag yspryd cysyng a chûl. Na chyflownwch ddyledswyddau er mwyn Dyledswyddau, felly i wneuthur Dyledswyddau yn Ddiben dyledswyddau: ond megis y cyfrwng trwy'r hwn y gall eich eneidiau nesau at Dduw, a chysarfod ag ef. Wyneb-pryd phrisennoldeb Duw mewn dyledswydd, yw gwir feusydd pentrefol Gogoniant, ie, gwir borth y Nefoedd, *Gen.* 28. 17. Bydded hyn yn eich meddyliau, ac yn wir fwriad eich calonnau, a disgwiliwch ef yn daer bob gwaith ag y nesaoch at Dduw. *Glynu eich eneidiau wrth Dduw* a dywedwch, *Yn pêth a ddeisyfiais i gan yr Arglwydd, hyny a geisiaf; sef cassael trigo yn nhy'r Arglwydd holl ddyddiau fy mywyd*, Psal. 63. 8. 27. 4. 84. 2. Nid yw Dyledswyddau ond y Cyntedd nessaf allan yn unig, ond rhith, plisgyn a chelain Crefydd; megis Pibellau heb Ddwfr, Bronnau heb laeth, Hwylau heb Wynt, neu Gorph heb Enaid, nad oes dim bywyd ynddo. Y mae cynydd eich Gras a'ch sanctteiddrwydd yn ymddibynnu ar eich cydnabyddiaeth a'ch cymmundeb a Duw'r Gras. Bod *Moses* ar y mynydd a barodd i'w

i'w wyneb ddiſgleirio; a bod y Brenin ar y Bwrdd a barodd i *Nardus* yr Eglwys roi ei arogl, *Can.* 1. 12. Preſennoldeb y Duw gogoneddus ar y Sabboth, preſennoldeb Duw mewn Gweddi, neu yn y Sacrament, a fydd i'ch Eneidiau fel mer a braſder, a'r hyn a bair i'ch dwylo ddiferu gan Fyrrh, a'ch byſſedd gan Fyrrh yn diferu. Mal hyn y bu ar y Ddyweddi, pan eſtynnodd ei Hanwylyd ei law drwy'r tŵll, *Can.* 5. 4, 5. 6. *Trwy wneuthur y goreu o bob Rhagluniaeth, bob diddanwch, bob Croes er Gogoniant i Dduw, a lleſſad yſprydol i ni 'n hunain.* Nid yw Duw yn gwneuthur dim yn ofer; canys y mae fe'n edrych yn neilltuol tu-ag at Ddaioni ei Bobl yn ei holl Oruchwiliaethau: Y mae efe yn amſeru, ac yn meſur; ac yn treſnu pob Rhagluniaeth dywyll a chyſtuddiol er lleſſad i'w Eglwys, *Jer.* 24. 5. *Rhuf.* 8. 24. *Heb.* 12. 11, 12. Y mae cerydd ac addyſg Duw yn gyffredin yn cydgerdded; o herwydd hynny y mae'n rhaid i ni *wrando y Wialen, a Phwy a'i hordeiniodd*, Mic. 6. 9. Y mae *lleferydd* gan y Wialen; Anifeiliaid a allant glywed y Wialen, ond y Credadyn ſy'n gwrando y Wialen. Fe ddylai Gwialen Duw beri i ni fel Gwialen *Aaron*, flaguro, flodeuo, a dŵyn heddychol ffrwyth Cyfiawnder, *Numb.* 17. 8. *Heb.* 9. 4. Yn awr o's mynnwch chwi fod yn well trwy

gyſtuddiau, gwnewch eich goreu er gwneuthur tri phêth.

1. Deall amcan neu feddwl Duw ynddynt, am ba bechodau a wnaethpwyd, neu Ddyledſwyddau a eſgeuluſwyd, yr anfonwyd hwynt: Cennadau Duw yw cyſtuddiau, ac ni ddylem ni bŷth fod yn llonydd nes gwypom eu neges, *Job* 10. 2.

2 Canfod llaw Dduw yn yr holl Gyſtuddiau hynny. Felly y gwnaeth *Dafydd*, *Pſalm* 39. 10. A *Job* dduwiol, *Job* 1. 21. *Hoſ.* 6. 1.

3. Ymdrechu am atteb dibennion Duw yn eich caledi a'ch trallodion, fel i'ch gwneler yn oſtyngeiddiach, yn ſanctteiddiach, ac yn nefolach nag o'r blaen: fel y canfyddom ac y deallom, mai da oedd ini gael ein cyſtuddio. Y mae gennym gymmaint rheſwm i fyn'd at Dduw i geiſio bendith ar ein Gwialen ſeunyddiol, ac ar ein Bara beunyddiol.

7. *Mae'n rhaid prynnu'r Amſer trwy fwrw i fynu eich cyfrifon beunydd, ac felly gwneuthur union gyfrif a Duw, a pheidio myn'd ymmhellach yn ei ddyled ef.* Hyn a fydd y ffordd i gael cydnabyddiaeth, i ynnil maddeuant, cyn eich galw a pheri i chwi roi cyfrif. Dyledſwyddau dirgel, os gwnêir hwy 'n dda, yw'r dyledſwyddau melyſaf; ac etto a eſgeuluſwyd yn doſt gan y Sainct eu hunain, Chwi a ddylech ymneilltuo bob nos, a threulio ychydig amſer mewn hunan-

nan-ymholiad; a phan eiſteddoch yn unig, ymddiddenweh a'ch calonnau, a gelwch i'ch cof y pethau a aeth heibio ac a wnaethoch y Dydd o'r blaen. Yr ydym yn darllen yn *Gen.* 24. 63. I *Iſaac* fyned allan i fyfyrio ym mîn yr hŵyr; Dyledſwydd werthfawr, ond a arferir yn anfynych. Criſtianogion a ddylent, dreulio cymmaint ag allont hepcor o'u hamſer mewn gweddïau byrrion a myfyrdod ſanctaidd, Ac O mor anhawdd yw eſgyn i'r Mynydd hwn o Fyfyrdod Nefol! Y mae'n hawdd iawn ac yn hyfryd gennym feddwl am y bŷd, Mwyniant Pechod, Cyfeillion, Golud, a thrybeſtod bydol; Eithr myfyrio ar Dduw, y Nefoedd, Tragywyddoldeb, annigonolrwydd ac oferedd y Creadur, chwerwder Pechod, ſiccrwydd Marwolaeth a Barn, (gwîr ymyſgaroedd Crefydd) ſydd anhawdd iawn. Cyn gorwedd o honoch yn eich gwlau y nos, gelwch eich hunain i gyfrif trwy'r fath gweſtiwnau a'r rhai'n.

1. Mi fum byw lawer o flynyddoedd yn y bŷd; Beth a wneuthum i yn fy holl ddyddiau? A attebais i ddiben fy mod yma?

2. A fu arnaf ſanctaidd arſwyd Duw ynghanol fy ngorchwylion bydol y dydd hwn? Pa feddyliau a fu gennyf am Farwolaeth a Barn? Pa le y bu fy nghalon i?

3. Pa ſodd y cyflawnais i ddyledſwyddau

y

y dydd heddyw? Pa rai oedd Pechodau 'r dŷdd heddyw, trugareddau'r dydd heddyw, fel y gallwyf ofyn nawdd am y naill, a bendithio Duw am y llall?

4. Pa Gynnorthwy a Chymmundeb a geſais i a Duw'r Dŷdd hwn, yn nyledſwyddau ei addoliad ef? Oni bu Duw a'm henaid i yn ddieithr i'w gilydd y dŷdd heddyw, a llawer o Ddyddiau ynghyd?

5. Beth a wneuthum neu a leferais i tros Dduw a'i ogoniant y dŷdd heddyw ym myſg fy Nheulu, neu'n rhyw le arall? A ymddygais i megis Plentyn i Dduw y dŷdd Heddyw? Hyn yw gwneuthur Crefydd yn orchwyl i ni, neu rodio yn ofn yr Arglwydd trwy'r Dŷdd.

8. *Gwnewch y goreu o'ch hamſer trwy ymdrechu am drefnu gwaith pob diwrnod fel i perthynai i'ch dydd diweddaf.* Diben pob dyledſwydd, a'r rheſwm mawr am brynu'r Amſer ſy'n ſefyll yn hyn, ſef, fel y byddom cymmwys i farw a ſefyll ger bron Duw. Am hynny y mae'n rhaid i ni ogoneddu y Duw ſanctaidd anfeidrol, a'i wneuthur e'n Gyfaill ini. O achos hyn y mae'n rhaid i ni ſicrhau ein heneidiau, a myned ar frŷs at Ieſu Ghriſt, a thyſu mewn Gras, gwneuthur daioni i eraill, ein galw ein hunain i gyfrif, ac eglurhau ein Titl i'r Nefoedd, fel y bo 'n holl waith wedi ei orphen tra yw hi'n

hi'n ddydd, ac na bo dim yn ol hêb ei wneuthur, galwed Angau pan y myno.

IV. *Pa ham y mae'n rhaid pryſmu' Amſer?* Y Rheſymmau pa ham y mae'n rhaid i ni brynnu ein hamſer gwerthfawr, ydynt,

1. Oblegid y dyddiau ſy ddrwg.

2. O waith mai rhan i'w hyſtyried ydyw o'n doethineb Criſtianogol.

Rheſwm 1. *Oblegid y Dyddiau ſy ddrwg.* Dyma Reſwm yr Apoſtol i gadarnhau 'r ddyledſwydd. Y mae Amſer gwerthfawr a Dyddiau drwg yn cydredeg; am hynny mae'n rhaid peidio colli un rhan o amſer bychan. Mi eglûraf hyn i chwi mewn ychydig o bethau yn neilltuol.

1. *Y mae Eſeuau gau Athrawiaeth, neu Opiniwnau Cythreulig, Cabloidd a Damnedig yn amlhau.* Pa fodd y mae Gweiſion y Diafol yn ceiſio tynnu ymaith a dadfeilio hŷd yn oed Seiliau a Gwyddorion y Ffŷdd Criſtianogol? Yr hen Hereſiau damnedig hynny a gondemnwyd ac a ddiwreiddiwyd gynt allan o Eglwys Dduw, ydys yn eu derbyn yn awyddus ac yn eu llyngcu i mared gan fwy nag ychydig, 2 *Tim.* 3. 1. & 4. 3. 2. *Pet.* 1. 12. *Chwychwi gan hynny; anwylyd, a chwi yn gwybod y pethau hyn o'r blaen, ymgedwch rhag eich arwain ymaith trwy amryfuſedd yr annuwioi, a chwympo o honoch*

oddiwrth

oddiwrth eich ſiccrwydd eich hun, 2 Petr. 3. 17. 2 Tim. 1. 13.

2. *Bucheddau diras dynion a'u pechodau aruthraf ſy'n gwneuthur y dyddiau yn ddrwg yn oeſtad.* Pa ffieidd-dra melldigedig ydyw yn ei wneuthur ar orſedd y bŷd drygionus hwn! Y mae anwiredd yn amlhau, drygioni mewn braint a bri, a Chrefydd tan anglod. Y mae llawer yn caffau grym Duwioldeb, Ond nid oes arnynt gywilydd wiſgo Lifrau'r Diafol. Oni allwn ni achwyn gŷda'r prophwyd, a dywedyd, megis y dywedodd, *Hoſ.* 4. 1, 2, 3. *Nid oes gwirioneedd, na thrugaredd, na gwybodaeth o Dduw yn y wlad: trwy dyngu, a dywedyd celwydd, a lladd celain, a lladratta, a thorri priodas, y maent yn torri allan, a gwaed yn cyffwrdd a gwaed, am hynny y galara y wlad.* Ac megis y dywedodd, *Eſay.* 59. 12, 15. *Canys amlhaodd ein camweddau ger dy fron, a thyſtiolaethodd ein pechodau i'n herbyn; a gwirionedd ſydd yn pallu, a'r hwn ſydd yn cilio oddiwrth ddrygioni, a'i gwna ei hun yn yſpail.* Ac *Amos* 5. 10, 12, 13. *Cas ganddynt a geryddo yn y porth, —amſer drwg yw.*

3. Y mae llawer yn wrthnyſig, ac yn ymadael a'r ffydd. Pa fodd y cwympodd y Cedyrn? Y mae hyn megis dryg-haint yn ymdanu ar hŷd y wlad, *Matth.* 24. 12. *O herwydd yr amlha anwiredd, fe oera cariad llawer,*

llawer, Jer. 2. 12, 13. 2 Tim. 1. 15. Datc. 2. 4.

4. Ond yw Duw yn cychio, ac yn bygwth ſymmud ein Canhwyllbren, a'n gadel mewn tywyllwch? *Datc.* 2. 5. *Amos* 8. 9, 10, 11.

5. Pa fodd y mae Tylwyth Duw, a Chyfeillion Criſt, wedi eu rhannu, a'u hailrannu oddïwrth eu gilydd? *Moab* ac *Ammon*, *Herod* a *Philat*, a fedrant uno yn erbyn Criſt a'i hawl, pan yw praidd bychan Criſt yn ſefyll o hirbell i'w gilydd, 1 *Cor.* 3. 3, 4. A phan yw pethau yn digwydd fel hyn y mae'r dyddiau yn ddrŵg, ac y mae arnom eiſiau prynnu ein hamſer.

Rheſwm 2. *Prynnu'r Amſer a'n gwna ni'n wir ddoethion. Gwelwch pa fodd y rhodioch yn ddieſceulus; nid fel annoethion, ond fel doethion; Gan brynnu'r Amſer*, Epheſ. 5, 15, 16. Calon y Doeth (medd *Salomon Preg.* 8. 5.) a edwŷn amſer, a barn. Gweithio tra yw hi yn ddŷdd, a gwneuthur llawer o waith mewn ychydig o amſer, a genmyl ddoethineb y ſawl a'i gwnelo. Pa ddyſg bynnag, Braint a doniau a fo gan Ddynion, nid ydynt yn ddoethion, oni phrynnant yr Amſer. Gwŷr *Iſſachar* oeddynt mewn parch mawr gŷd-a *Dafydd*, o waith *y medrent ddeall yr amſeroedd i wybod beth a ddylai Iſrael ei wneuthur*, 1 Chron. 12. 32. Y mae'r Duw cwbl-ddoeth, yn llaw 'r hwn y mae ein hamſerau,

hamſerau, yn achwyn fod yr Iuddewon yn ynfydion *heb gadw 'r amſer*, *Jer.* 8. 7. 8. ac felly y mae ein Hargliwydd Ieſu yn achwyn ar y Phariſeaid, *Matt.* 16. 2. 3. Am hynny ſe elwir prynnu'r Amſer yn *rhodio mewn doethineb*, fel y mae'r Apoſtol yn ei amlygu, *Col.* 4. 5.

Y CYMHWYSIAD.

Deſnydd. 1. YN gyntaf, Os rhaid prynu'r amſer, ni a allwn ſamu, mai dïai yna *fod tragywyddoldeb*. Bydded i holl Waſtraffwyr amſer fwrw am hynny, Y mae mor ſicer a dim a ſy'n y bŷd hwn, fod bŷd arall. Chwi ellwch antorio eich bywyd, eich Eneidiau a'r cwbl ar wirionedd hynny. Pa ham y gwaſgai 'r gwynfydedig Apoſtol *Paul* mor galed ar y rhai oeddynt yn credu am brynnu'r Amſer, ond er mwyn eu llwyddiant tragywyddol? Byddwch ſicer o hyn, a chredwch y pêth mor ddïogel a phe bai 'r ddau Dragywyddoleb yn awr yn ymgynnyrcholi o flaen eich llygaid corphorol, a chwithau'n gweled y Cythreuliaid a'r Gwrthodedigion yn eu Cadwynau Tywyllwch, ac yn eu clywed yn llefain ac yn yſgrechain yn y flammau tan tragywyddol hynny: ac hefyd yn gweled *Abraham*, *Iſaac* a *Jacob*, a'r holl Sainct a ymadawſant a'r

a'r bŷd hwn, ar yr Orſeddfainge, yn canu Can Moſes a'r Oen. Dyma 'r pêth y mae'r goreu a'r gwaethaf o ddynion naill ai'n ei gredu neu'n ei ofni. O na bai iddo weithio yn ddŵys ac yn barhaus ar eich calonnau chwi oll!

2. Rhagorfraint werthfawr iawn yw odfa Amſer. Cael awel o amſer cyfaddas i'n Troſglwyddo ni i Ogoniant, neu'r ffiag wen ar y pared, yn ein gwahodd ni ac ein gwaith, i geiſio allan i ni nawdd cyn ei myned hi yn rhy hwyr. Tryſſor cyfoethog yw Amſer nas gellir ei briſio, ac etto Tryſſor darfodedig ydyw. Y mae amſer (Rhedegwr Duw) yn rhedeg yn oeſtad; ſe, yn ehedeg mal pedfai ar adenydd Eryrod, ac a â ymaith. Amſer a gyffelybir i dywod aur yn rhedeg rhwng dau Dragywyddoldeb, a thrugaredd anfeidrol ydyw ei fod e'n rhedeg yn oeſtad, fod gennych ddŷdd i weithio allan eich Iechydwriaeth, i gyttuno a'ch Gwrthwynebwr tra fyddoch ar y ffordd gŷd-ag ef, hynny yw, i wneuthur i fynu'r briw ſy rhwng Duw a ch eneidiau chwi, *Datc.* 2. 21. Y mae parhad amſer yn anſiccr iawn. *Y mae'r amſer yn fyr*, 1 *Cor.* 7. 29. Nid yw y cwbl ond dyrnfedd, ychydig iawn o hŷd. Nid yw ond ychydig ddyddiau yn chwaneg, a chwedyn

Punctum eſt quod vivimus et puncto minus.

a chwedyn eich dŷdd diwedd; ychydig oriau yn ychwaneg, ac wedyn eich awr farwolaeth; ychydig anadlu yn ychwaneg, ac wedi hynny eich anadliad diweddaf.

Non exiguum temporis habemus, ſed multum perdimus. Sen.

3. *Amſer, er gwerthfawrocced yw, a'r bwn a ddylid ei brynnu coſted a fynno, ydys er hynny yn ei ollwng ymaith.* Bêth a wnawn ni i dreulio 'r amſer heibio? Sy'n fynych yngenau rhai dynion; cymmwynas ydyw a'r y fy'n ſefyll ar eu dwylaw; ni wyddant bêth a wnant ag ef. Mor rhyhael ac mor afradlon y mae'r rhan fwyaf ar y Tryſſor hwn, y rhai nid ynt yn gwneuthur y goreu o honaw! Mor fynych y daeth amſer cyfaddas attom ni, ac a ddiſgwiliodd wrthym, ond ychydig iawn a gafwyd i ddal gafael arnaw! At ba nifer o Waſtraffwyr amſer y gellir cymhwyſo 'r Teſtun hwnnw a'r y fy'n lladd, *Luc.* 19. 41, 42. *Ac wedi iddo ddyfod yn agos, pan welodd efe y Ddinas, efe a wylodd troſti*; ni allai efe ſon am dani heb wylo, gan ddywedyd, *pe gwybaſit dithau, ie* (dydi o'r lleiaf) *yn dy ddydd hwn, y pethau a berthynent i' th heddwch: eithr y maent yn awr yn guddiedig oddiwrth dy lygaid.*

4. *Y mae diogi yſprydol, drwy'r hwn yr ydym yn colli cymmaint o'n hamſer gwerthfawr, yn ddrwg toſt, ac yn enbydus iawn.* Syrthni (fel

(fel y dywed *Salomon*) *a bair drym-gwſg*, Dihar. 19. 15. Y mae'r dïog fel y Drws ar ei golyn, *Dihar.* 26. 14. Y dïog ſydd frawd i'r ureul-gar, *Dihar* 18. 9. Am hynny na fyddwch yn ddïog ac yn fuſgrell, *Rhuf.* 12. 11. *Heb.* 6. 12. Yr ydym yn darllain i *Joſuah* ddywedyd wrth yr Haul, *aros*; Eithr ni ddywedodd Duw erioed wrth yr Enaid, *aros. Joſ.* 10. 12. Y mae Crefydd yn gofyn gweithred, llafur a diwydrwydd; canys nid yw hi'n ſefyll mewn ymwybodau gweigion a gwyntiog, a meddyliau'r pen; ond yn ymarfer y meddwl a'r galon. Mae'n rhaid dangos allan agweddau, a hel gras ym mlaen, y mae'n rhaid ymdrechu am y Nefoedd (yr hon ſy i gŷd yn erbyn) a'i hynnill hi, mal pêd fai o drais a buddugoliaeth. Pêth anferth a chywilyddus yw gweled gŵr yn proffeſſu Duwioldeb mewn Hun-haint, ac yn peidio dilyn ei ddyledſwydd. Bwrw heibio dy yſpryd muſgrell a'th Dymmer farwllyd, rhag mai tydi a fydd y gwas drŵg, dïog, ac anfuddiol hwnnw, yr hwn a fydd yn rhaid ei fwrw i'r tywyllwch eithaf, *Matth.* 25. 26, 30. Gadewch imi ddywedyd wrthych fel y dywedodd gwŷr Dan wrth eu brodyr, wedi yſpio allan wlad dda, *Barn.* 18. 9. *Ai tewi'r ydych chwi? Cy-*

Exigua pars eſt vitæ quam nos vivimus.

fodlwch, ac na ddiogwch fyned i feddiannu'r wlad. Y mae'r Wlad Nefol o'ch blaen chwi; cyfodwch a gweithiwch, ac na chollwch mo honi o ddiffyg cymmeryd poen. Na adewch i fyrthni yſprydol, trwy fwytta allan eich amſer, rwyſtro eich gwaith, a dŵyn eich cyflog, *Datc.* 3. 11.

5. *Os dylai 'r gareu o'r Seinĉ brynnu eu hamſer, beth fy raid i bechaduriaid wneuthur?* Chwychwi y rhai a ſuoch yn heppian ac yn cyſgu trwy'ch hôll amſer, ac hêb gerdded un cam ar hyd y ffordd i'r Nefoedd, ond llawer ar hyd y ffordd i Uffern: a ddylech gyfodi a gweithio, ac onid e fe'ch difethir yn dragywydd. *Tra y dywedir, heddyw o's gwrandewch ar ei leferydd ef, na chaledwch eich calonnau, Heb.* 3. 15. Na threuliwch mor hael o'r afon chwyrn hon a gwerthfawr o amſer, pob defnyn o'r hon ſyn tuedu tua thragywyddoldeb. *Gan wybod yr amſer, ei bod hi weithian yn bryd i ni ddeffroi o gyſgu. Y nos a gerddodd ym mhell, a'r dydd a neſſaodd: am hynny bwriwn oddiwrthym weithredoedd y tywyllwch, a gwiſgwn arfau y goleuni. Rhodiwn yn weddus, megis wrth liw dydd; nid mewn cyfeddach a meddwdod, nid mewn cyd-orwedd ac anlladrwydd, nid mewn cynnen a chynfigen; eithr gwiſgwch am danoch yr Arglwydd Ieſu Ghriſt, ac na wnewch rag-*

rag-ddarbod tros y cnawd, er mwyn cyflawni ei chwantau ef. Rhuf. 13. 11, 12, 13, 14.

6. *Os yw yn rhaid gwneuthur y goreu o amſer, a phob rhan a munud o honaw; fe wasanaetha hyn i argyhoeddi y ſawl ſy'n llyſu diwydrwydd difrifol mewn dyledſwydd, megis peth afreidiol.* Pe na bai gorchwyl ein eneidiau anfarwol yn gofyn gofal mawr a diwydrwydd, pa ham yr archai *Paul* i ni yma rodio yn ddieſceulus; nid fel annoethion, ond fel Doethion? Griſtianogion, eich doethineb chwi yw 'nabod eich gwaith, a'r amſer i'w wneuthur ef. Nid oes dim cytgam ynghylch Tragywyddoldeb; yn awr y mae'r dŷdd am y pethau a berthynant i'ch heddwch chwi, na adewch iddo fod yn guddiedig oddïwrth eich llygaid. Fe fydd yn athriſt iawn, pan fyddoch yn mynd i'r bŷd arall, gweled ddarfod i chwi fod holl amſer eich bywyd yn hâu'r gwynt.

Defnydd 2. O Holiad. *Profwch a ydych chwi yn prynu'r amſer ai nad ydych.*

Meddyliwch am y pêth a ddywedais i, a'ch Cydwybod a ddywed wrthych, i chwi dreulio 'r rhan fwyaf o'ch amſer mewn pechod ac oferedd. A ydyw eich dyledſwyddau yn ffrwythlon? A ydyw eich oriau i Dduw? A ydyw amſer a dyledſwydd yn myned law-law? Onid ellwch chwi waeddi

lawer gwaith, *Diem perdidi!* Mi a gollais Ddiwrnod. Holwch eich hunain, peidiwch a diſtewi neu gau ſafn Cydwybod; Os felly y gwnewch, hi a waedda yn grôch ryw ddŷdd.

Gadewch i mi ofyn i chwi'r ychydig gweſtiwnau hyn.

1. A ddarfu i chwi gwynofain yn brûdd ddarfod i chwi golli'r amſer, ac erfyn maddeuant am hynny.

2. A ddarfu i'ch eneidiau lynu'n ddiragrith wrth Ieſu Ghriſt, ac i chwi eich rhoi eich hunain i fynu yn rhwydd ac yn hollol iddo ef i fod yn eiddo iddo yn dragywydd.

3. A ydyw matterion mawrion Gogoniant Duw a'ch Iechydwriaeth chwithau yn curo'r cwbl i lawr o'u blaen? A ellwch chwi ddywedyd, er ein bod ni'n canlyn ein Galwad, ac yn gofalu am ein Tylwyth, etto'r ydym yn fwyaf gofalus ynghylch ein cyflwr tragywyddol? Pa un ydynt ai difyrrwch ai buddiant, ni a allwn ddywedyd, mwyniant pechod dôs ymaith, y bŷd ſaf draw. Y mae Duw i'w waſanaethu ai anrhydeddu; y mae gennym Eneidiau i'w ſancteiddio a'u hachub: y mae gennym amſer byr i'w brynnu, y mae arnom ddyled i'w dalu, y mae gennym gyfrif i'w roddi, barn i'w derbyn, a thragywyddoldeb i fyw ynddo. Nid oes dibriſio hyn y mae'n rhai

i ni gadw ein heneidiau; y mae Uffern yn fwyaf annoddefadwy ac yn dragywyddol.

4. A wnewch chwi bellach addewid a ſefyll wrthi, y bydd i chwi rhag-llaw weithio mwy am dragywyddoldeb, a mynnu gwêll yſpyſrwydd am y Nefoedd? Ewch yn fuan ynghylch gwaith Ffydd ac Edifeirwch; rhag i Angau alw, a'ch bod chwithau heb fod yn barod.

Defnydd 3. O *Alarnad. Y byddai Proffeſſwyr cyn belled oddiwrth brynnu'r amſer, neu ddyblu eu diwydrwydd, a'u bod yn eſgeuluſo eu dyledſwyddau.* Mi a allwn waeddi gŷd a'r Prophwyd, *Jer.* 9. 17. *Gelwch am alarwragedd*; canys pwy nad yw'n euog yn y ffordd hon. *Amos* 5. 16. Garedigion, o achos hyn y dylai ein heneidiau alaru mewn lleoedd dirgel: Difrifol yſtyried yr hyn ſy ddigon i gyrhaeddyd gwaed o'n calonnau, a llifeiriant o ddagrau o'n llygaid. Pa leied o ofal ydys yn ei gymmeryd i dreulio 'r pêth hwnnw'n dda, yr hwn pan el ymaith, nid oes gennym ddim gobaith y gellir ei adferu i ni drachefn. Onid ydych chwi yn achwyn o eiſiau amſer, gan weled eich bod yn gwaſtraffu amſer. Y mae llawer o eſgufodion coegion a gweinion; y Gwas a ddywed fod ganddo Feiſtr caled, creulon, y Wraig a achwyn rhag ei Gŵr anrheſym-

mol; ŷ plentyn rhag ei Dad annuwiol: un arall rhag tlodi ei Dylwyth; ni all ofe hepcor dim amſer. Pwy bynnag wyt a'r ſy'n cymmeryd fod arnat eiſiau amſer, rho gennad imi ddywedyd wrthyt, fod gennyt ti galon gnawdol, farw, bechadurus, ddîog, achos y cwbl. Onid oes gennych chwi amſer i bob peth arall, ſef amſer i fwytta, yfed, cyſgu, meddwi, canu pibau, a chwarae, a dim amſer i ofalu am y Nefoedd? A ellwch chwi foreu-godi, myned yn hŵyr i gyſgu, a bwytta bara gofidiau, i ynnill y bara a dderfydd; a bod heb gael dim amſer i waſanaethu Duw, ac i ymgais am eich eneidiau? A eſguſoda hyn chwi ryw ddŷdd, chwi eneidiau dïofal, anwybodus a lleſg? Yr ydych yn gofalu am eich ŷd, eich Anifeiliaid, eich Defaid, eich Moch, eich Ieir, eich Meirch a'ch Cŵn; eithr am y rhan oreu nid ydych yn gofalu dim oll. A ddywedwch chwi wrth y Barnwr mawr ofnadwy, yn y dŷdd diweddaf, nyni a fynnaſem fod yn gadwedig, ond nid oedd gennym ddim amſer? Y mae llaweroedd a'r y ſy'n bwytta eu bara trwy chwys eu talcennau, yn cymmeryd amſer i feddwl am eu heneidiau; y rhai a ddygir i mewn megis tyſtion yn eich erbyn chwi yn y Dŷdd diweddaf. A waſtraffwch chwi ymaith eich amſer, a'r dyddiau yn ddrwg, ac odfeydd

i achub aich eneidiau yn anhawdd eu goddiwes? O yſtyriwch, ei bôd hi yn llawn brŷd i chwi ddeffroi o gyſgu.

Defnydd 4. *O Gyngor i brynu'r Amſer.* Chwi a glywſoch bêth yw prynnu'r amſer, a pha fodd y mae'n rhaid prynnu 'r Amſer. *Bellach bydded i bawb, yn ddioed, fwriadu goſod y fath ddyledſwydd angenrheidiol hon mewn ymarfer.* By'd i'r rhai ieuaingc gwympo arni, a'r rhai ſy 'nghanol eu hoed ynghŷd a'r rhai penllwydion hefyd. Cynhygiwch i Dduw flodau a blaen-ffrwyth eich oes a'ch amſer, ac na thybiwch hynny yn rhy fuan. Yr ydych mewn pethau llai o lawer, yn ſefyll am fryſſio a phryſuro. Pe baech yn newynu gan chwant bwyd, chwi dybygech y byddai pob awr yn hir, hŷd oni chaech eich cynnorthwyo. Pe bai 'ch Cyrph yn cael eu harteithio a'u poeni gan ddolur ac afiechyd, a dybiech chwi y deuai eſmwythad ac iechyd yn rhy ebrwydd? Pe byddai gŵr yn y Mor ym mron boddi, a ddeuai Bad yn rhy fuan? Neu a all drŵg weithredwr wedi ei gondemnio gael ei bardwn yn rhy gyflym? A ddarfu i chwi fyw hêb Dduw, ac yn gaethweiſion i Satan, ac ym mherygl ſyrthio i Uffern, bymtheg neu ugain o flynyddoedd; ac a ellwch chwi fyn'd at Ghriſt i ſiccrhau eich

eneidiau ānfarwol yn rhy ebrwydd? Oni fuoch chwi'n eiddo'r Cythraul yn rhy hîr euſys? Tybiwch pe buaſech feirw yn eich cyflwr o angrhediniaeth, pa le y buaſai eich eneidiau? Onid gwêll yw bod yn Was i Dduw, nag yn Gaethwas i Satan? Gofynnwch i'r gwr Duwiol a brofodd y peth, ac efe a fynega i chwi. Pa gyntaf y bydd-och mewn cyflwr o ras, cymhwyſaf a fydd-wch i Ogoniant. Bryſſiwch yn eich gwaith, gwnewch eich gorchwylion yſprydol; y mae eich cyflogau yn ſiccr, a chwi a fydd-wch yn wynfydedig. Yſtyriwch, na fu nêb erioed a edifarhaodd (pa'r un ai byw ai meirw ydynt yn awr) nad oeddynt yn eiddo'r Arglwydd, ac a ddychwelaſant mewn prŷd.

Ac am danoch chwi y rhai a dreuliaſoch amſer ieuengctid, trwy gyflawni trach-wantau ieuengctid, ac a fuoch byw 'ſgat-fydd ddêg ar hugain, ddeugain, neu ddêg a deugain o flynyddoedd mewn gyrfa o be-chod ac oferedd; Onid yw hi'n fwy nag amſer i chwi feddwl am danoch eich hu-nain? Fe ddarfu i chwi ynghynifer o flynyddoedd wneuthur gwaith toſt; pwy a all tynegi mor fynych y darfu i chwi dro-ſeddu, y rhai a fuoch yn dyngwŷr halogedig, yn Feddwon, yn Gelwyddwyr, ac yn Dorrwŷr Sabboth, cyhŷd? Pe baech ſiccr

o fyw gynnifer o flynyddoedd rhag llaw, etto fe gaſodd y Diafol, y Bŷd, a'ch Trachwantau Uffernol hanner eich amſer. O bydded yr amſer a aeth heibio yn ddïgon. Gwybyddwch fod eich amſerau yn llaw Dduw, *Pſal.* 31. 15. fel nad ydych yn ſiccr o ddiwrnod rhag-llaw. O herwydd pa achos dechreuwch, a phryſurwch yn eich gwaith.

Ac am danoch chwithau y Cleirchod pen llwydion, yn erbyn y rhai y mae Angau wedi parottoi ei offer rhyfel, ni ddichon bod gennych ond ychydig dywod yn eich Awr-leſtr, ni all awr eich marwolaeth fod ym mhell, y mae eich canwyll wedi lloſgi hyd ben y Canhwyllbren, onid yw hi ar ddiffoddi a drewi. Oni welwch chwi Geidwaid yr hen dŷ pwdr yn dechreu crynnu, a'r gwŷr cryfion yn crymmu? Diſgwiliwch i'r tŷ ar y gwthwm neſaf ſyrthio. Oni bydd i chwi y rhai ydych yn pwyſo ar eich ffyn, ac yn edrych trwy eich Spectolau, gan fod yn barod i fyned i dragywyddoldeb, feddwl am eich gwaith yn fuan, Gwae, gwae chwi 'n dragywydd. Pe bae i Dduw wneuthur gwrthiau yſprydol trwy droi a maddeu i hen bechadur penllwyd, a fu yn ſegur hŷd yr unfed awr ar ddeg, *Matth.* 20. 6. Oni byddai hynny yn ſyndod a rhyfeddod i ddynion ac Angylion? Sef, bwrw'r Diafol allan o'r goreſgyn wedi iddo fod yn

Drigiannydd

Drigiannydd dri-ugain a rhagor o flynydd-oedd, eni'r cyfryw un drachefn a fyddai 'n rhyfedd yn wîr. Mi a glywais ſon am hen wr, yr hwn wedi gwir ddychwelyd ychydig o amſer cyn ei farwolaeth, a barodd 'ſgrifennu hyn ar ei fedd; *Yma y mae'n gorwedd wr hen iawn* TAIR BLWYDD OED. Efe a gyfrifodd ei amſer a'i fywyd o'r blaen megis colled, a pheth na thalai ddim.

V. Bellach fel na bo i chwi, y rhai a roddaſoch Dduw heibio cyhŷd eiſoes golli dim amſer yn ychwaneg, yſtyriwch yr Annogaethau hyn.

1. *Amſer Duw yw'r Amſer preſennol, ac y mae'n rhaid iddo fod yn eiddo chwithau.*
2. *Duw y Barnwr Cyfiawn a wna gyfrif a chwi am eich amſer.*
3. *Fe ddarfu i chwi addo'n arbennig ei brynnu ef.*
4. *Mae dynion yn cymmeryd ac yn gwneud y goreu o amſer cyfaddas i bethau eraill.*
5. *Y mae Satan eich gelyn marwol yn ymdroi'n oeſtad, ac ni chyll efe ddim amſer.*
6. *Ni ellir galw amſer yn ol wedi ei gael unwaith a'i golli.*
7. *Y mae Gras iuchuſol yn wyddor ſywiog ac yn tyfu.*

8. *Pa*

8. *Pa fodd y mae'r rhai a gollaſant amſer yn ei briſio ef.*
9. *Fe anodd Duw amſer a dyledſwydd ynghŷd.*
10. *Ar y munudyn hyn o amſer y mae tragywyddoldeb yn ymddibynnu.*

Annogaeth 1. Yſtyriwch, *mai eiddo Duw yw'r amſer preſennol, ac y mae'n rhaid iddo fod yn eiddo chwithau.* Oni chlywch chwi'r Yſpryd Glan yn dywedyd, *y mae hi bellach yn llawn amſer i geiſio yr Arglwydd, Hoſ.* 10. 12. ac yn galw arnoch, *deuwch ymaith, pryſurwch,* Oedi a muſgrelli yw'r ddwy lyngclyn, yn y rhai y mae lliaws o eneidiau yn boddi ac yn darfod am danynt. Pa ſawl un ſy'n awr yn Uffern, a fwriadaſant ac a addawſant droi at Dduw (fel yr ydych chwithau'n addo) rhag llaw? O ofnwch a chrynnwch, rhag i chwi fod felly. I gadarnhau hyn, cymmerwch yr ychydig bethau hyn.

1, Gan yr Amſer preſennol y mae fwyaf o Orchymynion; ac y mae, n rhaid ufuddhau i Orchymynion Dyw, megis Gwarantton yn enw'r Brenin, pan eu gwelir. Yr ydym yn dywedyd, *Rhaid ſy am y Brenin:* Os ieuaingc ydych, darllenwch *Preg.* 12. 1. *Cofia yn awr dy Greawdr yn nyddiau dy ieuengctid. Heddyw, os gwrandewch ar ei*

leferydd,

leferydd, na chaledwch eich calonnau, Pſal. 95. 7, 8. *Yn gyntaf ceiſiwch deyrnas Dduw*, Matth. 6. 33. *Ni ddylech chwi ſefyll yn hir*, *Hoſ.* 13. 13. Bendithiwch Dduw, a rhyfeddwch fod edau eurid amſer gwerthfawr yn parhau i'w nyddu cyhŷd.

2. Y mae ganddo ſwyaf o addewidion, ac y maent yn fawrion ac yn werthfawr. *Mi a'ch derbyniaf chwi*, medd yr Arglwydd. *Y ſawl a'm ceiſiant yn foreu a'm cânt*, Amſer cymmeradwy yw'r amſer preſennol; yn yr hwn y gellir cael Duw, *Pſal.* 32. 6. Yn awr y mae Duw yn galw, *Heb.* 3. 7. ac chwi ellwch ddyfod a chroeſaw wrthych, *Joan* 6. 37. Ac fe ſydd yn achos o ddiddanwch anrhaethadwy i ŵra fo'n marw, ac yn edrych ar dragywyddoldeb, wybod iddo wneuthur y gwaith er mwyn yr hwn y cafas efe ei fywyd a i amſer.

3. Y mae gennych yr Eſamplau goreu. A'ch dyled yw dilyn a chanlyn y ſawl a aethont o'ch blaen i'r Nefoedd. Ni fynnai eich Arglwydd anwyl golli dim amſer; *Rhaid i mi weithio gwaith yr hwn a'm hanfonodd, tra ydyw hi yn ddŷdd*, Joan. 9. 4. Pan oedd *Abraham* ffyddlon ar fedr offrwm ei fab *Iſaac*, fe fryſiodd, *Gen.* 22. 3. Ete a foreu-gododd. *Mair Fagdalen* a ddaeth yn foreu iawn i ymofyn am ac i weled yr Arglwydd Ieſu yr hwn oedd hoff gan ei henaid, *Marc.* 16. 2. Anno-

Annogaeth 2. *Duw y Barnwr cyfiawn a wna gyfrif a chwi am eich amſer.* Nid yn unig am eich Iechyd, eich golud, eich nerth, eich donniau, eich graſau a'ch côf, eithr hefyd am bob munud o'ch amſer. Os bŷdd yn rhaid i ni yn nŷdd y Farn roddi cyfrif am bob gair ſegur, mwy o lawer am Dalent mor werthfawr, am Dryſſor mor gyfoethog ag yw amſer. Medrai gŵr cenhedlig ddywedyd, ſod yn rhaid i bob gŵr Doeth, *tam otii quam negotii rationem reddere*, roddi cyfrif am ei ſeguryd cyn gyſtled ag am ei drybeſtod. Chwi a ellwch niegis ynfydion waſtraffu eich amſer, eſgeuluſo eich dyledſwyddau, a ſefyll allan yn erbyn galwad Duw; ond ſe fŷdd drûd i chwi; *Preg.* 11. 9. *Gwnâ yn llawen, wr ieuangc yn dy ieuengctid, a llawenycbed dy galon yn nyddiau dy ieuengctid, a rhodia yn ffyrdd dy galon, ac yngolwg dy lygaid: ond gwybydd y geilw Duw di i'r farn am hyn ôll.* Y mae Meiſtr mawr eich amſer wedi myned mewn traul mawr i'w barhau ef. Y mae goleuadau'r Nefoedd, y rhai ſy uwch eich pennau; (ac yn bennaf, Tywyſog holl oleuni y Nefoedd, yr Haul, yr Cawr gogoneddus a galluog hwnnw, Tywyſog a Choron yr holl Greaduriaid corphorol,) mal ped faent yn treulio ac yn gwaſtraffu eu nerth a'u bywiogrwydd Nefol, i ynnill

a rhoi amſer. Y mae Amſer yn dlws mor werthfawr, na fynnai Duw i nêb ei briſio i arall. Os gwnai gwr niwed i'r llall, fe fyddai yn rhaid iddo dalu am ei feddyginiaethu ef, ac am ei golled am ei waith, *Exod.* 21, 18, 19. Eelly y bydd yn rhaid i chwithau yn y dŷdd cyfrif mawr, roi cyfrif am eich holl Amſer, am bob Pregeth a glywſoch, am bob Sabbath a Sacrament a gawſoch hôll ddyddiau eich bywyd.

Annogaeth 3. *Fe ddarfu i chwi oll addo prynnu eich amſer.* Y mae Addunedau *Jehofah* arnoch. Dywedwch gyd-a *Dafydd, talaf fy addunedau, Pſal.* 116. 18. Os cyflawna y Duwiol ei addewid i'w niwed ei hun, *Pſalm* 15. 4. Mwy o lawer y dylech chwi gyflawni eich addewidion er budd i chwi 'ch hunain. Cymmerwch Gyngor y Gwr Doeth, *Preg.* 5. 4, 5. *Pan addunedoch addunedi i Dduw, nac oeda ei thalu: Y peth a addunedaiſt tal: Gwêll i ti fod hêb addunedu, nag i ti addunedu, a bod hêb dalu.* Pa fynyched yr ymrwym'ſoch chwi ymadael a'ch pechodau a wnaethoch trwy wybod, a byw'n ſobr, ac yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y bŷd ſydd yr awron, *Tit.* 2. 12. tyſtied Cydwybod. Os bydd i chwi y ſawl a twriadaſoch ddarllen, gweddïo, ſanctteiddio'r Sabboth, &c. Afradloni 'n oeſtad a threulio 'ch amſer yn ofer, ni bydd hynny yn unig

yn

yn dorriad addewid, ond yn bechod yn erbyn Goleuni, am yr hwn y bydd i'ch calonnau eich gwradwyddo; *ac os eich calon a'ch condemnia, mwy yw Duw na'ch calon, ac efe a wyr bob peth*, 1 *Joan* 3. 20. Cofiwch yr addewidion a wnaethoch yn y cyfryw Sacrament, neu pan i'ch dwysbigwyd yn eich calonnau gan y cyfryw a'r cyfryw Bregeth; neu pan fu Angau yn eich tai, neu chwychwi eich hunain yn agos atto; ac nac oedwch gyflawni eich Cyfammod: Ni watworir Duw, yr hwn fy Dduw'r gwirionedd: A hynny chwi gewch wybod cyn bo hîr. *Jephtha* a gyflawnai ei adduned i Dduw; *Myfi* (eb efe) *a agorais fy ngenau wrth yr Arglwydd, ac ni allaf gilio*, Barn. 11. 34, 35. *Herod* o herwydd ei lw, a barodd dorri pen *Joan fedyddiwr*, *Matth.* 14. 9, 10. Pa fawl gwaith y darfu i chwi ymrwymo eich cyffegru a'ch rhoddi eich hunain i Dduw a'i wafanaeth? Am hynny dywedwch, *Arglwydd, o herwydd ein haddewid, nyni a'n haberthwn ein hunain, ac a ddeuwn i fod yn eiddo ti, gan brynnu ein hamſer er mwyn dy ogoniant ti, a'n Hiechydwriaeth ein hunain.*

Annogaeth 4. Yſtyriwch, *fod dynion yn gymmeryd ac yn gwneuthur y goreu o amſerau yfaddas i bethau eraill.* Fe gymmerir yr amſer cymhwyſaf a goreu i brynnu, gwerthu,

thu, aredig, hau, a chywain i'ſguboriau, ac yn enwedig mewn amſerau drŵg ac anghyf-artal, Dynion a foreu-godant, a redant, a farchogant, ac a *ymſlinant yn y Tan*, fel y mae'r Prophwyd yn dywedyd *Hab.* 2. 13. *Gan brynnu'r amſer*, Trawſymddwyn ydyw a gymmerwyd oddïwrth Farchnat-wŷr, a fyddant yn foreu yn y Farchnad, rhag iddynt golli'r amſer cyfaddas i brynnu a gwerthu'r pethau goreu. Y Ddihareb yw, *Na erys amſer a llanw wrth nêb*; a bod *yn rhaid cyweir o'r Gwair tra fo'r tes a'r Haul yn ymddangos.* Nid oes nêb ond y dïog a gŵſg amſer Cynhauaf; ni chyll y Llafurwr diwyd ddiwrnod y prŷd hyyny. Ghriſtianogion, gwnewch yn y gorchwyl mawr hwn ſyn perthyn i'ch Eneidiau gwerthfawr, anfarwol na byddant feirw'n dragywydd, megis y mae dynion yn gwneuthur ynghylch pethau eraill. Y mae Melinyddion a Morwŷr yn achub ac yn gwneuthur yr eithaf o bob awel o wynt; *Ie, y Ciconia yn yr awyr a edwyn ei dymherau, y Durtur hefyd, a'r Aran, a'r Wennol, a wyddant ac a gadwant amſer eu dyfodiad, Jer.* 8. 7. Y rhai ſy yn dywedyd, heudyw neu foreu ni a awn i gyfryw Ddinas, ac a arhoſwn yno flwyddyn, ac a farchnattwn, ac a ennillwn, *Iago* 4. 13. a droant, (fel y dywedwn ni) bôb carreg, ac ni chollant ddim

ddim amſer i brynnu Bargen dda a phwrcaſu golud. Ac oni phrynnwn ni ein hamſer, a gwneuthur y goreu o'n Marchnadon yſprydol, i wneuthur rhag-ddarbod tros ein heneidiau, a dalant fwy na'r holl fŷd?

Annogaeth 5. *Y mae Satan, y Gelyn hwnnw a'r pen-twyllwr-enaid yn ymdroi yn oeſtad.* Cythraul diorphywys ydyw, ac y mae'n hoff ganddo ein cael ni'n ſegur. Griſtianogion, nid yw'r hen Sarph hon un amſer bryſurach ar waith, na phan ydym ni'n ſegur. Canys y mae ſeguryd yn goſod gwr yn noeth i holl faglau Uffernol a phrofedigaethau'r Fall; a'r prŷd hŷnny os daw profedigaethau, yr ydych oddïar ffyrdd Duw, ac os Satan a'ch caiff ar ei dîr ei hun, fe fydd rhy galed i chwi. Y mae'r Apoſtol yn mynegi i ni ei fôd e'n rhodio oddïamgylch, ac yn cynnyg profedigaethau'n oeſtad i waſtraffu ein hamſer. Y mae gan y Llew rhuadwy hwnGylch ehang; canys fe fu erioed er pan fwriwyd ef allan o'r Nefoedd, yn tramwy ar hyd y ddaiar, ac yn ymrodio ynddi, *Job.* 1. 7. Ei amcan pennaf ef yw ceiſio y nêb a allo ei lyngcu, 1 *Petr.* 5. 8. Y mae'n dda gan y Tywyſog du yma yſglyfaethu Eneidiau gwerthfawr; gan mai'r Enaid yw'r Tammaid melus hwnnw y mae efe yn agor ei ſafn am

dano 'n oeſtad. Y mae gan y Gwrthwynebwr hwn ei amryw rodfeydd, y mae efe yn y Siop, yn y Farchnad, yn yr Heol, yn yr Yſtafell, yn y Gêll, ac ym mhob man lle mae pechod; ac y mae fe hefyd yn y Gynnulleidfa ym mhlîth Cymmanfeydd y Sainct, pan ſ'ont ynghylch gwaſanaeth yſprydol. Pan ſafodd *Joſhua* 'r Arch-offeiriad ger bron yr Arglwydd, Satan a ſafodd ar ei ddeheu-law ef i'w wrthwynebu ef, *Zech.* 3. 1. Fe fu'r gelyn marwol hwn gŷd-a Chriſt a'i Ddiſgyblion ar wyl y Paſc, canys yno'r aeth efe i mewn i *Judas Iſcariot*, *Joan* 13. 26, 27. Am hynny, Griſtianogion, mae'n rhaid i ni weithio a gwilied hefyd.

Y mae'r Cythraul ſy'n eich caſſau chwi a holl ddynol ryw, yn ymdrafferthu; y mae fe'n mynd allan i ffordd lydan halogrwydd, ac yno y mae fe'n cynnyg temptio dynion a gwrthddrychau bydol; ac y mae fe'n myned i mewn i gau-lwybr amryfyſedd, gan ymddangos fel Angel goleuni, ac yn hudo ſynhwyrau gwammal i ſugno i wared wenwyn ei Athrawiaeth ddamnedig. Ac wedi iddo unwaith fwrw ei wenwyn i mewn i'r pen, pa faint o amſer a dreulir wrth 'ſgrifennu ac ymreſymmu i ymddiffyn ei hudoliaethau ef? Yr ydym yn darllen, mai tra yr oedd y dynion yn cyſgu, y daeth y gelyn hwn, (Satan) ac a hauodd efrau ym mhlith

mhlith y Gwenith, *Matth.* 13. 25, 39. Y mae'r Diafol yn weithiwr rhodreſgar, heb orphywys un amſer, eithr y mae efe bob amſer yn tanu ei Abwydau, ac yn bwrw ei Rwydau a'i Faglau i ddal Enaidiau. Am hynny byddwch ſobr, a gwiliadwrus i weddïaw, 1 *Petr.* 4. 7. a gwnewch ddefnydd da o'r Dalent hon o amſer gwerthfawr. Seguryd yw Marchnatty Satan, a Mam dryglioni. *Dafydd* oedd yn ſegur ac ar neb ei dŷ, pan demptiodd Satan ef i hoffi Gwraig *Vrias*, 2 *Sam.* 11. 2, 3. O herwydd pa ham goſodwch Dduw bob amſer ger eich bron, ymgedwch ar ei ffordd ef, a byddwch yn gwneuthur eich dyled, fel i'ch cadwen rhag piccellau tanllyd y Fall. Anfynych y faetha ir yr aderyn aſo'n ehedeg; yr Enaid gochelog, eſgud a bywiog ſy ddïogelaf.

Annogaeth 6. *Amſer wedi myn'd unwaith, ni ellir ei alw'n ol drachefn.* Yr amſer a aeth, ſy wedi myned yn dragywydd; yr amſer ſydd (os felly y gallwn ei alw ef) ſy'n myned, yr amſer a ddaw ſydd dra amhëus, ni all na dynion nac Angylion di rwyſtro na'i attal; ei ddychwelyd na'i ddwyn yn ol drachefn. Os ni oddiweddir odfeydd cyfaddas yr awr hon, fallai na chaid byth mo honynt. Byddwch yn wŷr yn gwneud yn dda o'ch amſer, a gweithiwch yn awr, rhag na chewch weithio dim mwy.

Pryanedigaeth amſer a all fod yn Iechydwriaeth i chwi; am hynny dilynwch y goleuni a gwnewch y goreu o honaw, cyn y goddiweddo y tywyllwch chwi. Chwi a wyddoch bawb o honoch, na ddaw doe, neu'r awr a aeth heibio bŷth yn ol drachefn. Pe bai gennych gymmaint o Dryſſor yn eich cadwraeth neu'ch meddiant ag a dalo'r hôll fŷd, ni allai bwrcaſu un munud o'r amſer a aeth ymaith. Y mae mor hawdd i chwi, y rhai ydych yn Gleiriachod, alw eich ieuengctid yn ol, neu ddyfod yn ieuenge etto, ag ynnill yn ol un rhan fechan o'r amſer gwerthfawr hwn. *Luc.* 19. 42.

Annogaeth 7. *Y mae anian Gras iachuſol yn gweithio ac yn tarddu*; yr hwn ſy'n troi holl allu a nerthoedd yr Enaid tua'r Neſoedd. Y fâth ydyw bywiogrwydd a grym yr anian raſuſol hon, ag y dwg hi ddŷn i ddywedyd, *Arglwydd, beth a fynni di i mi ei wneuthur*, *Actſ* 9. 6. *Epheſ.* 2. 10. Nid pêth muſgrell a ſwrth ydyw, ond yn llawn bywyd a nerth. Cyflwr pechod a oſodir allan yn yr Sgrythyr Lan wrth angau a thywyllwch, y rhai ydynt orphywyſiad a diddymmiad bywyd, goleuni, a chynhyrfiad; a chyflwr Grâs a oſodir allan wrth fywyd, *Eph.* 2. Yr hwn ſy'n nerthol ac yn dra bywiog, fel cleddyf yr Arglwydd a *Gedeon*, yn gwneuthur mawrhydri. Nid

yw

yw ddim yn rhyfedd gweled dynion y byd, a anwyd yn ol y cnawd, yn farwllyd, yn ddiog, ac yn gyſgaduriaid. Eithr, chwychwi y ſawl ſy gennych natur Dduwiol, ac yſpryd bywyd a nerth yn eich calonnau, a ddylech fod yn ddiwyd ac yn boenus, 2 *Tim.* 1. 6. *Rhuf.* 8. 2. Y Wyddor fywiol hon o Ras a wnaeth i'r Apoſtol bendigedig, yr hwn a annogodd eraill i brynnu eu hamſer, felly wneuthur yn dda o'i Dalent ei hun; Gràs Duw, yr hwn a roddwyd iddo ef, a wnaeth iddo lafurio yn helaethach na hwynt oll. 1 *Cor.* 15. 10. Y Ffrydiau o ras ſy'n dylifo i'r enaid, a elwir, yn *afonydd o Ddwfr bywiol, Joan* 7. 38. Ac yn *ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol*, Joan 4 14. Yn gymmaint a bod gan Griſtianogion fwy o fantais i wneuthur daioni, a byw er Gogoniant i Dduw. O herwydd pa achos ail-enynnwch Ras Duw yr hwn ſydd ynnoch: Bwriwch ymaith ſyrthni, a gwiſgwch ddiwydrwydd; a chan roi heibio bob pŵys, ymlawenhewch (fel yr Haul) i redeg yr yrfa a oſodwyd o'ch blaen chwi.

Annogaeth 8. Yſtyriwch, *Mor uchel y mae y rhai hynny yn priſio'r amſer, a'i collaſant ef, ac a ddaethant i'w ddiwedd ef; a'r rhai gyd-a choili'r amſer a'u collaſant eu hunain hefyd.* Y mae gennym lawer o Eſamplau ofnadwy, yn ſefyll megis cynnifer o For-nodau i'n rhybuddio ni i ochel. Yr

Yr Juddewon truein a hŵyr ddiniſtriwyd trwy hynny. Yr Arglwydd yn unig a wyr pa niſer o honynt ſy'r awr hon yn y ffiam yn dioddef angerdd tan tragywyddol, am beidio a gwneuthur y goreu o ddŷdd Gras, *Luc.* 19. 42. *Matth.* 23. 37. Y pum Morwyn ffol wedi colli'r amſer cyfaddas i brynu olew, a ddaethant at y Drŵs wedi ei myned hi'n rhy hŵyr. Ac *Eſau* a arhoſodd yn rhy hîr i ynnill y fendith; y mae y rhan fwyaf yn gwneuthur pathau pan fo hi'n rhy ddiweddar. Y mae dynion yn myned yn hŵyr i gyſgu, yn codi yn hŵyr, yn myned yn hŵyr i'r farchnad, yn dyfod yn hŵyr i'r Eglwys, ac yn heddychu a Duw pan fyddo hi'n rhy hwyr. Yr hen *Iſraeliaid* a aethant tua *Chanaan* pan oedd hi'n rhy hwyr, ac felly a gollaſant y wlad dda honno. O mor ofnadwy fydd trugaredd a ddibriſiwyd, ac amſer a gollwyd i'r Enaid deffrous, pan ddêl i farw, wrth ei weled ei hun mewn cyflwr truenus hêb Ghriſt ganddo! Gwraig gynt mewn dychryn Cydwybod, pan ddaeth amryw Weinidogion ac eraill atti i'w chyſuro, a edrychodd arnynt ag wyneb eethinllyd, ac a'u hattebodd fel hyn, *Gelwch amſer yn ol drachefn, os gellwch chwi olew amſer yn ol drachefn, yna fe ail fod gobaith am danaf fi: eithr amſer a aeth ymaith.* Arglwyddes arall ar ei gwely-angau, a waeddodd,

waeddodd, *y cwbl yn rhy hwyr, y cwbl yn rhy hwyr, byd o Olud am fadfedd o amſer.* Gwraig fonheddig arall (a glywais iſon am dani) yr hon a fyddai yn arfer treulio 'r Dalent werthfawr hon o amſer wrth chwarae Cardiau a'r cyffelyb ddifyrrwch, yn dyfod oddiwrth ei llawenydd pan oedd hi'n llawer o'r nos, a gafodd ei llaw-forwyn (yr hon oedd grefyddol) yn darllen mewn Llyfr da; a chan edrych yn y Llyfr tros yſgwydd y forwyn, a ddywedodd y geiriau hyn, neu'r cyffelyb, *O druan driſt drom galon! beth a wyt ti bob amſer yn darllen, ac yn treulio d' amſer fel hyn! a gymmeri di ddim diddanwch yn dy fywyd?* Y Wraig fonheddig gan gilio iw ſtafell a aeth i'r gwely. Y Forwyn, gan ei bod yn yr un Stafell, a ddeallodd fod ei Meiſtres mewn aflonyddwch mawr a blinder yſpryd yn ochneidio ac yn cwyno'n chwerw-doſt. Y Forwyn yn ei chlywed hi felly, a ofynodd iddi'n fynych, bêth oedd yn rhwyſtro iddi gyſgu: Gan mor daer oedd y forwyn arni, hi a waeddodd o'r diwedd, ac a ddywedodd, *Myfi a ddarllenais y gair hwn* TRAGYWYDDOLDEB *yn dy Lyfr di, yr hwn a wanodd fy nghalon i felly, fel na chyſgwyf rwy'n tybied byth ond hynny, nes bo gennyf well ſiccrwydd am fy Nhragywyddoldeb.* Arglwyddes afradlon arall a waſtraffodd

ei

ei hamſer mewn difyrrwch bydol, a ddywedodd wrth ei Mam ddrygionus oedd yn ſefyll wrth erchwyn y gwely, Fod *yn rhy hwyr ſon am Dduw wrthi; canys ti a'm diſethaiſt i (eb y hi) ac yr wyſi 'n myned ym mlaen i Uffern, a thithau a ddeui yn ſicr ar fy ol i.* Y mae'n gyffredin gan laweroedd wrth farw, a myned i'r bŷd arall, gwyno'n doſt iddynt golli'r amſer. Pan font yn ofni fod Trugaredd wedi myned, Amynedd wedi darfod a'r amſer a ganiadhawyd iddynt i edifarhau wedi mynd troſtynt, y prŷd hynny y medrant ddodi prîs arall ar amſerau cyfaddas. Ac oh bêth a roddai'r rhai damnedig ſy'n Uffern am gael eu gollwn gi'r bŷd, i fwynhau pe caent ond un diwrnod neu awr, i'w gwaredu eu hunain o'r lle poenus ofnadwy hwnnw, *Luc.* 16. 27, 28.

Annogaeth 9. Yſtyriwch, *Ddarfod i Ddduw uno amſer a dyledſwydd ynghyd*; a hynny o ran dau beth:

1. O ran Cymmorth.
2. O ran Bodlonrwydd

1. Fe unodd Duw amſer a dyledſwydd ynghyd o ran Cymmorth: ac nid oes yn un modd wahanu'r peth a gyſſylltodd Mawrhydi anfeidrol. Mae'n rhaid i Waith ac amſer, Odfa a Dyledſwydd ſyned gŷd-

a'u

a'u gilydd; yr oedd ei waith gan *Adda* ym *Haradwys* cyn y cwymp. A'r ail *Adda* oedd yn oeſtad yn gweithio, hyd ddiwedd ei ddyddiau. Ei fwyd a'i ddîod ef oedd gwneuthur ewyllys ei Dad. *Nullus mihi per otium dies exit*, Nid oes gennyf un dŷdd i fôd yn ſegur, oedd iaith Gŵr Cenhedlig. Ghriſtianogion, gwnewch eich gwaith mewn prŷd ac chwi a gewch gymmorth. Y mae amſer Duw megis gwŷnt i'r hwyliau, neu megis olew i'r olwynion, yr hwn a wna i chwi fyned rhagoch trwy ddyledſwyddau anhawdd yn eſmwyth iawn. Os gweithiwn ni yn amſer Duw, fe weithia Duw gyd-a ninnau, ac ni a gawn fod yn gydweithwyr gŷd-ag ef. Amſer yr Efengyl a ganiadhawyd i wneuthur gwaith yr Efengyl; Odfeydd yſprydol a ordeiniwyd ac a wnaethwyd i barhau i wneuthur gwaith yſprydol. Gwaith Ffŷdd Edifeirwch, Marwhau pechod, tynnu llygaid dehau, torri breichiau dehau, ymladd ac ymdrech ac awdurdodau a Thywyſog y Tywyllwch ſy anhawdd iawn: Eithr Duw, braich yr hwn ſydd alluog, a rydd nerth; ac mor hawdd y gwneir gwaith neu waſanaeth mawr, pan ſo cymmorth mawr i'w wneuthur ef? Y bauch a fo'n rhy drwm i un i'w godi, a godir yn hawdd trwy gymmorth un arall. Hyn y mae Paul yn ei dyſtio, *Phil.*

4.

4. 13. *Yr wyf yn gallu pob peth trwy Gbrift, yr hwn ſydd yn fy nerthu i* Yr *Iuddewon* gweiniaid trwy gymmorth *Iehofah* a godaſant i fynu furiau *Hieruſalem* hŷd yn oed o'r llŵch, a hynny er gwaethaf pob gwrthwynebion, *Neh.* 4. 2, 3. & 6. 15. Tra'r oeddynt hwy yn gweithio'r gwaith, yr oedd yr Arglwydd gŷd-a hwynt trwyei fawr allu a'i fraich cadarn; hwy a wnaethant eu gweddiau ar Dduw, pan oedd nerth ym mron pallu, ac a weithiaſant yn y gwaith o gyfodiad y wawr hŷd gyfodiad y ſêr, ac felly y mur a orphenwyd. Prynner amſer, ac yna fe ellir gwneuthur llawer iawn o waith mewn ychydig o amſer: Amſer cyfaddas Duw a wna gredu ac edifarhau yn hawdd, *Luc.* 19. 6. *Acts.* 2. 37, 41. *Acts.* 16. 14, 34. O gan hyny tra yw hi'n ddŷdd gweithiwch allan eich Iechydwriaeth eich hunain; canys *Duw yw'r hwn ſydd yn gweithio ynoch ewyllyſio a gweithredu, o'i ewyllys da ef*, Phil. 2 12, 13.

2. Fe unodd Duw amſer a dyledſwydd ynghŷd o ran bodlonrwydd. Nid yw pob amſer yn amſer cymmeradwy, 2 *Cor.* 6. 2. Yr Iſraëliaid a wrthodaſant fyned i fynu i wlad Canaan ar orchymmyn Duw, a gollaſant eu hamſer, ac wedi hynny ni wnae eſe na'u *cynnorthwyo*, na bodloni iddynt. Os arhoſwch nes b'o amſer Duw wedi myn'd a

darfod

darfod, a ydyw yn ſicer gennych y bŷdd Duw bodlon i chwi rhag-llaw? Y mae amſer pan na cheir Duw, na cheir chwedleua ag ef, *Eſay.* 55. 6. *Eſau* a geiſiodd y fendith mwy ddagrau, a hi a ballwyd iddo. *Heb.* 12.17. Na ddywedwch pa raid ſy wrth gymmaint o bryſuro? Pa raid wrth gymmaint o wneuthur y goreu o'r amſer, gymmaint o ddarllen, gwrando, gweddïo, pregethu, eithr cwympwch ynghŷd a'ch dyledſwyddau bellach neu beidiwch.

Annogaeth 10. Yn ddiweddaf, Yſtyriwch, *Mai ar y Munud preſennol o amſer y mae tragywyddoldeb yn ymddibynnu.* Y myſyrdod dwfn a chalon-gyffrous hwn a ddylai hyd yn oed ein llyngcu ni i fynu i beri i ni bryſuro at ein gwaith. Gadewch i gyfaddafwydd amſer fyned ymaith ac fe'ch difethir yn ddi-ai bŷth ac yn oes oeſoedd. Pan ofynnwyd i'r Paentiwr pa ham yr oedd e'n tynnu ei linieu mor gywreint fe attebodd, *yr ydwyf yn paentio am dragywyddoldeb* Yſtyriwch, fod yn rhaid i chwi gredu ac edifarhau am dragywyddoldeb, wrando a gweddïo dragywyddoldeb, ofni, caru ac ufuddhau Dragywyddoldeb. Y mae gwaith o *bwys anfeidrol* yn ymddibynnu ar *fynud o amſer.* Heddyw y gellwch daflu eich tro diweddaf am Dragywyddoldeb. Ni erys y Rhedegwr cyflym hwn, na wna gymmaint

a munud awr. O ddynion difraw! A ydych chwi 'n canfod tragywyddoldeb o'ch blaen, ie wrth eich dryſau, ac nad oes ond megis cam rhyngoch chwi a chyflwr diddiwedd, ac oni fyddwch chwi yn fwy diwyd am eich Eneidiau a'r Nefoedd. Pe bae gŵr i redeg neu ymaflyd am ei fywyd, neu am Goron, neu Frenhiniaeth; pa fodd yr ymdrechai ac yr ymorcheſtai efe, a hynny a 'i holl egni? Pe bae gŵr i fyned tros For am ei Hoedl, ac heb fod ganddo ond un awel o Wynt i'w chael yn amſer ei fywyd, a ddeuai efe i lan y dwfr, a'i cholli hi? Pe bae gan ddrwg-weithredwr ond Diwrnod wedi ei bennodi iddo i geiſio ei bardwn, oni wnae efe'r goraf o honaw; Dyma fel y mae ein cyflwr ni oll: ni roddes Duw i ni ond diwrnod i weithio, pan ddarfyddo'r diwrnod, hi a a 'n nos yn dragywydd, *Luc.* 19. 42. *Joan* 9. 4. Fe allai fod Criſt yn awr wrth y drŵs yn cynnyg i chwi gymmorth, agorwch iddo, rhag iddo fyn'd ymaith, a pheidio a dyfod mwyach. Fe allai fod yſpryd bywyd a nerth, yn ymdrechu am droi at Dduw, oh na phallwch a chyttuno ag ef, rhag i'r yſpryd wneuthur a chwi fel y gwnaeth *Samuel* a *Saul*, yr hwn nid ymwelodd ag ef mwyach hŷd ddydd ei farwolaeth ef, 1 *Sam.* 15. 35. Myfi a ddiweddaf yr Annogaethau a geiriau'r *Pſalmydd*, *Heddyw os gwr a ndewch*

ar ei leferydd, na chaledwch eich calonnau, rhag i Dduw dyngu yn ei lid, na ddeloch i'w orphywysfa ef. Pſal. 95. 7, 8, 11.

Yn awr os ydych yn bwriadu ymarfer y Ddyledſwydd hon trwy help Duw, deliwch ſulw'n ebrwydd ac yn ddïeſgeulus ar yr Hyfforddiadau hyn.

Hyfforddiadau i brynnu'r Amſer.

1. *Gochelwch ac ymgedwch rhag y cyfryw betbau a ddygant yr Amſer oddiarnoch.*

2. *Ymdrechwch am ddyfod i ddeall gwerthfawrogrwydd yr amſer a phriſiwch ef yn ddyladwy.*

3. *Neilltuwch gyfran weddaidd o Amſer i gyflawni 'r dyledſwyddau dirgel ef.*

4. *Bwriwch i fynu a chyfrifwch eich amſer.*

5. *Cynheliwch ofn ſanctaidd ar eich calonnau rhag dyfod o honoch i ddiwedd yr Amſer yn gorphen eich gwaith.*

Hyfforddiad. 1. *Gochelwch y cyfryw bethau a ddygant eich amſer oddiarnoch.* Yn awr y Lladron a ddygant y tlws tragwerthfawr hwn oddiarnoch, yw'r chwech hyn, yn erbyn y cyfryw rai gwiliwch megis am eich bywyd.

1. *Meddyliau ofer.*
2. *Gofalon bydol.*

3. *Ym-*

3. *Ymweliadau anangenrheidiol.*
4. *Ymddiddanion anfuddiol.*
5. *Gwneuthur yn ormod o'r dŷn oddiallan.*
6. *Chwaryddiueth anghyfreithlon neu anghymhedrol.*

1. *Meddyliau ofer.* Lladron dirgel a chyfrwys yw'r rhai hyn, a'r y ſy'n dŵyn ein hamſer hêb wybod i ni beunydd, ac ym mhôb dyledſwydd; Y mae meddyliau ofer, ammherthynol ac annuwiol fel Llyffaint *Pharao* yn ymluſgo ac yn heigio i mewn am ein pennau, ac yn taflu allan feddyliau da fel na's gallom gadw ein meddwl yn ddïyſgog ac yn ſafadwy. *Salomon* ſy'n dywedyd, *Dihar.* 17. 24. *Llygaid y ffyliaid ſydd yngkyrrau'r byd*; felly y mae ein meddyliau ni yn cyrwydro, ac yn rhedeg i fynu ac i wared, yma ac accw, ac i bôb lle. Y mae'r meddyliau drŵg hyn yn tarddu ac yn codi oddi-fewn i ni, mor naturiol a'r gwreichion oddïwrth y Tan, *Gen.* 6. 5. *Matth.* 15. 19. *O'r galon y mae meddyliau drwg yn dyfod allan.* Ac y maent hwy yn ein canlyn ni'n oeſtad ym mhob lle, ac ym mhob gwaſanaeth, fel yr Adar ar Aberth Abraham, y rhai a darfodd *Abraham*, *Gen.* 15. 11. Nid oes i ni letteua mo honynt. *Jer.* 4. 14. Er nad allwn ni leſtair i'r Adar ehedeg yn yr awyr, neu tros ein pennau; etto

etto ni a allwn leſtair iddynt ddiſgyn ar ein pennau. Yr oedd meddyliau ofer gan Ddafydd ſanctaidd, eithr efe a'u caſſaodd hwynt, *Pſalm* 119. 113. Nid oes un munud awr nad oes llawer o feddyliau yn myned oddïwrthym, megis y mae llawer o dywod mewn munud awr yn rhedeg mewn awr-leſtr, *Pſal.* 94. 19. Griſtianogion, yſtyriwch pa faint ydys yn ei golli o'r amſer hwnnw, a'r ydych chwi'n ei dreulio mewn dyled-ſwyddau ſanctaidd, trwy feddyliau ofer, pan ddylem ni ddyneſſau at Dduw, y mae'n calonnau'n rhedeg gyd-a'n meddyliau anwadal ymaith yn lladradaidd. Ac nid oes ond ychydig o rai tyner deffrous, yn wîr deimladwy o'r drŵg dirgel hwn oddi fewn; er bod rhan fawr o ddyled Criſtion, a gwîr ymyſgaroedd Crefydd yn ſefyll yn nal ſylw ar y meddyliau, a gwilied y galon. Am hynny uwch-law pob cadw, cedwch eich calon, *Dihar.* 4. 23. a gwiliwch ar eich yſpryd, *Mal.* 2 15, 16.

2. *Gofalon bydol* ydynt yn gwaſtraffu llawer o'n hamſer gwerthfawr ni. Y mae'r rhan fwyaf o ddynion yn ſynied perthau daiarol, *Phil.* 3. 19. Y mae eu pennau, eu calonnau a'u meddyliau, yn rhedeg mor ddyfal ynghylch y perthau a dderfydd, fel na's gallant ond braidd, feddwl o ddifrif unwaith trwy 'r dydd am Dduw a Thragywyddol-

gywyddoldeb. Nid yw Duw yn eu holl feddyliau. Y rhai ſydd yn ol y cnawd, am bethau'r cnawd y maent yn ſyniaw, *Rhuf* 8. 5. Ac nid yn unig plant y bŷd hwn; eithr Proffeſſwŷr eu hunain, ydynt mor llym ac mor daer yn ymlid y ddaiar wael hon, yn gymmaint a'u bod gan mwyaf yn treulio 'u holl nerth a'u hamſer yn ei chylch hi. A thra fo dynion mor ofalus ac mor drafferthus fel *Martha*, ynghylch llawer o bethau, *Luc.* 10. 41. ac mewn torf a lliaws o drallodion, y mae'n amhoſibl iddynt brynnu amſer i Dduw a'u heneidiau. Cyn gynted ag yr agorir eu llygaid, y mae pethau'r bŷd hwn yn ſefyll megis cynnifer o Erfynwŷr, i'w gwahawdd a'u tynnu attynt. Y mae calonnau rhai wedi trymhau gan lothineb a gofalon ac arſwyd y bŷd twyllodrus hwn, fel na ad eu llawnder iddynt gyſgu, *Luc*, 21. 34. *Preg.* 5. 12. Yn awr pan yw hi fel hyn, amſerau cyfaddas a gollir, Eneidiau a eſgeuluſir, Dyledſwyddau ſanctaidd a adewir heibio, neu os arferir, y maent yn afliwyddiannus iawn, *Ezec.* 33. 31. *Matth.* 13. 22. Am hynny gochelwch y bŷd, yr hwn ſy'n difa cymmaint o amſer.

3. *Ymweliadau anangenrheidiol* ydynt yn gwaſtraffu llawer o'n hamſer ni: Y rhai ſy raid i chwi eu gochel, gan nad yw hynny yn ddim nod o Dduwioldeb, ond y gwrthwyneb.

wyneb. Y mae'r gŵr doeth gan lefaru am y wraig feïus a'r wraig rinweddol, yn rhoddi iddynt y gair hwn yn wahanol, ſef, y naill, *ei thraed nid arhoant yn ei thy*, Dihar. 7. 11. Y llall *a graffa ar ffyrdd tylwyth ei thy*; *ac ni fwytty hi fara ſeguryd*, *Dihar.* 31. 27. Ac yr ydym yn darllen am rai a rodiaſant o amgylch o dŷ i dŷ, gan fod yn *wag-ſiaridus*, *ac yn rhodreſgar*, *gan adrodd pethau nid ynt gymmwys*, 1 *Tim.* 5. 13. Pa fodd y mae dynion yn treulio 'r amſer yn ofer gan fyn'd o dŷ i dŷ, wrth y rhai y gellir dywedyd fel y dywedodd *Pharao* wrth yr *Iſraeliaid* gorthrymmedig, *ſegur*, *ſegur ydych*, *Exod.* 5. 17. Treuliwch yr Amſer hynny ſy gennych i'w hepcor oddïwrth eich Galwedigaethau a'ch Teuluoedd trwy Ddarllen, gweddio, neu ymarferion Crefyddol eraill: ac yn eich holl ymweliadau, bwriedwch ac amcenwch wneuthur daioni, neu dderbyn daioni; ac nid treulio ymaith yr amſer gwerthfawr hwn. Pan fo'ch Cyfeillion neu'ch Cymmydogion yn gleifion, a than law Dduw, ewch attynt, a rhowch Gyngor iddynt er lleſſad i'w heneidiau, *Rhuf.* 15. 2.

4. *Ymddiddanion anfuddiol* ſy'n dŵym llawer o amſer oddïarnom. Y mae rhai ym dodi eu Tafodau i ddywedyd yſtoriau celwyddog a chwedlau gwrachiaidd; eraill i ofer-ſiarad am bleidiau ac opiniwnau, ac i

adrodd beiau a chamymddygiad dynion eraill. Rhai ynghylch yr amserau, ac i ymofyn am newyddion. Mal hyn y gwnaeth yr *Atheniaid*, y rhai nid oeddynt yn cymmeryd hamdden i ddim arall, ond i ddywedyd, neu i glywed rhyw newydd, *Actſ* 17. 21. a'r rhan fwyaf, pan ddelont ynghŷd, a dreuliant yr amser ymaith trwy chwedleua am y Bŷd a'i bethau. Ond Criſtianogion, pan ymddiddanont, a ddylent ganlyn eu Harglwydd; y geiriau a ddae allan o'i enau ef oedd eiriau graſuſol, *Luc.* 4. 22. *Rhodiwch mewn doethineb tu-ag at y rhai ſy allan, gan brynnu 'r amſer. Bydded eich ymadrodd bob amſer yn raſol, wedi ei dymheru a halen, fel y gwypoch pa fodd y mae yn rhaid i chwi atteb i bob dyn, Col.* 4. 5, 6.

5. *Gwneuthur gormod o'r dyn oddiallan.* Yr ydys yn treulio llawer o'n hamſer trwy wneuthur rhag-ddarbod tros y cnawd, *Rhuf.* 13. 14. Fe dreulir rhai oriau beunydd wrth barottoi i'r bol, a boddhau'r genau; ac y mae rhai yn treulio llawer o amſer wrth eu Byrddau. Eraill i foddio meddwl balch, llawer o amſer a waſtreffir wrth drwſio a chymhennu'r Corph. Y mae rhai a dreuliant fwy o amſer wrth edrych mewn drŷch, nag ar eu gliniau yn gweddïo ar Dduw. Gweinidog Duwiol wedi dyfod i dŷ Gwraig ſonheddig i giniaw, lle y diſ-

gwiliodd

gwiliodd 'e wrthi o ddêg ar y Glôch hŷd un, yr hôll amſer hynny y bu hi'n gwiſgo am dani, a dorrodd allan i wylo, wrth feddwl ei bod hi'n treulio cymmaint o amſer wrth *ymwychu*, ac yntef cyn lleied *wrth weddio*. Hefyd y mae gormod o gyſgu yn diſa rhan fawr o'n hamſer byr a'n bywyd ni. Pan ddylem ni fod a'r ein Gliniau yn ein Stafelloedd, yr ydym ni yn ein Gwlau neu ar ein Gorweddfëydd. Eraill ydynt yn treulio eu hamſer gwerthfawr mewn Tafarn-dai, a Phuttein-dai o ddŷdd i ddŷdd; hêb adael gymmaint a Dŷdd Duw heibio. Yn erbyn y cyfryw rai y mae Gwae ofnadwy, *Gwae y rhai a gyfodant yn foreu, i ddilyn Diod gadarn, a arhoſant hyd yr hwyr, hyd oni enynno y gwin hwynt*, Eſa. 5. 11, 12.

6. *Chwaryaeth anghyfreithlon neu anghymhedrol* ydynt achoſion o fawr draul amſer. Y mae Chwaryddiaeth (yr hwn nid oes arfer mo honaw ond megis Phyſygwriaeth pan fo'n rhaid wrtho) yn dreiſiwr ac yn Waſtraffwr o'n hamſer, yr hwn ſy'n anwyl ac yn werthfawr. Y mae llawer mor rhydraul ynddo, mal pe nad anfonaſid mo honynt i'r Bŷd i wneuthur dim ond Chware. Pa faint o amſer ydys yn ei dreulio wrth chwarae Cardiau, Diſiau, Downſio, Enterluwd, chwarae'r ſtaids, baitio Arthod a Theirw, hela, adara, a darllen Llyfrau

celwyddog? Y rhai i wŷr a gwragedd yn Proffeſſu'r Efengyl, nid oes air da o'u dilyn, *Phil.* 4. 8. Fe wedda'n well i Ghriſtion fod yn troi'r Bibl, neu ryw Lyfr dâ, na bôd yn troi par Gardiau. Chwaryddiaeth cymmaint mewn arfer ym myſg y rhai halogedig, a'r achos o gymmaint o bechod. Y pethau hŷn a barant chwerwder, a dychryn yn y diwedd; y waent yn fêl i'r meddwl, ond yn golyn i'r Cydwybod. Yſtyriwch pa'r un a rŷdd fwyaf cyſur wrth farw; ai cynnifer o ddyddiau mewn Chwaryaeth, neu gynnifer o ddyddiau mewn goſtyngeiddrwydd: Cynnifer o oriau mewn Gweddi, neu gynnifer o oriau yn chwarae Cardiau: cynnifer o oriau mewn ymadroddion ofer halogedig, neu gynnifer o oriau mewn ymddiddanion pruddaidd a Nefol? Hefyd dreulio cynnifer o Sabbothau wrth ddarllen, gwrando a chanu Pſalmau, neu dreulio cynnifer o Sabbothau wrth fwytta ac yfed, rhodio ac eiſtedd, neu'n waeth na hynny. *Bradfford* ſanctaidd a gyfrifodd yr awr honno'n golledig, yn yr hon ni wnaeth efe ryw ddaioni. *Titus Veſpatianus* a fyddai'n arfer dywedyd, *Diem perdidi*, Mi gollais ddiwrnod.

Hyfforddiad 2. *Goſodwch iawn bris ar y Tlws gwerthfawr hwn ſef amſer*, fel y bo 'ch calonnau felly 'n wir dyner, fel y bo arnoch ofn

efn o ran Cydwybod ei waſtraffu ef. Gweinidog Duwiol a fyddai'n arfer dywedyd, pan welai efe 'r borau yn eglur ac yn dêg, *Trueni yw colli'r dydd hwn.* O priſiwch eich amſer, gwnewch fwy cyfrif o un Sabboth, nag o'r Farchnad neu 'r Ffair oreu a fuoch ynddi erioed yn eich holl enioes. Goſodwch brîs Tragywyddoldeb ar y dŷdd Gras ſy'r awr-hon. Myfi a ddywedais i chwi euſys, y rhoddai 'r rhai Damnedig ſy'n Uffern (pe gallai hynny fod) Fŷd am un odfa i ymheddychu a Duw.

Hyfforddiad 3. *Neilltuwch gyfran weddaidd o amſer i gyflawni'r dyledſwyddau dirgelaf.*

1. Neilltuwch ryw gyfran o amſer forau a hŵyr beunydd i Weddi a Myfyrdod dirgel arferol; ac na theflwch amſerau gweddïau heibio a gwael eſgufodion. Y mae llawer yn gwaſanaethu'r Bŷd a'r Cnawd trwy'r dŷdd, ac yn rhoi Duw heibio ag ychydig eiriau neu weddïau cyſgadurus pan el hi'n Nos. Gweddi yw anadl y Creadur newydd, ac arwydd bywyd yſprydol, *Actſ* 9. 6. Ghriſtianogion, by'd eich gweddïau yn ddirgel, yn bur, yn wreſog ac yn ddïanwadal. Y mae'r ffordd i'r Nefoedd (eb'r gŵr da) trwy'r ſtafell, ac fe fu y rhai a fuant enwog mewn Duwioldeb, yn odidog mewn Gweddi. Ni adawai *Dafydd*

Dduwiol i foreu fyned heibio heb weddïo, *Pſal.* 5. 3. Ië tair gwaith yn y dŷdd y byddai efe wrth y ddyledſwydd fendigedig hon, *Pſal.* 55. 17. Ei elfen ef ydoedd a'i ddyfal orchwyl, *Pſal.* 119. 4. Mae'n rhaid i'ch Gweddi fod yn wreſog, os bydd hi'n effeithiol. Gweddi heb wreſogrwydd ſydd megis Pelen heb Bowdwr, neu megis aderyn heb Adenydd, na ddichon godi i'r Awyr. Mae'n rhaid goſod tan ſanctaidd yn yr Aberth Beunyddiol. Y mae Duw yn atteb trwy Dân. Y mae'r hwn ſy'n edrych ar y galon, yn edrych mwy ar y modd y b'o 'ch gweddïau, nag ar rif eich gweddïau. Ni thyccia ſelgyngian yn oer ac yn yſgafn, a rhedeg yn ddiflas tros ychydig ddeiſyfiadau, naill ai o ran defod ac arfer, neu er mwyn cau ſafn Cydwybod, *Pſal.* 25. 10. *Eſay.* 26. 9. *Jago* 5. 16. Griſtianogion, yr amſer a dreulioch chwi gyd-a Duw yn y Dirgel, yw'r amſer melyſaf, a'r goreu a ddefnyddiwyd. Am hynny os ydych yn caru eich bywyd, by'd hoff gennych Weddi. Bwriedwch dreulio pêth amſer gyd-a Duw yn neilltuol beunydd.

2. Ympryd anarferol neilltuol ſydd ddyledſwydd dra angenrheidiol, ac nad arferir mo honi ond gan rai. Dyddiau i ddŷn gyſtuddio ei enaid rhwng Duw ac ef ei hun, a allant trwy Ras wneuthur llawer o leſſad

leſſad yſprydol iddo; y Gwŷr a ddyleat alaru wrthynt eu hunain, a'u Gwragedd wrthynt eu hunain, *Zech.* 12. 12, 13. Dyddiau ympryd a fyddant yn ddyddiau i beſgi'r Enaid, *Actſ* 10. 30. *Gwyn eu byd y rhai ſydd yn galaru*, Matth. 5. 4.

3. Y drydedd ddyledſwydd neilltuol yw hunan ymholiad pan fyddoch yn unig, gofynnwch i chwi'ch hunain y Cweſtiwnau hyn.

1. A yw'n dra dïamai ein bod ni mewn cyflwr o Ras?

2. A yw Gras yn myned ar gynnydd, a ydyw'n dŷn oddi-fewn yn llwyddo?

3. A ydym ni'n peidio byw mewn un pechod trwy wybod yn er'yn Cydwybod, ac yn ein harfer ein hunain i Ddduwioldeb?

4. A ydym ni'n gwneuthur Cydwybod o brynnu'r amſer, fel y bo i ni felly gyſſylltu amſer a dyledſwydd ynghŷd? Gwas gwerthfawr i'r Arglwydd a arferai ddywedyd, na byddai raid i ddŷn ofni, os gallai efe atteb y ddau Gweſtiwn hyn, yn gyntaf *A wyſi'n blentyn i Dduw?* yn ail, *A wyſi'n ffordd Duw? Pſal.* 119. 94.

Hyfforddiad 4. *Os mynnwch brynnu eich amſer, cyſrifwch eich amſer.* Gweddïwch ar allu o honoch wneuthur hynny, *Pſal.* 90.

12. *Pſal.* 39. 4. Cyfrif y bobl oedd pechod *Dafydd*, eithr cyfrif ei ddyddiau oedd Ddyledſwydd. Y mae yn bêth cyffredin gan ddynion rifo eu Defaid, eu Da, eu Tai, eu Tiroedd, eu Maſnach a'u Harian, ond rhifo ein Dyddiau ſy fath o rif ddieithr; am eſgeuluſo hyn pa faint ſy'n ol o gyfrifon rhyngom ni a phen Meiſtr ein hamſer? Ghriſtianogion, rhennwch eich amſer yn rhannau, ac yſtyriwch pa leied y mae Duw yn ei gael, pa faint o amſer a dreuliwyd yn eich Mebyd a'ch Mabolaeth, cyn y gwyddech beth oedd rheſwm; pa faint ym yn ei dreulio yn ein Galwedigaethau a'n Gorchwylion ynghylch y bŷd? Pa faint wrth fwytta ac yfed, ac mewn ymddiddanion anfuddiol? Heb-law hyn ei gŷd, yr ydys yn treulio hanner ein hamſer neu ragor wrth gyſgu: Felly fel nad ym yn treulio ond ychydig iawn o honaw, yngwaſanaeth Duw a'r gwaith a berthyn i'n heneidiau anfarwol: Am hynny y mae hi'n fwy na phrŷd ini ei brynnu ef.

Hyfforddiad 5. *Cynheliwch ofn ſanctaidd yn oeſtad ar eich calonnau rhag dyfod o honoch i ddiwedd yr Amſer, cyn gorphen eich gwaith.* Byddwch fyw bob amſer trwy ddiſgwil eich newidiad mawr. Prynnwch, gwerthwch, ymddiddenwch, darllennwch, gweddïwch, gwrandewch a gwnewch y cwbl fel rhai yn meirw,

meirw, ac yn myned i dderbyn taledigaeth llawenydd neu wae anorphennol. Ghriſtianogion, os mynnwch weithio tra yw hi'n ddydd; os mynnwch ogoneddu Duw ar y ddaiar; os mynnwch ſiccrhau a chadw'n dragywyddol eich Eneidiau anfarwol; os mynnwch ſefyll yn gyſurus ger bron yr Arglwydd Ieſu, wrth ei orſeddfaingc ofnadwy et; os ni fynnwch fod yn yſglyfaeth i Dywyſog y tywyllwch; os ni fynnwch dreulio eich dyddiau heb obaith: Cyfodwch am hynny, a gwnewch eich gwaith, a'r Arglwydd a fo gyd-a chwi.

Yr ail Traethawd ynghylch yſtyried ein Diwedd.

Deut. 32. 29.

Oh na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad yſtyrient eu diwedd!

MAe'n weddus i ni bob amſer daro ar y cyfryw Deſtunau a'n hyfforddiant i ſon am Fŷd arall, yn enwedig yn amſer Clefydion mawrion, Heintiau a Marwoldeb, pan yw miloedd o Eneidiau ddŷdd a nos

yn

yn myned yn lluoedd i Dragŷwyddoldeb, fel yr oeddynt yn myned gynt o'r Pla echryſlon a fu yn *Llundain* yn y flwyddyn 1665. O herwydd pa achos fe ddarfu i mi ddewis y Teſtun difrifol a chalon-ddeffröus hwn, fel y gellid deffroi Eneidiau cyſgadur a diofal i feddwl yn ddŵys am y Bŷd a ddaw. Yr holl Bennod hon a elwir Can *Moſes*, ei Gan-Alarch ef, neu y Gan o flaen ei farwolaeth ef, y geiriau a lefarodd y Gwas rhagorol hwnnw a ffyddlon i Dduw wrth farw; ac os yw'r geiriau a lefaro Gŵr wrth farw i ddal ſylw arnynt, pa faint mwy geiriau *Moſes* wrth farw? Y *Moſes* hwn pan oedd efe'n barod i fyned i'r Bŷd arall, a gyfanſoddodd y Gan odidog hon, o'r hon y mae'r Teſtun yn rhan; ac y mae geiriau un a fo'n marw yn bwyſg, ac yn barottaf i weithio arnom ni.

Mae y Gân hon mewn rhan yn { *Adroddol.* / *Fygythiol.* / *Addewidiol.*

Yn y rhan Adroddol y cawn ni,

1. Adroddiad o fawredd anfeidrol a phrïodoliaethau gogonedduſaf Duw Iſraël wedi eu dŵyn i mewn gŷd-a Dïaſpad cyffröus a deffröus, *Gwrandewch y Nefoedd, a llefaraf; a chlywed y Ddaiar eiriau fy ngenau.* adn. 1.

2. Ni

2. Ni gawn Adroddiad o'u llygredigaeth, eu hanniolchgarwch a'u gwrthryfel, *adn.* 5, 6. *Y Genhedlaeth wyrog a throfaus, a ymlygrodd yn ei erbyn trwy eu bai; ai hyn a delwch i'r Arglwydd, bobl ynfyd ac angall?* Er bod ffafor Duw ai drugareddau yn hynodol iawn tu-ag attynt, *etto bwy a'i gwrthodaſant ef, ã dieithr Dduwiau y gyrraſant eiddigedd arno, ac a aberthaſant i Gythreuliaid, nid i Dduw,* adn. 16, 17. O achos yr hyn y bygythiodd efe.

1. *Guddio ei wyneb oddiwrthynt,* na'r hyn nid oes dim chwerwach i'r Enaid, *adn.* 20.

2. Ddŵyn amryw Farnedigaethau Tymhorol trymion arnynt; na'r rhai nid oes dim ſlinach i'r Corph. *Caſglaf ddrygau arnynt, treuliaf fy ſaethau arnynt; lloſgedig fyddant gan newyn, ac wedi eu bwytta gan wres poeth, a chwerw ddiniſtr; y cleddyf oddiallan a dychryn oddifewn a ddifetha y gwr ieuangc, a'r wyryf hefyd, y plentyn ſugno ynghyd a'r gwr briglwyd; canys tan a gynneuwyd yn fy nig, ac a lyſg hyd Uffern iſod.* Ac yn *adn.* 27. Y mae Duw yn rhoi y rheſwm pa ham na ddifrodai efe hwynt yn gwbl a gwneuthur llŵyr ddiwedd o honynt; *Oni bae im' ofni dig y gelyn, rhag i'w gwrthwynebwyr ymddwyn yn ddieithr, a rhag dywedyd o honynt, ein llaw uchel ni, ac nid yr Arglwydd a wnaeth hyn oll.*

Ac

Ac yn awr ſe dybygid mai Cymhwyſiad o'r cwbl yw geiriau'r Teſtun, *Oh nad yſtyrient eu diwedd!*

Chwi ellwch edrych ar y Geiriau hyn megis ar glawdd wedi ei fwrw i fynu, oddïar yr hwn y gallai Pobl *Iſrael* ganfod y pethau a ddeuai, a chael golwg ar yr hyn a ddigwyddai iddynt yn eu diwedd. *Oh na baent ddoethion!* Bod yn ddoethion a oſodir yn erbyn yr hurtrwydd hwnnw a ſonir am dano yn *adn.* 28. *Cenedl heb Gyngor oeddynt hwy*, canys yr oedd arnynt eiſiau iawn ymarfer Rheſwm, a'r Ddoethineb honno ſydd oddiuchod i ddal ſulw ar, ac i wneuthur y goreu o raſuſol Ragluniaethau a'r pethau a gyfrannodd Duw iddynt.

Nad yſtyrient: Gweithred ſefydlog o'r deall neu'r meddwl yw yſtyried, er mwyn ymarfer; canys fe gyſſyllti gwneuthur ac yſtyried yn fynych ynghŷd, *Barn.* 18. 14. *Gan hynny yſtyriwch yn awr beth a wneloch*, Heb. 10. 24. *Cyd-yſtyriwn bawb ei gilydd i ymannog i gariad a gweithredoedd da.* Yr un pêth a adroddir mewn amryw o ffyrdd yn yr Yſgrythyr Lan, *megis* gwilio ar beth, argofio, gwyſlod, ac i un yſtyried neu gydnabod yn ei galon, cofio pethau, ac i un ymddiddan a'i galon, *Pſal.* 77. 5, 6.

Eu diwedd. Wrth yr hyn y mae'n rhaid i ni ddeall nid yn unig y Barnedigaethau

thau ofnadwy ac anghyfanneddol hynny a'u goddiweddent hwy yn y bŷd hwn, eithr cofio pethau mawrion y Bŷd arall; megis hefyd Henaint, Marwolaeth, y Bêdd, Tragywyddoldeb; Marwolaeth a'i Rhag-gennadon ei Chydymdeithion a'i Chanlynwyr.

Y mae'r Geiriau yn cynnwys ynddynt ddymuniad neu ddeiſyfiad gynhyrfiol, *Oh na baent ddoethion!* Ym mha rai yſtyriwch,

1. *Yr hwn ſydd yn dymuno*, ſef, Y Duw mawr a gogoneddus.

2. *Y peth a ddymunir*, a hwnnw yw Doethineb Dduwiol, Tlws yn wir a'r y ſy werthfawroccach na Gemmau.

3. *Y rhai y mae Duw fel hyn yn dymuno troſtynt*, ſef tros *Iſrael*, Pobl agos at yr Arglwydd, ac etto Pobl anifeiliaidd, anyſtyriol ac anghall. *Oh na baent ddoethion!*

4. *Beth yw'r Ddoethineb hon, neu ym mha beth y mae hi'n ſefyll*, ſef, yn yſtyried eu diwedd.

Yr Athrawiaethau i ddal ſulw arnynt oddïwrth y Geiriau, yw y rhai hyn.

Athrawiaeth 1. *Fod Duw yn dymuno o ddifrif ac yn hiraethu am ddaioni Pobl.*

Athrawiaeth 2. *Fod Pobl anyſtyriol yn Bobl ynfyd ac anghall.*

Athrawiaeth 3. *Fod eiſiau yſtyried o ddifrif yn ddigwyddedig nid yn unig i'r Halogedig, eithr hefyd i'r rhai ſy'n proffeſſu Duw a Duwioldeb.*

ioldeb. Yr Iſraëliaid oedd unig Eglwys Dduw y pryd hynny yn y Bŷd, ac etto nid oeddynt hwy yn ddoethion i ddeall ac i yſtyried eu diwedd.

Ni thrinaf mo'r rhai'n ar wahan, eithr mi a lefaraf am brîf amcan ac ergyd y geiriau yn yr un Athrawiaeth hon.

Athrawiaeth. *Mai dyledſwydd a phêth pwyſig iawn ydyw yſtyried ein diwedd.* Oh na baënt ddoethion! nad yſtyrient, *hynny yw*, nad yſtyrient yn ymarferol, a byw bôb amſer mewn crediniaeth am y Bŷd arall, fel y bo iddynt felly orphen eu holl waith tra yw hi yn ddŷdd. Fe dybygid fod hyn yn rhan fawr o feddwl Yſpryd Duw yn y Teſtun hwn.

Garedigion anwyl; pa beth bynnag a ddiango allan o'ch meddyliau, ni ddylech yn un modd ollwng mo hyn yn anghof; fe ddylai hyn fod yn Gydymmaith i chwi; fe dylai gydgodi, gydorwedd a chydrodio a chwi pa le bynnag yr eloch neu y byddoch. Hyn a ddymunodd *Moſes* ei hun, y gwas gwerthfawr hwnnw ac enwog i Dduw, gan weled y fath farwoldeb ofnadwy yn yr Anialwch, a chynnifer o athriſt ddrychau digofaint Duw, gan ddywedyd, *Pſal.* 90. 12. *Dyſg i ni felly gyfrif ein dyddiau*, fel y dygom ein calon i ddoethineb. Ac megis y dymunodd *Moſes* hyn, felly hefyd y gwnaeth

Dafydd

Dafydd ſanctaidd, yr hwn a ddywedodd, *Pſal.* 39. 4. *Arglwydd pâr i mi wybod fy niwedd, a phath yw meſur fy nyddiau, fel y gwypwyf o ba oedran y byddaf fi.* Ac y mae *Salomon* ddoeth yn dywedyd mai gwell yw hyn, *Preg.* 7. 2. *Gwell yw myned i dŷ galar na myned i dy gwledd: canys hynny yw diwedd pob dyn, a'r byw a'i geſyd at ei galon.* Ac y mae'n argoel fod dynion yn teirw, pan nad ydynt mewn tŷ Galar yn tyneru i doſturio, ac i yſtyried yn ddyfnddŵys eu cyflwr cŵynfannus a marwol eu hunain.

Myfi a ddeuaf bellach i ddangos i chwi bêth ſy raid i ni yſtyried, oblegid ein diwedd: Ac oh na bae i hynny weithio'n ddŵys ar bawb a ddarlenor gwirioneddau eglur hyn!

1. Yſtyriwch o ddifrif a chredwch, *Fod yn dra-diamai y bydd diwedd.* Canys gwirionedd diſiommedig yw pa bêth bynnag y mae'r Sgrythyr-lan yn ei ddywedyd am Farwolaeth, y Bedd, y Nefoedd ac Uffern. Mae'n rhaid i chwi yſtyried fôd pôb Dŷn yn farwol, fod yn rhaid iddo farw, a myned i'r Bŷd arall; a bod ynghorph pob un o honoch Enaid anfarwol a beru'n dragywydd; ac y bydd i'r Cyrph hyn wedi iddynt huno yn llwch y ddaiar gael byw a chyfodi drachefn; bŷdd adgyfodiad y meirw, i'r cyfiawnion ac i'r anghyfiawnion: ac yn

niwedd

niwedd bŷd ſe oſodir i ſynu orſedd barn, ger bron yr hon y gwneir i'r holl fŷd ſefyll. A chyn gynted ag yr êl y ffun allan o'ch geneuau, ſe ddychwel yr yſpryd at Dduw a'i rhoes ef, naill ai at Gyfiawnder Duw, neu at Drugaredd Duw: I le llawenydd, neu i le poen.

Ein troſſedd, ein cyflwr naturiol, gŷd-a deddf oſodedig y Nefoedd a'n dygodd tan anghenrhaid i farw, pa le bynnag y glyno'r Wiber hon, hi a lâdd yn ſicer, os nid yn ddirybudd: Geſeillion yw pechod a marwolaeth; pechod yw'r llofrudd mawr ſy'n gollwng marwolaeth i'r bŷd; *Canys y mae ei thy hi yn gwyro at Angau, a'i llwybrau at y meirw*, Dihar. 2. 18. *Yn y dydd y bwyttei di o honaw, gan farw y byddi farw*, Gen. 2. 17. Hynny yw, ti a ddeui yn farwol. Cyn gynted ag y pechodd *Adda*, efe (a ninnau ynddo ef) a ddaeth yn ddaroſtyngedig ac yn ddigwyddedig i farwolaeth: Pechod mal Pennadur dewr a deyrnaſodd o *Adda* hŷd *Moſes*: Y mae Drwg-weithredwr wedi ei fwrw wrth y Bar, yn farw mewn cyfraith, er cael o honaw ei oedi tros amſer; *Y mae'r Corph* (medd yr Apoſtol) *yn farw o herwydd pechod*: Mae rhai yn meirw yn y Groth, rhai yn eu mebyd, rhai yn eu Ieuengctid, a'r rhai ſy'n byw hwyaf, a fyddant feirw o'r diwedd: nid yw Angau un

un amſer yn clwyfo dŷn ond a'i arfau ei hun; y mae fe bob amſer yn cael pechod ynom ni, a *cholyn Angau yw pechod.* A pha le bynnag y cyfarfyddoch ag ef, neu y gweloch ef, chwi ellwch ddywedyd am dano, fel y dywedodd *Ahab* wrth y Prophwyd *Elias, a gefaiſt ti fi, o fy ngelyn?* Angau a phob angau yw ffrwyth pechod, angau tymhorol, angau yſprydol, ac angau tragywyddol, *Yr enaid a becho, hwnnw a fydd marw,* Ezec. 18. 20. *Cyflog pechod yw marwolaeth, Rhuf.* 6. 23. Y mae'n cyfiwr naturiol yn ein rhoi ni i fyngu i fod yn gymmwys i gael ein dattod; nid yw ein Cnawd yn gnawd o garreg, neu o brês; ond pridd gwael a darfodedig. i'r hwn, megis i'n canol-bwynt, y mae'n rhaid i ni ddychwelyd, *Gen.* 3. 19. *Pridd wyt ti, ac i'r pridd y dychweli,* Preg. 3. 20. *Y mae y cwbl yn myned i'r un lle; pob un ſydd o'r pridd, a phob un a dry i'r pridd eilwaith,* Heb. 9. 27. *Goſodwyd i ddynion farw unwaith.* Job. 14. 5. *Gan fod ei ddyddiau ef wedi eu rhag-derfynu, rhifedi ei fiſoedd ef gyd-a thi, a goſod o honot ei derfynau fel nad el troſtynt.* Nid all un darian neu aſtalch ymddiffyn yn erbyn Brenin y Dychrynniadau yma; Angau cyfiawn (y gwaſtadhawr mawr) ni nebydd wynebau; ac am hynny ni all nêb gael myned yn rhŷdd. Pe gallaſai ffyddlondeb gael

rhyddhad rhag Angau yna *Moſes* a allaſai gael ei eſguſodi; pe gallaſai tegwch ddïangc yn rhŷdd rhagddo, yna ſe ddïangaſai *Abſalom*; pe gallaſai cryfder fyned yn rhŷdd; oddïwrtho, yna ſe aethai *Samſon* yn rhŷdd; pe gallaſai purdeb a duwioldeb waredu rhagddo, yna ſe waredſid *Dafydd*; pe gallaſai cyfrwyſdra dyccio yn ei erbyn, yna ſe aethai *Achitophel* yn rhŷdd; pe gallaſai mawredigrwydd ymgadw rhagddo, yna ſe ymgadwaſai *Alexander*; pe gallaſai golud achub rhagddo, yna ſe achubſid *Cræſus*; pe gallaſai doethineb fod yn rhŷdd oddiwrtho, yna rhŷdd a fuaſai *Salomon*; eithr yr un diwedd ſy'n digwydd iddynt oll; ſel pan ddêll yr awr dynghedfennol na's gellir rhoddi dim pridwerth, ni ddichon un gelfyddyd na gwybodaeth ein cadw ni yma. Garedigion, pe coelid yr Athrawiaeth hon am y Bŷd arall, hi a graffai'n fwy ar ein Calonnau; pe meddyliem o ddifrif am y cyflwr hwnnw a ddaw o dalu'r pwyth. yn ol ein Ffŷdd, yn yr hwn gyflwr y bŷdd yn rhaid i ni fyw neu farw, ſefyll neu gwympo yn dragywydd, hi a weithiai'n fwy ar ein bucheddau.

2. Yſtyriwch, *y palla pob pêth a'r y ſy'n y byd yma i chwi ar eich diwedd, ac y tymmerant eu cennad oddiwrthych tros byth.* Eich holl ddoniau naturiol, meddiannau oddi-

allan,

allan, rhannau, gwaedogaeth, genedigaeth, dygiad i fynu; ſynwyr, cyfoeth, coronau, teyrnaſoedd, perlau, adamant, tai, tiroedd, gwragedd, plant, cyfeillion; pan el y ffun o'ch genau, fe fydd y rhai'n eugŷd wedi ymadaw, *Dihar.* 27. 24. *Cyfoeth ni phery byth; ac a bery coron o genhedlaeth i genhedlaeth?* Mae'n ddiamai y machluda Haul tanbaid pob gogoniaut oddiallan, yr hyn a wyddoch wrth eich prawf eich hun, ac eglurder yr Sgrythyr yn ddigon da. *Golud a gymmer adenydd, ac a ehed'a ymaith*, Dihar. 23. 5. *Y mae dull y byd hwn yn myned heibio.* 1 Cor. 7. 31. *Ni ddygaſom ni ddim i'r byd, ac eglur yw na allwn ddwyn dim allan chwaith*, 1 *Tim.* 6. 7. Pe bae ddŷn yn berchen ar gymmaint o'r Bŷd hwn ag oedd *Salomon* Brenin mawr *Jeruſalem*, yr hwn oedd ganddo Adeiliadau mawrion harddwychion, Gwin-llannoedd hyfryd ffrwythlon, Gerddi Perllannau, a Phrennau o bob math o ffrŵyth, dewis Weiſion a Morwynion, yn berchen llawer o wartheg a defaid, pentyrrau o arian ac aur, tryſſor Pennaf brenhinoedd, Cantorion a Chantoreſau, pob rhyw offer cerdd, a pha beth bynnag a ddeiſyfiai ei lygaid; etto pan edrychai o ddifrif ar bôb pêth, fe ddywedai gŷd-a *Salomon*, *gwagedd* yw'r cwbl, ac nad oes fudd i ddŷn o'i holl lafur a gymmer efe dan

yr Haul, a hyn a barodd i'r Gŵr Doeth gaſſau hyd yn oed einioes, *Preg.* 2. 17.

Y mae Meliaith ar y Creadur er Cwymp Addaf, yr hon ſy'n wîr yn twyllo, yn blino ac yn amharu, ac fe ellir cyffelybu pob cyſſur a diddanwch oddïallan i lu *Pharao*, yn awr yn fyw, ac yn y man wedi boddi, ac yn farw ar fin y Mor: ac er y meddyliech y parhaent yn dragywydd, *Pſal.* 49. 11. Hwy a wnant a chwi fel Mûl *Abſalom*, yr hon a'i gadawodd ef pan oedd gyfyngaſ arno. Pa drueni galarus ſy'n dilyn Golud bydol, wrth eu hynnill, eu cadw ac ymadael a hwynt? y maent yn faglau a drain, yn blaau a Scorpionau i lawer; Y maent yn eu gwanu a llawer o ofidiau, 1 *Tim.* 6. 10.

Etto yma y Dynion yn ymdrafferthu, yn curo eu ymennyddiau, yn deffygio eu cyrph, yn blino eu hyſprydion, yn torri eu cwſg, yn aflonyddu eu meddyliau, yn arteithio eu cydwybodau, yn bwrw eu hunain i lawr ac yn ymfoddi mewn gofalon, yn goſod eu heneidiau mewn perygl, heb freuddwydio am ddim ond hîrbara: a phan wnelont y cwbl, y maent fel y Sidan-bryf yn marw yn eu gwaith: ïe, y mae llawer Gŵr yn byw ar ol ei ddedwyddwch eï hun, yr hwn a ddifethir cyn y difethir ef; a'r gwaethaf o drueni yw ini fyw yn hwy na 'n dedwyddwch ein hunain: am hynny na

adewch

adewch i Olud chwyddo 'ch calonnau, a pheri i chwi falchio, yr hyn ſy'n rhy gyffredin.

Heddyw y mae'r bydol-ddyn goludog yn canu gorphywyſdra i'w enaid a dwyllwyd yn doſt, gan dybied fod ganddo dda lawer wedi eu rhoi iw cadw; y nos honno y goſynnwyd ei enaid oddïwrtho. *Haman* ſydd heddyw yn ail Wr yn y Deyrnas, eithr a gollodd y cwbl yn ebrwydd, a'i hoedl hefyd. Yn awr y mae *Nabuchodonoſor* yn rhodio yn ei Lŷs Brenhinol mawrwych ym *Mabilon*, gan ymſalchio yn ei wagrodres oddïallan; eithr a'r gair etto yn ei enau ef, ſyrthiodd llêf o'r Nefoedd yn dywedyd, *wrthyt ti, Frenin* Nabuchodonoſor, *y dywedir, aeth y Frenhiniaeth oddiwrthyt*, Dan. 4. 29, 30, 31.

Jeruſalem y leni yw Tywyſoges y Taleithiau, y flwyddyn neſaf tan Deyrnged, a'r rhai oeddynt yn byw yn foethus a ddifethwyd, ac a gofleidiaſant y Tomennydd, *Galar.* 1. 1, & 4. 5. Ddoe y gellaſid cyfrif da *Job* wrth filoedd, ac y foru y mae efe wedi colli'r cwbl a'i adael yn noeth. Ac nid yw ein hoes ninnau heb Eſampl alarus ac ofnadwy, *Llundain* Enwog, yr hon ar ddŷdd yr Arglwydd oedd yn ſefyll, a dŷdd *Merchur* wedi ei lloſgi'n ulw, ac yn grug o ludw, a miloedd o'i Thrigolion heb na

thy nac annedd ganddynt; am hynny os cynnydda Golud, na roddwch eich calon arno, *Pſal.* 62. 10. Y mae yn anwadal, ni all ddigoni, ni wna lês, fe ddifethir, a hynny yn dragywydd. O gan hynny gofelwch am y Tlyſau gwerthfawr, anwyl a thragywyddol hynny, a oſodwyd i'w cadw yn eich Cyrph gwael, darfodedig a breulyd, a dderfydd am danynt cyn y bo hir! *Canys pa leſſad a fydd i ddyn os ynnill efe yr holl Fyd, a cholli ei enaid ei hun*, Matth. 16. 26, Mar. 8. 36. Luc. 9. 25.

3. Yſtyriwch, Mor ebrwydd yr a holl fwyniant preſennol pechod ymaith, ac ni ad ddim ond colyn. Fe wna Henaint, Gwendid a Chlefydion newidiad mawr yn yr hôll ddŷn oddiallan, megis o ran tegwch, nerth, grym naturiol, bywiogrwydd ſynhwyrau, a'r cwbl trwy ba rai y gallai dyn gymmeryd dim hyfrydwch yn y Bŷd, neu yn ei Drachwantau. Pan ddel Afiechyd, Henaint a Chymhyrcynrwydd, rhag-gennadwr Marwolaeth, fe wna gyſnewid rhyfedd yn yr wyneb-prŷd teccaf: Harddwch Corphorol a Thegwch a lygrir yn ebrwydd, ni wywa Clefyd mo honaw yn unig, eithr hefyd a'i hanffurfia ef. Chwychwi y ſawl ſy gennych gydweddoldeb corph, llygaid gwreichionllyd, tegwch prŷd a gwedd, hawddgarwch lliwiau o wyn a choch, gyd ag uniondeb

a

a buander corph, a golwg ſuriol; pan ddeol henaint, ſe ardd rychau dyfnion yn yr wynebau têg hynny; ac etto y mae llawer (heb wybod oddïwrth eu heneidiau budr, a'u calonnau aflan) yn feilchion o ran eu hwynebau teg, a'u cyrph prydferth; yn gymmaint a'u bod yn ymdrythyllu o achos hynny, ac i oſod allan eu tegwch a gwynni eu crwyn (heb ymfodloni i gywrein-waith ëu Creawdr) a chwanegant liwio, clyttio, powdrio, crychu, plethu, gwallt-celfyddgar, a pheth ni's gwnant? Gwybyddwch, na wywa henaint mo'ch tegwch yn unig (yr hwn nid yw ddim dyfnach na'r croen) eithr a wanha 'ch nerth oddïallan, grym naturiol, bywiogrwydd ſynhwyrau, a'r cwbl trwy ba rai y gallech gael dim hyfrydwch bydol.

Henaint yw *dyddiau blin Salomon*, pan dywyllir yr Haul, y Lleuad, y Sêr a'r goleuni, y crynno ceidwaid y Tŷ, y crymmo y gwŷr cryfion, ac y metho y rhai ſydd yn malu, ac y tywyllo y rhai ſydd yn edrych drwy Feneſtri, ac y goſtyngir i lawr holl ferched cerdd, ac yr arſwydant yn y ffordd; pan fo'r hôll ddŷn oddïallan wedi amharu, hynny yw, pan fo y llygaid yn bwl ac yn dywyll, y cluſtiau yn dtwm eu clywed, y dannedd yn bydron, y gorchfanau yn noethion, y pen yn foel, yr anadl yn llygredig,

y dwylo a'r traed yn ddirym ac yn crynnu; Dyddiau blin yn ddïai, yn y rhai ni chewch chwi ddim diddanwch oddïwrth eich chwaryddiaeth o'r blaen, canys fe fydd y Ceiliog-rhedyn yn faich, a chwant yn pallu, *Preg.* 12. 5. Eithr ni wywa tegwch Gras tan amhariadau mwyaf Tegwch naturiol; canys Gras yw'r Olew yn y Lamp nad yw yn darfod un amſer, ond yn llewyrchu fwy fwy. *Merch y Brenin ſydd oll yn ogoneddus ofewn, Pſal.* 45. 13. Duwioldeb yr hon yw Delw Duw, a rydd lewyrch a'r y ſy'n hyfryd iawn yngolwg Duw a Dŷn. *Ti oll ydwyt dêg, fy anwylyd, ac nid oes ynot fryehewyn,* Can. 4. 7.

Chwychwi bechaduriaid! Y rhai 'ych yr awr-hon yn profi melyſwedd pechod yn ymlawenhau i wneuthur drŵg, yn treulio 'ch amſer mewn cyfeddach a meddwdod, mewn cydorwedd ac anlladrwydd, yn gorwedd ar wlau Ifori, ac yn ymeſtyn ar eich glythau, ac yn bwytta'r ŵyn o'r praidd, a'r lloi o ganol y cwt, y rhai a ddatcenwch gyd-a llais y Nabl, a yfwch wîn mewn Phiolau, nid ymofidiwch am ddryllio *Joſeph*, ac ydych yn pellhau y dŷdd drŵg; gwybyddwch y llyſg tan pechod, ac nad yw eich tammeidiau melus ond tros funud awr; chwi gewch dalu yn ddrud am y tammeidiau melus a'r dainteithion hyfryd hynny.

Gwrandewch

Gwrandewch hyn bellach, chwychwi y ſawl ydych yn ymroddi i ddigrifwch, yn eich peſgi eich hunain trwy wneuthur drwg; nid yw ond amſer byr, a chwi a welwch, ac a ddywedwch, fod eich holl ddifyrrwch, eich gobaith a'ch llawenydd wedi myned ymaith a darfod, ac na chewch bŷth mo'u gweled na'u profi mwy, yn unig cnoefa cydwybod, buſtl, euogrwydd a cholyn a erys. Ni ŵyddoch chwi y rhai ſy dda gennych y Gyfeddach Uffernol hon o bechod (y dyfroedd lledrad ſydd felus, a'r bara cudd ſydd beraidd) mai meirw yw y rhai ſydd yno, a bod ei gwahoddwŷr hi yn nyfnder Uffern, *Dihar.* 9. 17, 18. Gwenwyn melus yw pechod, hyfryd wrth ei wneuthur, eithr chwerw yn y diwedd: *Canys yr Enaid a bechо, hwnnw a fydd marw,* Ezek. 18. 20. ac a arbedwch chwi ef, a'i attal o fewn taflod eich genau? Ei gau dan eich tafod, hŷd onid elo'n fuſtl Aſpiaid o'ch mewn chwi, *Job* 20. 12, 13, 14. Yſtyriwch hefyd, fod eich pechodau dirgel, a wnaethpwyd yn y tywyllwch, mewn conglau, wedi eu cuddio a'u cadw'n gêl, yn adnabyddus i Dduw.

Y mae y Duw ſanctaidd anfeidrol, chwiliwr y calonnau yn eu cofio, *Hoſ.* 7. 2. Yn eu gwilio, yn eu ſelio, *Job* 14. 16, 17. Y maent ar lawr ym mylg ei dryſorau ef,

Deut.

Deut. 32. 34. a hwy a'ch goddiweddant chwi, *Num.* 32. 23. ac (oni wir edifarhewch yn ddifrifol am danynt a chael maddeuant) hwy a orweddant gŷd-a chwi yn y bêdd, ac a'ch dilynant i'r bŷd arall, ac a gyfarfyddant a chwi wrth far ofnadwy Duw, ac a ddatcuddir yngolwg yr holl fŷd; Drŵg a erlid y pechadur: Y Drŵg hyn, a'r chwerwedd yma, (a fagwyd yn y groth, ni chladdwyd yn y bedd, ac ni ddiffoddwyd yn Uffern) a ymlid y pechadur i Uffern. Bechaduriaid, hyn ſydd ddïammheuaf, ni ymedy pechodau hêb edifarhau am danynt bŷth a chwi, eithr a orweddant ac a gyfodant gŷd-a chwi; Eich eſgyrn ſy'n llawn o bechodau eich ieuengctid, y rhai a orweddant gŷd-a chwi yn y pridd, *Job* 20. 11. Drŵg gydymmaith gwely yw pechod, a gwaeth Cydymmaith bedd, ac os huna efe gŷd-a chwi, fe ddeffry gyd-a chwi pan gano'r Udcorn aethlyd, *Cyfodwch Feirw a dewch i farn.* Y mae gan y rhai damnedig yn Uffern eu holl bechodau o ddau tu iddynt; yr hyn oedd yr achos o'u taflu i Uffern, fydd eu Cymdeithion tragywyddol yno; ac a gymmerwch chwi'r Gwiberod a'r Scorpionau hyn yn eich monweſau, y rhai a fyddant yn oeſiad yn cnoi eich calonnau? Gŵybyddwch hyn, y machluda eich Haul redegog o bob digrifwch pechadurus ac anllad yn eigion

Mor

Mor ofnadwy o ofid diddiwedd, dïesmwythder ac anfeddygmiaethol.

4. Yſtyriwch, *Mai'n unig yr hyn ſydd dragywyddol a wna i chwi leſſad pan ddeloch i farw.* *Sef*, pan ddeloch at y Gagendor mawr, a gwthio o honoch allan i ddyfn for anfeidrol Tragywyddoldeb, nad oes iddo na therfynau, na cheulannau na gwaelod.

Garedigion anwyl! A ydych chwi yn canfod dim a'r y ſy a Thragywyddoldeb yn argraffedig arno? Y mae amryw wrthddrychiadau, o berſonau a phethau, a'r ydynt yn ymgynnyrcholi i'ch golwg chwi. Derchefwch eich llygaid tu-a'r Nefoedd faith a addurnwyd ac a brydferthwyd a Haul gogoneddus, Lloer a Sêr tanbaid, y rhai ſydd yno er rhai miloedd o flynyddoedd, gwelwch a yw Tragywyddoldeb yno? Nac ydyw, hwy a gawſant eu dechreuad, ac y mae'n rhaid iddynt gael eu diwedd, *Gen.* 1. *Heb.* 1. 10, 11. *Tydi yn y Dechreuad, Arglwydd, a ſylfaenaiſt y ddaiar, a gwaith dy ddwylo di yw y Nefoedd: Hwynt-hwy a ddarfyddant, ond tydi ſydd yn parhau: A hwynthwy oll fel dilledyn a heneiddiant.* Y mae y Dŷdd yn dyfod yn yr hwn *y troir yr Haul yn dywyllwch, a'r Lloer yn waed, a'r Ser a ſyrth o'r Nêf, a nerthoedd y Nefoedd a yſgydwir, a'r Defnyddiau gan wir wres a doddant,*

doddant, a'r Ddaiar a'r gwaith a fyddo ynddi a leſgir, Matth. 24. 29. 2 Petr. 3. 10.

Hefyd, edrychwch ar eich Ceraint agos ac anwyl, er mŵyn y rhai yr ydych yn cymmeryd cymmaint o boen, gofal a blinder; Edrychwch ar *Abraham* eich Tad, ac ar *Sara* a'ch eſgorodd (fel y dywed y Prophwyd mewn achos arall) ar eich Gwŷr, Gwragedd, Plant, Rhïeni, Cyfeillion, Cymmydogion, Swyddogion, Gweinidogion; a ydyw y rhain yn dragywydd? Nac ydynt, llawer o honynt a aethant i wared euſys i'r Glyn tywyll, ac ni ddychwelant mwy. Neu edrychwch ar yr Arwŷr godidog hynny, *Alexander*, *Cæſar*, *Pompei*, a ph'le y maent hwy? Oni orchfygwyd hwy eu gŷd gan Frenin Dychrynniadau, ac a ddaliwyd yngharchar y Bêdd, er ys llawer cant o flynyddoedd? Edrychwch ar eich Arian a'ch Aur, eich Perlau a'ch Tlyſau, eich Per-aroglau a'ch blychau gwerthfawr, eich Adeiliadau têg a'ch Llyſoedd Brenhinol, a ydyw y rhai'n tros fyth? Nac ydynt, pethau llygredig ydynt, ac ni allant waredu yn nŷdd digofaint yr Arglwydd. Lleoedd anghyfannedd yw Llyſoedd Brenhinoedd, yn barod i fyned yn garneddau: Coronau a ſymmudir o ben i ben; Teyrn-wiail ydynt yn myned o'r naill llaw i'r llall; ac y mae i Deyrnaſoedd eu codiad, ac y mae iddynt

iddynt eu cwymp hefyd : ac a werthwch chwi eich eneidiau gwerthfawr am hen garpiau a ffylach ddarfodedig, y rhai ydynt yn wîr yn fwy mewn diſgwiliad nag mewn mwyniant? Yſtyriwch cyn lleied a dal hynny, am yr hyn yr ydych yn myned mewn enbydrwydd erchyll o golli 'r Nefoedd.

Eithr yr awr hon (os rhai yn credu ydych) derchefwch eich golygon tua'r brynniau tragywyddol, a goſodwch lygad yr Eryr o ffŷdd oddifewn i'r Llen, yno y mae'r Hên Ddihenydd; Duw eich Tad, y daioni pennaf, a'r dedwyddwch mwyaf: Yno y mae Criſt eich Prynŵr hygar, Tywyſog Gogoniant, a Thŷ nid o waith Llaw, tragywyddol yn y Nefoedd; ac ar ffafor Duw, cariad a chyfiawnder Criſt, chwi ellwch ganfod Tragywyddoldeb.

Drachefn, trowch eich golygon i mewn at ddirgel ddŷn y galon, a ydyw had Duw yno, neu nod ei Ddelw ef, a'r Duwiol Anian? 1 *Joan* 3. 9. 2 *Petr.* 1. 4. A oes yno Wyddor nerthol o fywiol Ras yn tarddu? *Joan* 4. 14. Ar y pêth hyn y gellwch ddarllain Tragywyddoldeb; Gras yw Etifedd Gogoniant, pob defnyn o'r hwn ſy'n rhedeg i'r Mor mawr, ac ni all dim arall fod yn gyfaill i chwi; *Canys y pethau a welir, ſy tros amſer, ond y pethau ni welir ſy dragywyddol,* 2 *Cor.* 4. 18. 5. Y-

5. Yſtyriwch, *tu-ag at ba un o'r ddau Dragywyddoldeb yr ydych chwi yn myned.* Mi fynnwn i chwi yſtyried yn ddyfnddwys ac yn ddifrifol, fod un lle i'r Defaid, ac un arall i'r Geifr; un lle i'r Cyfiawnion, ac un arall i'r Anghyfiawnion; un lle i'r Duwolion, ac un arall i'r Annuwolion; un lle i'r Byw, ac un arall i'r Meirw; Dydd tragwyddol, neu Nos dragywyddol; Hyfrydwch tragywyddol, neu Boenau tragywyddol; Gwynfydedigrwydd tragywyddol neu Loſgfeydd tragywyddol; Bywyd tragywyddol, neu Angau tragywyddol; Nefoedd dragwyddol, neu Uffern dragwyddol.

Bellach bechaduriaid, arhoſwch yma ac yſtyriwch, i ba un o'r ddau le hyn yr ydych chwi yn perthyn? A oes gennych chwi ddim ſiccrwydd am Dragywyddoldeb Gogoneddus a Gwynfydedig? Mai 'r Nefoedd, ac nid Uffern, a fydd eich lle a'ch cyfran; Er mŵyn dangos hyn, yſtyriwch, ac attebwch yr ymoſynion hyn.

A ddarfu i chwi gredu yn ddiffuant, edifarhau, a dychwelyd at Dduw trwy rwygo eich calonnau, a rhoi i fynu eich hôll Eneidiau iddo ef? A ydyw eich calonnau wedi eu dŵyn yn ſerchog ac yn egnïol allan at Ieſu Ghriſt, fel nas bodlonir mo honoch heb undeb a chymmundeb ag ef? Ai Ieſu Griſt yw anwylyd a chariad eich Eneidiau?

A

A ddarfu i chwi (gan fod yn deimladwy o'r hyn a wnaethoch yn ei erbyn ef, ac o'ch anheilyngdod o honaw ef) trwy ddwfn a difrifol oſtyngeiddrwydd, oſod ſail dda am y Nefoedd a dedwyddwch? Mae'n rhaid i chwi hau cyn y galloch fedi, a'r *rhai ſydd yn hau mewn dagrau a fedant mewn gorfoledd*, Pſal. 126. 5.

A anwyd chwi am y Nefoedd, neu a anwyd chwi yn ôl y Cnawd yn unig? Os gwnaed chwi trwy waith dïogel Troëdigaeth yn Greaduriaid newyddion yn wîr, 2 *Cor.* 5. 17. da yw, ſefwch a rhyfeddwch weled trugaredd ryfeddol; onid ê ofnwch a dychrynnwch, canys os methwch yma, fe'ch llŵyr ddifethir yn dragywydd.

Ymmhellach, a gŷd-gyfodaſoch gŷd-a Chriſt, neu a ydych yn feirw mewn camweddau a phechodau? *Epheſ.* 2. 1. A ydych yn gyfrannogion o'r Adgyfodiad cyntaf, neu a ydych yn eich beddau yn pydru a drewi yn eich pechodau, wedi diddarbodi? A ydych yn wîr ar ddarfod a phechod, ac a phob pechod? Neu a ydych yn ymhyfrydu mewn anghyfiawnder? A ydych yn ſefyll am Dduwioldeb yn ei bywyd a'i grym? Ac a oes un pechod yn cael cennad i deyrnaſu yn eich calonnau a'ch ffyrdd? A ydyw pechod a phob pechod yn edrych yn frwnt, yn teimlo'n drwm, yn blaſu'n chwerw, ac

hêb

hêb fod yn Eulyn yn y galon i gadw Criſt allan o'i orſedd-faingc? A oes un pechod dirgel yn byw oddi fewn yn erbyn Cydwybod? A ydych yn gweddio ac yn dymuno byw mewn ofn, ac megis tan olwg Duw, gan wneud Cydwybod o bechodau dirgel, ac o ddyledſwyddau dirgel, trwy edrych yn bur tu-ag at ogoniant Duw a'ch daioni eich hunain? A ydyw Duw chwiliwr y calonnau yn eich cael yn eich ſtafelloedd ar eich gliniau, foreu a hŵyr yn tywallt eich eneidiau ger ei fron ef? Pob duwiol a weddïa, *Pſal.* 32. 6.

A groeſhoeliwyd chwi i'r Bŷd, neu a yw'ch Eneidiau yn glynu wrth y llŵch? a oes gennych Dryſſor yn y Nefoedd, neu Dryſſorau yn y maes yn unig? A brynſoch chwi'r Perl? Neu a ydych yn ymfodloni a graian? Pwy yw eich Cymdeithion, Cenfaint foch y Cythraul, ai praidd Criſt? A ydych yn gyfeillion, i foch a chŵn aflan, y Bŷd o annuwolion, ai i Golomennod ac ŵyn Criſt? Pa nod ſy arnoch, nod y Defaid? (*ſef*, ſancteiddrwydd, Goſtyngeiddrwydd a Diniweidrwydd) ai nod y Geifr? (*ſef*, Trachwant, Balchder ac Aflendid?) Pwy ſy'n cadw'r Orſeddfaingc, Brenin nin y Sainct, ai Duw'r Byd hwn? A ydyw eich calonnau a'ch bucheddau yn llefaru *Nef, Nef, Nef, ai Uffern, Uffern, Uffern?* Nid yw Uffern ddim yn amgenach lle i'r Cythraul

Cythraul, nag yw calon yr annuwiol. A ellwch chwi edrych i fynu a dywedyd, *Ein Tad yr hwn wyt yn y Nefoedd*, neu yntau, ai rhaid fydd i chwi edrych i wared a dywedyd, *Ein Tad yr hwn wyt yn Uffern?* Pa wêdd y gellwch gymmeryd cyſſur mewn dim ag ſy'n y Bŷd hwn, a chwithau yn debyg i fod yn druenus anrhaethol a thragywyddol yn y Bŷd arall? Pe tebygid fod gennych gymmaint o Olud, Coegrodres a Gogoniant y Bŷd hwn, ag a fu gan un dŷn a'r a fu fyw erioed ar wyneb y ddaiar; pe gallech ddywedyd, eiddo fi yw'r Goron hon, y Deyrnas hon, y Wlad hon; mi pïau'r Aur hyn, yr Arian hyn, neu y Marchnadty hwn, y da hyn, y Faenor hon, yr Hafod hon, y Maeſydd hyn, yr Aniſeiliaid hyn, y Dïadellau hyn, yr ŷd hwn, y Mŵn-gladd hwn, y Perlau hyn, y Tyſau hyn; bêth a dalai'r cwbl i chwi, os Diafol a bïau eich Eneidiau? Ynlawr ym mha gyflwr y mae eich Eneidiau gwerthfawr? A ydynt yn ddiogel? A wnaethoch chwi wîr barottöad erbyn Marwolaeth a Barn, neu adel y cwbl heb ei wneuthur? Ai Lleſtri parch ydych, a rag-barottowyd i Ogoniant, ai ynteu Lleſtri digofaint, wedi eu cymhwyſo i golledigaeth? *Rhuf.* 9. 22, 23. Llefared Cydwybod, ymddiddenwch a'ch calon, *Pſal.* 4. 4. Yſtyriwch eich ffyrdd, *Hag.* 1. 5. Ceiſiwch a chwiliwch eich ffyrdd,

Galar. 3. 40. Holwch eich hunain, profwch chwychwi eich hunain, a ydych yn y ffydd, 2. *Cor.* 13. 5. Beth bynnag a hauoch hynny hefyd a fedwch yn ſicer, *Gal.* 6. 7, 8. a lle y ſyrthio y pren, yno y bydd efe, *Preg.* 11. 3. Os tu-a'r dehau y ſyrth, tu-a'r Dehau y bydd efe; Os tu-ar gogledd y ſyrth, tu-a'r gogledd y bydd efe. Os byddwch fyw a marw tu-a'r Nefoedd, y Nefoedd a fydd eich lle a'ch cartref: Eithr os byddwch fyw a marw tu ag Uffern, Uffern a fydd eich lle a'ch cartref. Canys yn ôl yr hyn a wneloch yn y Bŷd hwn, y bydd eich barn yn y Bŷd a ddaw, 2 *Cor.* 5. 10. Ac onid yw yn ſcthrift ac yn erchyll coelio fod gennych Eneidiau gwerthfawr na byddant bŷth feirw, ac na wyddoch pa un ai cadwedig ai damnedig a fyddant, pa un ai ſefyll ai ſyrthio a wnant, byw ai marw bŷth ac yn dragywydd? Ac etto dyma gyflwr miloedd a myrddiwn o bobl a'r y ſy'n byw yn awr yn y bŷd, y rhai ſy 'n myned ar bedwarcarn i Uffern, ac yn tybied a gobeithio eu bod ar yr union ffordd i'r Nefoedd, *Dihar.* 16. 25.

6. Yſtyriwch, *Pa neſed ydych ei eith trigias a'ch anneddtragywyddol?* Yr ydych chwi oll yn myned i wared gŷd-a ffrŵd yr amſer i'r Mor mawr o Dragywyddoldeb, ac a ddewch yno yn ebrwydd. Nid oes

i gam

gam a gerddoch, anadl a gymeroch, air a defaroch, na munud o amſer a dreulioch, nad yw'n neſſau at Dragywyddoldeb. Y tywod aur hyn ſyn rhedeg chwng dan Dragywyddoldeb, a dderfydd yn fuan, gyrfa fer a redir yn glau. O pa ddidrim yw'n hoedl ni! *ſef*, dyrnfedd, breuddwyd, gwynt, cyſgod, tarth, rhedegwr, cynt na rhedegwr ac yn darfod heb obaith, *Job* 7. 6. Yr ydych chwi oll yn myned i dŷ eich hir gartref, diweddaf, i dŷ Tragywyddoldeb: Y mae pob Dŷn yn myned i Dŷ ei hir gartref, *Preg.* 12. 5. Pa fodd y mae fe'n, myned? Y mae fe'n myned yn fuan iawn, bob amſer rhagddo, ddydd a nos, pan fo yn cyſgu ac ar ddeffro, yn gweithio neu yn ſegur, y mae'r rhedegwr hwn yn pryſuro, nid yw amſer a llanw yn aros. Drachefn, y mae fe'n myned yn anheimladwy; Nid yw Dŷn yn deall pa fodd y mae ei amſer gwerthfawr yn ffoi oddiwrtho; Y mae'r cyſgod ar y Ddial yn myned o un awr neu ffigur i'r llall, o godiad - Haul hŷd ei fachlud ef, er nad ydys yn craffu ar ei chwimmwth fynediad ef: Felly y mae dŷn yn myned o febyd i faboed, o faboed i ieuengctid, o ieuengctid i ganol-oedran, ac felly i henaint a'r bedd, ac nid ym ni yn dal ond ychydig neu ddim ſylw ar hynny, Drachefn y mae fe'n myned yn ddiattal

ni all na dynion nac Angylion, Meddyginiaeth na Meddygon ei gadw yma; nid haws cadw mo honaw, nag attal holl hynt natur, neu rwyſtro Cyfammod Duw o ddŷdd a nos. Ni waeth i Ddŷn geiſio attal yr Haul rhag codi, y Mor rhag llenwi neu'r Gwynt rhag chwythu, na cheiſio cadw dyn rhag marw, a myned i'r lle rhag-terfynedig i bob dyn byw. Er doe'r ydym ni, *Job.* 8. 9. Nid oedd ond megis doe, pan oeddym ni ynghroth diddim, ac heb fod, ac ni bydd ond megis y foru, ac ni a ddiflannwn, ac a fyddwn mal (o ran a berthyn i'r Bŷd hwn) pe na buaſem er ioed. Fe'n maſurir yn gynt na gwyſyn, *Job.* 4. 19. ac mewn moment y diſgynnwn i'r bedd, ac ni ddown i fynu mwyach. Ie, ein Delwau a'n Lluniau a arboſant yn newyddion ac yn ddiogel, pan fom ni wedi myned i wared i farrau'r Pŵll, ac yn gorphywys yng-hŷd yn y pridd, ac fe fydd hŷd yn nod ein Cwn a'n Meirch yn fyw, pan fomn i'n feirw, ac yn fwyd i bryfaid.

Y Myfyrdod calon-gyffrous hwn a weithiodd yn fawr iawn ar *Xerxes* gynt Brenhin *Perſia*, yr hwn wedi bwrw golwg ar ei Lu mawr aneirif, a wylodd wrth feddwl na byddai un dŷn o honynt yn fyw ym mhen can mlhynedd. Bechaduriaid y mae'n rhaid i chwi edrych tu hwnt i'r bedd, canys

wedi

wedi Marwolaeth y bydd Barn, *Heb.* 9. 27. O achos hynny ynteu ſynnwch wrth yſtyried, eich bod chwi oll heddyw yn ſefyll o flaen drws Tragywyddoldeb, naill ai ar ymyl bywyd, neu ymyl angau, ar gyffiniau'r Nefoedd. neu ſafn Uffern, ac fe wneir i chwi cyn y bo hîr, wybod a gweled bêth ſy tu hwnt i'r Mûr; cyn gynted ag y cauo Angau eich Llygaid, chwi gewch weled a gwybod beth a fyddwch yn dragywydd. Os ydych yn awr yn annychweledig, ac heb Dduw yn y Bŷd, yr ydych ym mron dyfod o hŷd golwg i'r Llyn ſydd yn lloſgi o Dan a Brwmſtan; ond os Sainct ydych, yr ydych ym mron mewn golwg i *Ieruſalem* newydd; Os pechaduriaid annuwiol, yr ydych ym mron o hŷd clywed ſwn erchyll meini melinau digofaint, a thrwſt cadwynau tanllyd Carcharorion Uffern, udfeydd gofidus, a rhuad erchyll Yſprydion mewn Carchar, yn gweiddi ar eu gilydd, *O pa ddrwg, pa ddrwg anfeidrol, a pheth chwerw, chwerw toſt yw pechod, yr hyn nad yſtyriem ac na chredem nes ein dyfod i'r lle truenus hwn o boenau.* Yno y gellwch glywed yr Anghredadyn melldigedig mewn poenau yn gweiddi ar ei Dduw a ddigiodd efe, Criſt a wrthododd efe, a'r pechod o Anghrediniaeth a laddodd ei enaid ef, gan ddywedyd ynghyfyngdra ei Yſpryd. *Pe*

buaſwn i ſodlon i'r feddyginiaeth, ni fuaſwn i ddim yn y trueni galarus yma, bu Arglwydd y Gogoniant wrth y drws, mi a'i clywais yn curo'n hir, ond ni's gollyngwn ef i mewn, am hyny y cawsyd ſaſn Uffern arnaf yn ou oeſoedd. Yno y clywir y Tyngwŷr, Celwyddwŷr a'r Cablwŷr, a rwygaſant ac a ddrylliaſant Enw Cyſſegredig eu Creawdr, ac a dyngaſant i waed a gweliau eu Prynwr a gymmygwyd iddynt, a thaſodau poethion a ſychion yn ewynoſain ddarfod iddynt erioed gymmeryd Enw y Duw Sanctaidd anfeidrol yn ofer.

Yno y mae'r Proffeſswŷr rhagrithiol a chalon-ffuantus, y Pechaduriaid yn *Sion* yn gweiddi ac yn dymuno, naill ai na wnaethent ddim lliw o gariad i Ghriſt a Sainteiddrwydd yn un modd, neu iddynt ei garu ef mewn purdeb a gwirionedd, ac uwch law pawb, fel y gallaſent ddiangc rhag y lloſgfeydd tragywyddol.

Yno y clywir y Meddwyn digywilydd, afreolus anifeiliaidd, tebyg i fochyn a ſoddhaodd ei lygaid a'i fol, a'i gwppaneidiau hyfryd, o Wîn gwreichionllyd, ynghŷd a'i Gymdeithion melldigedig, yn dymuno yn chwerwedd ei Enaid, *O na buaſwn i ſobr cymmedrol a difeddw, fel y gallaſwn feliy gael bod beb broſi gwin digofaint Duw, yr hwn ſydd goch, ac yn llawn cymmyſg, gwaelodion*

lodion yr hwn ſy raid i ni eu hyſed yn dragywydd, Pſal. 75. 8. Eſay. 5. 22.

Yno y clywir y Godinebwŷr a'r Godinebwragedd aſlan bryntion, a ddarfu iddynt ymloſgi yn eu hanlladrwydd Uffernol, yr hwn yr oeddynt yn amcanu ei fodloni, yn dymuno, *Ona buaſem ſobr, diwair ac oneſt, ac na buaſai 'n llygaid anllad trachwantus yn hur ddeillion, ac nad adnabuaſem na gweled er ioed wyneb gwr na gwraig, fel na buaſai raid i ni ddioddef dialedd tan tragywyddol*, Jud adn. 7.

Yno y clywir y rhai drygionus Didduw cynhwynol a ffiaidd, a watworaſant ac a wnaethant wawd o gredu fod Duw a barn i ddyfod ac a lefaraſant yn eu balchder a chyndynrwydd eu calonnau, bryſied a phryſured ei orchwyl, fel y gwelom; canys gwnaethom ammod ag Angau, ac ag Uffern y gwnaethom gyngrair, yn rhuo ac yn gwaeddi. *Oh na buaſem yn gwrando, yn credu, ac yn ofni 'r peth a rag-fynegwyd gau Weinidogion oblegid y lle tywyll ac erchyll hwn cyn ei bod hi'n rhy hwyr!*

Yno y clywir y Bydol-ddyn a'r Daiarbŷf truenus, a wnaeth y Ddaiar yn Nefoedd iddo, Aur yn Dduw, ac yn ddaioni pennaf iddo, yn llefaru yn chwerwder ei galon, *O na buaſwn heb weled er toed yn holl ddyddiau fy enioes ddim Aur nac Arian; fel y gallaſwn gael gwell cyfran, neu na*

buasson fel Lazarus *yn cardotta fy mara, fel na ddaethwn i'r lle poenus hwn.*

Yno y clywir yr arswydus, yr ofnog, a llwfr wadwr y ffydd, a'r gwrthnysig o galon, yr hwn rhag ofn ychydig o galedi oddiallan, a ymadawodd a'r Gwyddorion a brofessodd efe, ac a drodd ei gefn ar Ghrist, a'i Braidd bychan erlidiedig, yn dymuno, nyll ai na buasai efe erioed yn adnabod ffordd Cyfiawnder, neu iddo fod yn ffyddlon hŷd Angau.

Bechaduriaid diofal, y rhai ydych yn cymmeryd eich twyllo'n dost, ystyriwch nad ydych ddim ym mhell oddiwrth y Gagendor erchyll hwn, lle mae lïaws o eneidiau yn galaru ac yn wylo ddŷdd a nos; ac y mae'n ddiamai, pe bae udfeydd ac ysgrechain ofnadwy a hyll yr ysprydion Uffernol hynny yn swnio yn eich clustiau, na orphywysech ddim yn eich Gwlau na'ch Tai.

Fe fu gweiddi tost a brawychus pan foddwyd yr hen fŷd gŷnt, pan losgwyd *Sodoma* a *Gomorrha*, weled y Cymmylau yn ddiysymmwth yn bwrw tan a brwmstan ar eu pennau a'u tai, a Gwŷr, Gwragedd a Phlant yn llosgi ynghŷd: ond nid oedd hyn ond pigiad chwannen mewn cyffelybrwydd i'r lle hwnnw, lle mae wylofain a rhingcian dannedd bŷth ac yn oes

oesoedd

oesoedd. Cofiwch hyn bawb o honoch a'r y sy 'n gollwng Duw yn anghof, fod dŷdd eich trychineb yn agos, a'r hyn a barottowyd i chwi yn pryssuro, *Deut.* 32. 35.

Ond os gweision yr Arglwydd ydych, gwîr Sainct a Galarwyr yn Sïon, derchesswch eich pennau a'ch calonnau, canys yr ydych yn perthyn i le arall, a gwell Gwlad, *sef, I fynydd* Sion, *ac i Ddinas y Duw byw,* y Jerusalem *nefol, ac at fyrddiwn o Angylion, i gymmanfa a chynnulleidfa y rhai cyntafanedig, y rhai a sgrifennwyd yn y Nefoedd, ac at Dduw Barnwr pawb, ac at ysprydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd, ac at Iesu Cyfryngwr y Testament newydd, a gwaed y taenelliad, yr hwn sydd yn dywedyd pethau gwell na'r eiddo* Abel, *Heb.* 12. 22, 23, 24. A gwybyddwch eich bod ym mron dyfod o hŷd clywed y Caniadau nefol hynny, Gorfoledd Tragywyddol a Haleluiau 'r Sainct, a'r Angylion gogoneddus yn Nhŷ eich Tad, *Lle y cewch ddigonolrwydd llawenydd a digrifwch yn dragywydd,* Psal. 16. 11.

7. Ystyriwch, Mor ddiysymmwth, mor angerddol, neu mor ddirybudd y gall eich diwedd fod. Am hynny na thybied neu na ddyweded nêb, y cant feirw yn eu Nŷth, neu addo iddynt eu hunain amser i ymbarottoi trwy hîr fywyd, neu glefyd-nŷch, megis Darfodedigaeth neu'r cyffelyb. Bechag

chaduriaid diofn a diofal! ni wyddoch chwi beth a ddichon ddigwydd mewn noſwaith, neu awr; y gŵr goludog yn yr Eſengyl, tra 'r ydoedd efe'n breuddwydio am lawer o ddyddiau, a ddaliwyd gan genad ofnadwy a ddaeth i'w ladd ef; *O ynfyd, y nos hon y gofynnant dy enaid oddiwrthit, Luc.* 12. 20. Nid byw mae'r hwn ni wyr pa le, pa brŷd, neu pa fodd y bydd efe marw; rhai a aethant yn iach i'w Gwlau, ac a fuant feirw y noſon honno; eraill a ſyrthiaſant yn feirw oddiar eu Ceffylau; rhai a fuant feirw wrth eu Byrddau, tra 'r oedd y bwyd yn eu geneuau; eraill a fuant feirw yn eu llawn nerth, a hwy yn eſmwyth, ac yn heddychol yn gwbl, a'u bronnau yn llawn llaeth, a'u heſgyrn yn iraidd gan fer; eraill a fuant feirw mewn chwerwder enaid, ac ni fwyttaſant mewn hyfrydwch. Hwy a orweddant ynghŷd yn y pridd, a'r pryfed a'u gorchguddia hwynt, pan ddygir hwŷ i'r bedd ac yr arhoſont yn y pentwr. Garedigion, y mae llawer o Eſamplau ofnadwy yng air Duw am ddyfodiad triſt a diſymmwth y Gennad ddidrugaredd hon. Angau, y rhai ſy 'n ſefyll megis cynnifer o For-nodau i'ch rhybuddio rhag i Angau ddyfod mewn awr na b'och yn diſgwil am dano; a'ch cael heb ymbarottoi. *Belſazzar* Brenin y *Caldæaid* yn ei lawenydd mwyaf,

pan

pan nad oedd efe'n meddwl am Angau, a welodd yſgrifen law ar y pared yn ofnadwy iawn, ac a laddwyd y noſon honno, *Pan oedd efe'n gwledda ac yn yfed gwin, ac yn moliannu y duwiau o aur ac o arian: Yr awr honno byſſedd llaw dyn a ddaethant allan, ac a ſgrifennaſant ar gyfer y canhwyllbren, ar galchiad pared llys y brenin; a gwelodd y brenin ddarn y llaw a ſgrifennodd; yna y newidiodd lliw'r brenin, a'i feddyliau a'i cyffroiſant ef, fel y dattododd rhwymau ei lwynau ef, ac y curodd ei liniau ef y naill wrth y llall*, Dan. 5. 3, 4, 5. 6. a'r 30. Angau yw Brenin Dychrynniadau, a dychryn Brenhinoedd. *Hezeciah* ddaionus a gaes rybudd diſymmwth am Angau, *Eſay.* 38. 1, *&c.* Hynny a barodd iddo droi ei wyneb at y pared, weddio ac wylo ag wylofain mawr, a thrydar megis Garan, a griddfan megis Colommen; yn chwerwedd ei enaid, o waith ei fod efe i fyned i byrth y bedd, ac i'r pwll, lle nid oes obaith. Lladd pob cyntaf-anedig yn yr *Aipht* ar hanner nos; a barodd weiddi mawr, *Exod.* 12. 29, 30. *Corah* a'i hôll Gynnulleidfa annuwiol a lyngcwyd yngha-nol eu Gwrthryfel, *Numb.* 16. 30, 31. *Hwy a ddiſgynnaſant yn fyw i Uffern, a hôll Iſrael a ffoeſant wrth eu gwaedd hwynt.*

Fe fu farw yn ddiſymmwth o wŷr *Beth-ſemes* ddeng-wr a thrugain, a deng mîl a deu-

deugain o wŷr, am iddynt edrych yn Arch yr Arglwydd, 1 *Sam.* 6. 19. Ac y mae Duw lawer gwaith yn cymmeryd oddiwrthym ddymuniant ein llygaid a dyrnod, fel y cymmerodd efe wraig *Eseciel*, *Ezec.* 24. 16. plant *Job* a fuant feirw yn eu gwledd. *Isboſeth* a darawyd ac a fu farw yn ei gwſg. *Ananias* a *Sapphira* gwr a gwraig a fuant feirw o fewn tair awr neu bedair at eu gilydd, *Act.* 5. 5, 10. Y mae Duw y Barnwr cyfion lawer gwaith yn ſaethu'r annuwolion a ſaeth ddiſymmwth, ac y maent yn meirw yn y weithred o bechod, *Pſal.* 64. 7. Pan f'ont ynghylch llenwi eu boliau, y mae'r Arglwydd yn tywallt llîd ei ddigllonedd arnynt, fel y tywalltodd efe ar etholedigion Iſraêl, *Pſal.* 78. 30, 31. Y mae Duw lawer gwaith yn anfon allan ei Angel diniſtriol, i gyflawni angerdd ei lid, yr hwn a wna waith erchyll mewn ychydig amſer; canys mewn un noſwaith yngwerſyll y'r *Aſſyriaid*, Angel yr Arglwydd a darawodd gant a phedwar ugain a phump o filoedd, y rhai y boreu drannoeth oeddynt ôll yn gelaneddau meirwon, *Eſay* 37. 36. Mor fyr ac mor anſiccr yw ein bywyd, yn ddaroſtyngedig bôb moment i ddyrnod Angau, a'r briwſionyn lleiaf neu wybedyn a all wneuthur diben o honom ni, fel y gwnaeth o lawer. Ac megis y dichon ein diwedd fod

yn

yn ddiſymmwth, felly hefyd y gall ef fod yn angerddol; gall clefyd marwol oreſgyn pen a chalon, ac y mae dynion truein wrth feirw lawer gwaith mor gyfyng arnynt ac mor orphwyllog, fel na allant feddwl am ddim ond eu doluriau poenfawr, ac heb allel dywedyd dim wrth Dduw na dŷn oblegid eu heneidiau! O mor ſyn ac mor anheimladwy y mae llawer enaid yn myned i'r Bŷd arall! Mal *Nabal* neu mal gŵr mewn Hun-glwyf; neu megis cynnifer o gyffion neu feini, ac heb ddeffroi nes deffront yn nhan Uffern. *Y gwr goludog a fu farw, ac yn Uffern efe a gododd ei olwg*; yr oedd ei farwolaeth cyntaf a'r ail yn dra dirybudd. Sefwch yma chwi'r hôll Bechaduriaid calongaled, a rhyfeddwch weled Trugaredd digyffelyb, ac Amynedd anfeidrol y Duw mawr, yn attal Brenin Dychrynniadau cyhyd! Ni wnaeth Duw mor dirion a miloedd o Bechaduriaid a aethant o'r blaen i Farn, ac a ddiſgynnaſant i'r Pwll mewn moment, fel y tyſtia'r Pla ofnadwy a fu ddiweddaraf yn *Llundain*, o achos yr hwn yr aeth llawer mil o eneidiau i Dragywyddoldeb. O nac anghofied *Llundain* na'r Deyrnas hon mo hynny, a Barnedigaethau brawychus eraill a grochwaeddodd ein pechodau am danynt, rhag dyfod gwaeth nag un o honynt etto arnom ni. Anghofio ein diwedd ſy bechod

marwol

marwol y gyffru Dduw i ddigofeint, ac a hair i farn bryfuro. *Ei bafiendid fydd yn ei godreu, nid yw hi yn meddwl am ei diwedd; am hynny y fyrthiodd hi yn rhyfedd, heb nêb yn ei chyffuro*, Galar. 1. 9.

8. Yftyriwch, *Y bydd eich Eneidiau pan ddel Angau i dano'r dyrnod wedi eu ſefydlu, fe fydd eich Tragywyddoldeb wedi ei fforw fel nas newidir byth bythoedd:* Y pryd hynny y bydd eich Eneidiau anfarwol yn myned i Iechydwriaeth neu i Ddamnedigaeth, i Fywyd tragywyddol neu Angau tragywyddol, i Nefoedd dragywyddol neu Uffern dragywyddol. Chwychwi ddynion llwfr athriſt! gwybyddwch a chofiwch tra fo amſer gennych, cyn y torrer edafedd aur eich hoedl, os ceir chwi ond ymhen awr ar ol Marwolaeth hêb Griſt, Ffydd, Edifeirwch a Sancteiddrwydd, fe ddeifydd am danoch yn dragywydd. Wedi Angau mae pob moddion a gobaith yn pallu, *nid oes na gwaith, na dychymmyg, na gwybodaeth, na doethineb yn y bedd*, Preg. 9. 10. Fe fydd Duw'r pryd hynny yn anghymmodol, pechod yn anfaddeuol, y Nefoedd mal nas galler ei chael, a'ch eneidiau wedi eu colli yn ddïobaith. Ac yna y Diafol eich gelyn gwaedlyd a gaiff ei wynfyd arnoch; Y mae fe'n gwybod os ei eiddo ef a fyddwch mewn bywyd ac angau, mai ei eiddo ef a fyddwch

fyddwch byth ac yn oes oefoedd, ac na ymedy 'e a chwi a'i gilydd yn dragywydd. Bechaduriaid, diammau yw hyn, lle y fyrthio y pren, yno y bydd efe; fel y mae'r had, felly y bydd y cynhauaf; os gwnewch chwi waith y Diafol, fe fydd yn rhaid i chwi gael cyflog y Diafol: Os cerddwch tan orchymmyn ac arweiniad Tywyſog y Tywyllwch, a gadel iddo eich tywys a'ch lluſgo yma ac accw wrth ei ewyllys tra fyddoch byw, chwi fyddwch yn Garcharorion ac yn Gaethweiſion iddo ef yn y Carchardy ofnadwy hwnnw o dywyllwch du wedi eich marw.

Yſtyriwch, nad yw Gwlad y tywyllwch yn ddim lle i waſanaeth, nid oes dimedifarhau yn y Bêdd, ddim o Arglwydd trugarha wrthym yn ſgrifennedig ar byrth Uffern, nid oes yno na Sabbothau, na Phregethau, na Gweinidogion. Yn amſer eich bywyd y mae'n rhaid i chwi lafurio a pharottoi am fywyd tragywyddol; o waith mai yn ol eich gwaith a'ch dewis yn y Bŷd hwn, y bydd eich cyfran dragywyddol yn y Bŷd a ddaw. Goſodwyd i chwi farw unwaith, ac wedi Angau bod Barn, *Heb.* 9, 27. Y mae'r March gwelwlas Marwolaeth yn myned ym mlaen, ac Uffern yn canlyn ar ei ol ef, *Datc.* 6. 8. Ni newidir mo'ch cyflwr, y mae Dinyſtr tragywyddol, neu lwyddiant

ant tragywyddol eich eneidiau gwerthfawr yn ymddibynnu ar yr ychydig funudau hyn; yr Afon chwyrn hon o hoedl dyn, wedi iddi droi unwaith a llaeſu, a rêd yn oeſtad gan dreio, ac ni leinw hi byth drachefn: felly fel y bydd y cwbl a adawoch heb wneuthur yn awr, heb ei wneuthur yn dragywydd. Os byddwch feirw yn Angrhedadwy, chwi fyddwch yn Angrhedadwy yn dragywydd; os byddwch feirw tan euogrwydd a gallu pechod a digoſaint Duw, chwi arhoſwch tan euogrwydd pechod a digoſaint Duw yn dragywydd: Eithr os byddwch feirw yn ſanctaidd yn oſtyngedig, wedi eich marweiddio, ac yn Griſtianogion diragrith, chwi arhoſwch yn ſanctaidd, yn nefol, ac yn ffafor Duw yn dragywydd, *Datc.* 22. 11. *Yr hwn ſydd frwnt ſydd frwnt etto; a'r hwn ſydd ſanctaidd, ſydd ſanctaidd etto*: Eithr y Pechadur diedifeiriol heb gael maddeuant, er pe byddai fyw gant neu fil o flynyddoedd i fodloni ei Drachwantau, a felldithir yn y diwedd. O Druein! y rhai ydych yn darllen y Traethawd bychan yma, mi ddeiſyfaf arnoch godi a gweithio tra 'yw yn ddydd; y mae y nos yn dyfod, pan na ellwch chwi na neb weithio, *Joan* 9. 4. Am hynny ewch at eich gwaith, a gwnewch ef a'ch holl egni, tra fo'ch Canwyll yn lloſgi, eich Haul

yn

yn tywynnu: A ddïogwch chwi etto, a chwithau yn gweled eich Awr-Leſtr yn rhedeg, eich Haul yn machludo, eich hunain yn meirw, a'ch Eneidiau yn cael eu diſethu? Am hynny *ceiſiwch yr Arglwydd tra y galler ei gael ef*, Eſay 55. 6. *mewn amſer cymmeradwy*, 2 Cor. 6. 2. *Cyn i'r ddeddf eſgor, cyn i'r dydd fyned heibio fel peiſſwyn*, Zeph. 2. 2. Cyn dyfod y dyddiau blîn, cyn tywyllu y rhai ſydd yn edrych drwy Feneſtri, a dechreu o geidwaid y tŷ grynnu, cyn cau'r pyrth yn yr heolydd, cyn torri y llinyn arian, a'r cawg aur, cyn torri'r piſer ger llaw'r ffynnon, neu'r olwyn wrth y pydew, cyn myned o honoch i dŷ eich hîr gartref, a dychwelyd o'r yſpryd at Dduw yr hwn a'i rhoes ef, *Preg.* 12. 1, &c.

Yſtyriwch rhyngoch a chwi eich hunain, A ydych yn gymmwys i ymafael a'r Pennadur galluog hwn Angau? A ydych wedi ymbarottoi i'r daith faith hon, ac yn barod ac yn ewyllyſgar i fyn'd trwy'r Ogof dywyll hon? Gochelwch ac ofnwch rhag eich cael yn amharod; meddyliwch am y pum Morwyn ffol, y rhai oedd yn myn'd i brynnu Olew pan ddylaſai eu Lampau fod yn lloſgi, ac felly a ddaethant at y drŵs, eithr a'i cawſant ynghauad: Cofiwch am *Eſau* druan, yr hwn oedd yn hela helfa, tra fu efe'n colli'r fendith.

Chwychwi Bechadduriaid truein! Beth ydych at fedr ei wneuthur? Os gweithiwch mae'n rhaid i chwi weithio bellach neu beidio. A ydych chwi yn bwriadu ceisio a fiedrhau Teyrnas Dduw yn gyntaf ac o flaen pob peth, *Matth.* 6. 33. Tra y gelwir Hi heddyw? neu a oes gennych ddim ond gwaelodion a budreddi henaint marwllyd i'w roi i Dduw a'ch Eneidiau anfarwol? Oh na wybyddech chwithau yn eich dydd bwn y pethau a berthynent i'ch heddwch, cyn eu myned yn guddiedig oddiwrth eich Llygaid.

9. Yn olaf, Yſtyriwch, *Mai'r olwg erchyllaf a ſynnof y tu yma i Uffern yw gweled Angbredadyn heb Grift yn anadlu allan ei anadl ddiweddaf?* Fe welir pethau eraill gresynol iawn, megis gweled Gŵr yn newynu o ddiffyg Bara, neu yn marw o ddiffyg Meddyg, neu 'n boddi o ddiffyg Bâd; neu weled Gŵr yn farw, Celain, Corph heb Enaid; eithr och! Mor resynol ac mor ofnadwy yw gweled Gŵr yn agos at Derfynau Tragywyddoldeb, ſef, gweled pechadur truan yn ei lygchwys derfydd yn griddfan wrth farw, a'i Enaid gwerthfawr ac anfarwol yn ſefyll dan grynnu ar ei wefuau oerion ac angau y Goreſgynnwr mawr, a Brenin Dychrynniadau yn dyfod yn ynfyd a'i Writ i'w ſymmud ef yn y

naill

naill llaw (na's gellir ei dychwelyd) a'i biccell farwol a'i golyn yn y llaw arall; Cydwybod yn dirdynnu, yn cyfarth, yn cnoi, ac yn ei rwygo fel Llew; y Diafol, dihenyddwr Duw, yn edrych arno, ac yn ſefyll ger llaw iddo: Y galon tan anobaith trwm a foddedig, y llygaid yn dywyll ac yn ſefyll, llinynnon y galon yn barod i dorri gan gyfyngder; ei Wraig, ei Blant a'i Gyfeillion wrth erchwyn y gwely yn wylo, yn ochneidio, yn llefain, yn gwaſgu eu dwylaw ac yn curo eu dwyfronnau; y Wraig yn gweiddi, o fy ngwr! Y Plant yn llefain, och fy Nhad! Yr Enaid truan a ddifethir a fydd yr hôll amſer hyn yn edrych yn ol ar yr amſer a gamdreuliodd efe, a'i bechodau gynt; yn edrych i mewn ar ei galon ei hun, golwg erchyll! lle ni wêl efe ddim o Ghriſt, ddim Gras, ddim Purdeb, ddimond pechod, euogrwydd, Angau a thywyllwch: yna yn edrych i fynu ar y Duw hwnnw a ddigiwyd, y Criſt hwnnw a wrthodwyd, ac ar y Nefoedd honno a'r Tragywyddoldeb a gollodd efe; ac yn edrych i wared ar y pwll tywyll ac ofnadwy hwnnw, fy raid ei fod yn lle a chyfran iddo ef (gyda diſgwil yn ddychrynnedig am Farn) gan ganfod y Cythreuliaid yn dyfod ac yn barod i ymaflyd ynddo. O Pa weiddi ac yſgrechain ofnadwy a wna'r

enaid wrth ymadael ! gan ddeall ei fod efe ei hun yn ſoddi i wared, i wared i't llyn tanllyd a'r pwll diwaelod, lle y bŷdd yn rhaid iddo gymmeryd i fynu ei letty gŷd-a'r tan yſſol byth ac yn dragywydd.

Gwewyr marwolaeth, colli'r bŷd, cyfyngder Cydwybod, ac ofn Uffern yn cydymgyfarfod a wnant ddŷn yn berffaith druenus, ac a barant iddo weiddi gŷd-a *Chain* felldigedig, *Gen.* 4. 13. *Mwy yw fy nghosbedigaeth nag y gallwyf ei goddef*, neu ddywedyd (gŷd a'r Eglwys gyſtuddiedig *Gwelwch ac edrychwch a oes y fath ofid a'm gofid i?* Galar 1. 12. Ac os yw meddwl dychrynnedig Cydwybod euog yn cyhuddo, mor boenedig a durfing yma, beth a fydd tan cyfan a mor o ddigofaint ar ol hyn, pan dywelltir ef allan hŷd yr eithaf?

Yſtyriwch Bechaduriaid anſynhwyrol, mai fel hyn y gall eich cyfiwr cwynfannus fod pan ddeloch i farw, *ſef*, cael llawer o ofid a digofaint gŷd-a'ch clefyd, Canys *ni bydd heddwch, medd fy Nuw, i'r rhai annuwiol, Eſay* 57. 21. Nid oes un gair yn yr holl Fibl, nad yw'n llefaru dychryn ym mywyd ac angau i'r annuwiol; er pe bae'r pechadur fyw gan mlhynedd, fe felldithir; fe fydd marw tan yr holl felldithion ſy'n ſgrifennedig yn Llyfr Duw; ïe a than yr echryſtonat felldith Efangylaidd honno,

1 *Cor.*

1 *Cor.* 16. 22. Deall yr hyn a bair y fath afionyddwch yſpryd, a meddwl athrift am euogrwydd, a'r a wnelo iddynt felldithio eu Duw a'u Brenin; gan edrych i wared ar y pwll, gan ruo allan, *Pwy o honom a drig gyd-a'r tân yſſol? Pwy o honom a breſſwylia gyda lloſgfeydd tragywyddol?* Eſay 33. 14. Am hynny byddwch ſynhwyrol i ddeall hyn, chwi oll y rhai ydych yn anghofio Duw, *rhag iddo efe eich rhwygo, ac na bydde gwaredydd*, Pſal. 50. 22.

Ac megis y mae yn ofnadwy ac yn frawychus gweled Angrhedadyn yn marw, felly yn y gwrthwyneb, y mae'n gyſſurus ac yn hyfryd gweled y Duwiol yn marw, o waith mai (ei *ultimum* yw ei *optimum*) ei amſer diweddaf yw ei amſer goraf, a gwell (medd *Salomon* Preg. 7. 1.) *Yw dydd ei farwolaeth na dydd ei enedigaeth*, Canys *ei ddiwedd fydd tangneddyf*, Pſal. 37. 37.

Duw mewn tangneddyf, Cydwybod mewn tangneddyf, a'r cwbl mewn tangneddyf; O'r olwg wynfydedig! weled yr Enaid yn llammu ac yn dyheu am y Nefoedd, yn myned allan o'r byd ar adenydd llawenydd, tawelwch a thegwch yſpryd, gyd-a gwynt hwylus i'r Nefoedd, gan hiraethu a gweiddi, Fy Nuw, na hir drig; bryſſia, fy anwylyd, bryſſia; tyred Arglwydd Ieſu; y mae gennyf chwant i'm dat-

tod ac i fod gyd-a Chriſt, yr hyn ſydd oreu oll, *Phil.* 1. 23.

Chwi glywſoch beth yw'r pethau mawrion ſy raid i ni yſtyried oblegid ein diwedd, ſef, y bŷdd diwedd yn ſiccr, nad yw'r bŷd hwn ddim lle parhaus; na wêl y rhai ſy'n eich gweled yr awr hon, eyn y bo hir, mo honoch mwyach yn dragywydd; Chwi a glywſoch y difethir eich pethau preſennol, y gâd pechod, yr hwn ſydd mor llawn o wenwyn marwol golyn, biccell a drywana trwy eich afu, ac y bydd cyſtwr yr annuwiolion yn alarus, yn ofnadwy, ïe, ac yn ddiobaith, pan ddelont i feirw; canys pan ddêl Angau, ſe fydd eich eneidiau'r pryd hynny wedi eu ſefydlu fel na ddichon dim cyf-newidiad fôd byth bythoedd.

Y pêth neſſaf yw, ſon am y Rheſymmau pa ham y mae yn ddyledſwydd ac yn bêth o'r fath bŵys i ni yſtyried ein diwedd, a'r Rheſymmau yw y rhai hyn ſy'n canlyn.

Y Rheſwm 1. A gymmerir oddiwrth Dduw, *O waith fod yr unig ddoeth, y graſol, y trugarocaf, a'r enaid-doſturiolaf Dduw yn dymuno hynny yn dra difrifol, Oh na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad yſtyrient eu diwedd!* Garedigion, yn y dymuniad, neu'r deiſyfiad gynhyrfiol hwn, y mae tyner ymyſgaroedd Duw, hon yw gwîr iaith ei galon ef, ac y mae, mal pe dywedaſai

efe

efe (yn ol dull dynion) wrth ei was ffyddlon *Moſes*; nid oes gan i ond un deiſyfiad neu arch, a'r cwbl a gynhwyſir yn yr un honno, hynny yw, am fyned o honot a dywedyd wrthynt trofof fi, fod yn rhaid iddynt fod yn ddoethion i yſtyried hyn; i gofio y dyddiau gynt, a blynyddoedd Cenhedlaeth a Chenhedlaeth, beth a wneuthym i troſtynt drwy eu dewis hwyns o'r holl bobloedd fyfid ar wyneb y ddaiar i fod yn dryſſor, yn bobl unig a phriodol i mi; ac o achos i mi eu caru, y gwaredais hwynt, y gwneuthym ryfeddodau troſtynt yn yr *Aipht*, yn y mor coch, ac yn yr anialwch, ac a'u cedwais mor anwyl a chanwyll fy llygad, gan eu dwyn ar adenydd Eryrod; ond etto gwybyddent ddarfod iddynt fy anghofio i, fy nigio i, a bod eu diwedd yn debyg i fod yn druenus: canys tan a gynheuwyd yn fy nig, ac onid yſtyriant ar hyn, fe lyſg hyd Uffern iſod.

Bellach chwi y rhai ydych mewn perygl, pa un oreu yw? Gwrthwynebu, croeſi a blino eich unig gyfaill goreu, ac anwylaf, afo'n dymuno'n dda i chwi; ai rhyngu bodd a bodloni eich gelyn amlwg, marwol ac anghymmodol? Ni ddichon eich gwrthwynebwr y Diafol oddef i chwi feddwl am Angau neu farw; canys pe dioddefai a phe gadawai Satan yr hen Sarp honno i chwi

edrych i Uffern, ni allai na'ch llusgo na'ch tynnu yno wrth ei ewyllys. Ac a ewch chwi rhagoch yn ffyrdd pechod ac angau? Neu meddyliwch rhyngoch a chwi 'ch hunain, eiddo pwy ydych, beth a wnauthoch, i ba le yr ydych yn myned, a phêth ſydd debyg i ddyfod o honoch pan êl y ffun allan o'ch genau; pa ymbarottoad a wnaethoch am y byd arall, fel y gwneler y gwaith mawr rhwng Duw a'ch eneidiau chwi felly i fynu.

Bechaduriaid! Pe buaſai'r Duw ſanctaidd anfeidrol, cyfiawn a geir-wir yn chwennych ac yn amcanu eich Dinyſtr a'ch colledigaeth, ni buaſai efe yn galw arnoch fel hyn yn brûdd ac yn ddifrifol i yſtyried, drwedd pechod, angau a thragywyddoldeb, hŷd pnid aethai hi yn rhy hwyr, a chwithau wedi eich gadel yn ddiymwared; am hynny mae'r hyn a amcenir yma yn perthyn i'ch gwneuthur yn ddedwydd, os edrychir atto. *Oh na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad yſtyrient eu diwedd!*

Rheſwm 2. *O waith mai meddwl yn ddwfn, yn ddifrifol ac yn yſtyriol am Angau a'r Bêdd a'i naturiola, ac a'i geſyd ger bron, cyn neſſed a phe bae wrth y drws, ac a'i gwna i'w weled yn eglur:* Lle nad yw pethau a edrychir arnynt o hirbell, pa un bynnag fyddont ai da ai drwg, yn gweithio ond ychydig neu ddim arnom: Yn awr Yſtyried yn ddifri-

fol

fol ac yn ddŵys a ddyry megis bôd i bethau a ddaw, ac a'u dŵg yn agos, fel y galloch ymddiddan yn naturiol a'r pethau hynny.

Y gŵr gwîr dduwiol ſy'n cael yr olwg ar bethau anweledig trwy ſyfyrdod Duwiol yma ar adenydd ffydd a gobaith, a all eſgyn i'r Nef, a rhodio tro ar hŷd heolydd curaid *Jeruſalem* newydd, megis y bu y Prophwyd *Ezeciel* yng weledigaethau Duw yn *Jeruſalem* yn ei feddwl, pan oedd ei gorph wrth Afon *Chebar* ym myſg y Gaethgiud yng-wlad y *Caldæaid*; felly hefyd y mae gan yr yprydion triſt archolledig hynny (y rhai trwy ofn angau ydynt holl amſer eu bywyd mewn caethiwed, drwy ymarfer ag Enaid-ymdrechau, a than argyhoeddion nerthol pechod a thrueni yn lladd) y fath feddyl-iau am Uffern a digofaint Duw, a'r y ſy'n peri iddynt fyn'd yn fynych i ſtafelloedd marwolaeth, ac ymweled a charcharorion y pwll, ac edrych ar y Gagendor du hwnnw a'r ffwrn dan i fod mor agos, a'u bod ar ei hymyl yn ſyrthio'n waſtad. Yn y cyflwr yma y bu llawer o weiſion anwyl Duw, y rhai ſy' yn awr yn y Nefoedd uwchlaw'r holl ofn a'r dychrynedigaethau hyn oeddynt unwaith chwerwach nag Angau. Ac ohpa nifer yn ymofidio gan y gwewyr hyn a chyfyngder enaid, ſy' yn barod i weiddi gŷd-a *Job* dduwiol! *Pen.* 6. 4. *Y mae ſaethau'r Holl-*

Holl-alluog ynof, y rhai y mae eu gwenwyn yn yfed fy yſpryd: dychrynfau Duw a ymfyddinaſant i'm herbyn. Y cyfryw ydyw anian myfyrdod neu yſtyriaeth, ag y gwna i bethau a ddaw a phell weithio'n naturiol, yn nerthol ac yn ddwfn ar ein meddyliau. Megis am Eſampl.

Marchnatta wr yn yr *India*, trwy ei fyfyrdod neu feddylfryd, a all feddwl am ei orchwylion, ei wraig, ei blant a'i gyfeillion yng *Hymru*; neu Farchnatta-wr a fo'n rhodio yn y Farchnad yn *Llundain*, a all fod a'i fwriad a'i feddyliau yn yr *Yſpaen* neu'r *Itel*, neu ryw le arall; gall Drwgweithredwr a fo wedi ei fwrw i Garchar am ryw fai hynod ym mhell cyn y Seſſiwn feddwl am amgylchiadau triſt ei Drïal; fe all (yn ei feddyliau) ei weled ei hun wedi ei ddwyn i'r Bar, yn ſefyll ger bron Barnwr traws i wrando darllain ei Indictment, profi'r achwyniad, cyhoeddi ei farn a'i ſentens, a'i weled ei hun (mal ped fae) wrth le ei ddihenyddiad, a'r Cebyſtr am ei wdd yn barod i'w grogi ef. A phe baech chwi yn ymroi o wir ddifrif i yſtyried eich diwedd, chwi allech yn wîr ac yn deimladwy yn eich calonnau feddwl am henaint, cymhyrcynrwydd, clefyd, eich gwely angau, anadl byr, chwyſs oerllyd, gwewyr marwolaeth a griddfan, amdo, yſgrin, a'ch gweled eich hunain (mal

(mal pe baech) wedi eich eſtyn a'ch rhwymo, ac ar yſgwyddau dynion i'ch dwyn i'r Bedd, lle'r ymborth Pryfed a Chynrhon ffiaidd arnoch,

Gweiſion Duw a'r Sainct gynt a wnaethant hyn trwy lwyddiant mawr a mantais Enaid, ac felly y dylech chwitheu. Hwy a gyfrifaſant neu a rifaſant eu hoedl wrth ddyddiau, o waith eu bod beunydd yn ddigwyddol i farwolaeth ac yn diſgwil am dano 'n waſtadol. *Dyſg i ni gyfrif ein dyddiau*, ebe *Moſes*, *Pſal.* 90. 12. *Ychydig a drwg fu dyddiau blynyddoedd fy enioes* ebe hen *Jacob*, Gen. 47. 9. *Canys dyn a aned o wraig ſydd fyr o ddyddiau*, Job 14. 1. *Diſgwiliaf holl ddyddiau fy milwriaeth* (ebe *Job*) *hyd oni ddelo fy nghyfnewidiad*, Job 14. 14. *Canys myfi a wn y dygi di fi i farwolaeth*; *ac i'r ty* (*ty tywyll*) *rhagderfynedig i bob dyn byw*, Job 30. 23. Ac *pen.* 17. 1. Y dywedodd efe, *Fy anadl a lygrwyd*, *fy nyddiau a ddiffoddwyd*, *beddau ſy barod i mi*; pa le bynnag yr ae neu y delai, yr oedd efe yn edrych am fedd. Drachefn, trwy ddwys yſtyried y gallwn ni edrych nid yn unig ar y bedd, eithr hefyd tu hwnt iddo, ar y gweithredoedd mawrion, a'r pethau ofnadwy a fydd wedi angau. Nyni a allwn feddwl am loſgi'r Byd, dyfodiad Criſt, ſain yr Udcorn, agoryd y beddau, cyfodi'r Meirw, rhuad yr Annuwolion, y

rhai

rhai (er llawened ydynt) a lefant y prŷd hynny ar fynyddoedd a chreigiau meirwon a mudion am ſyrthio arnynt, a'u cuddio rhag wyneb ofnadwy Mab Duw, y mae'nt yn ei ddirmygu'r awrhon: Canys ni allant ſefyll yn y dŷdd mawr hwnnw o'i ddigter ef a'i ddigofaint ofnadwy, *Datc.* 6. 16, 17.

Trwy'r yſtyriaeth wîr a chredadwy hon y gallwn ni ganfod y Barnwr yn ſefyll wrth y drŵs, a Mab Duw (megis pe bae) yn barod i dorri allan trwy'r Cymmylau, gydag allu a gogoniant mawr, fel y gwnaeth S. *Jerom*, yr hwn a ddywedodd, pa un bynnag ai bwytta ai yfed a wnelwyf, yr ŵyf yn clywed y llais hwn yn fy nghlŷſtiau, *Cyfodwch feirw, a deuwch i farn:* Yn awr, os yw iawn yſtyried y pethau mawrion a ddaw, mor awchlym ac mor ddeffröus, bydded Angau yr hwn ſy'n waſtad yn eich annos wrth eich ſodlau yn fynych yn eich meddyliau; ïe, fe ddylai eich pennau a'ch calonnau hefyd gofio am dano'n fawr; bôb nos pan eloch i'ch gwlau, a phob boreu pan godoch, meddyliwch bêth yn ddifrifol ac yn brûdd am Angau a Thragywyddoldeb. Bydded yr hyn a ſgrifennodd llawer yn eu Modrwyau, ſef, *Coſia farw*, yn ſgrifennedig a phin o haiarn ac ag ewin o Adamant yn eich calonnau chwi. Dywed Hiſtoriawyr am *Philip* Brenin *Macedonia*, iddo oſod gur-

gorchymmyn ar un o'i weiſion ddyfod bob boreu iw ſtafell ef, a chyhoeddi hyn, ſef, *Ei fod efe'n farwol*; ac os oedd gŵr Cenhedlig mor ofalus am gadw cof o'i farwoldeb, mwy o lawer y dylai Criſtion. Nyni a ddylem bob amſer gofio dyddiau tywyllwch, *Preg.* 11. 8. A chadw Bywyd ac Angau, Nêf ac Uffern ger ein bron, gan nad oes onid megis cam rhyngom ni ac angeu, 1. *Sam.* 20. 3. Eſgeuluſo ac eiſiau hyn oedd pechod *Iſrael*, a *Jeruſalem* hefyd; *Ni feddyliodd hi am ei diwedd, am hynny y ſyrthiodd hi yn rhyfedd*, Galar. 1. 9. A hyn y mae Duw yr hwn a fynnai i ni gofio ac yſtyried yn achwyn yn doſt rhagddo trwy'r Prophwyd, *Eſay* 1. 2, 3. gan alw'r Netoedd a'r Ddaiar yn dŷſt troſto. *Gwrandewch Nefoedd; clyw ditheu Ddaiar: Yr ych a edwyn ei feddiannydd, a'r Aſſyn breſeb ei berchennog: Ond Iſrael nid edwyn, fy mhobl ni ddeall.*

Rheſwm 3. *Difrifol yſtyried eich diwedd a ddaw (trwy Ras Duw) i fod yn Gyfaredd ragorol a godidog i yrru'r drwg mwyaf ymaith, (ie yn fodd i ddiangc rhag colled anfeidrol) ſef pechod a'i effeithiau a'i ganlyniadau erchyll.*

Bêth yw'r achos o'r lliſeiriant a'r morhwnnw o ddrygioni, a'r pechodau aruthraf ag ſy 'n awr yn y bŷd, ac yn y Genedl hon, ym mhob Dinas, Trêf a Mangre, ac yn y rhan fwyaf o Deuluoedd, ym myſg pob

ſtat

ſtat a gradd o ddynion, megis, Swyddog
ion Gweinidogion, Pobl, Rhïeni, Plant
Meiſtriaid, Gwaſanaeth-ddynion, onid hw
ſef eu bod heb yſtyried eu diwedd y
ddyfnddŵys, ac yn ddifrifol? Hyn ydym y
ei gael wedi ei oſod i lawr yngair Duw i fo
yn un o ſeiliau mawrion pob pechod, ac
eſgeuluſo pob dyledſwyddau.

A ydych chwi, bechaduriaid dïofal, y
eredu ac yn cofio fod yn rhaid i chwi farw
a dyfod i farn, fod yn rhaid i'ch eneidia
noethion, a'ch pechodau noethion ſefyll
fyr ger bron y glewaf a'r ſarrycaf Farnw
byw a meirw, meddwl am yr hyn a fydd
megis cyllell ar eich gyddfau, megis cleddy
ar eich dwyfronnau, neu megis ſgrifen-law
ar y pared, i attal a lleſtair eich gyrfa
waſtadol ac enbyd o ddrygioni ac anwiredd.

Oh pa greulonder erchyll ac uffern
ydys yn ei wneuthur yr awrhon, a hynny y
bwyllog, yn ddigywilydd, yn gyndyn, y
erbyn hŷd yn oed goleuni natur, cydwybod
a'r Sgrythyr! Pa felldithio, dywedyd Cel
wydd, Rhegu, Cablu, torri Sabbothau,
Twyllo, Hudo, Lladratta! Pa Anlladrwydd,
Diffeithder, Aflendid, Meddwdod moch
aidd, Cybydd-dod, Bydolrwydd! Pa Wat
war, Gwawdio, Llîd, Cynſigen, Digaſedd,
Balchder, Gwŷn, a Drygioni yſprydol he
fyd, megis Angrhediniaeth, Diddiwiaeth,

Dïedi-

Diedifeirwch, Rhagrith, Ymadawiad a'r ffydd, Caſſau Duw, ei Bobl, ei Weinidogion, ei Ffyrdd a'i Ordinhadau, ſy'n amlhau ym mhob lle! Y mae dynion yn mynegi eu pechodau mal *Sodoma*, ac nid oes arnynt gywilydd am weithredoedd anffrwythlon y tywyllwch; a pha ham? onid o achos nad ydynt yn goſod eu meddyliau a'u calonnau ar eu diwedd.

Oh bechaduriaid truain, ac ar drangcedigaeth! Goddefwch i mi (o dyner doſturi tu-ag at eich eneidiau ſy'n gwaedu ac yn barod i ſoddi) ddeifyf arnoch megis er mwyn yr Arglwydd, diſgyn i'r bedd, ddiſgyn i Uffern yn eich meddyliau, ac ymattal yno, a meddwl am Frenin Dychrynniadau, pryf Cydwybod, dyneſſad y Cythreuliaid, y Llyn yn lloſgi, y Pydew diwaelod, colli Duw, Criſt, y Nefoedd, a'ch Eneidiau gwerthfawr; coſwch y fflammau tan poeth a diddiwedd hynny, preſenoldeb a chyfeilliach Cythreuliaid, Gwrthodedigion, ac Yſprydion damnedig; ac fe fydd eich tammeidiau melus i chwi yn fuſtl a wermod. Y pethau brawyehus hyn os gwir yſtyrir, a fyddant mal mellt yn eich llygaid, Taranau yn eich cluſtiau, mal Drain, Piccellau a Chleddyfau yn eich cnawd, mal gwenwyn yn eich ymyſgaroedd, mal tan yn eich eſgyrn i'ch gyrru a pheri i chwi'n ehrwydd attal a

ffrwyno

ffrwyno awen eich trachwantau Uffernol, fel y galloch felly ffoi rhag y llid a fydd.

Pe gwnaech ddim ond gweled y bedd tywyll ac oer hwnnw, ac Uffern boeth ſy mor agos, chwi a newynech neu a fyddech feirw yn hytrach na rhedeg i'r gormodedd hwnnw o bob gloddeſt a chyfeddach; ni allech na chyſgu na chwrnu, downfio na chwarae ar fin y pwll tan y cyfryw yſtyriaeth.

Eithr anghofiwch hyn oll, gyrrwch ymaith feddyliau am Dduw, Angau ac Uffern, a chwi a redwch ac a ruthrwch i bechod, megis march i'r frwydr, *Jer.* 8. 6. *Luc.* 12. 45. gan weiddi, heddwch, heddwch, nes del perygl, marwolaeth a diniſtr, 1 *Theſ.* 5. 3.

Dyma'r pechod mawr hwnnw a addfeddod *Gaer-Salem* i ddinyſtr, ac a wnaeth iddi ſyrthio yn rhyfedd. *Ei baſlendid ſydd yn ei godreu, nid yw hi yn meddwl am ei diwedd.* Y mae'r Arglwydd yn achwyn trwy'r Prophwyd *Eſay* rhag yr un peth, *Iſrael nid edwyn, fy mhobl ni ddeall:* Eithr beth ſy'n canlyn, *Oh genhedlaeth bechadurus, pobl lwythog o anwiredd, had y rhai drygionus, meibion yn llygru, gwrthodaſant yr Arglwydd, digiaſant Sanct Iſrael*; Cyſtedlwch *Galar.* 1. 9. ag *Eſay.* 1. 3, 4.

Ond yr hwn a wnelo farn a chyfiawnder, hwnnw a geidw yn fyw ei enaid; Pwy yw hwnnw? Y ſiwſ a yſtyrio, ac a ddychwelo

oddiwrth

oddïwrth ei hôll gamweddau y rhai a wnaeth, hwnnw a geidw ei enaid; pwy bynnag a ddifethir, ni ddifethir byth mo'r dŷn hwnnw, *Ezec.* 18. 14, 28.

Rheſwm 4. *Yſtyried eich diwedd a ſydd annogaeth nerthol i'ch gwneuthur yn egniol, ac i ymarfer y diwydrwydd mwyaf mewn ffordd o ddyledſwydd*; ïe fe weithia yn ddïammeu ar eich holl ddyledſwyddau, ac ar eich holl raſuſau; canys yſtyried a gwneuthur a gyſylltir yn fynych ynghŷd, *Pſal.* 41. 1. *Gwyn ei fyd a yſtyria wrth y tlawd*, Dihar. 31. 16. *Hi a feddwl neu a yſtyria am faes, ac a'i pryn ef. Meddyliais am fy ffyrdd, neu yſtyriais fy ffyrdd, a throais fy nhraed at dy dyſtiolaethau di*, *Pſal.* 119, 59. *Galar.* 3. 40. Hyn os dim a'ch gwna yn ddifrifol, yn ddiwyd ac yn ddïanwadal mewn un rhyw ddyledſwydd, ac i weithio tra ydyw yn ddydd, cyn y delo y nos pan na ddichon neb weithio, *Joan* 9. 4.

Y mae'r Apoſtol yn ein cynghori i *gyd-yſtyried bawb ei gilydd, i ymannog i gariad a gweithredoedd da; a hynny yn fwy, o gymaint a'ch bod yn gweled y dŷdd yn neſſau*, *Heb.* 10. 24, 25. Cofio dŷdd ein marwolaeth a'n mynediad i Dragywyddoldeb, a goſod hynny i weithio'n ddwfn ar y galon, a fydd fel llais Taran yn llefaru wrth y pechadur dïofal anheimladwy, Deffro, De-

ffro, ti yr hwn wyt yn cyſgu, agor dy lygaid, ſaf ar dy draed, gwêl a chenfydd pa For o waed a digofaint ſy' yma! Gwêl a chrêd, cred ac yſtyria, yſtyria ac ofna, ofna a ffo, a bryſſia yn dy waith; y mae dy waith yn dra-mawr ac yn bwyſig, mae gorchwylion yn aml, mae gwrthwynebwyr yn gryfion, mae dy nerth yn ychydig, mae dy amſer yn fyr, mae dy gyfrif yn fawr, mae marwolaeth a barn wrth y drŵs, am hynny cyfod a gweithia bellach neu baid.

Y Morwr halogediccaf a ochneidia, a alara, a weddia a eddy ac a addduneda, os bydd marwolaeth a pherygl yn edrych yn ſarryg yn ei wyneb ef. Pan oedd y llong yn debyg i fyn'd yn ddrylliau, a marwolaeth yn maes o law yn bygwth ymaflyd ynddynt, y Morwyr a ofnalant yn ddirfawr, ac a lefaſant bob un ar ei Dduw. A hyn a ddyſgodd goleuni natur yn unig i Feiſtr y llong (er mai gŵr Cenhedlig ydoedd) nad oedd e'r pryd hyny y ddim amſer i gyſgu; *Beth a adarfu i ti, gyſgadur? cyfod, gaiw ar dy Dduw; ſe allai'r yſtyr y Duw hwnnw wrthym, fel na'n roller*, Jonah 1. 6. A'r Lladron a'r Llofruddion hynodtaf a weddïant yn y Carchar, neu pan ddelont at y Crog-pren, lle dihenyddiad.

Pan anfonodd y Barnwr cyfiawnaf ei Angel diryſtriol i Ddinas *Llundain*, a lleoedd er-

eraill yn y flwyddyn 1665, Rhag dirfawr ofn yr hwn y ffodd llawer mîl, a llawer mîl a fyrthiodd, fef Celaneddau dynion megis tom ar y ddaiar, ac megis dyrneidiau ar ôl y Medelwr. Pan gurodd Angau wrth fil o ddryfau mewn un nofwaith, O pa gyfaddef pechod, ymprydio, gweiddi a churo'n daer a fu wrth orfeddfaingc Gras (ac yfgatfydd gan lawer o ddynion a theuluoedd na weddïafant ond ychydig gynt na chwedyn.) ar i Dduw doſturio, maddeu a fymmud y Farnedigaeth gynhwynol honno oedd yn yſgubo, yr hon fy'n awr ym mron myn'd yn anghof. Pan dybiwyd yn ddeffrous am lwyr ddinyſtr *Ninefeh*, y Brenin a'i Bendefigion a orchymynnodd, ac a gyhoeddodd Ympryd, ac a archodd i bob un alw ar Dduw yn lew, *Jonah* 3. 7.

Bechaduriaid, pe baech yn wîr deimladwy o'ch perygl, chwi weddïech yn burach, yn wreſoccach, yn ewyllyſgarach, yn ddwyfach, ac yn fwy calonnog nag y gweddiaſoch er ioed o'r blaen. Perygl mewn tyb, a hwnnw'n berygl marwolaeth hefyd, a wnaeth i *Jacob* wylo ac ymbil ar Dduw; *Canys* Eſau *a gaſaodd* Jacob, *ac a ddywedodd yn ei galon, neſſau y mae dyddiau galar ſy Nhad, yna y lladdaf* Jacob *ſy mrawd*, Gen. 27. 41. a *Jacob* a ofnodd yn fawr, a chyfyng oedd arnaw, *Gen.* 32 7. Yr hyn a ba-

rodd iddo fod mor daer wrth Dduw am ymwared, ac a orchfygodd, *Gen.* 32.11,28. *Hoſ.* 12. 4. Bechaduriaid truein! Y mae eich cyflwr yn enbyd, (ni ddywedaf yn ddiobaith) ond ni wyddoch chwi oddiwrtho; ni wyddoch chwi eich bod yn druein, ac yn reſynol, ac yn dlodion, ac yn ddeillion, ac yn noethion: Pe deallech eich bod yn haeddu digofaint Duw, dyrnod a cholyn Angau, bôb moment, fe barai hynny i chwi alw ar Dduw yn lew am nawdd a maddeuant, *Job* ſanctaidd, pan feddyliodd eſt am farwolaeth a barn, a oſodes weddi i weithio, ac a ddywedodd, *Pa ham na faddeui fy nghamwedd, ac na fwri heibio fy anwiredd? canys yn awr yn y llwch y gorweddaf. O na chuddit fi yn y bêdd; na'm cedwit yn ddirgel, nes troi dy lid ymaith, na oſodit amſer nodedig i mi, a'm cofio,* Job 7. 21. a'r 14. 13. Hyn hefyd a barodd i'r ddau Frenin graſol hynny, *Dafydd* a *Hezeciah* wylo a gweddïo yn chwerwedd eu heneidiau. *Yn y dyddiau hynny y claſychodd* Hezeciah *hyd farw, ac* Eſay *y Prophwyd mab* Amoz *a ddaeth atto ef, ac a ddywedodd wrtho, fel hyn y dywed yr Arglwydd; trefna dy Dy, canys marw fyddi, ac ni byddi byw, yna* Hezeciah *a droes ei wyneb at y pared, ac a weddiodd ar yr Arglwydd,* Eſay 38. 1, 2, 3.

Dafydd, pan gylchynodd gofidion Angau ef,

ef, ac y daliodd goſidiau Uffern ef, *yna* (eb' efe) *y gelwais ar enw'r Arglwydd, attolwg Arglwydd gwared fy enaid, Pſal.* 116. 3, 4. *Jonah* yr hwn a gyſgai yn y Llong, a weddïodd ym mol y Mor-fil, *O fol Uffern y gwaeddais, a chlywaiſt fy llêf*, Jonah 2. 2. Mae'r Apoſtol Petr, a Chriſt ei hun yn ein hannog i weddïo oddiwrth yſtyried diwedd y Bŷd, gan ddywedyd, *Diwedd pob peth a neſſaodd: Am hynny byddwch ſobr, a gwiliadwrus i weddiaw.* 1 Petr 4. 7. A *gweddiwch* (medd Criſt) *ar gael eich cyfrif yn deilwng i ddiange rhag y pethau hyn oll, ac i ſefyll ger bron Mâb y Dyn, Luc* 21. 36. Ac nid yw ein Harglwydd Ieſu anwyl yn gorchymmyn i ni wneud y pêth na's gwnaeth efe ei hun; canys gan fod yn deimladwy o chwerw ac erchyll gwppan digofaint ei Dad, efe a weddiodd, *Fy Nhad, os yw boſſibl, aed y Cwppan hwn heibio*, Matth. 26. 39.

Bechaduriaid! Goddefwch i mi ddywedyd wrthych, er diofaled ac er anyſtyrioled ydych, y byddai argraffiad deffrous ar eich Eneidiau am neſſad Marwolaeth a Barn, mal y waedd hanner nos i'ch cynhyrfu a'ch cyffroi i geiſio eich Olew i mewn ac i drwſio eich Lampau. Y Morwynnion call a'r rhai ffol oeddynt yn huno ac yn ddiofal ddigon, nes clywed y waedd ddiſymmwth a brawychus honno, *Wele, mae y Priod-Fab*

yn dyfod, ewch allan i gyfarfod ag ef, Matth. 25. 6. *Yna y cyfodoad yr holl Forwynnion hynny, ac a drwſiaſant eu Lampau.* Y dymeſtl a'r glaw ſy'n peri i'r Gwenyn bryſuro i'r Cŵch, ſy'n dŵyn yr Ymdeithydd i'w Letty, y Llong i'r Porthladd; felly'r un ffunyd meddwl am Farwolaeth a bair i'r Proffeſſwr marwaidd a chyſgadur fyned i weddio. *Pan fyddo adfyd arnynt i'm horeu-geiſiant*, Hoſ. 5. 15.

Myſyrdod calon-ddeffrous am dragywyddoldeb anghyfnewidiol, a fydd megis lleferydd o'r Cymmylau yn llefain, *Pryſurwch, Bechaduriaid, pryſurwch, pryſurwch ar redeg; pryſurwch megis am eich bywyd yngwaith Ffydd ac Edifeirwch i ymadael a phechod, ac i lynu wrth Ieſu Griſt, heb yr hwn nid oes obaith. Noah* gyd- a pharchedig ofn a ddarparodd yr Arch, ac a aeth i mewn iddi i achub ei Dŷ. Pan foddwyd yr holl Fŷd diofal a diymgais yn y Diluw, *Heb.* 11. 7. *A ni yn gwybod ofn yr Arglwydd, yr ydym yn perſwadio dynion*, 2 Cor. 5. 11.

Chwychwi Bechaduriaid truein, y rhai ni wnewch na chredu nac yſtyried nes byddoch yn gymmwys ar ſyrthio i'r Pwll: Pe bae gennych ond agen fechan i edrych i'r Bŷd arall, mor ŵrol ac mor galonnog fyddech i gyflawni 'n ebrwydd y dyledſwyddau a wyddoch? Chwi a'ch holech eich hunain, a'ch profech ac a'ch chwiliech eich hunain;

a

a ddarllenech, wrandawech, fyfyriech, wiliech, weddiech, ofnech, garech, edifarhaech, ac a ufuddhaech fwy nag a wnaethoch er ioed o'r blaen. A wyddoch chwi y daw y nos, ei bod hi yn dyfod, ac y bydd dyddiau tywyllwch yn llawer. *Beth bynnag a wneloch gwnewch a'ch holl egni*, Preg. 9. 10. Yn awr *cyn i'r ddeddf eſgor, cyn i'r dydd fyned heibio fel peiſſwyn, cyn dyfod arnoch lid digofaint yr Arglwydd, ceiſiwch yr Arglwydd: Canys pa fodd y diengwch, os eſgeuluſwch iechydwriaeth gymmaint?* Zeph. 2. 2, 3. Heb. 2. 3.

Rhelwm 5. *Y mae'n rhaid i chwi yſtyried eich Diwedd, canys yn fyn y mae eich Doethineb mwyaf yn ſefyll; Oh na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad yſtyrient eu diwedd!* Os mynnwch fod mor ddoethion a rhagori ar yr holl Wŷr doethion, Gwŷr mowrion yr yſtat a'r rhai cyfrwys yn y Bŷd; mae'n rhaid i hynny fod trwy yſtyried, a darparu erbyn eich diwedd. Garedigion, dyma'r peth a ddylech edrych fwyaf atto, canys oddiwrth hyn yr enniliwch fawr fuddiant i chwi 'ch hunain, canys fe wna i ddŷn wneuthur lleſſad iddo ei hun, a bod yn ddoeth iddo ei hun, *Job* 22. 2. *Dihar.* 9. 12. Gwir Ddoethineb yw deall hyn, ſef bod yn ddoeth tu-ag at y peth ſy dda, *Rhuf.* 16. 19. Bod yn ddoeth yng Hriſt, ſicrhau'r daioni pennaf yw'r Ddoethineb oraf.

Y mae llawer o rai doethion bydol, y rhai tra ydynt yn byw 'ynt yn parottoi erbyn pob peth ond Angau ac y maent yn fynych yn barod i farw, cyn dechreu o honynt fyw, (mewn yſtyriaeth yſprydol) ac onid yw yn amſer anghymmwys iawn a greſynol i barottoi erbyn Angau, pan fo'n faich i ddŷn fyw? Ac yn ddiai y cyfryw yw'r aml ddrygau ſy'n dilyn henaint, a'r na ddichon dynion gael dim diddanwch ynddynt, *Preg.* 12. 1. Ac a ddywedir mai y rhai'n yw'r unig ddynion doethion, y rhai nid 'ynt ond doethion yn eu *Cenhedlaeth* i geiſio'r Bŷd, i ymlid oferedd celwydd, a gwrthod eu trugaredd eu hun, *Jonah* 2. 8. I gloddio iddynt eu hunain bydewau, ie bydewau wedi eu torri, ni ddaliant ddwfr, ac yn gadael ffynnon y dyfroedd byw, *Jer.* 2. 13. Nid yw hyn ond dewis cerrig o flaen perlau, ynnill y Ddaiar a cholli'r Nefoedd, *Matth.* 16. 26. Bod yn ddedwydd tros amſer, ac yn druenus yn dragywydd.

Gwîr ddoethineb ac yſtyriaeth ddifrifol ſy'n myfyrio ynghylch pethau da a drwg; ie y mae'n meddwl am y daioni goreu, pa fodd y gall ddyfod iddo, ac am y drwg gwaethaf, pa fodd y gall ei rwyſtro, ei ochel a diangc rhagddo, gan ddewis y moddion cymhwyſaf ac effeithiolaf i ddwyn hynny i ben. Y Ddoethineb dduwiol a godi-

dog

dog hon ſydd brïodol a rhagorol i gyfarwyddo, *Preg.* 10, 10. Ac felly y mae yn cyfarwyddo pôb gŵr duwiol yſtyriol tra fyddo byw, yn ddïogel ac yn ſicer i achub yr hyn ſydd o brîs mwyaf ganddo, ſef, enaid gwerthfawr, a dâl fwy nâ dim ag ſy'n ei helw ef. Pe bae'r hôll Greigiau yn Berlau, yr hôll Ddaiar a'r Nefoedd yn Aur; neu pe bae 'r hôll Ddwfr ſy'n y Mor-mawr wedi ei droi yn Griſial, neu'n Feini gwerthfawroccaf ag ſy'n y byd, a gofod y cwbl yn y naill glorian, a'r Enaid yn y glorian arall, fe bwyſai'r Enaid y cwbl i lawr. Dywed ein Harglwydd anwyl nad yw ynnill yr holl Fŷd ddim prîs a dalai ei yſtyried mewn cyffelybiaeth i golled am un enaid, *Matth.* 16. 26. Felly y bydd rhaid i hwnnw fod yn ddoeth yn wîr, a gafodd Flŵch i gadw'r Tlŵs gwerthfawr digyffelyb hwn, lle y bydd efe'n ddïogel yn Dragywydd. *Y neb a ennillo eneidiau ſydd ddoeth*, medd y Doethaf a'r a oedd ddŷn yn unig. *Dihar.* 11. 30. Ac yn ddïai yna felly y mae'r hwn a achubo ei enaid ei hun. Drachefn, y mae'r hwn ſy'n yſtyried ei ddiwedd, ar y ffordd union i ynnill a chael y Cyfaill goraf, a wna ddaioni iddo yn ddiai pan fo rheitiaf wrtho, ac yn y perygl mwyaf, ſef, Duw, Criſt, Angylion, Sainct, Cydwybod, a'r Sgrythyr, yn wîr gyfeillion iddo. Pan

rwymir

rwymir unwaith y briw rhwng Duw a'r enaid truan, pwy a wna ddrwg neu niwed iddo? *Os yw Duw troſom, pwy a all fod i'n herbyn?* Rhuf. 8. 31. *Mewn heddwch y gorweddaf, ac yr hunaf,* Pſal. 4. 8. Hefyd, y mae ſe'n parodtoi erbyn yr anghennion mwyaf, trwy roi pêth i'w gadw erbyn amſer treulio. Nid oedd gŵr i'w gael yn holl Wlad yr *Aipht* mor ddoeth a *Joſeph*, yr hwn gan ragweled eu heiſiau, a lanwodd y Tryſſor-dai erbyn blynyddoedd y newyn, Dywed *Salomon* (*Dihar.* 10. 5.) mai *ſynhwyrol yw'r hwn a gaſgl ei fwyd amſer haf.* Yſtyriwch mai ieuengctid yw eich haf chwi; Nid amſer caſglu yw henaint a chlafwely, ond amſer treulio, ac nid ydych yn ddoethion, yn ddoethion tu-ag at Dduw, yn ddoethion ar lês eich eneidiau eich hunain, y ſawl nid ydych yn cyfrif yn bennaf gorchwyl i chwi farchnatta a thryſſori erbyn yr amſer hwnnw. Y mae llawer enaid truan, fel y Ceiliog-rhedyn rhwyfus, yn neidio a llammu, chwarae a chanu tra paro'r Haf, ac yn marw o newyn pan ddelo'r Gauaf: Ond y mae'r enaid gwîr ddifrifol ac yſtyriol, fel y Wenhynen boenus neu'r Morgrugyn, yn gweithio neu yn llafurio'r Haf: Ac fel y bae i ddŷn roi ymaith ddïogi a dyſgu ei ddyledſwydd, ac ſelly barottoi erbyn yr amſer a ddaw, Y mae *Salomon* yn

ei

ei anfon ef at y Morgrugyn, gan ddywedyd, *Dihar.* 6. 6, 8. *Cerdda at y Morgrugyn, tydi ddiogyn; edrych ar ei ffyrdd ef a bydd ddoeth; y mae efe yn parottoi ei fwyd yr haf, ac yn caſglu ei luniaeth y cynhauaf.* Ac felly mae'r doeth o galon, ſy'n marchnatta erbyn tragywyddoldeb, yn tryſori y pethau goreu erbyn y dŷdd drŵg, y rhai ydynt Ffafor Duw, hawl yng Hriſt, maddeuant Pechodau, heddwch Cydwybod, ſtor o Weddïau, Profiadau gwerthfawr ac etholedig, ac arwyddion ſerchog o Ffafor ei Dad, yſpyſrwydd am ei wlad Nefol. Dyma Dryſſor cuddiedig a nefol y gŵr duwiol, y hwn yn unig a elwir yn ddoeth, *Micah* 6. 9.

Heb law'r pethau hyn, y mae ſe'n rhagflaenu 'r gwaethaf o'r drygau, ſef, euogrwydd pechod, colyn angau, goſidia' Uffern, dychryn Cydwybod, digofaint Duw, colli Duw, ei Enaid a'r Nefoedd. Y drŵg neu'r golled anfeidrol a diddiwygiol hon ni ddioddef efe byth mo honi, o waith y bydd yr yſtyriaeth amſerol hon am Farwolaeth a Barn yn ſodd i'w gymhwyſo ef i ddiangc rhagddo. *Y rhai oedd barod a aethant i mewn i'r Briodas*, Matth. 25. 10.

Ond am danoch chwi y rhai ddiofal am eich Eneidiau anfarwol, nad ydych yn meddwl am Angau, nad ydych yn yſtyried eich diwedd (oni ragilaena trugaredd anfeidrol

feidrol yn ebrwydd) chwi fyddwch feirw yn ficer hêb ddoethineb; oni wnewch chwi 'ch eneidiau yn ddiogel mewn prŷd, oni wnewch chwi Dduw a Chriſt yn gyfeillion i chwi (tra yw pobl druain Dduw yn tryſſori tryſſor yn y Nêf) ſail dda erbyn yr amſer ſydd ar ddyfod, *chwi dryſorwch ddigofaint erbyn dydd y digofaint, a datcuddiad cyſiawn farn Duw*, Rhuf. 2. 5. A dyma gyſſwr galarus llaweroedd o rai doethion bydol, a'r rheini hefyd ſwydd a gorchwyl pa rai yw cadw (pe gellid) eraill yn fyw, ſef, iachau Clefydon, a rhagſiaenu Marwolaeth. Yr ydys yn dal ſulw oblegid *Paracelſus*, Pyſygwr mawr, a gŵr cyfarwydd iawn mewn profiadau *Chymical*, ddarfod iddo ymffroſtio a dywedyd, iddo gyrhaedd i'r faith ddoethineb yn adnabod naws dynion, ac yn ſtudio meddyginiaethau, fel na byddai pwy bynnag a ganlynai ei Reolau ef, ac a gadwai ei Hyfforddiadau byth farw o un clefyd; o ddamwain fe allai, ac o henaint rhaid fyddai iddo farw, ond efe a gymmerai arno ei gadw yn holl-iach rhag pob Clefydion, Gorchwyl hŷf iawn a thrarhyfygus: Eithr ni allai efe yr hwn trwy Gelfyddyd a addawodd gadw eraill, ymgadw ei hun ynghanol ei oes, canys fe fu farw pan oedd efe ynghylch ſaith a deugain oed.

Bobl

Bobl druein! gan na ellwch ragflaenu Angau, eich doethineb yw ymbarottoi erbyn y delo ef, ac yn gymmaint na's gellwch trwy ddim moddion, nerth na chyfarwyddyd ymgadw rhag dyrnod Angau, ceifiwch tra galloch feddyginiaeth neu gyfaredd yn erbyn colyn Angau, fel pan fyddoch feirw, na byddoch feirw yn ddiymbarottoad, neu hêb ddoethineb. *Canys dyn mewn anrhydedd ac heb ddeall fydd gyffelyb i anifeiliaid a ddifethir*, medd y Pfalmydd, *Pfal.* 49. 20. Felly y gwnaeth y gwr goludog truan hwnnw, mewn cam gymmeriad, yr hwn (er ei fod yn ei farn ei hun neu eraill yn gall) oedd ar gyfrif Duw'r unig ddoeth, yn wîr ynfyd; yr hwn yn gymmaint ag iddo ymbarottoi yn unig tu-ag at amfer ei fywyd, ac nid tu-ag at farwolaeth, a haeddodd yn dda ddywedyd wrtho, *O ynfyd, y nos hon y gofynant dy enaid oddiwrthit*, *Luc* 12. 20. Nofwaith dywyll yn wîr oedd hi, yn yr hon y collodd efe'r ddauFŷd ar unwaith, y Ddaiar a'r Nefoedd hefyd. Ac a ddywedwch chwi eich bod yn ddoethion, a chwithau heb yftyried beth a fydd eich diwedd? Y pum morwyn a elwir y Morwynion ffol, eithr pa ham? O waith nad ymbarottoifant erbyn dyfodiad y Priod-Fab, a phan ddaethant i'r drŵs, yr ydoedd wedi ei gau rhagddynt: Ah! dyna fiommedigaeth drift ac ofnadwy, *Matth.* 25. 10.

Ond

Ond yr enaid diwyd wedi ymbarottoi, a'i olew yn ei leſtr, a phob pêth yn barod ganddo, ſy'n y cyfryw gyfiwr ag y gallo edrych ar Angau dan wenu, o waith iddo golli ei golyn a'i wenwyn marwol, ac ni ddichon ond lladd y Corph, ni all wneud dim niwed i'r Enaid: Eithr y pechadur cyſgadurus a diofal, a ddalir yn ofnadwy, fel y daliwyd *Belſazzar* gynt gan yr yſgrifenlaw a ymddangoſodd ar y pared; golwg ſyn a brawychus pa un, a newidiodd ei liw ef, ac a gyffrodd ei feddyliau, fel na allai nai Wîn, na'i Wragedd, na'i Ordderchadon gyſſuro mo honaw, yr hwn a'i derchafodd ei hun yn erbyn Duw y Nefoedd, *Dan. 5.*

Bechaduriaid! Yſtyriwch mai golwg ofnadwy yw Brenin Dychrynniadau, ac ni bydd efe i nêb yn fwy ofnadwy nag i'r rhai ſy a'u Nefoedd yma; fe ſydd i'r cyfryw rai megis rhwygo hŷd yn oed gorchudd eu calonnau, gwaeth na thorri aelod oddiwrth y Corph; canys llawer a oddefaſant golli aelodau er mwyn achub eu hoedl; *O angau, angau, angau, mor chwerw, chwerw, yw coſio am danat i'r gwr ſy'n eſmwyth yn ei feddiannau!* A goddetwch i mi ddywedyd wrthych, drygau a pheryglon o ba faint y maent yn fwy diſymmwth a dirybudd, o gymmaint a hynny y maent yn fwy ofnadwy a brawychus.

chus. Pa lefain triſt ac erchyll oedd yn yr *Aipht*, pan darawodd Duw ar hanner nos eu cyntaf-anedigion, a hefyd pan agorodd y ddaiar ei ſafn a llyngcu *Corah* a'i gynnull-eidfa felldigedig, y rhai a ddeſgynnaſant yn fyw i Uffern; yn gymmaint a darfod i holl *Iſrael* ffoi wrth eu gwaedd hwynt, canys dywedaſant, ciliwn rhag i'r ddaiar ein llyngcu ninnau, *Num.* 16. 32, 33, 34. Ac mor ofnadwy oedd y gawod ddiſymmwth o Dan a Brwmſtan ar *Sodoma* front, ar ol boregwaith diſglair o Haul tambaid, *Gen.* 19. 24. Felly pan ddêl Angau ffyrnig a ſarrug ar noſwaith dywyll, a thynnu'r Llen-gudd, ac edrych ar y pechadur diofal, fe fydd yn erchyll iawn; Canys pyw a ddichon edrych yn wyneb Angau, a'r ni feiddio edrych yn wyneb Duw neu'i gydwybod ei hun? Eithr y gwr duwiol diragrith, ſy wedi ymbarottoi erbyn Angau, a all edrych a byw uwchlaw ofn angau ac Uffern, a chroeſawu angau, fel y croeſawodd hen *Jacob* y Cerbydau a anfonaſai ei Fab *Joſeph* i'w nol ef i wared i'r *Aipht*, pan gantu ete y Cerbydau, yna y bywiogodd yſpryd *Jacob* eu Tad hwynt, *Gen.* 45. 27. Angau er mae Porthor afrywiog ydyw, a egir Deyrnas Nef i bawb a gredant, ac a'u gollwng i mewn i Dŷ eu Tad, canys eiddynt hwy yw bywyd, ac angeu, 1 *Cor.* 3. 22. *Gwyn eu byd y meirw*

y rhai ſy yn marw yn yr Arglwydd, Datc. 14. 13. *Byw i mi yw Criſt, a marw ſydd elw*, Phil. 1. 21. *Y neb ſydd ddoeth a geidw* ac a yſtyria *hyn*, *Pſal.* 107. 43. Y rhai'n yw y Rheſymmau pa ham y mae'n rhaid i chwi yſtyried eich diwedd.

Y CYMHWYSIAD.

Os ydyw yn ddyledſwydd mor angen rheidiol i chwi yſtyried eich diwedd, mi ddawaf bellach i wneuthur y goreu o honi drwy ffordd o Gymhwyſiad.

Defnydd 1. Y mae hyn yn gweiddi'n groch arnoch chwi'r holl bechaduriaid annychweledig, y ſawl ni wnaethoch ddim parottoad erbyn Angau a Barn, i ſefyll a ſynnu, neu eiſtedd i lawr a rhyfeddu weled amynedd diflin, a thrugaredd ddigyffelyb a rhyfeddol y Duw graſuſol a gogoneddus anfeidrol.

A ddarfu i'r Duw ſanctteiddiolaf, cyfiawn a dialydd pechod gynnal eich eneidiau mewn bywyd, a'ch cadw rhag Angau ac Uffern hŷd gorph y dŷdd heddyw? Ac oni anrhydeddwch chwi, ie hŷd ddychryn, Olud anchwiliadwy ei Ras ef? Y mae dynion yn gyffredin yn rhyfeddu am bethau ſy ym maes o hŷd cyrraedd iddynt, neu na bo ganddynt ddim rheſwm i roi am danynt, ac

yn

yn enwedig trugaredd hynod, godidog ac anhaeddedigol. Yn awr arhoſwch ychydig, a threuliwch rai meddyliau difrifol, ac yſtyriwch, pa reſwm a ellir roi am yr achos y caech chwi eich cyfrif ym myſg y rhai byw, pan yw cynnifer yn feirw; y byddec hchwi yn y Bŷd, a chynnifer miloedd o Wŷr, Gwragedd a Phlant yn eu Beddau, a'u heneidiau gwerthfawr ni wyddoch pa le. Yn awr matter o'r rhyfeddod mwyaf yn yr holl Fŷd yw nad ydyw eich Cyrph wedi eu rhoi i'w cadw yn y Carchar-dŷ tywyll a du hwnnw, ſef y Bêdd, a'ch Eneidiau anwyl na byddant feirw byth, wedi eu rhwymo mewn llyffetheiriau a chadwynau yn y Carchar-dŷ erchyll a phoenus hwnnw, ſef Uffern. Onid oes i chwi achos i ofni, fod llawer o'ch Cymmydogion, o'ch Ceraint, ac o'ch Cymdeithion pechadurus a'ch Cydnabod wedi myn'd i wared yno, ac yſgatfydd rhai o'r ſawl yr oeddech leiaf yn eu drwgdybio? Ac ni wyddoch pa nifer ſy'n awr yn y tan am yr un-rhyw bechodau ag ydych chwi yn euog o honynt, os nid llai pechaduriaid na chwi 'ch hunain. Oh! rhyfeddwch a bendithiwch Dduw a'ch holl eneidiau, am eich bôd etto y tu yma i'r bedd, ac hêb ddiſgyn i'r lle poenus hwnnw; yr ydych yn mwynhau llawer o odfeydd teg i'ch eneidiau, ac yn cael eich cynghori yn

waſtad i ymadael a phechod, i droi at Dduw, i dderbyn Criſt, i feddwl am Angau ac Uffern, ſelly ſel na byddo i chwi ei gweled na'i chlywed hi byth; canys y mae llawer rhagor ym mhoenau Uffern, a digofaint Duw, nag a gywſoth chwi er ioed, neu a ellwch ddychymmyg. *Fel y mae dy ofn* (ebro *Moſes*) *y mae dy ddigter*, Pſal. 90 11.

Bechaduriaid truein! Yr ydych yn oeſtad yn Goffadwriaethau bywiol o garedigrwydd anfeidrol, ac am hynny na achwyned y dŷn byw. Tybier pe tuaſech feirw pan dybygwyd fod Angau yn agos, pan fuoch gleifion a gweinion, yn barod i drengu, neu pan fu cynnifer o filoedd feirw trwy'r pla neu'r cleddyf, ym mha gyflwr truenus y buaſai 'ch Eneidiau, i gael eu cau i fynu gŷd-a Chythreuliaid ac yſprydion damnedig yn y Llyn ſy'n lloſgi o Dan a Brwmſtan. Ac a ydych yn cadw 'ch gelyniaeth yn oeſtad, chwannegu anwiredd, ac hŷd yn oed annog Duw i'ch damnio? Bechaduriaid, onid ydych ym maes o'ch côt? ïe, yn bur ynfyd, i wneud Duw yr hwn a ddylai ſod yn gyfaill goraf i chwi, yn elyn gwaethaf i chwi? Canys pan gynneuo ei lid ef ond ychydig, fe lyſg hŷd Uffern iſod, ac ni ddichon nêb ei ddiffodd, na ſefyll o'i flaen. *A bery dy galon? A gryfha dy ddwylo yn y dyddiau y bydd i mi a wnelwyf a thi?* Ezec. 22. 14. Pwy a

drig

drig gyd-a thân yſſol? *Pwy* (medd yr Arglwydd) *a eſodai ſieri a drain yn fy erbyn mewn rhyfel? Myfi a awn trwyddynt, mi a'u lloſgwn hwynt yngkyd*, Eſay. 27. 4. O pa bryd y dewch attoch eich hunain, a thaflu ymaith eich arfau, ac yſtyried am eich eneidiau? Neu a fynnwch chwi ddim fod yn gadwedig? Pa bryd y mynnwch unwaith? Pa ham y byddwch feirw? Tynned y rhaffau cariad hyn chwi, a pharent i chwi ddywedyd, *Wele ni yn dyfod attat ti, canys ti yw'r Arglwydd ein Duw.*

Yſtyriwch, fod dinyſtr ofnadwy rhai eraill yn rhybudd i chwi, y rhai ydynt yn awr wedi eu cloi i fynu yn y Carchardy tywyll hwnnw, ac ni ddeuant ddim i fynu mwy, a'r rhai y mae'r Cythreuliaid yn awr yn eu poeni, y pryfed yn eu cnoi, a 'r tan yn eu lloſgi. Yr ydych chwi'r awr hon yn ddïangol rhag y pair berwedig, ac yn nhîr y rhai byw; O molwch, molwch yr Arglwydd am ei hîr-ymaros, gan nad ydych ond megis cael eich oedi; O priſiwch a gwnewch yn dda o'ch bywyd, ac ymbarodtowch mewn prŷd erbyn Marwolaeth; canys pe buaſai 'ch hoedl wedi darfod, eich Eneidiau wedi eu gwahanu oddïwrth eich Cyrph, a chwithau hêb ymheddychu a Duw, fe ddarfuaſai am danoch yn dragywydd: Nid oes dim lle i edifeirwch

yn y Bêdd, na Chriſt na maddeuant i'w gael yn Uffern. Bendithiwch Dduw y mae eich Awr-Leſtr yn rhedeg, eich Lamp yn lloſgi, Dydd Gras etto'n parhau, a'ch Arglwydd anwyl ar y Drugareddfa, am hynny y mae gobaith.

Defnydd 2. Y mae hyn yn gyfiawn yn argyoeddi ac yn ceryddu pawb ag ſy'n dirmygu neu yn eſgeuluſo'r ddyledſwydd fawr hon, ond yn enwedig y tri math hyn; o'r rhai nid oes yr un o ddifrif yn yſtyried eu diwedd.

Sef,
1. *Y dynion bydol anianol ſy heb gredu fod Duw.*
2. *Yr anwybodol a'r anyſtyriol.*
3. *Yr hunan-hyderus a'r rhyſygus.*

1. Y mae hyn yn condemnio *y dynion bydol ſy heb gredu fod Duw*, ſy yn pellhau y dŷdd-drŵg oddïwrthynt, *Amos* 6. 3. a'r rhai ſy'n boddi neu yn gyrru ymaith feddyliau arſwydus am Dduw, Angau a Thragywyddoldeb allan o'u côf a'u calonnau. *Cymmerant Dympan a Thelyn, a llawenychant wrth ſain yr Organ, Dywedant hefyd wrth Dduw, cilia oddiwrthym, canys nid ydym yn ewennych gwybod dy ffyrdd*, Job 21. 12, 13. *Nid yw Duw yn eu hôll feddyliau hwynt*, Pſal. 10.

10. 4. Y mae'nt yn rhoi eu bŷd ar fywyd byr a llawen, deued y diwedd ofnadwy a fynno o honaw. *Y maent yn datcanu gyda llais y Nabl, ac yn yfed Gwîn mewn Phiolau; ac yn bwytta'r Wyn o'r praidd, ac yn ymyſtyn ar eu Glythau, Amos* 6. 4. gan ddywedyd yn eu calonnau mal y dywedodd y truan hwnnw, *Luc.* 12. 19. *Gorphywys bwytta, yf, bydd lawen:* Hwy a fodlonant eu trachwantau, a fwynhant ddifyrrwch y cnawd, a rodiant yn ffyrdd eu calonnau, ac yngolwg eu llygaid; ac wrth hyn y maent yn gwneuthur y rhŵyg yn helaethach, a hwynt-hwy eu hunain ſaith-waith mwy yn blant i'r Diafol, er yr eiſteddant o'r diwedd mewn gofid tragywyddol, *Bwyttawn ac yfwn: canys y foru marw yr ydym.*

Chwi Eneidiau truein a hudwyd yn ddïobaith! Pe coeliech y peth a ddarllenaſoch ac a glywſoch am y bŷd arall, neu beth y mae'r Yſgrythyr-Lan o wirionedd diſiomedig yn ei leſaru am yDuw ſanctaidd anfeidrol, mawr ac ofnadwy (yr hwn ni ryddha yr euog yn un modd) chwi a newidiech eich gyrfa yn fuan. Pe yſtyriech chwi'r awr hon y bydd yn rhaid i chwi farw, a chael eich barnu, y bydd yn rhaid i chwi, y ſawl ydych yn fy ngwrando i heddyw, cyn pen nemmawr iawn o amſer, ſefyll o flaen y Duw ofnadwy; a fyddech chwi yn pechu

mor rhwydd, yn hoffi'r byd mor ddifefor yn gwatwar Duw, yn gwawdio am ben Duwioldeb prudd, yn elgeuluſo eich dyledſwydd, yn treulio 'ch amſer yn ofer, yn anghofio tragywyddoldeb, ac yn peryglio 'ch Eneidiau gwerthfawr, fel y gwnaethoch ac yr ydych yn gwneuthur? Am y cyfryw gaethweiſion uffernol a Chythreuliaid cnawdol y mae'r Apoſtol yn llefaru, 2 *Petr.* 3. 3. *Gan wybod hyn yn gyntaf*, hynny yw, cyn diwedd y byd; *y daw yn y dyddiau diweddaf watwarwyr, yr rhodio yn ol eu chwantau eu hunain, ac yn dywedyd, pa le y mae addewid ei ddyfodiad ef?* Er hynny y mae'r Gwiberod hŷn, y rhai digred hŷn, ac Anghenfilod yn rhith dynion, yn tybied eu bod yn ddoethion, pan yn wîr nad oes ganddynt ddim deall, Synhwyrol ydynt, eithr yn unig i wneuthur drŵg, i ddadleu yn erbyn y gwirionedd, ac i ymreſymmu yn erbyn buchedd ſanctaidd, *eithr gwneuthur da ni fedrant*, Jer. 4. 22.

Hwn oedd pechod mawr *Jeruſalem* yn ddigyfrwng cyn dyfod angerdd digotaint yr Arglwydd arnynt; a hwn yw cyſtlwr tôſt ac erchyll llaweroedd, ie miloedd yn y byd, ac yn y Genedl hon; er yr holl Ragluniaethau deffrous ac anghyfanneddol hynny, a ſyn ddrychau marwoldeb a welodd eu llygaid.

Nid

Nid oes ond ychydig yn edrych atsynt eu hunain fel y gweddai iddynt yn un modd, y mae'nt yn gymmwys fel Diadell o Ddefaid diniwed mewn porfa frâs. Fe ddaw'r Cigydd ac a gymmer un heddyw, un arall y foru, a'r rhai eraill yn pori yn llonydd, heb feddwl beth a ddarfu i'w Cymdeithion a gollwyd. Neu fel pe ordeinid Torf o rai damnedig (a faent i'w harbed tros amſer) i gael eu dihenyddio un ar ol y llall, o fewn yſpaid cynnifer a hynny oddyddiau, Heddyw y cyntaf mewn trefn a ddygir allan ac a ddihenyddir, trannoeth yr ail; ac etto'r holl rai eraill ſydd i ddyfod wrth eu cylch, ydynt yn meddwi, chwarae Cardiau, tyngu a chanu, ac felly yn parhau hŷd yr olaf, hŷd oni font oll wedi eu crogi, yn feirw ac yn ddamnedig. Nyni allwn gyffelybu'r Bŷd ynfyd hwn ſy wedi eu hudo, i dyrfa o drueiniaid deillion yn dawnſio oddi amgylch genau pydew dwfn tra enbyd, ac heb ddirnad hynny, neu ganfod pa wedd y mae pob un yn ſyrthio i mewn, y naill ar ol y llall; y cyntaf, yr ail, a'r trydydd ſy'n ſyrthio, a'r lleill heb nabod yr enbydrwydd, yn rhedeg eu cylch: Mi wna'r defnydd hyn o honaw. Y Dŷdd hwn neu'r awr hon y mae Tyngŵr yn ſyrthio bendramwnwgli Uffern. Y nefaf, Feddwyn y boreu neu'r prydnawn heddyw, y mae'r March gwelwlas yn dŵyn

un, fe allai mai un melldigedig diddûw, neu Erlidiwr gwaedlyd cenfigennus, neu Odinebûr aſian, neu Fydol-ddyn eulynaddolgar, ac yn myned ag ef i le o dywyllwch. Y dŷdd neſaf y mae fe'n cael Cennad i nôl rhagor o honynt; eu brodlyr hynny mewn anwiredd a adawyd yn ol, ydynt yn eadw ac yn parhau yn eu gyrfa, ac yn downſio o ddeu-tu'r pydew, heb yſtyried y bŷdd yn rhaid iddynt hwythau felly farw, a dyfod ir farn. Y mae'r byw yn goſod y gorchwyl mawr hwn o'u marwolaeth cyn lleied at eu calon, a'u bod pan r'ont nag am ryw beth bŷd yr eithaf, yn dywedyd yn gyffredin nad oeddynt yn meddwl mwy am dano nag am ddŷdd eu marwolaeth, mal pe na bae Angau 'n beth o ddim pŵys, ond yn hytrach rhyw goegbeth neu ffiloreg, na thalai feddwl am danaw. *Nid yw hi yn meddwl am ei diwedd*, Galar. 1. 9.

Chwychwi bechaduriaid, y rhai ydych yn eich dinyſtrio eich hunain! A wyddoch chwi y bydd yn rhaid i chwi farw, a gado'r bŷd hwn tros bŷth? Ac a ydych mor hurt ac mor ynfyd, a pheidio meddwl am Angau tros lawer diwrnod cyfan, ie yn prin goſio o ddiſtrif am Angau a Barn mewn tŷ Galar; ie yſtowaeth chwi fedrwch hyd yn oed yngolwg y marw fod yn ofer, gellwair, gwawdio, yſted, canu, gwledda, a ſiarad

am

am y bŷd, yr hyn ſy brawſ triſt nad yw dynion yn yſtyried eu diwedd. Fe dybygid fod rhai ar yr amſer galarus a thriſt hwnnw yn o brûdd, eithr cyn gynted ag yr elont o olwg y Corph marw, a'r bêdd, a'r Yſgrin, ni chofiant mwy am Angau. Er peri i chwi ddeall yr ynfydrwydd yma, gadewch i mi ymreſymmu ychydig a chwi mewn geiriau eglur fel hyn.

Bêth, a oes dim meddwl am Angau gennych chwi, y rhai a fuöch tan farn marwolaeth, ac a ddygwyd hŷd at fin y pwll, gan edrych ar Dragywyddoldeb! O mor athriſt yw meddwl, gynted y darfu i'r meddyliau hynny a nodau marwoldeb wiſgo allan a myn'd ymaith! Bechaduriaid! Cofiwch, ac na ollyngwch tros gôf yr addunedau dirgel hynny, yr addewidion, a'r rhwymedigaethau a wnaethoch y prŷd hynnu i Dduw, ſef, yr ymwrthodech a phechod, yr ymadawech a'ch Cyfeillion annuwiol, yr ymryddhaech oddïwrth y bŷd, y byddech fyw yn dduwiol, ac y gwnaech eich goreu am fod yn grefyddol, a pheidio colli dim rhagor o'ch amſer gwerthfawr, ac odfeydd i achub eich Eneidiau: Os darfu i chwi eu hanghofio, y mae Duw yr hwn ſy'n canfod y cwbl ac yn chwilio'r calonnau, yn eu cofio. Gwybyddwch gan hynny ac yſtyriwch yn eich calonnau, y bydd i Angau yr hwn ni

wnaeth

wnaeth ond eich rhybuddio chwi'r pryd hynny, trwy anfon ei gennadon, ddyfod ar fyr ei hunan.

Anghofus am Angau! a chwedi eich gwneuthur o'r prîdd, eich geni o Wraig a than ddeddf nas gelwir yn ôl gan Ddynion nac Angylion! *Heb* 9. 27. *Job* 14. 5. Am ddyn, *Gan fod ei ddyddiau ef wedi eu rhagderfynu, rhifedi ei fisoedd ef gyda thi, a gofod o honot ei derfynau fel nad êl trofltynt.*

Peidio meddwl am eich marwolaeth! Chwychwi y fawl fy gennych Gyrph gweinion cleifion ac afiachus, yn llawn o ddoluriau ac anhwyl, y rhai ydynt gynnifer o farwolaethau bychain beunyddiol; îe, marw beunydd? Bêth rhoi heibio feddwl am angau! Chwi y fawl a fuoch mewn cynnifer o Angladdau, a glywfoch gymmaint o ganu Clŷch a Chlŷl, a welfoch gynnifer o feddau, penglogau ac yfgrinau o flaen eich llygaid! Anghofio 'ch marwolaeth! Ac etto bechaduriaid, pechu beunydd, dwyn achos a cholyn Angau yn eich monwefau! *Mors in corpore*, y mae'r corph yn farw o herwydd pechod, *Rhuf.* 8. 10. Nid yw eich Cyrph ond Cyrph marwolaeth, mae pechod wedi eu lladd, a'r farn wedi myned trofltynt, *Gen.* 3. *Cyflog pechod yw marwolaeth*, Rhuf. 6. 23. *Yr enaid a becho hwnnw a fydd marw*, *Ezec.* 18. 20. Bêth, rhoi heibio 'r dŷdd drwg hwn! A chwithau

chwithau yn ſeirw mewn rhan, yn hên ac yn anwydog, a'r naill droed yn y bêdd, ſêf gliniau yn ymollwng, dwylo'n crynnu, wynebau culion, pennau llwydion neu foelion, a'r beddau yn barod i chwi? Beth, a oes dim rhagor o feddyliau difrifol am Angau! a chynnifer o ddarnau a rhannau o honoch chwi 'ch hunain wedi myned ym mlaen eiſys i dŷ'r hîr gartref hwn! Cynnifer o Geraint a Phlant yn awr yn huno yn llŵch Angau! a gladdwyd hwynt mewn anghof gwaſtadol, ſel na bo raid cofio am danynt bŷth mwy?

Beth Bechaduriaid! Beth peidio meddwl am Angau! ac Angau hŷd yn oed wrth eich ſodlau, ac o ſtaen eich llygaid! tu-a pha le y gellwch droi eich golygon, a bod heb ganfod yr hyn ſŷ'n pregethu neu'n arwyddoccau preſennoldeb Angau? Y mae Angau trwy'r Gauaf ar y coed yn eich Gerddi, ym mhob Blodeuyn, ar eich Byrddau bob dŷdd ag yr ymborthoch ar gîg Creaduriaid meirwon, i ddywedyd wrthych fod yn rhaid i chwi farw; ac onid yw Angau bob nos yn eich gwlau? Beth yw cŵſg ond llûn a Delw Angau oerllyd? A'ch gwlau ond at cynnyrcholdeb eich Beddau tywyll.

Oh bechaduriaid dïofal ac ynfyd! Peidio yſtyried am Angau, a chennych eneidiau gwerthfawr, fy raid iddynt fyw neu farw,

fod

fod yn gadwedig neu yn ddamnedig yn y Nef neu yn Uffern, mewn llawenydd neu loſgfeydd, gyd a Duw neu'r Cythreuliaid, gyd-a'r Sainct bendigedig neu'r gwrthodedigion melldigedig, cyn gynted ag yr el y ffûn allan o'ch genau yr hyn a all fod y dŷdd neu'r awr neſaf. Y mae'r march coch Uffern yn canlyn y march gwelwlas hwn marwolaeth, *Dat.* 6. 8. Yn olaf, beth, peidio meddwl am, a pharottoi erbyn Angau! a chwithau yn cael eich galw yn Griſtianogion, ac yn proffeſſu eich bod yn credu Cyfodiad y Cnawd, a'r Bywyd tragywyddol, dedwyddwch tu hwnt i'r Bedd. Canys *os yn y byd yma yn unig* (medd S. *Paul*) *y gobeithiwn yng Hriſt, truanaf o'r holl ddynion ydym ni*, 1 Cor. 15. 19.

O Bechaduriaid truein cedyrn-galon! Y rhai ydych yn awr yn gollwng Duw yn anghof a'r peth mawr hwn a phwyſig ſy'n perthyn i'ch Eneidiau anfarwol, beth a wnewch chwi yn nŷdd yr ymweliad, pan yr amgylchyno anwiredd eich ſodlau, pan na bo un Cyfaill yn y Nefoedd uchod, nac yn y Ddaiar iſod, a ddichon wneud dim lleſſad i chwi? A phan fo Cydwybod fel Swyddog trwog, diofn, yn eich llindagu ac yn eich gwyſio yn Enw'r Barnwr mawr i ddyfod a ſeſyll o flaen, neu wrth y Frawdle. *Yſtyriwch chwi rai annoeth ym myſg y bobl; ac*

ynfydion

ynfydion pe bryd y deellwch? Pſal. 94. 8. I yſtyried hyn, ac i barottoi erbyn eich diwedd?

2. Y mae hyn yn beio ar yr *Enaid anwybodol ac anyſtyriol*, yr hwn mewn poethder digofaint neu wŷn, ſy'n chwennych angau o ddiben gwael, megis Gwrit o eſmwythder, neu ryddhad oddiwrth boen preſennol, tlodi, afiechyd a thrallodion bydol eraill, a blinderau, heb iawn yſtyried mor ofnadwy yw Angau, neu pa bethau erchyll ſy'n ei ganlyn ef. Yn awr fel y galloch ddeall y pechod a'r ynfydrwydd hwn, rhowch gennad i mi ddywedyd wrthych, nad oes rhwng y gwaethaf, yr hwyaf, a'r trymmaf o drueni a gofidiau'r ſuchedd hon, a'r rhei'ni a'r ol marwolaeth, ddim cyfattebiad, onid anghyfattebiad mawr iawn.

Eneidiau truain anffodiog! Beth yw pigiad chwannen, i golyn Sarph? Neu grafiad ar y llaw i frathiad yn y galon? Beth yw gwres a thwymnder Canwyll fechan i ffwrn boeth danllyd, neu dan yſſol? Beth yw defnyn o Fuſtl i For maith o Wenwyn? Neu beth yw poen, dïaledd neu gyfyngder tros awr, i drueni annoddefiadwy bŷth beb ddiwedd, i fyned i mewn i'r hwn, y bydd Angau yn ddiau i'r annychweledig yn ddiŵs? Ac a ydych chwi mor ynfyd a thybied nad oes dim yn y bŷd arall i'w ofni,

neu

neu i'w glywed, a'r y ſy waeth na gwaſg ſeydd oddiallan, peryglion, poenau ac ar teithiau, y rhai nid ydynt ond trueni cor phorol, a hynny ond tros munud awr? Y mae nid yn unig y Bŷd halogedig, yn euog o'r pechod hwn, eithr hefyd rhai o'r rhai hynny a'r y ſy'n proffeſſu Enw Duw, *Dywedodd Rebecah wrth Iſaac, blinais ar f' einioes, o herwydd merchaid* Heth, *Gen.* 27. 46. *Rachel* a waeddodd, *moes feibion i mi, a onide mi a fyddaf farw*, Gen. 30. 1. *Elias* wedi ei fygwth gan *Jezebel*, a ddywedodd, *arglwydd, cymmer fy einioes*, 1 Bren. 19. 4. *Jonah* am golli'r *Cicaion* egwan, a ddywedodd, *Gwell i mi farw na byw*, ac a lefarodd wrth Dduw yn ei wyneb, mai *da y gwnaeth ymddigio hyd angau*, *Jonah* 4. 9. Yr Iſraeliaid, pan ſu arnynt ddiffyg Dwfr, a ddeiſyfiaſant feirw yn yr anialwch. Y rhai'n a'r cyffelyb ddeiſyfiadau drygionus ſy yngenau llawer o rai truein, anwybodus ac anfoddonol, y rhai a ddymunant gael myned o'r Bŷd trallodus hwn.

Yn awr mewn ffordd o gerydd, mi oſodaf i lawr y pethau neilltuol hyn ſy'n canlyn.

1. Beth dybygwch chwi am y cyfyngderau hyn oddifewn-ac enaid-galedi, ac ymdrechiadau, a'r rhai y mae pobl druenus a chyſtuddiedig Dduw yn ymladd yn doſt! A phe baech chwi yn deimladwy o euog-

rwydd

wydd a phŵys pechod, yſprydcyſtuddiedig, digoſaint Duw, a'r lloſgteydd tragywyddol hynny; ſe lyngcai'n fuan eich trueni oddïallan, er maint a fyddai. Y mae hyn yn eglur yn Eſampl Ceidwad y Carchar, yr hwn oedd mewn cymmaint poen o achos colli ei garcharorion, ag yr amcanodd ei ladd ei hun, cyn iddo ddeall cyflwr ofnadwy ei Enaid, yr hwn oedd mewn perygl o gael ei ddinyſtrio, *Actſ* 16. 27, 28, 29, 30. *Eſe a ſyrthiodd i lawr, ac a ddywedodd, O Feiſtriaid, beth ſydd raid i mi ei wneuthur, fel y byddwyf gadwedig?*

2. Chwennych angau, o achos y drygau ſy'n dilyn y fuchedd hon, ſydd ddrygionus iawn ac enbyd, mewn yſtyr ac affaith, ilymuno ydyw fod eich eneidiau yn Uffern.

Yſtyriwch a meddyliwch hyn heſyd, mai ffrwyth eich drŵg weithredoedd yw eich gofidiau preſennol, eich croeſau a'ch trallodion o ba fath neu radd bynnag ydynt, a llai o lawer nag ydych yn haeddu; canys mae'n rhyfedd nad ydych yn Uffern; ac a feiddiwch chwi fod mor hŷf a chodi yn wyneb eich Creawdwr ffyddlon, pan ddylech fod yn ddyfn-deimladwy o'ch drygioni erchyll, ac yn oſtyngedig tan law Dduw, ac yn fodlon i goſp eich pechod? Chwi ddylech edifarhau a dychwelyd at Dduw; cymmerwch ymaith yr achos, a'r affaith a bair.

3. Nid

3. Nid ellwch chwi ryngu bôdd Diawl eich gelyn marwol yn fwy mewn dim, na gwneud gwell cymmwynas iddo; yr ydych yn chwennych marwolaeth, felly mae 'r Diafol hefyd; os ei eiddo ef ydych yn awr, fe fydd yn rhaid i chwi fod yn eiddo iddo'r prŷd hynny, ei eiddo ef yma, a'i eiddo ef yn dragywydd: Y mae fe'n diſgwil ac yn hiraethu am fyned y ffûn o'ch genau, a bod eich eneidiau wedi eu gwahanu; am hynny fe fynnai i chwi eich gwenwyno, eich crogi, eich boddi, eich newynu neu'ch brathu'ch hunain, fel y byddech yn feirw, yn ddamnedig ac yn boethion gyd ag ef yn Uffern.

4. Hefyd, pe meirw fyddech, chwi a edifarhaech yn y man, ac a newidiech eich meddwl, ac a roddech, pe gallech, y Bŷd am gael bod yn fyw drachefn, yn yr holl ddiffygion, poenau a gofidiau'r ydych yn eu goddef yr awrhon. Pe caech ond twll i edrych i wared i Uffern i weled a chlywed bêth y maent yn ei ddioddef yno, chwi gyfaddefech eich pechodau, eich barnech eich hunain, ac a aech at Griſt cyn y byddech feirw, fel na ddelech i'r lle poenus ofnadwy hwnnw. Yn awr fel y bo i chwi wrando ac ofni, a pheidio a gwneuthur mwyach mor annuwiol, gadewch i mi otyn i chwi;

1. Bêth y dybygwch chwi am golyn a chwerwder Marwolaeth, pan ddelo dŷn i farw,

farw, y bo Cydwybod wedi deffroi, yn rhuo fell llew, Angau Brenin y Dychrynniadau yn ſefyll ger-llaw, pan ſo euogrwydd pechodau a wnaethwyd, a'r amſer gwerthfawr a gollwyd megis cynnifer o biccellau tanllyd, a Scorpionau gwenwynig, yn cnoi ac yn yſſu'r galon? Bêth a dybygwch a fydd marw yn annychweledig, marw mewn cyflwr o bechod a digofaint, yn Fradwyr i Dduw, mewn cyflwr o angrhediniaeth a dïedifeirwch (y pechodau ſy'n lladd yr Enaid) marw a chalon ddrŵg, ac a Chydwybod yn cyhuddo, yn hunan-farnu, wedi eich bwrw yn eich barn eich hunain i farw, i farw, yr hyn ſy waethaf oll?

2. Bêth a dybygwch am driſtwch ac ofn erchyll dyneſâd barn, yr ail farwolaeth: pan ddelo dŷn i fwrw golwg ofnadwy ar y Bŷd arall, a dechrae meddwl a thybied, pa ham y ganwyd fi? Bêth a wneuthym i? Ai mhechodau i yw'r rhai hyn eu gŷd? Oh pa le y gadawaf fi hwynt? neu pa fodd yr af fi yn rhŷdd oddïwrthynt, yn awr yr ydwyf yn marw? I ba le yr wyf yn myned? Pa rai a fydd fy nghyfeillion? Pa le a fydd fy lle? A pha neſſed ydwyf atto? Beth ſŷdd raid i mi oddef? A pha hyd? Pa hyd? A Chydwybod a ettyb, hŷd Dragywyddoldeb, trueni heb ddiwedd. Hyn a frawycha, wradwydda ac a orchguddia'r

Enaid ag ofn a dychryn, pan welo hi fod y Nefoedd wedi ei cholli, a bod yn rhaid iddi fyned i wared, i wared i Wlad y tywyllwch, at dorf o Gythreuliaid yn y cyflwr hwnnw o dragywyddol wae. Meddyliau yn lladd o achos hyn a wnaeth i Wi mawr ddymuno iddo gael byw, er na bae hynny ond bywyd Llyffant.

3. Beth dybygwch chwi am gyfiawnder y Barnwr, yr hwn nid arbed yr euog, ond a ddyru farn gyfiawn yn ol y weithred, ac a dal i bob un fel y byddo ei waith ef? *Nid arbedodd efe yr Angylion a bechaſant, eithr eu taflu hwynt i Uffern*, 2 Petr 2. 4. Nac *Adda*, eithr ei fwrw ef allan o Baradwys, a gofod Cleddyf tanllyd yſgwydedig yn ei erbyn ef; ac nid eiriach efe un pechadur diedifeiriol yn nydd ei lidiawgrwydd; Cyfiawnder ſy'n ei rwymo ef i gyfiawnhau'r cyfiawn, a chondemnio'r annuwiol.

4. Beth dybygwch chwi am anallu cael un appel? Ni bydd un *Moſes* i ganoli, un Cyfryngwr i ddadleu, un *Daniel*, *Noah*, na *Job* i gyfryngu, neu i ſefyll yn y bwlch, nac un eiriolwr yn y Nef na'r Ddaiar ni ellir ei gael i ddywedyd gair. Ni all bod un appel at Dduw, ſe wrthodwyd ei Alwedigaethau ef a'i Gynghorion, ſe ſafwyd yn erbyn ei Hawl ef, ſe darawyd gyd-a'i Elynion ef, ſe dorrwyd ei ddeddfau ef, ei ddigofaint a

lyſg

lŷſg fel tan. Un appel at Ieſu Griſt, fe ddirmygwyd ei Lywodraeth, ac a wrthodwyd ei Ras ef a'i Berſon. Nac at yr yſpryd glan, ſe a'i diffoddwyd ef, ac a'i triſtawyd; nac at Angylion na Sainct, pawb a ſyddant yn eich erbyn.

5. Beth dybygwch chwi am roi Enaid a Chorph i fynu i'r Dihenyddwr a'r Poenwr, y Ddraig goch? Toſt yw gweled rhoi Drwgweithredwr truan i Geidwad y carchar neu'r Dihenyddŵr; eithr pa faint mwy ofnadwy fydd rhoi Eneidiau anfarwol yng olwg dynion ac Angylion yn nwylo'r Llew cynddeiriog a rhuadwy hwnnw, ſef, y Diafol? Pan ddywedo Duw y Barnwr cyfiawn yngwydd yr holl Fŷd, Dyma'r Gwŷr a dorraſant fy Neddfau, a halogaſant fy Sabbothau, a gaſaſant fy Sainct, a waſanaethaſant y Cythraul, trwy fodloni eu Trachwantau, y Gwrthwynebwŷr cyhoedd ac amlwg i'm henw i a'm hawl; y rhai ni ddeuent, (er i mi ddeiſyf arnynt yn fynych) wrth fy ngalw i, ni 'roeſawent fy nghariad, ni dderbynient fy Mab neu oddef buchedd o Sancteiddrwydd, na gadael eu tynnu na'u perſwadio yn un modd i feddwl am, ac i ymbarottoï erbyn Marwolaeth a Barn, er caffael o honynt amſer ac odfeydd ddigon. Yn awr y Diafol cymmer hwynt, a dos a hwynt ymaith i Uffern, canys cas gan fy

Enaid hwynt. Dy weiſion ammodol a'th gaeth-weiſion ewyllyſgar oeddynt yn eu hamſer, a'th Garcharorion mewn cadwynau tywyllwch a fyddant hŷd Dragywyddoldeb, i gael eu poeni ddŷdd a nos yn oes oeſoedd, *Datc.* 20. 10.

6. Beth a dybygwch chwi am Alltudaeth dragywyddol a didoliad oddiwrth Dduw, Criſt, Angylion, Sainct a'r Nefoedd? Poen colled yw hwn, a'r gwaethaf o Uffern, *Matt.* 25.41. *Yna y dywed efe wrth y rhai a fyddan ar y llaw aſſwy, ewch oddiwrthyf, rai melldigedig, i'r tan tragywyddol, yr hwn a barodowyd i Ddiafol ac i'w angylion.* O erchyll erchyll! Cael eu barnu i orweddl tan ddigofaint a chas y Duw anfeidrol ac ofnadwy bŷth ac yn oes oeſoedd, cyhŷd ag y byddo Duw yn fyw, hanfod yr hwn ſŷdd hŷd dragywyddoldeb, cyhŷd ag y bo Cythraul i boeni, neu i gael ei boeni, y pen eu Plaau. Y rhai ofnog, a'r digred, a'r ffiaidd, a'r llofruddion, a'r puttein-wyr, a'r ſwyn-gyfareddwŷr, a'r Eulyn-addolwŷr a'r cŵn, a'r holl gelwyddwŷr, a ddygan eu holl bechodau i wared i Uffern gyd-hwynt, y cynnyd ſy'n porthi digofaint Duw felly fel y byddo i olew pechod beri i lam llidiawgrwydd Duw loſgi a fflammychu y dragywydd. Ni thelir bŷth ddyled pechod ni fodlonir bŷth gyfiawnder, canys yr Ene

diau damnedig a arhoſant yn ddïedifeiriol, a Duw yn anghymmodol; fel na all bod dim gobaith am faddeuant. Mae'r farn yn gaeth, yn anghyfnewidiol, yn ddïadlam ac yn dragywyddol. O Tragywyddoldeb! Tragywyddoldeb! Hyn ſy'n gwenwyno, yn trallodi, yn chwanegu ac yn trymhau poenau mwyaf annoddefiadwy'r Damnedig: Yn ôl miloedd aneirif a flynyddoedd, hwy a dybygant na bydd eu gofid ond dechreu, ac a fydd cyn belled oddïwrth ei ddiwedd, a phe na buaſent ond awr yn Uffern. *Eu coſbedigaeth a fydd diniſtr tragywyddol oddiger bron yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei gadernid ef*, 2 Theſ. 1. 9. Mewn cyffelyb i'r hwn, nid yw holl rwygo, dryllio, dirdynnu, ac arteithio Cyrph dynion yma, trwy'r poenau toſtaf, ar dannau i ddirdynnu, Crogbrennau, Olwynion, Pigau dur, Haiarn poeth, Plwm brŵd, Olew berwedig, ac Offer gwaedlyd eraill a Pheiriannau creulondeb erchyll a ddychmygwyd, ond megis pigiad Chwannen.

Bechaduriaid! Uffern, Uffern, a wna i'r Enaid trîſt poenedig geiſio marwolaeth, ddymuno a hiraethu am y pêth na bŷdd bŷth, *Datc.* 9. 6. Ac a ddymunwch ac a chwennychwch chwi'r dŷdd galarus? na adawo Duw! Yn awr fe ellir newid eich cyflwr, y prŷd hynny fe fydd wedi ei ſe-

fydlu. *Gwae, Gwae y neb ſydd yn dymuno dŷdd yr Arglwydd*, (Amos 5. 18.) *beth yw hynny i chwi? Tywyllwch ac nid goleuni yw dŷdd yr Arglwydd, Diwrnod tywyll du, diwrnod cymmylog a niwlog, rhag yr hwn y dylai'r babl ofni, pob wyneb a gaſgl barddu, preſſwylwyr y wlâd a ddychrynna, canys ofnadwy iawn yw dydd yr Arglwydd*, Joel 2. Gan hynny yn awr peidiwch a'i ddymuno yn annuwiol, eithr yſtyriwch yn ſynhwyrol, ac ymbarottowch erbyn y delo: A gwyn ei fyd y gwas hwnnw, yr hwn y caiff ei Arglwydd ef pan ddêl, yn gwneuthur felly, *Luc* 12. 43.

3. Y mae hyn yn argyoeddi 'r *hunan-hyderus a'r rhyfygus*, y rhai ar ſeiliau yſgafn ac anſiccr a farnant eu bod yn gymmwys ac yn barod ddigon erbyn marwolaeth a barn; ſef o waith eu bod yn ymddidoli oddiwrth y rhai drygionus hynodol, heb fod yn halogedig, yn gwneuthur proffes, yn dangos pêth triſtwch deddfol am bechod, ac yn rhedeg tros ddyledſwyddau; er eu bod yn gnawdol ddigon ac yn ddigalon yn y dyledſwyddau hynny; oddiwrth hyn hwy a'u perſwadiant eu hunain yn hawdd fod y cwbl yn dda, ſef, eu bod yn blant i Dduw mewn cyflwr o Ras, ac yn myned i'r Nefoedd, ac mor gymmwys i farw a'r goreu. Pa nifer o filoedd ſy'n y Bŷd Criſtianogol, y rhai ſy yn cyſgu yn ddïofal ac yn breuddwydio

wydio am hawl yng Hriſt, yn gobeithio ac yn addo dedwyddwch gogoneddus iddynt eu hunain rhag-llaw, y rhai nid ŷnt ond gwîr ddlynion marwol, a gwaeth, neu ar y goreu ond Rhagrithwŷr cynrhonllyd wedi eu lliwio a chanddynt yn unig rîth duwioldeb, Ras attaliedig, ffugiol neu gyffredin? Ycyfryw Sgrifennyddion a Phariſæaid oedd y Morwynnion ffol, ac etto hyderus ddigon hŷd y diwedd; hwy a ddaethant at y drws, *gan ddywedyd, Arglwydd, Arglwydd, agor i ni.* Yr oedd ganddynt Lampau diſglair, ond nid oedd ganddynt ddim olew yn eu lleſtri gyd-a'u Lampau: Ddim gwîr undeb â Ieſu Griſt, ddim Ffŷdd werthfawr, ddim cariad pur ac Edifeirwch efangylaidd, yr oedd gwreiddyn y pêth hêb fod ynddynt.

Chwychwi y ſawl ſy gennych enw eich bôd yn fyw, gochelwch eich bôd yn cael eich twyllo; os ydych heb wîr uno a Ieſu Griſt, mae'n ddïammau y gwrthyd efe chwi. Mae'r Arglwydd Ieſu yn dywedyd wrthym am y cyfryw eneidiau a dwyllwyd yn dôſt, y rhai a ſafant i fynu yn y dŷdd diweddaf, ac a geiſiant wobr yn y nefoedd, wrth y rhai y datgan efe ar gyhoedd, *Nis adnabum chwi er ioed, Matth.* 7. 23. Ni's adnabuant hwy ef er ioed er lechydwriaeth, ni bu rhynddynt er ioed ddim undeb a chymmundeb a Chriſt yn y Bŷd. *Llawer ſy wedi*

eu galw, ac ychydig wedi eu dewis. Plant y Deyrnas (medd Criſt) *a deſlir i'r tywyllwch eithaf.* Ac y mae'n rhaid i mi ddywedyd wrthych, y caiff pa rai bynnag a ddaw i'r Neſoedd, weled na bydd llawer yno ag oeddynt hwy yn tybied a fyddai, ac a gant eraill yno nad oeddynt yn diſgwyl nemmawr am danynt. Y pechaduriaid yn *Sion* ydynt fwy nag ychydig, mae'r Geifr yn amlach na'r Defaid, yr Efrau yn amlach na'r Gwenith, mae mwy o arian gwrthodedig nag o aur profedig. Y pur o galon, a'r gŵr gwîr ddywiol ſy'n galaru ac yn wylo am ei bechod, ſy'n caru Duw, ac yn priſio Criſt uwch-law'r Bŷd, ſydd lawer gwaith yn llawn ofn ac amheuaeth am ei Enaid a'i gyflwr tragywyddol: O bêth ni's rhoddai am gael ſiccrwydd o fod pob pêth yn dda rhwng Duw ac ef? Am gael gwybod fod Duw a Chriſt yn eiddo iddo, ei fod efe yn gymmwys i fyw neu farw; o waith bod camgymmeriad yma yn ofnadwy iawn, ac o bŵys anfeidrol. Eithr yn y gwrthwyneb, yr annothion a'r anufudd ſy'n cyfeiliorni, yn gwaſanaethu chwantau ac amryw felyſwedd, gan fyw mewn pechod, wedi ymddïeithro oddïwrth fuchedd Dduw, heb obaith ganddynt, ac heb Dduw yn y Bŷd, ydynt yn llawn hyder, ac yn credu'n hollol y bydd yn dda arnynt hwy yn y Bŷd a ddaw.

Mi

Mi adwaenwn un truan anwybodol, halogedig gwael, pan ddywedwyd wrtho ar ei Wely-angau (ychydig bach cyn myned o honaw i dragywyddoldeb) fod Angau yn dyfod, a attebodd, pa le y mae ef, mi af allan i'w gyfarfod ef? gan eſtyn ei draed tros y Gwely, ac a drengedd o fewn ychydig amſer. Am hynny yn y gorchwyl mawr hwn ſy'n perthyn i'r Enaid na fydded neb mor ynfyd ac mor ben-galed, a gobeithio heb brofiad. *Eithr profed pôb un ei waith ei hun; ac yna y caiff orfoledd yndde ei hun yn unig, ac nid mewn arall; canys pob un a ddwg ei faich ei hun*, Gal. 6. 4, 5.

Cweſtiwn. Os yw yſtyried ein diwedd yn beth o gymmaint Pŵys, *pa ham y mae Gwyr a Gwragedd ſy ag eneidiau anfarwol ganddynt yn peidio meddwl mwy am dano?*

Atteb 1. Yr achos pennaf ſy'n tarddu oddïwrth y didduwiaeth a'r angrhediniaeth erchyll a melldigedig ſy wedi ymwreiddio'n ddwfn a'i guro ym meddyliau a chalonnau dynion. Nid ydynt yn coelio'r Athrawiaeth ryfeddol a ſyn honno am y Bŷd arall, yn ôl crediniaeth yr hon y bydd yn rhaid iddynt fyw neu farw bŷth bythoedd.

Pe bwriem olwg yn ddifrifol ar dragywyddoldeb diddiwedd, ac ar y pethau mawrion hynny y mae dynion yn cymmeryd arnynt eu credu, ſef, fod yn rhaid iddynt

iddynt feirw, fod ynghorph pob dŷn Enaid na bydd farw bŷth, y bydd cyflwr dynion ac ol marwolaeth yn wahanrhedawl ac yn anghyfnewidiawl, ac na cheiff neb heb ſancteiddrwydd, wîr ſancteiddrwydd calon a buchedd, weled yr Arglwydd. Cyſtedlwn fucheddau ac ymarferion y rhai ſy'n cymmeryd amyat gredu'r pethau hyn, ac ni a allwn eu gweled mor bryſur a chrûg o forgrug ar ddiwrnod teſſog, ac nad yw hynt dynion yn gyffredin yn tueddu dim tu-ag at y diben hyn, eithr tu-ag at bethau gwaeſ eraill ac annibennus.

2. Yr ail achos yw eiſiau, Doethineb yſprydol a duwiol. O eiſiau'r *ddoethineb* honno ſydd oddiuchod yr oedd yr *Iſraeliaid* heb yſtyried, *Oh na baent ddoethion!* ebro Duw. *Cenedl heb gyngor ydynt hwy, ac heb ddeall ynddynt, Deut.* 32. 28. Pe bae dynion yn ddoethion tu ag at eu heneidiau gwerthfawr a thragywyddol, hwy yſtyrient beth ſy raid ei wneuthur yma, a pheth yw eu cyflwr tebyg i fod yn y bŷd arall. Y call a gentydd y drŵg, neu a yſtyria y drŵg, ac a ymgudd. Pan fygythiodd Duw trwy enau *Moſes* goſpi 'r *Aiphtiaid* a haint y nodau, Cenllyſg a Than, yr hwn a gredodd ac a ofnodd air yr Arglwydd o weiſion *Pharao*, a yrrodd ei weiſion a'i anifeiliaid i dai, ac a achubwyd, *Exod.* 9. 20. Felly'r Enaid ſydd wîr

wîr ddoeth i yſtyried enbydrwydd cael ei ddinyſtrio gan genllyſg blîn a than ddigofaint Duw, a ffu 'r *lloches*, ſef dan aden y Cyfryngwr mawr gogoneddus, lle'n unig y mae gwîr gymmorth. Ond yr hwn nid ofnodd nag yſtyriodd yr enbydrwydd a adawodd ei weiſion a'i anifeiliaid yn y maes, ac a ddinyſtrwyd, *Exod* 9. 21. 25.

3. Y trydydd rhwyſtr yw Cnawdolrwydd, melyſwedd a gofalon y Bŷd, y mae'r rhai'n yn dŵyn ymaith y galon oddïwrth wîr yſtyried. Amledd o ddiddanwch y Creaduriaid a barodd i'r *Iſraeliaid* wrthod a gollwng Duw tros gof, *Deut* 32. 14, 15, 16, 17, 18. Yr oeddynt yn yr hen fŷd gynt yn bwytta ac yn yfed, yn prïodi ac yn rhoi i brïodas, heb yſtyried eu henbydrwydd, hŷd oni ddaeth y diluw, a'u cymmeryd hwy oll ymaith, *Matth.* 24. 38, 39. Dynion y ddaiar ydynt yn ſynied pethau daiarol, hŷd onid yw eu calonnau yn trymhau trwy lothineb a meddwdod a'u gofalon hwynt, *Luc.* 21. 34. A thra yw meddyliau a brŷd dynion yn rhedeg mor awyddus ar ol y Bŷd i wneuthur rhagddarbod tros eu bywyd, ni allant feddwl ond ychydig am eu marwolaeth, *Luc* 12. 15, 16, 17, 18.

4. Y pedwerydd Rhwyſtr yw'r pla ar y galon, a'r dïofalwch diobaith ſy'n dyfod oddiwrtho. Nid oes dim rhwymau neſſaf

at

at farwolaeth mor nerthol i gadw dynion i lawr, ag yw diofalwch ac anneallgarwch yſpryd, Y fath drym-gŵſg ſy'n goreſgyn y rhan fwyaf o'r Bŷd annuwiol, hŷd onid ydynt wedi diddarbodi, ac wedi myned mor ſyth-feirwon, fel nad yw llais Duw ym mygythion ofnadwy ei air, ac alarwm ei farnedigaethau ſyn echryſlon a'i raglunaethau anghyfanneddol yn tyccio dim i'w deffroi hwynt. Yr Arglwydd a dywalltodd arnynt yſpryd trym-gwſg, ac (mewn barn) a gauodd eu llygaid, fel y gallont bechu hŷd yn oed yn wyneb y Barnwr, ar geulan Uffern, yn ſafn a drŵs y Gagendor mawr hwnnw o dragywyddoldeb.

5. Y pummed rhwyſtr i ddynion yſtyried eu diwedd yw nerthol amryfuſedd calon, neu ddichellion y Fall. Yr hen Sarph a'r calonnau twyllodrus diobaith ſy'n peri iddynt freuddwydio fod Duw ei gŷd yn gariad, y cant hwy fywyd hîr, mai gwaith byr yw parottoi erbyn marwolaeth a thragywyddoldeb; ac y gellir gwneuthur hynny pan y mynnir, ſef, pan font wedi darfod a'r Bŷd, pan font yn hen, neu'n gorwedd a'r eu claf-wlau. Dywedant yn eu calonnau, nid ydyw ond credu neu edifarhau, a dyweduyd, Arglwydd trugarha wrthym, marw a wnelwyf o farwolaeth yr union a bydded fy niwedd fel yr eiddo yntef, *Numb.* 23. 10.

Tan

Tan yr amryfuſedd marwol hwn y maent yn breuddwydio am y Nefoedd, ac yn myned dan chwerthin i Uffern, *Theſ.* 5. 3.

A'r peth ſy'n cynyddu llawer ar y ſynnedigaeth hyn, ſe allai yw, diffyg neu eſgeuluſo gweinidogaeth nerthol a bywiol, ſwydd yr hon, megis Gwil-wŷr yw rhagweled yr enbydrwydd, rhybuddio a deffroi pechaduriaid diofal, gan weiddi arnynt yn groch yn enw'r Arglwydd, *Deffro di yr hwn wyt yn cyſgu, a chyfod oddiwrth y meirw, a Chriſt a oleua i ti*, Epheſ. 5. 14. Ond ni all rhai aros bod Gweinidogion mor doſt, eglur a llym yn eu Hathrawiaeth, mal pe baent yn taranu a ſaethu mellt yn llygaid a chluſtiau dynion cyſgadur; y maent yn ddigon bodlon i eiſtedd tan Weinidogaeth y rhai ſy'n priddo a chlai annhymherus, a'r rhai ſy'n gwnio cluſtogau i'w Ceſeiliau hwynt, tan Weinidogaeth y rhai y gallant heppian a chyſgu'n ddiofal. Eithr cas ganddynt yr hwn a geryddo yn y porth, a ruglo, a rwygo ac a archollo eu Cydwybod, yn gymmwys fel March a dolur ar ei gefn, a gny ac a winga yn erbyn y ſawl a geiſio ei iachau ef.

Gwr nid o iſel radd yn llefaru ei dŷb am amryw Weinidogion, a ddywedodd, mi glywn arnaf wrando'r cyfryw wr, a'r cyfryw un a glywn arnaf ei wrando yn dda ddi-

ddigon, eithr am y trydydd a grybwyllodd efe, yr hwn oedd yn arfer gosod y fwyall ar wreiddyn y pren, ac ymaflyd a'r galon; ni allafi aros gwrando arnaw, canys y mae fe bob amſer (eb efe) yn clwyfo fy nghydwybod.

6. Nid yw dynion yn yſtyried eu diwedd, o waith fod arnynt ofn gwneuthur hynny.

1. I Bechaduriaid gwammal, y mae coffadwriaeth marwolaeth yn belen chwerw na oddef i fwyniant pechod fyned i wared yn felus. Am hynny y maent yn dywedyd wrth feddyliau am farwolaeth, fel y dywedodd y Khaglaw wrth *Paul*, *Dos ymaith ar hyn o amſer, a phan gaffwyf amſer cyfaddas, mi alwaf am danat*, *Actſ* 24. 25. Meddyliau difrifol am farwolaeth a'r farn a fydd, fel yr ſgrifen-law ar y pared, a oſtwng yſpryd ac a dyr lawenydd y Tywyſog mwyaf neu'r Gwas gwychaf yn y Byd.

2. Maent yn ofni meddwl am Angau, o waith na ddarfu iddynt ymbarottoi erbyn ei ddyfodiad ef, hynny yw, na ddarfu iddynt gredu, edifarhau, a byw yn lân-fucheddol, fel y gwnaent Dduw yn Gyfaill iddynt. Un wedi myned yn ôl llaw, a llawer cant o bunnau o ddyled arno fwy nag a allo dalu, a fydd yn ofni bwrw ei gyfrifon: felly mae pechaduriaid truein diedifeiriol ſy'n nyled Duw o ddeng-mîl o dalentau, yn anwyllyſgar

wyllyſgar i feddwl am Angau, o waith y dywêd Angau wrthynt, Deuwch rhoddwch gyfrif o'ch goruchwiliaeth, canys mae'n rhaid i chwi dalu'r ffyrling eithaf.

3. Maent yn ofni meddwl am Angau, o achos y pethau ofnadwy ſy'n canlyn Angau, ſel y mae'n perthyn i'r ddau Fŷd. Y newid a wna Angau o ran a berthyn i'r Bŷd hwn ſy ſyn iawn.

1. Y mae'n dwyn yn annocheladwy ddattodiad neu wahaniad Enaid a Chorph; ſe fydd yn rhaid i'r ddau gydymmaith anwyl hyn, a fuant fyw ac a gyd-dreigliaſant gyd-a'u gilydd, ac a gydbechaſant tros lawer blwyddyn, ymado 'r prŷd hynny, a dŷn byw a a'n gelain farw, yn gymmwys i ddim ond i'r bedd, ac ſe fydd yn rhaid i'r Enaid gael trigfa arall, *Job* 17. 13,14. a'r 19. 26. Iawn y gellid galw Angau yn *Fremin Dychrynniadau*, Job 18. 14.

2. Y mae'n beth arſwydus gado'r Bŷd hwn, a fu mor hoff ac mor hyfryd, ac er mwyn yr hwn y darfu i chwi ymboeni a llafurio cynnifer o flynyddoedd, mewn un noſwaith ei golli ei gŷd; canys pan ddelo'r awr i ymadael, chwi ellwch fwrw golwg ar eich holl gyſſuron a gawſoch tan yr Haul, a chynnorthwyon am y Nefoedd, ſef, Gwŷr, Gwragedd, Rhieni, Plant, Ceraint, Cyfeillion, Cymdeithion difyr, Aur, Tai, Tiroedd,

oedd, Gwleddoedd melus a dainteithiol, Bargenion hyfryd, a dywedyd, mae'n rhaid i ni bellach ymadael, ewch ymaith yn dragywydd; ni chawn ni bŷth eich gweled na 'ch mwynhau mwy, ni wnawn ni na bwytta nac yfed, nac ymgyfeilliachu mwy, prynnu na gwerthu mwy: fe ddarfu ein holl ddigrifwch cnawdol ac anianol, ein llawenydd a'n hyfrydwch a aethant ymaith, a holl fuddiant gwynfydedig i'n lechydwriaeth a derfynant yn awr. Ewch yn iach foddion Gras, a holl amſerau euraid cyfaddas i'n eneidiau, ewch yn iach yr holl Weinidogion ffyddlon hynny a glywſom ni, ewch yn iach yr holl Bregethau nerthol a deffrous hynny a ſeiniaſant yn ein cluſtiau ni, ewch yn iach yr holl Sabbothau gwynfydedig, ewch yn iach holl Gynghorion, Eſamplau, Ceryddon a Gweddiau ein Cyfeillion a'n Ceraint difrifol a chrefyddol, ni chawn ni bŷth mwy weled wyneb Gweinidog, neu wrando pregeth mwy, na drws Gras a bywyd bŷth mwy yn agored yn dragywydd. A pheth ſy'n aros ond ymatgof galarus am y pethau daionus hynny a aethant ymaith, a chyfrif toſt cyfyng ſydd etto'n ol?

Oh newid a cholled erchyll yn wîr! i'r rhai ſy'n gwneuthur y Bŷd yn gartref iddynt, ſy a'u Nefoedd y tu yma i'r Nefoedd, ac

ac hêb ddim rhagddarpar neu gyfran y tu hwnt i'r bêdd. Meddyliau am yr hyn a wnaeth i ŵr ieuangc (dwyddiannus ddigon yn y Bŷd) adrodd y geiriau hyn, *Os byddaf fi byw, mi fyddaf yn wr cyfoethog; ond dyma'r plâ, mae'n rhaid i mi farw*; yr hyn yn ddyladwy a fu cyn pen nemmar o amſer gwedi hynny.

3. Nid rhyfedd fod Angau mor ofnadwy, canys wedi Angau y daw Barn. Rhingyll yw'r Angau fy'n gwyſio Eneidiau euog i ddyfod a rhoi cyfrif ger bron Brawdle ofnadwy Duw. A phêth ſy fwy ofnadwy i ddrŵg weithredwr nâ golwg a phreſennoldeb Barnwr digofus? Tra yr oedd *Paul* yn ymreſymmu am y Farn a fydd, *Phelix* a ddychrynnodd ac a archodd iddo fyned ymaith; fe ddarfu i'r Athrawiaeth honno ei glwyfo ef, fel na allai aros mohoni, *Act.* 24. 25.

Defnydd 3. Y trydydd defnydd ſydd i'ch cynghori, i'ch perſwadio, ac i'ch cynhyrfu i oſod y ddyledſwydd hon o'r fath bŵys mawr ac anſeidrol mewn ymarfer. O Garedigion, mi attolygaf i chwi feddwl pêth mewn prŷd am awr eich marwolaeth, fel y bo i Angau a chwi fod yn fwy cynnefin. Y mae'r Cyfaill goreu ag ſy gennych yn y Nef a'r Ddaiar, yn hiraethu am weled hynny; *Oh na byddai gyfryw galon ynddynt*, Deut. 5. 29.

Yn awr os mynnwch wneuthur dim yn y gwaith bendigedig hwn, ſef parodtoi erbyn marwolaeth a barn, mae'n rhaid ei wneuthur ef, 1. *Ar frys.* 2. *Yn ddifrifol.* 3. *Yn Effeithiol.*

1. Mae'n rhaid ei wneuthur ef ar Frŷs, gorchwyl ydyw o'r fath bŵys nad oes le i oedi nac eſgeuluſo mohono tros funud o amſer. Pettych ond gweled eich bôd ar gyffiniau tragywyddoldeb, ac mewn enbydrwydd beunydd o gael eich diferthu yn dragywydd, chwi ymroddech i'w wneuthur ef yn ebrwydd. I'ch rhwyddhau a'ch annog, Yſtyriwch,

1. Y mae bywyd (er anwyled ac er gwerthfawrocced ydyw) yn anſicer iawn. Pa ddiddim yw'r bywyd hwn? Gwynt, Tarth, Breuddwyd, Anadl, Clôch ar ddwfr. Pa gynted y torrir yr edau, y rhêd yr awr-leſtr, neu y tywylla'r Lamp ddiſglair hon ſy'n lloſgi, neu'r a'n niffodd, pa brŷd, pa fôdd, neu pa le y terfyna'r bywyd byr dartodedig hwn, ni wyddoch chwi; pa'r un ai gartref ai oddi-cartref, ym myſg eich Cyſeillion ai ym myſg dïeithriaid, yn y maes ai yn y tŷ, wrth y bwrdd ai yn y gwely, pwy a ŵyr?

2. Gall Angau ddyfod yn ddiſymmwth. Pa brŷd y geſyd y March gwelwlas allan, ai 'r boreu, ai hanner dŷdd ai hanner nos, ni all

all nêb fynegi i chwi. Y mae awr dyngheda fennol rhag yr hon ni ddichon nêb ddianc yd, *Luc* 12. 20. *Pſal.* 73. 18, 19. *Pſal.* 64. 7. 1 *Theſ.* 5. 3.

3. Pan ddêl Angau fe dery'n ſiccr; Y mae'r Brenin Dychrynnladau hwn ar y March gwelwlas bôb amſer yn marchogaeth ei gylch, ac yn lladd pa le bynnag y delo: nid oes un Darian nac Aſtalch, nac Arfau profiadol a all ein hymddiffyn, nac oes, na llu neu fyddin o ddynion neu Angylion. Os caiff Angau ofnadwy Frenin ar ei Orſeddfaingc, neu Gardottyn ar y Dommen, yr un peth ganddo ef. Ni chyfrîf y Leſiathan mawr hwn, Angau, nerth gŵr er pe byddai cyn gryfed a *Samſon*, mwy na gwellt; mae Angau yn gwneuthur ei waith yn fuan, yn hawdd, ac heb edrych yn wyneb neb. Mi anghwanegaf yma,

1. Mae galwedigaethau, rhybuddion ac alarwm Angau yn aml iawn; nid oes un o honoch na alwyd arno, ac na churwyd wrth ei ddrŵs lawer gwaith, i beri i chwi feddwl am Angau.

2. Y mae Gorchymynnion Angau yn ddïoed, fe ddaw a'i Writ gŷd ag ef. Angau a ddaw yn Enw'r Barnwr ofnadwy, ac a gymmer ei Gommiſſiwn o Lŷs y Nefoedd, er mŵyn cyflawni a gwneuthur Deddf dragywyddol a dïadlam, fel y bydd yn rhaid

iddo efe wneuthur ei waith a chael ei neges. Pe bai gan ddŷn Fŵn-gloddiau o Aur ac Arian i'w rhoi, ni allent waredu mo honaw rhag gafael y Rhingyll anymbilgar hwn.

3. Y mae Gorfodau Angau yn fawr, *Myfi a wn y dygi di fi i farwolaeth, ac i'r ty rhagderfynedig i bob dyn byw*, Job 30. 23. *Pa wr a fydd byw, ac ni wel farwolaeth?* Pſal. 89. 48. *Goſodaiſt ei derfynau fel nad êl troſtynt*, Job 14. 5. Y rhai a oreſgynnaſant Frenhiniaethau a Gwledydd, ac a ddygaſant y cwbl o'u blaen, a ddaroſtyngwyd gan Angau. Pan ddel Angau a llindagu gwr er pe bae y balchaf, y dewraf a'r cryfaf yn y Bŷd, fe fydd yn rhaid iddo fyned o'i fôdd neu o'i anfodd, yr un ydyw gan Angau. Yr ydys yn dal ſylw am ddynion drygionus, nad ydynt yn rhoi eu heneidiau i fynu, eithr eu tynnu allan yr ydys.. *Pa obaith ſydd i'r rhagrithiwr, er elwa o honaw ef, pan dynno Duw ei enaid ef allan*, Job 27. 8, 20. *Corwynt a'i lladratta ef liw nos. Yr nos hon y gofynnant dy Enaid*, Luc 12. 20 Ni erys Angau un noſwaith. Nid yw ond ofer iddynt hwy y rhai ſy'n gryfion ac yn heini ddywedyd wrth Angau, Dôs at yr wynebau cullion rhychiog, at y pennau llwydion, at y gruddiau gwynleiſion, at y cefnau llymion, at yr eſgyrn ſychion, at y bronnau hysbion, na chyfwrdd a'r gŵr ieuange hwn,

nâ

na tharo'r llangces lan brydweddol hon, y ſy ym mlodau a thegwch ei Natur. Dos at y Cleiriach darfodedig accw, y ſy ar ei ogwydd, yn lleſg ac yn barod i farw; Dos at y Wrach wan accw ſy wedi gwywo, gad i mi fod yn eſguſodol. Ond nid yw Angau yn priſio hyn. Canys y mae'r Goreſgynwr mawr hwn Angau yn curo cyn fynyched wrth ddrŵs y gwr ieuangc a drws yr hen wraig. Y mae Angau yn dala ac yn dwyn ymaith y crŷf, y cyfoethog, y goludog, yr anrhydeddus a'r dyſgedig yn garcharorion i'r bedd, cyn fynyched a'r gwan, y claf, y tlawd, y gwael a'r anwybodol.

2. Mae'n rhaid i chwi ei wneuthur ef yn *Ddifrifol*, a'ch holl Eneidiau: Y byw a'i geſyd at ei galon, *Preg.* 7. 2. Ni all y meirw, nid oes dychymmyg yn y bedd: Am hynny ewch yn ei gylch ef yn awr yn bryſur, cyn del henaint ac Angau.

3. Gwnewch ef yn *Effeithiol*, ewch trwy'r gwaith, na adewch mohono heb ei wneuthur, neu yn hanner ei wneuthur; marwhewch bob trachwant, cyflownwch bob dyledſwydd, ac ymarferwch bob gras. Ni waeth ei adael heb ei ddechreu, na'i adael heb ei orphen. Yn awr y mae amſer cyfaddas o'ch blaen chwi, y mae dŷdd Gras yn parhau, y mae Criſt wrth y drŵs, agorwch iddo a gwnewch bob peth yn ddïogel;

canys os cewch bŷth faddeuant, eich cyfiawnhau a'ch ſanctteiddio, mae'n rhaid i hynny fod yn awr. Bellach y canlyn Annogaethau i'ch annog i yſtyried eich diwedd.

Annogaeth 1. Yſtyriwch fod angenrhaid perffaith ac anghyfrannol yn goſod arnoch wneuthur hynny, angenrhaid preſennol, angenrhaid anfeidrol a thragywyddol; pethau eraill a ellir eu gwneuthur, hwn ſy raid ei wneuthur, ac y mae hi dros ben y prŷd y gallaſai'r gwaith mawr hwn fod wedi ei wneuthur a'i orphen. Pennaf gorchwyl ag ſy gennych yn eich bywyd yw ymbarottoi mewn amſer ac yn gywir erbyn marwolaeth a barn. Gwell a fuaſai bod eich holl orchwylion eraill yn y Bŷd wedi eu heſgeuluſo yn llŵyr, megis, Gŵr, Gwraig, Plant, Prynnu, Gwerthu, Gwanwyn, Cynhauaf, wedi eu gadel yn ol, a gollwng i'r cwbl fyned yn ofer, nag anturio, colli a difethu eich Eneidiau; canys hyn yn ddïammau a ddinyſtria Gorph ac Enaid bŷth ac yn oes oeſoedd.

O meddyliwch o ddifrif cyn lleied a wnaethoch yn yr amſer a dreuliaſoch o'ch bywyd, ac mor anabl a fyddwch i wneuthur dim yn niwedd yr amſer, pan ddeloch i letteua i'r Bedd. O cofiwch ddyddiau tywyllwch, canys llawer fyddant, *Preg.* 11. 8.

Ni

Ni wnaeth y rhai fu yn y bedd fil o flynyddoedd ddim, ac ni ellwch chwithau wneuthur dim wedi y deloch yno. Bellach am danoch chwi, y ſawl a fuoch fyw, rai ugain, ddegarhugain, ddeugain, ddeg a deugain neu drugain o flynyddoedd, ac heb wneuthur dim tu-ag at ymbarodtoi erbyn eich cyflwr tragywyddol, y mae 'n llawn bryd i ddechreu'r gwaith.

Y mae'r rhan fwyaf o honoch mor anneallus, a pheidio yſtyried na meddwl am Angau, nes clywoch Gloch, neu ganfod Bedd neu Arch, nes delo angau o fewn i'ch parwydydd, a churo wrth bennau eich Gwlau: nes gweloch Gâr, Blentyn, Frawd, Wr neu Wraig yn trengu ac yn marw, nes gweloch hwynt yn oeri ac yn griddfan a'r drangcedigaeth, nes paro'ch llygaid fel hyn i'ch calonnau feddalhau, mae'ch calonnau'n anfynych yn meddwl am eich marwoldeb: Yn awr gan fod yn rhaid gwneuthur y peth, a'i wneuthur yn fuan hefyd, ymrowch er gwaethaf Dynion a Chythreuliaid, a'r holl Fŷd, fyned ynghŷd a'r gwaith.

Annogaeth 2. Yſtyriwch, *y gellir ei wneuthur ef*, yr ydych tel y galloch ei wneuthur ef; bendigedig fŷth a fyddo Gras Rhad.

1. Mae amſer a chyfle etto o'ch blaen chwi. Mae'r Ganwyll yn llofgi a' Haul

yn ſywynnu, y mae etto'n ddŷdd, er nad yw yn foreu, y mae peth Tywod etto'n ol, er nid llonaid yr Awr-Leſter. Y mae rhai o honoch yn hen, yn gloffion, ac yn fyddariaid, eithr nid yn feirw; eraill yn weinion, yn gleifion ac yn nychu, eithr yn fyw. Pe bae'r Haul wedi machludu, y Ganwyll wedi diffod a'r Awr-leſtr wedi rhedeg, canu yn iach fyddai raid i bob gobaith am y Nefoedd, neu newid eich cyflwr bŷth bythoedd. Y rhai a aethant i wared at y meirw, ac ydynt ym myſg y rhai damnedig, a allant, ac ydynt, mewn poenau, yn meddwl am y cyfle a gynnygiwyd iddynt unwaith i'w gwneuthur yn ddedwydd, eithr ni allant alw dim yn ol; mae hynny yn amhoſſibl.

2. Mae Duw yn fodlon i'ch cynnorthwyo, os ewch atto ef; *Efe piau'r nerth*, ac efe a'i rhydd i'r dirym, *Eſa.* 40. 29. Ni pïau'r ddyledſwydd, Duw pïau'r Cymmorth a'r Llwyddiant. Duw yr hwn a roddes i chwi amſer i yſtyried, a ddichon hefyd roi i chwi eneidiau i yſtyried; ewch atto ef ar eich gliniau a deiſyfwch megis am eich bywyd, ei gymmorth parod, a dywedwch fel y dywedodd y Wraig ddoeth wrth *Ddafydd, Cynnorthwya, O Frenin, 2 Sam.* 14. 4. Neu fel y dywedodd y Tad tros ei fab cyſtuddiedig, *Marc* 9. 22. *Os gelli di ddim, cymmorth ni.*

ni. Criſt an cynnorthwyodd ni; ei addewid ef yw, *Ceiſwch, a chwi a gewch.* Ond ni ellir dywedyd felly am Eneidiau a ymadawſant a'r Bŷd, o waith fod amſer a moddion wedi myned ymaith tros bŷth oddïwrthynt.

Yna yn Enw'r Arglwydd, rhyddhewch eich hunain fel gwŷr gwŷr doethion, ſy ganddynt Eneidiau gwerthfawr, rheſymmol ac yſtyriol, ſy'n gwneuthur gwhan rhyngoch chwi ag Anifeiliaid; gadewch i'r Tlws ardderchog hwnnw ſef Rheſwm, weithio trwy yſtyried eich diwedd; canys yſtyried ſydd weithred neu ymarfer difrifol, taer a bywiog o'r deall, ynghylch pethau i'w gwneuthur, neu beidio eu gwneuthur, yn rhwyddhau neu yn lleſtair eu gwneuthuriad fel y gwelo yn dda. Y marfer y meddwl a'r galon ydyw, y mae y rhai'n ar waith yn yr yſtyried Duwiol hwn. *Myſyrded* (fel y mae un yn dal ſylw) ſy'n edrych ar bethau, megis yr olwg ar y gwrthddrych; *Barn* ſy'n adnabod pethau pa'r un ai da ai drwg ydynt; eithr yſtyried ſy'n chwilio'r gwirionedd ym mhellach. Goſodwch yſtyried i weithio, ac nid fel anifeiliaid, gadel i'ch llygaid, i'ch cluſtiau, i'ch trachwantau a'ch ſynhwyrau eich arwain, eithr ymddiddenwch a'ch calonnau, yſtyriwch eich ffyrdd, meddyliwch am eich gweithredoedd, ac

edrych

edrychwch at eich diwedd, yr hyn pe gwnaech ni fyddech mor gnawdol, ac mor bechadurus, ag a fuoch ac ydych, *Eſay* 1. 3.

Annogaeth 3. Yſtyriwch mai ei adel heibio neu ei eſgeuluſo, a'ch gwna chwi yn waethaf o'r ynfydion. Os ei wneuthur yw y doethineb pennaf, mae'n rhaid mai peidio ei wneuthur yw'r ynfydrwydd mwyaf; hyn a'ch gwna fel *Ephraim* yn Golommen ynfyd hêb galon, *Hoſ.* 7. 11. A wyddoch chwi fod yn rhaid i chwi farw, a marw ond unwaith? Ac oni wnewch chwi eich goreu er gwneuthur y pêth hwnnw yn dda, na ellir gwneuthur mo honaw'r ail waith? Mal y dywedodd *Luther* wrth ei wrthwynebwŷr, *Ni ellwch chwi fy lâdd i ond unwaith; ni ellwch chwi fy ngbyfodi i fywyd trachefn, a'm lladd i'r ail waith.* Felly y dywedaf finnau wrthych chwithau, Chwi bechaduriaid trueiu, pan elo'r ffûn allan o'ch genau, ni ddychwel mwy.

Oh yſtyriwch a chalon-ddychrynnedig, pa faint ſy'n ymddibynnu ar y marw hyn unwaith! ſef, ynnill neu golli eich eneidiau gwerthfawr ac anwyl, ynnill neu golli ffafor Duw, mwynhau Duw; llawenydd y Nêf, neu boenau Uffern ſy'n ſefyll arnaw.

Pan ddêl Angau ſe fydd eich tragywyddoldeb wedi ei ſwrw; chwi gewch weled a gwybod

gwybod y munudyn neſſaf ar ôl i chwi ſaethu allan i'r Gagendor du ac erchyll, bêth a fyddwch, a pha le y byddwch hyd bôb tragywyddoldeb. Ac a fernwch chwi mai dynion y ddaiar, neu'r rhai doethion bydol yw'r dynion callaf, y rhai ſy' yn gofalu am y Corph, ac yn eſgeuluſo'r Enaid? Y rhai ſy' yn gwneuthur rhagddarbod tros Amſer, eithr nid tros dragywyddoldeb? O Garedigion, pe gallech ond dilyn eu hôl i Glafwely, i Wely-angau, oddïyno i dragywyddoldeb, ac at frawdle erchyll Duw, ſe fyddai yn hawdd i chwi farnu bêth ydynt, *Jer.* 17. 11. *Luc* 12. 20. a'r 16. 22, 23. *Datc.* 6. 15.

Annogaeth 4. *Mewn ychydig iawn o amſer wy fydd eich cynnorthwyon, a'ch maenteiſion preſennol, nerthol a deffrous, i'ch cynhyrfu ac i beri i chwi gofio am y Bŷd arall, wedi myned ymaith a'ch gadel chwi.* Ar rhei'ni yn bennaf ydynt dri, *ſef*, 1. Ordinhadau deffrous. 2. Rhagluniaethau deffrous. 3. Ceryddon deffrous.

1. *Ordinhadau deffrous* a gant eu diwedd. Gweinidogion ffyddlon a nerthol yr Efengyl, ſy'n gwilied tros eich eneidiau, a Swŷdd y rhai yw tano'r Bigynau, a rhoi'r Alarwm, a orphennant eu gwaith, ni wyddom ni pa gynted. Y *Boanerges* hyn a Chennadon yr Arglwydd, ſy'n pregethu Athrawiaeth ſyn a brawychus Marwolaeth a

Barn,

Barn, a hynny trwy lefain uchel a dagrau prûdd, taerni a gwreſogrwydd yſpryd, i beri i chwi ddeall eich pechodau a'ch enbydrwydd, a elwir adref ar fyr. *Moſes* y prophwyd mawr hwnnw, wedi iddo gyfanfoddi'r Gan odidog hon (rhan o'r hon yw fy Nheſtun) a gaſglwyd at ei Dadau. *Noah* y pregethwr cyfiawnder hwnnw, wedi iddo tros lawer blwyddyn yng hŷd rybuddio'r hên Fŷd, a alwyd i'r Arch, ac ni chawſant hwy bŷth bregeth yn rhagor, nes daeth digofaint Duw am eu pennau, ac nid oedd ymwared, 2 *Petr* 2. 5. Am hynny *na fyddwch fel eich Tadau, y rhai y galwodd y prophwydi o'r blaen arnynt, gan ddywedyd, dychwelwch oddiwrth eich ffyrdd drwg*, canys nid oes ganddynt ddim llawer o amſer i alw; *Nid yw y prophwydi yn byw bŷth, Zech.* 1. 4, 5. Ni ellwch wrth reſwm ddiſgwil gwrando bôb amſer hyfryd lais Clŷch *Aaron*, neu ſain yr Udcorn arian; ſe fachluda'r Haul ar y prophwydi: Am hynny tra fo'r Gwilwŷr ar y Mûr, cymmerwch rybudd, a gorphennwch eich gwaith tra fo'r goleuni gennych. Oh Garedigion, gwnewch y gore' tu-ag at eich mantes tragywyddol o'r Pregethau eglur a nerthol hynny, a'r ydych yn eu gwrando a'u darllen, ac na chyfrifwch mo honaw yn bregethu deddfol. Pwy a fu doſtach yn eu Pregethau na'n Harglwydd

a'i

a'i Gennadwr? Yr hwn a ddylem ni ei ddilyn, onide ni a dynnwn y pechod erchyll o euogrwydd gwaed ar ein heneidiau, *Ezec.* 3. 18, 19. Yr ydys yn ſylwi fod mwy o Athrawiaethau dychrynnedig wedi eu gwaſgaru yma ac accw yn y *Teſtament Newydd*, nag yn yr *Hên*, cymhwyſo y rhai yn nerthol ſy angenrheidiol iawn yn gyſtal ar les pechaduriaid dïofal, a Sainct cyſgadurus. *Dafydd* ſanctaidd wedi ei gwymp, a ſyrthiodd mewn trym-gwſg, ac ni ddeffrodd nes daeth *Nathan* y prophwyd, a dywedyd wrtho'n eglur ac yn neilltuol am ei bechod. Ac am y Morwynnion, yr ydym yn darllain, Tra'r oedd y Prïod-Fab yn aros yn hîr, yr hepiaſant oll ac yr hunaſant, *Matth.* 25. 5. O pa nifer o eneidiau cyſgadur ſy'n y Bŷd, ac yn llawer o Ddinaſoedd, Treſi a Phlwyfau yn y Genedl hon, a gwynant yn doſt naill ai yn fyw neu'n farw, neu wedi marw, am na wnaethant y goraf o lafur eu Bugeiliaid ffyddlon!

2. Eich holl *Ragluniaethau deffrous*, trwy'r rhai y mae Duw yn eich galw ac yn eich rhybuddio, a gant eu diwedd. Fe fu y Duw mawr a gogoneddus tros hîr amſer ynghŷd yn llefaru ac yn galw arnom trwy ei Air, ac yn ddiweddar o amſer fe lefarodd trwy ei wialen ofnadwy, a hynny'n erchyll iawn. Y Cleddyf, y Pla, y Tan, amhariad Celfyddy-

Celfyddydau, a Barnedigaethau eraill, ydynt Leferydd croch Duw digofus. Y Cyſtuddiau hynny ar ein Teuluoedd, ein Ceraint, ein Meddiannau a'n Perſonau, ydynt i geiſio'n deffroi o'n cŵſg, ac felly er budd i ni. Pan oedd *Manaſſeh* mewn dyryſni, ac yn rhŵym a dwy gadwyn, ac yn cael ei ddwyn i *Babilon*, efe a weddïodd ger bron yr Arglwydd ei Dduw, ac a ymoſtyngodd yn ddirfawr, 2 *Chron.* 33. 11, 12, 13. Wedi coſpi *Ephraim*, efe a ddeffrodd, a ddychwelodd ac a edifarhaodd, *Jer.* 31. 18, 19. Canys rhwymau a rhaffau gorthrymder ydynt yn agoryd y cluſtiau i dderbyn cerydd; yna efe a ddengys iddynt hwy eu gwaith, a'u hanwireddau, ac a ddywed am droi o honynt oddïwrth anwiredd, *Job* 36. 8, 9, 10. Yn awr bod yn glûſt-fyddar wrth y Wialen a'r Gair, ymgaledu a dïofalhau, a myned ym mlaen mewn pechod tan Ragluniaethau deffrous a ſyn, ſydd farn ofnadwy, a'r hon ſy'n addfedu dynion i ddiniſtr, 2 *Chron* 28. 22. *Hwn yw'r Brenin* Ahaz, *Yr hwn yn yr amſer yr oedd yn gyſyng arno a'i chwanegodd droſſeddu yn erbyn yr Arglwydd*, Jer. 5, 2.

3. Eich *Ceryddon deffrous* a gant eu diwedd hefyd. Y gweithrediadau dirgel a nerthol hynny, ymryſon ac ymdrechiadau Yſpryd Tuw tan y Wialen, ac yn y Byd a at-

attalir: Ni fydd Criſt bob amſer wrth y drws yn galw ac yn curo, ac ni bydd i'w Yſpryd ef, yr hwn a drifthawyd ac a wrthwynebwyd mor fynych, ymryſon ac ymdrech a 'ch calonnau a'ch Cydwybodau yn dragywydd, *Gen.* 6. 3. Yn awr bechaduriaid, od oes gennych ddim cariad tu-ag at, na phrîs am eich eneidiau anfarwol, cyn y cymmerir ymaith yr holl gynnorthwyon hyn, byddwch ddoethion i yſtyried, ac i barottoi erbyn eich diwedd, rhag i Dduw fwriadu'n ebrwydd, a dywedyd wrthych, mal y dywedodd efe wrth yr Iuddewon, *Eſay* 1. 5. *I ba bêth i'ch tarewir mwy?* Neu mal *Hoſ.* 4. 17. Ephraim *a ymgyſſylltodd ag Eulynod, gad iddo.* Hwy a fynnant gael eu trachwantau, ac hwy a'u cant. *Fel mai byw ſi medd yr Arglwydd, ni lanheir yr anwiredd hyn, hyd oni byddoch feirw, Eſay* 22. 14. Gan na thyccia dim, yr wyf yn bwriadu, medd Duw, na chant glywed bŷth mwy un bregeth ddeffrous i chwilio eu heneidiau, ni chant bŷth mwy Gerydd neu Argyhoeddiad hŷd onid elont i Uffern.

Annogaeth 5. *Yſtyriwch y bydd taer-ŷmbil, dagrau a gweddiau'r anffyddloniaid, pan ddelont i feirw, yn ofer, yn ddiffrwyth ac yn anllwyddiannus.* Er pe llefarech ynghyfynger eich eneidiau, ac âchwyn yn chwerwedd

eich

eich yſprydion, pan ddolurio eich cnawd arnoch, ac y galaro eich eneidiau ynoch, ni thal hynny ddim, *Job* 14. 22.

Chwychwi y rhai ni foreu-godwch at Dduw, ac ni weddïwch ar yr Holl-alluog, y rhai ni weddiwch tra fo gennych amſer i weddio, cymmorth i weddio, iechyd i weddio, ac annogaethau i weddio.

Y mae Duw'r awr hon yn gwahodd, chwi ellwch gael eich gwrandaw; ni fydd eich gweddïau yn awr Angau ond egluriadau eich ofn a'ch dychryn, yn tarddu oddiwrth ymſyniad ac agoſrwydd eich enbydrwydd, pan na fyddo ond megis cam rhwng eich eneidiau wedi ymadel, a bod ynghyflwr y Cythreuliaid: Anfynych y mae Duw yn clywed oddiwrth rai dynion, oni ddaw trallod, clefyd, ofn, cyfyngder a chyni arnynt. Poen a wna iddynt y prŷd hynny weddio, ac udo ar eu gwlau; ac nid ydyw ond udo, nid gweddio, *Hoſ.* 7. 14. *Eithr a wrendu Duw ar ei lef, pan ddelo cyfyngder arno?* Medd *Job* 27. 9. *Na wna*, medd yr Arglwydd, *ni fynnaf gennych ymofyn a mi*, *Ezec.* 20. 3. O waith ei tod yn dyfod o feddwl drwg, neu anadl drewedig, o galon lygredig, bwdr, felldigedig, ac yna mae'n rhaid ei bod hi'n ffiaidd, *Dihar.* 15, 8. a'r 21. 27. *Golchaf* (medd *Dafydd*) *fy nwylo mewn diniweidrwydd, ac yna'r amgylchynaf*

dy

dy allor; canys pe edrychaſwn ar anwiredd yn ſy nghalon. ni wrandawſai'r Arglwydd ſy ngweddi, Pſal. 66. 18. Os ni wrandawſai'r Arglwydd weddi *Dafydd*, yr hwn oedd wr wrth fodd calon Duw ei hun, ni wrendy efe weddi Cythraul, na gweddy Tyngwr, Torrwr-Sabboth, na Meddwyn, nid yw efe yn gwrando pechaduriaid ſy'n hoffi ac yn caru eu trachwantau. Nac ydyw, medd yr Yſpryd glan, er iddynt fy ngheiſio i yn foreu, ni'm cant. Ymma nodwch, fod dau fath o foreu, boreu Duw, a boreu dŷn. Boreu Duw ſy ym moreu ein bywyd, yn amſer ieuenctid, y prŷd hynny y mae Duw yn galw ac yn gwahodd i ddyfod, *Dihar.* 1. 24. *Preg.* 12. 1. Boreu dŷn ſy yn y prydnhawn, neu yn niwedd bywyd, neu pan fo dŷn yn agos at farwolaeth, pan ddel poen, gofid a chaledi arno. *Pan fyddo adfyd arnynt i'm boreu-geiſiant*, Hoſ. 5. 15. *Pan ddel yr hyn yr ydych yn ei ofni megis deſtryw, ac y del eich dialedd megis Cor-wynt; yna y galwant arnaf, ond ni wrandawaf; yn foreu i'm ceiſiant, ond ni'm cant, Dihar.* 1. 27, 28. Duw a ddywed wrth yr holl gyfryw bechaduriaid, cofiwch hyn, fel y dywedodd *Iſaac* wrth *Abimelech*, *Gen.* 26. 27. *Pa ham y daethoch chwi attaf fi? Gan i chwi fy nghaſſau, am gyrru oddiwrthych:* Neu efe a ddywed, fel y dywedodd efe gynt wrth feibion Iſrael,

pan ydoedd yn gyfyng iawn arnynt, *Ewch a llafwch ar y duwiau a ddewiſaſoch: gwaredant hwy chwi yn amſer eich cyfyngdra; eithr nyſi ni waredaf chwi*, Barn. 10. 14. Fe ddarfu i chwi waſanaethu'r Cythraul, fawrhau'r Bŷd, fodloni eich Trachwantau, gyſſylltu a'm Gelynion; ewch at y Cythraul, ewch at eith Trachwantau, ac at eich Cyfeillion drygionus, gwaredant hwy chwi yn eich cyfyngdra. Yn awr y mae Angau a'r Cythreuliaid yn dyfod i'ch nol, ni ymarddelaf fi a chwi na'ch gweddiau, eich eneidiau a'm ffieiddiaſant, a'm henaid innau a'ch ffieiddia chwithau a'ch gweddiau, Ewch ymaith oddiwrthyf, nid adwaen chwi.

Annogaeth 6. *Mawr ddiddanwch buchedd y Duwiol yw gobeithio, a gwybod ei fod efe'n gymmwys erbyn Marwolaeth.* Beth bynnag à fo ei ran a'i gyfran yn y Bŷd hwn, fod yn ſicr y bydd yn dda arno yn y Bŷd arall. A ydych chwi mewn cyflwr o Ras, ar ddarfod a phechod, ac mewn gwir gariad a Chriſt a Sanctaiddrwydd; cymmerwch gyſſur, ewch ymaith, a bwyttewch eich bara trwy lawenydd, ac yfwch eich gwin trwy orfoledd calon, canys chwerwder marwolaeth á aeth ymaith. Brenin y Dychrynnidau, yr hwn oedd a gallu marwolaeth ganddo, a orchfygwyd gan Arglwydd y bywyd.

bywyd. Angau ofnadwy ſy'n marchogaeth ar y March gwelwlas, a dynnwyd i lawr oddïar ei farch gan eich Arglwydd hygar ſy'n marchogaeth ar y March gwyn, tan groes waedlyd yr hwn y gellwch ei weled ef wedi ei ddïarfu, yn archolledig ac yn farw: Angau, yr hwn a deyrnaſoedd o *Addaf* hŷd *Moſes* a lyngcwyd yn awr mewn buddugoliaeth 1 *Cor.* 15. *O law y bedd yr achubaſ hwynt; oddiwrth angau y gwaredaf hwynt: Byddaf angau i ti, ô angau; byddaf drangc i ti, y bedd, Hoſ.* 13. 14. Y mae'r enaid ſy'n credu yn farw gŷd-a Chriſt tra ydyw yn fyw, *Rhuf.* 6. 8. Ac a ryddhawyd nid yn unig oddïwrth ddamnedigaeth, eithr hefyd oddïwrth arglwyddïaeth pechod, ac y mae gobaith yn ei farwolaeth: Pan fyddo marw ſe fydd marw yn yr Arglwydd, *Datc.* 14. 13. Efe a huna yn yr Ieſu, 1 *Theſſ.* 4. 14. Ei ddiwedd fydd tangneddyf, *Pſal.* 37. 37. Hyn a wnaeth i'r Apoſtol ar ol ei ymdrech doſt, orfoleddu tros y gelyn diweddaf hwn yr Angau, 1 *Cor.* 15. 55.

Annogaeth 7. *Pe nid ymbarottoech erbyn marwolaeth, etto chwi a ddymunech i chwi ymbarottoi* (fel y mae llawer yn dymuno pan fo hi'n rhy ddiweddar.) Chwi y fawl ydych yn gwneuthur rhagddarbod tros y cnawd, ac yn rhedeg i'r Bŷd a'i bethau mor

daer, pan i'ch bwrir ar glâf-welu, chwi ddymunwch yn nygn boenau eich meddyliau, a flammau dychryn, O na buaſem ni yn ymadael a'n pechodau! O na buaſem yn ofalus i ryngu bodd ac i anrhydeddu Duw, ac i geiſio hawl yn Ieſu Griſt! yna y buaſem ni yn awr feirw o farwolaeth yr union; eithr hyn oll a ddarfu i ni ei ddibriſio'n gwbl, wy ddarfu i ni ymlid y Bŷd a'n holl egni, a chaſglu cynnifer o bynnau i'n hiliogaeth, ac a fuöm byw mewn bywyd llawen a difyr; eithr am ein heneidiau, am ein Tragywyddoldeb, pethau gwerthfawr anfeidrol, ni wnaethom ni ddim, fe ddarfu i ni ollwng ein heneidiau yn anghof. Yn awr dyma gennad Angau yn dyfod i'n hol ni, i garcharu ein Cyrph yn y bêdd, ſtafelloedd y tywyllwch, ac i ddŵyn ein Heneidiau, ni wyddom i ba le, i Uffern mae arnom ofn; *Oh na buaſem ddoethion i ddeall hyn! I yſtyried ein diwedd!* Bêth a roddem ni'n awr am gael byw ychydig o flynyddoedd yn rhagor, i wneuthur rhagddarbod tros yr Eneidiau hyn, ſy raid iddynt fyned yn awr i Gagendor Tragywyddoldeb diddiwedd.

Annogaeth 8. *Yſtyriwch y Budd, yr elw o yſtyried eich diwedd yn fawr iawn:* fel yr ymddengys wrth y pethau neilltuoll hyn ſy'n canlyn.

1. A

1. A fynnech chwi gaſſau pechod megis Uffern, a bod yn ſwy gwir lan fucheddol, *Yſtyriwch eich diwedd.* Hyn ſy dra diammeu fod holl rag-gennadon a chanlynwyr erchyll marwolaeth, yn tarddu ac yn tyfu allan o'r gwreiddyn chwerw hwn. Bêth ſy 'n archolli, brathu, poeni a lladd? Bêth ſy'n dŵyn clefydion, ac yn bygwth marwolaeth? Yn lladd y corph ac yn damnio a lloſgi 'r enaid? Bêth ſy'n peri i chwi o anghenrhaid arfer Phyſygwr a Phyſygwriaeth tra fyddoch byw? Ac yn eich dŵyn i Yſgrin a bedd, pan fyddoch feirw? Onid y pechod yr hwn yr ydych yn ei fawrhau yn eich monweſau?

Chwi bechaduriaid truain, deillion a ſiommedig, er lleied ac er hygared y mae pechod yn ymddangos ger bron eich llygaid gwammal, Mam a Mammaeth eich holl drueni ydyw, wedi ei ddeor yn Uffern, bad neu dom y Diafol. *Yr hwn ſydd yn gwneuthur pechod, o ddiafol y mae,* 1 *Joan* 3. 8. Hwn yw'r peth drŵg a chwerw hwnnw ſy'n lluſgo Marwolaeth ac Uffern wrth ei fodlau; ie, ſy'n arfogi Marwolaeth y Cythreuliaid ac Uffern yn ein herbyn ni. Oni bae'r Gelyn du, hagr, diriad, creulon a gwaedlyd hwn, ni allai Cyfraith na Chyfiawnder ein condemnio, ni allai Angau ein lladd, ni allai'r Cythreuliaid ein poeni, ni allai Uffern ein lloſgi. Pechod

Pechod yw Bradwr a Llofrudd eich Eneidiau anfarwol, a'r Hoelion hynny a gloddiant eich Beddau ar fyr: Ac a fyddwch chwi yn ei fawrhau, ei guddio ai ddala'n ſicer? A ddŷd gwraig y Gyllell honno yn ei Mynwes, a laddodd ei Phlentyn hygar neu ei Gwr? Na ddŷd yn un modd, mae'n rhaid ei thorri a'i thaflu ymaith yn dragywydd. Yn awr Garedigion, os pechod yw'r Gelyn, triniwch ef fel Gelyn neu Lofrudd, lleddwch ef, cymmerwch y gyllell aberthu, a thorrwch withi ei waed ef, neu darewch wthïen y galon, a gadewch iddo waedu hŷd oni bo farw. Gwnewch ag ef, fel y gwnaeth *Samuel* ag *Agag*, ſef ei ddarnio ef. Pe meddyliech o ddifrif am Angau ac Uffern, chwi a'i caſſaech hŷd farw, ac a ddywedech ymaith ag ef i Uffern, o'r lle y daeth allan; ac ſe wnae i chwi ymroi ac ymegnio'n hollol i ddilyn ſancteiddrwydd; gan fod yn rhaid i chwi gael eich dattod, *Pa rŷw fath ddynion a ddylech chwi fod, mewn ſanctaidd ymarweddiad a Duwioldeb*, 2 *Petr* 3. 11. Eithr os anghofiwch Angau, chwi wnewch waith erchyll, ſef, eich cyfrifon yn fwy, ac Uffern yn boethach; chwi 'chwanegwch eich pechodau, a Duw a bentyrra ddigofaint ertyn dŷdd digofaint. Ac os dengys Duw bŷth drugaredd, ſe fydd drud i chwi, ſe fydd yn rhaid i'ch Eneidiau alaru,

alaru, fe fydd yn rhaid i'ch Calonnau dorri a gwaedu am bechod; canys onid edifar hewch, fe'ch difethir yn ddiai, *Luc.* 13. 5.

2. A fynnech chwi alw'ch Calonnau ymaith yn fuan oddiwrth y Bŷd, a thryſſori tryſſor yn y Nef, Coſiwch eich diwedd. Yſtyriwch yn oeſtad yn yr amledd mwyaf o lwyddiant bydol, y bydd yn rhaid i chwi farw.

Oh fydol-ddynion truein! y rhai ydych yn gwneuthur Aur yn obaith i chwi, y fawl ydych a'ch brŷd a'ch bwriad ar y Ddaiar: Pe bae marwolaeth a thragywyddoldeb yn fynychach yn eich meddyliau, chwi ollyngech i fyned y peth hwnnw yn eich anwydau, a'r na ellwch ei gadw yn eich meddiant, ac a garech ychydig ar yr hyn a gollir, ac na ellwch garu mo honaw yn hîr; Golud a gymmer adenydd, ac a eheda ymaith, *Dihar.* 23. 5. Yſtyriwch cyn lleied lles a wna pethau 'r Bŷd yma i chwi yn y dŷdd drŵg: ni ddichon eich Aur a'ch Arian gadw mo honoch rhag clefydion tra fyddoch byw, na rhag Uffern wedi i chwi feirw, *Pſal.* 49. 6, 7.

Y mae'n digwydd i lawer o'r rhai ſy'n pentyrru pethau 'r bŷd hwn, mal y mae'n digwydd i Bynferch, yr hwn trwy'r dŷdd ſy'n dŵyn tryſſor mawr ar ei gêfn, eithr y nos a dynnir oddiarno, ac yntau a yrrir i'r Beudy budur. Felly y mae llawer o Fydol-

dol-ddynion goludog, y rhai fy'n eu blino eu hunain wrth ynnill a dwyn Trysfor bydol, pan ddel Angau, fe a'i cymmerir oddiarnynt, a hwyntau am ei gam-ynnill: neu ei gam-arfer, a yrrir i wared i Uffern: Y Gwr goludog a fu farw, ac yn Uffern efe a gododd ei olwg.

Ac os mynnwch farwhau eich Calonnau i'r Ddaiar wag hon, ac edrych am drysfor uchod, a dedwyddwch y tu hwnt i'r Bedd, a bery cyhŷd agy paro eich Eneidiau, meddyliwch yn fynych am farwolaeth, canys hyn a wna i chwi roi heibio 'ch gofalon a'ch trallodion bydol.

Cofiwch na all bod dim llawer o amser o'r dŷdd heddyw hŷd eich dŷdd diweddaf, nid yw eich taith neu'ch hynt ond ber, ac ychydig arlwy fy ddigon, nid tlodi na chyfoeth, ond digonedd o fara, yw dymuniad a dewis un o ddinasyddion *Sion*. Meddyliwch fwy am Angau, ac edrychwch yn fynych ar Dragywyddoldeb, ac chwi ellwch glywed (mal pe bai) lleferydd yn dywedyd wrthych, fel y dywedodd Duw wrth *Baruch*, Jer. 45. 4, 5. *Myfi a ddeſtrywiaf ac a ddiwreiddiaf; ac a geiſi di fawredd? Na chais*, Angau yw'r gwastadhawr mawr a wna'r cwbl yn wastad, a chwi y fawl ydych yn cofleidio'r Byd yn fwyaf awyddus, a'i cewch

ef

ef yn wagedd; canys gwagedd yw'r cwbl, yw iaith profiad, *Preg.* 1. 2. 1 *Joan* 2. 17.

Pan aeth *Samuel* i enneinio *Saul*, efe a'i dygodd neu a'i cyfarwyddodd ef at Fedd *Rachel*, ac ir diben hyn (fel yr ydys yn tybied) ſef, i attal neu ragflaenu y meddyliau uchel a beilchion, a allent godi ynddo ef oddïwrth uwchder y Sŵydd newydd a'r rhagorfraint fawr honno. Ac os gwîr yw'r Dŷb, y mae mal pe dywedaſai efe fel hyn, *Saul*, Duw a'th anrhydeddodd di yn fawr, a minnau a'th enneiniais yn Frenin; ond cofia, mai yma mae llŵch *Rachel* dêg honno'n gorwedd; ac er dy fod ti yn awr yn Frenin yn *Iſrael*, etto ſe fydd yn rhaid i ti fôd fel *Rachel*, ſef, wedi dy oſod mewn Bêdd, meddwl a myr hwn ſy Fyfyrdod dra marweiddiol. Chwy-chwi y ſawl ſydd gennych ddŵfr Phiol lawn, ydych yn ymdroi mewn golud, ac yn nofio mewn gogoniant bydol, i'ch diddyfnu oddïwrth y Bŷd (fel na bo'ch calonnau wedi eu troi'n bridd a'u claddu cyn y cladder chwi) cedwch Angau a Thragywyddoldeb yn newydd yn eich meddyliau, *Job* 14. 14.

3. A fynnech chwi fod yn ddyfn-deimladwy o gyflwr triſt a galarus yr Anffyddloniaid pan ddelont i farw? Meddyliwch yn brûdd am eich diwedd. Bêth a wnewch chwi yn awr caledi, pan alwo Duw am eich

Anadl,

Anadl, newid eich wynebpryd, a gofyn eich eneidiau, os ni wnaethoch ddim parottoad erbyn Angau a Barn.

Oh druein! Mi dosturiwn wrthych a'm hôll galon, wrth feddwl mor anwybodus ydych am y pethau a berthynant fwyaf i chwi; yr ydych yn bwytta, yn yfed, cyn cysgu, yn prynnu, yn gwerthu ac yn ynnill elw, eithr yn dibrisio eich eneidiau, ac yn peidio ystyried am y dydd drwg.

Gwae yr unig, yr unig mewn bywyd, a'r unig mewn Angau, nad oes ganddo un Crist yn gyfaill iddo, neu i sefyll gyd ag ef yn y dydd galarus hwnnw, sy'n myned i orwedd ar ei Wely-angau heb heddwch a maddeuant, yr hwn a a i'r Bedd, ac a saif o flaen y Frawdle heb Ddadleuwr i ddadleu trosto.

Y mae'n debyg iawn y bydd gennych amryw dyb am danoch eich hunain ac eraill ar awr eich marwolaeth, canys pa nesaf fo'r Gwrthddrych egluraf fydd yr Olwg; O bechaduriaid! Pan ddechreuo drws tragywyddoldeb agor, (fel y mae'n arfer gwneuthur i rai a fo'n marw) fe fydd gennych feddyliau eraill am danoch eich hunain a dynion eraill. Yma yr ydych yn eich dangos eich hunain allan yn weision gwychion, gan dybed eich bôd yn uwch, ac yn well nag eraill; onid hon yw *Babylon* fawr,

fawr, ebe'r Brenin balch hwnnw wrth rodio yn ei Frenhin-llŷs; ond pan ymddangoſo Angau gwelwlas, ſe dyn i lawr blu'r Paunod hynny, ac a dyr eu cribau. Y mae'r Bŷd yn awr yn diſgleirio ac yn ſerennu yn eich llygaid, a hynny ſy'n peri i chwi farnu a thybied, na all dim ond Golud, Anrhydedd a Mawrder eich gwneuthur yn ddedwydd; y prŷd hynny yr ymddengys (wedi tynnu'r llîw) yn beth gwag a diddim. Eithr am y pur o galon, y rhai ſy'n galaru am bechod, ac yn meddwl mwy am eu heneidiau nag am y Bŷd, a watwerir, a wawdir ac a gaſſeïr yn awr gan edrych arnynt megis torf o ynfydion tlodion, prûdd, lleſg a phenyſgafn, ſe fernir y prŷd hynny mai hwy, yw'r dynion goreu, doethaf a dedwyddaf ar y Ddaiar. Yn awr yr ydys yn eſguſodi pechod, ac yn ei alw e'n beth yſgafn a bychan, neu chwarae ieuengctid; Ond ſe fydd ganddo'r pryd hynny wyneb du ac ofnadwy, ac a fydd yn drymmach na phlwm, ac yn chwerwach nag Angau ei hun.

Yn awr y damnedig a'r annuwolion melldigedig yw eich Cymdeithion godidog, a 'ch Cyfeillion mynweſol, ond pan ddeloch i riddfan wrth farw mewn chwŷs oerllyd, chwi a ddywedwch ymaith a hwynt, y mae'r olwg arnynt yn erchyll. Eithr gwybyddwch

byddwch y bydd yn rhaid i chwi y rhai a fuoch yn Gymdeithion mewn pechod, fod yn Gymdeithion mewn dioddefaint, a gorwedd i lawr ynghŷd mewn cadwynau a than tragywyddol: Chwi a gewch eich llyffetheirio a'ch rhwymo ynghŷd, a bôd heb ymadel a'ch gilydd bŷth mwy yn oes oeſoedd.

Yn awr ychydig yr ydys yn priſio hawl yng Hriſt, a buchedd ſanctaidd, ac yn dewis pôb trachwant gwael a ffiloreg: y pryd hynny y Bŷd, y Bŷd am Ghriſt. Deugain mîl o bunnau am Gydwybod dda, a waeddodd Bydol ddyn cyfoethog annuwiol, pan oedd e'n marw, ac yn myned i Dragywyddoldeb.

4. A fynnech chwi edifarhau yn fuan profi eich cyflwr, a gwneuthur pob peth yn barod erbyn y Bŷd arall? Meddyliwch am y Gelyn diweddaf hwn, Brenin Dychrynniadau, yr hwn cyn y bo hîr a derfyna eich dyddiau, ac yna fe fydd eich holl amſer cyſaddas wedi myned tros fŷth.

Pe gwnai meddyliau am farwolaeth, ac yn enwedig yr ail farwolaeth ond gweithio ar eich Calonnau, a thyllu 'ch Cydwybodau fe fyddai'n hawdd eich perſwadio i fwrw ymaith eich pechodau; ſef, i dorri ymaith law ddehau, neu i dynnu allan lygad dehau, ac i rwygo eich calonnau, i eiſtedd

eich

eich hunain, i alaru yn y dirgel, i gyſtuddio eich Eneidiau, ac i roi eich genau yn y llŵch, i edrych a oes obaith, *Galar.* 3. 28, 29. Ni a welwn am ddynion mewn taith, os tybiant fod ganddynt ddigon o ddŷdd, y maent yn ddïofal ac yn graff ddigon, ond os gweiant nad oes ond ychydig amſer, hwy bryſurant. Os bydd yn rhaid i ŵr wneuthur gwaith diwrnod cyfan mewn hanner diwrnod, fe fryſia: Nid gwaith diwrnod yw Edifeirwch, er mai gwaith beunyddiol ydyw, y mae ein holl fywyd yn ddigon bach i'w orphen a'i berffeithio. Mae'n rhaid i ni alaru, cy hŷd ag y byddom yn pechu; mae'n rhaid i ni gyfaddef ein bod yn euog, cy hŷd ag y byddom yn digio 'r Barnwr, ac erfyn am faddeuant a rhaſſau, am ein gyddfau, a churo ein dwyfronnau, ac wylo (pe gallem) y dagrau gwaed. A phethau mawrion Marwolaeth a Barn a'ch parottoant ac a'ch dyſgant i wneuthur hynny'n ebrwydd; canys pan el y dŷdd heibio, fe ddaw y nos, a phan gauo'r llèdd ac Uffern eu ſafnau arnoch, beth a ellir wneuthur, *Preg.* 9. 10.

5. A fynnech chwi weddio yn wreſoccach, ac yn fynychach nag y gwnaethoch erioed etto? Cofiwch y bydd yn rhaid i chwi farw.

Coffad-

Coffadwriaethau a delwau'r meirw (ſe
y mae un yn ſylwi) ydys yn gwneuthur
mewn agwedd gweddïo, ſef ar eu gliniau,
ac a dwylo wedi eu derchafu tu-a'r Neſoedd,
mal pe bae eu Coffadwriaeth (yn awr wedi
eu marw) i ddyſgu i ni ein dyledſwydd,
beth ſy raid i ni ei wneuthur tra ydym yn
yn fyw. Ni roddes un oedd yn arfer gweddïo yn fynych yn y dŷdd, pan ofynnwyd
iddopa ham yr oedd efe'n treulio cymmaint
o amſer mewn Gweddi, un atteb arall oedd
hwn, *mae'n rhaid i mi farw, mae'n rhaid i
mi farw.* Meddwl deffrous am fynediad
dŷn i gyflwr diddiwedd, a ſefyll ar frŷs gerbron y Duw ſanctaidd, a wna iddo weddïo,
a hynny'n daer. Os bydd yn y Teulu, Wr,
Gwraig, neu Blentyn ym mron marw, fe
fydd pawb gan mwyaf a ddelo, ynghylch y
gwely yn codi eu dwylo, ac yn gweddïo,
ac yna hwy a waeddant, anfonwch yn fuan
am ryw Weinidog ſobr difrifol, neu ryw
Griſtion dïogel, gweddi felus-ber, i or-
chymmyn ei gyflwr trîſt i Dduw. Y Gwir
ieuangc a ddioddefodd yn ddiweddar am
Lofruddiaeth, yr hwn a ddaeth i'r *Porth-
Newydd* mor anwybodol am Dduw, a'r
March neu'r Mûl; ac mor anneallus am ei
Fnaid, a'r cyff neu'r garreg, a ddygwyd
trwy ddyfodiad a dyneſſad Gweinidogion
atto, i gydnabod ei gyflwr dïobaith, a thrwy

Rad

Rad a bendith Dduw ar y moddion a ordeiniwyd, efe ymddanghoſodd mor ddyfndeimladwy o berygl ofnadwy ei Enaid gwerthfawr, a darfod iddo trwy gymmaint driſtwch calon gyfaddef ei bechodau, weddio, a dadle' a Duw yng Hrift am faddeuant, hŷd oni ddaeſu i'r Gweinidogion a'r Criſtianogion oedd yno'n breſenol ſynnu a rhyfeddu. A phan ofynwyd iddo pa fynyched yr oedd efe'n gweddio, fe attebodd, mai pum waith neu chwech yn y dŷdd; a hynny trwy'r cyfryw dynerwch a lliaws o ddagrau, ag a gyffrodd hŷd yn oed ymyſgaroedd y Gwrandawyr, ac (fel y dywedaſant) a'u trodd yn ddagrau. Fel hyn y gwelwch y môdd y gall nerthol argyhoeddiad marwolaeth a barn weithio ar y galon, i beri i rai lefain ar Dduw, na weddiaſant er ioed o'r blaen. Am danoch chwi y rhai a ellwch orwedd y nos a chodi'r boreu, a myned ynghylch y Bŷd hêb weddio yn neilltuol neu yn y teulu: Mae'n rhaid i mi ddywedyd wrthych nad oes gennych ond meddyliau yſgafn, od oes dim, am farwolaeth a thragywyddoldeb, na dim yſtyr, na phris am eich cyflwr tragywyddol, yr hyn ſydd arwydd triſt o gyflwr heb Ghriſt.

6. A fynnech chwi wneuthur daioni i eraill, i'w Cyrph ac i'w Heneidiau, yſtyriwch y bydd yn rhaid i chwi farw, ac y byddwch

byddwch ar ôl marwolaeth yn llŵyr anabl i wneuthur dim. Y mae'r Gŵr doeth gan lefaru am amſer gwneuthur pethau, a chyſnewidiadau Bywyd Dŷn, ſef, ſod amſer i eni, ac amſer i farw: Ac y mae efe (meddafi) wedi dal ſylw ar ddiweddiadau a newidiadau Rhagluniaeth a wnaeth bob pêth yn deg yn ei amſer, yn barnu mai goreu yw i ddŷn wneuthur daioni yn ei fywyd, *Preg.* 3. 12. *Am hynny tra ydym yn cael amſer cyfaddas* (medd yr Apoſtol) *gwnawn dda i bawb*, Gal. 6. 10. *Pan fyddo ar dy law ei wneuthur*, *Dihar.* 3. 27. Garedigion, gwîr feddyliau am angau a ddyſgant i chwi roi rhan i faith, a hefyd i ŵyth, a hynny mewn amſer; canys pan ddêl angau, ſe fydd y cwbl wedi myned, y pryd hynny ni fydd mwy ar dy law ei wneuthur.

Pe baech chwi yn awr yn yſtyried ac yn coelio fod yn rhaid i chwi farw, a rhoi cyfrif i Dduw, Arglwydd mawr a Rhoddwr eich holl bethau daionus (gan y bydd cyfrif mawr i'w roi, lle y derbyniwyd llawer) ni chaledech eich calonnau, ac ni chauech eich ymyſgaroedd yn erbyn yr amryw wrthddrychau truain hynny, ydynt mor fynych yn eich golwg, ac yn Nryſau eich Tai.

Yn awr fel y byddoch fel Defaid, ac nid fel Moch, byddwch dda yn eich bywyd, a chyfranner

chyfrannereich gweithredoedd o drugaredd y Boreu, yr amſer cymhwyſaf i hau'r had hŵn: Am hynny tyn allan yn fuan dy enaid i'r newynog, cyn y gwnelo angau yſgar rhwng dy Enaid a'th Gorph: Canys a chyfryw ebyrth y rhyngir bodd Duw. *Eſay* 58. 10. *Heb.* 13. 16.

7. A fynnech chwi gael a chadw purdeb, (Perl gwerthfawr yn wîr) meddyliwch yn fynych am Farwolaeth a Barn. Y prŷd hynny y profer ef, y prŷd hynny y gwna lês i chwi. Purdeb (perffeithrwydd yr Yſgrythyr) yw'r pêth goraf ag ſy gan Griſtion, Gras pob Gras; canys Ffŷdd ddiffuant a Chariad mewn purdeb, yw gwir ïau a gwthi Criſtianogrwydd.

Y pêth goreu neſaf at werth-fawr waed a chyfiawnder ein Prynwr gogoneddus (i ddadleu troſom yn awr Angau ac yn Llys y Nefoedd) yw gwirionedd oddimewn, *Pſal.* 51. 6. *Eſay.* 38. 3. Bod yn alarwr yn *Sion*, ſydd achos o gyſſur a gwîr ddiddanwch; eithr bod yn bechadur yn *Sion*, ſydd driſt, ac a fydd achos o boen. *Judas* ym myſg yr Apoſtolion, Diafol ym mantell *Samuel*, yw Diafol yn wîr. Pechaduriaid a ofnant yn *Sion*, a digon o achos ſydd iddynt; canys y peth mwyaf ofnadwy yw byw a marw mewn rhagrith, o waith y dŵg rhagrith chwi'n ddïammeu i wared i Uffern;

ïe y lle twymnaf yn y tan yſſol hwnnw, a'r lloſgfeydd tragywyddol fydd rhan y Khagrithwŷr, *Eſay* 33. 14. *Matth.* 24. 51.

8. Yn olaſ, A fynnech chwi brynnu'ch amſer, a bod yn awyddus i ynnill Gras yn nŷdd Gras, er lechydwriaeth breſennol, yſprydol a thragywyddol i'ch Eneidiau; meddyliwch o ddifrif am eich diwedd.

Chwi bobl gyſgadur a diofal! pe baech yn yſtyried y daw nos marwolaeth yn ſicer, ac y gall hi ddyfod yn ddiſymmwth, chwi a weithiech tra yw yn ddŷdd, ac a beidiech a bod mor ynfyd a rhoi heibio waith credu, edifarhau a chyſtuddio 'ch eneidiau, waith hunan-ymholi a phrofi, hŷd ddŷdd henaint a chlaf-wely, neu nes tarawo gwewyr marwolaeth arnoch. Yſtyriwch, mai anfynych yr ydys yn cael edifeirwch gwely-angau, ac anfynych y mae yn dda, neu anfynych y mae edifeirwch claf-wely yn iachus, ond yn fynych yn edifeirwch claf. Yn awr os mynnwch ddilyn eich Arglwydd, a gweithio tra ydyw yn ddŷdd, cofiwch fod yn rhaid i chwi farw, *Joan* 9. 4.

Hyfforddiadau a Chynnorthwyon i yſtyried eich diwedd.

Hyfforddiad 1. *Chwiliwch yn ddyfal am gael allan bêth ſy'n eich cadw chwi a meddy-*

liau

liau difrifol am angau a thragywyddoldeb, cyn belled oddiwrth eu gilydd, a llefwch yn daer ar Dduw, am ei ſymmud ymaith yn ebrwydd: Os naill ai Anwyhodaeth, Diddu-wiaeth, Angrhediniaeth, Cnawdolrwydd, Meddwl-daiarol, neu Ddïofalwch ydyw, byddwch yn ddyfn-deimladwy o honaw, a goſodwch Weddi i weithio, tywelltwch hŷd yn oed eich eneidiau ger bron Duw yn wreſoccaf ac yn daeraf a galloch. Dywedwch fel y dywedodd *Moſes, Pwy a edwyn nerth dy ſorriant? Canys fel y mae dy ofn, y mae dy ddigter. Dyſg i ni felly gyfrif ein dyddiau, fel y dygom ein calon i ddoethineb*, Pſal. 90. 11, 12. Garedigion, Doethineb yſprydol a bair i chwi yſtyried, yna *gwaedda ar ôl gwybodaeth, a chyfod dy leſ am ddeall; cais hi fel arian, chwilia am dani fel am dryſſorau cuddiedig, Dihar.* 2. 3, 4. *Canys dy fywyd ti yw hi, Dihar* 4. 13. Hi a dal cymmaint ag a dalo'th Fywyd a'th Enaid. Yna dos i'th Yſtafell, a chwymp ar dy liniau, a gweddia ar Dduw yn Enw Criſt, am ddoethineb yſprydol; Mae'n rhaid i ni ei cheiſio hi, *Ezec.* 36. 37. A Duw a'i rhŷdd hi, *Iago* 1. 5. Erfyniwch yn daerach nag am eich bywyd, am galon wîr-ddoeth a deffrous, heb yr hon yr eſgeuluſir y pethau mawrion a berthynant i Dduw, a'ch eneidiau anfarwol yn dragywydd.

Hyfforddiad 2. Arferwch a gwnewch y goreu yn ddiwyd ac yn ffyddlon o'r moddion mwyaf deffrous ag ſy'n perthyn i hyn.

1. *Goſodwch eich hunain tan Weinidogaeth nerthol a ffyddlon, a fo'n chwilio 'ch Eneidiau, y rhai ſy'n gwneud yn ben gorchwyl iddynt droi eneidiau dynion at Dduw.*

Nid yw Gweinidog llwfr diog yn debyg i ddeffroi pechadur diofal, nid argyoeddi a throi Eneidiau at Dduw yw'r nod y mae'n annelu atto. Bwriedwch wrando, caru, ffafrio a chalonni y rhai hynny ſy'n ymaflyd fwyaf a'r Gydwybod, ac yn ceiſio'n daer dynnu a gyrru Eneidiau at Ieſu Griſt, trwy oſod y Fendith a'r Felldith, Bywyd ac Angau o'u blaen. Cerydd ſy'n arwain y ffordd i Droedigaeth, fel y mae'r Nodwydd yn arwain yr Edau; Beth a dal Plaſter lle nid oes archoll? Yr Eſgyrn briwedig ſy'n gwaeddi am gymmorth, nid rhaid i'r Jach wrth Feddyg: Pregethiad cyffredin ar hŷd yr wyneb ſydd fel y Cleddyf yn y Wain, nad yw yn tyllu nac yn gweithio; Eithr Pregethiad eglur, neilltuol a cheryddol (fel Pregeth *Nathan* wrth *Ddafydd*, neu Bregeth *Petr* wrth y *Juddewon*, 2 *Sam.* 12. 7. *Act.* 2. 37.) ſydd fel y Cleddyf yn yr Ymyſgaroedd, neu Phyſygwriaeth yn y Corph, a ddoluria hŷd adref. Y mae'r Pregethwŷr hynny nad oes ganddynt ddim grym i geryddu ac argyhoeddi

argyhoeddi pechaduriaid diofal cyſgadur, yn gyffelyb i haid o Wenyn ormeſol wedi colli eu Colynnau, na wneir dim a hwy. Eithr y rhai ſy a gofal cynnifer o Gnufiau euraid arnynt, a ddylent wahanu'r Gwenith oddiwrth yr Us, y Defaid oddiwrth y Geifr, y Gwerthfawr oddiwrth y Gwael, a thrwy wneud felly ni a fyddwn fel genau Duw, ac yn rhŷdd oddiwrth Waed pob Dŷn.

Am hynny ynteu pregether yr Athrawiaeth ofnadwy a ſyn hon am Farwolaeth a Barn yn fynychach ac yn effeithiolach, fel y gallo eneidiau ſy mewn perygl, ymron trengu, ganfod eu pechodau a'u henbydrwydd, a ffoi at Griſt megis yr unig noddfa; *A ni yn gwybod ofn yr Arglwydd, yr ydym yn perſwadio dynion*, 2 Cor. 5 11. Matth. 3. 7.

2. *Ymddiddenwch a'r Criſtianogion goreu*, ſef, a'r rhai ſy bwyllog, ſobr, ſiccr, diogel ac iach yn y Ffŷdd: Y cyfryw rai ag ſy'n gwneuthur Crefydd yn bennaf gorchwyl iddynt, y rhai ſy'n dda ganddynt ſon am Dduw a'r Bŷd a ddaw, a thrwy Gyngor a Siampel y rhai, y gellir eich cyffroi a'ch perſwadio i Édifeirwch a Sancteiddrwydd, i yſtyried am Angau a Barn. Y rhai hyn oedd rhai rhagorawl *Dafydd*, yn y rhai yr oedd ei holl hyfrydwch, ac fe a'u gwnaeth yn Gyfeillion iddo, *Pſal.* 16. 3. a'r 119. 24.

3. Darllenwch y Llyfrau goreu, a'r rheini a'r ſy'n crybwyll am Farwolaeth a Barn, ond yn enwedig, Gair Duw. Yno y mae Afonydd pur o Griſial, a'r Mwyngloddiau cyfoethoccaf: Yn y Maes hwn y cewch chwi'r Perl. *Preſſwylied Gair Criſt ynoch yn helaeth*, *Col.* 3 16. Na fyddwch anwybodol mewn un rhan o honaw, eithr byddwch ſicer o fod yn gyfarwydd yn yr Yſgrythyrau hynny ſy'n ſon am fyrder Bywyd dŷn, ſiccrwydd Marwolaeth a Barn, Nef ac Uffern. Darllenwch Lyfr *Job*, a'r ddeuddegfed bennod o Lyfr y *Pregethwr*, *Pſal.* 39. *Pſalm* 90. A gadewch i mi ddeiſyf arnoch fod yn fynych yn goſod at eich Galonnau rai o'r Sgrythyrau hynny ar y ſy'n goſod allan echryſlondeb y lle poenus hwnnw, a fydd rhan yr holl rai ſy'n anghofio Duw, ac yn peidio gwneud rhagymbarottoad tros eu heneidiau gwerthfawr. Yr ychydig rai hyn a oſodais i lawr yma, a ddymunwn i chwi oll eu hyſtyried a'u deall. *Ar yr annuwolion y glawia efe faglau, tan a Brwmſtan, a phoeth-wynt yſtormus: dyma ran eu Phiol hwynt*, Pſal 11. 6. *Gwae yr anwir, drwg fydd idda*, Eſay 3. 11. Duw a fwrr *yr annuwolion i'r ffwrn dan; yno y bydd wyloſain a rhincian Dannedd*, Matth. 13. 42. Eſay 33. 14. a'r 66. 15. Matth. 25. 41. Luc 16. 25, 26. 2 *Theſ.* 1. 8, 9. *Datc.* 6. 8, 14, 15.

Hyfforddiad

Hyfforddiad 3. Gwnewch gydwybod o neilltuo ychydig o amſer beunydd o wîr fwriad i feddwl am eich diwedd. Gwnewch hynny mor fynych, nes bo angeu a chwi wedi ymgynefino, geſodwch eich hunain mewn agwedd i farw; meddyliwch am eich Amdo, eich Yſgrin a'ch Bêdd; by'd eich newidiad mawr felly ar eich Calonnau, fel y galloch bôb Boreu a Phrydnawn rodio tro neu ddau gŷd-a'r Angau: Cofiwch pa fodd bynnag y mae arnoch yn awr, y bydd yn rhaid i chwi cyn y bo hîr fod yn trengu ac yn griddfan gan diffyg anadl ar eich Gwelau-angau, ac yn ymaflyd a Brenin Dychryniadau, ac mewn moment ddiſgyn i'r Bêdd, ac ni ddeuwch i fynu mwyach, *Job* 21. 13 a'r Ben. 7. 9.

Os mynnwch gyffroi eich calonnau â meddyliau am eich diwedd, ewch i wared i *Golgotha*, a meddyliwch am yr eſgyrn ſychion a'r curph pydrion hynny, ac yno adfywiwch goffadwriaeth eich Ceraint, eich Gwŷr, eich Gwragedd, eich Plant, eich Cyfeillion a'ch Cymmydogion ſy wedi meirw, ac edrychwch y tu hwnt i Stafelloedd y Bêdd, meddyliwch am yr eneidiau truain hynny a ymadawſant a'r Bŷd, ymwelwch a Charcharorion y Pŵll. Myfyriwch ar y fflammau tan llidiog cynddeiriog hynny, y tywyllwch du hwnnw, mŵg a

drygſawyr y Pydew diwaelod, oer-nadau'r damnedig, a rhuad y Cuthreuliaid, yr achwynion a'r tor-calon am ddwfr i oeri eu Tafodau poethion. A pan fyddoch yn meddwl am y miloedd hynny o eneidiau ſy' nghrôg yn Uffern, edrychwch attoch eich hunain, a diſgwiliwch i'ch tro chwithau ddyfod yn fuan. Tybiwch bob dŷdd, mai hwnnw yw'r diweddaf i chwi, bob prŷd bwyd mai hwnnw yw'r diweddaf i chwi, bob taith mai honno yw'r ddiweddaf i chwi, bob dyledſwydd, Saerament a Phregeth, mai y rhei'ni yw y rhai diweddaf i chwi. A phan ddelo dŷdd yr Arglwydd, meddyliwch wrthych eich hunain, hon yw'r Farchnad yſprydol ddiweddaf a gawn ni i brynnu Olew yſprydol Gras, ac i barottoi erbyn dyfodiad y Priodfab: Pan ddarfyddo'r dŷdd hwn, fe allai na chawn ni bŷth mwy glywed yr Arglwydd Ieſu yn llefaru wrthym trwy enau ei Weinidogion ffyddlon, bŷth ein gwahawdd i ddyfod at Griſt, neu i gredu, edifarhau, ymadael a phechod a derbyn maddeuant mwy; ac felly ymddygwch eich hunain bob dŷdd, ac ym mhob dyledſwydd, fel pe baech i gael eich galw at Frawdle Duw, ac i roi'ch cyfrif i fynu'r nos. Yn eich holl feddyliau, geiriau a gweithredoedd, dywedwch wrthych eich hunain, a wnaem ni fel hyn ac fel hyn, ſef,

bwytta,

bwytta, yfed, cyſgu, ymddiddan, prynnu, gwerthu, pregethu, gwrando, gweddïo, neu waeth, pe gwyppem yn ſiccr mai heddyw fyddai'r dŷdd diweddaf i ni? O bydded y Cofair hwnnw, *Memento mori*; ſef, Cofia farw: yr hwn y mae rhai yn ddŵyn yn eu Modrwyau, yn argraffedig ar eich Calonnau chwi, gan mai'r pêth mawr ſy'n perthyn ich bucheddau ydyw. Dyma'r pêth a fu pobl Dduw, a rhai o'r Cenhedloedd hefyd yn ofalus i'w gofio. Brenin *Aſa* a wnaeth ei feddrod yn amſer ei fywyd, 2 *Chron.* 16. 14. A rhai a wnaethant eu Beddau yn eu Gerddi, a lleoedd diddanwch a hyfrydwch, megis *Joſeph* o *Arimathæa*, *Joan* 19. 41. Ac yr oedd rhai o'r Cenhedloedd yn arfer rhodio ym myſg y Beddau, i beri iddynt gofio angau; yr oedd rhai a'u Beddau bob amſer o flaen eu Pyrth, eraill a phenglogau dynion meirwon beunydd yn breſennol ar eu Byrddau; ac a ro'wn ni, y rhai ydym yn credu Athrawiaeth y Bŷd arall, heibio feddyliau difrifol am Angau? Mae *Salomon* yn ein cynghori i fyn'd i Dŷ Galar, gan ddywedyd wrthym mai gwell yw, o waith y byw a'i geſyd at ei galon. Pan glywoch y newydd am farwolaeth eich Cyfeillion, eich Ceraint neu'ch Cymmydogion, ewch yno, er nid yn gorphorol, etto'n fyfyrdodol, yn eich brŷd a'ch meddyliau,

ewch

ewch, a goſodwch eich hunain yn eu lle hwynt, a meddyliwch fel hyn; Gŵr neu Wraig fyw a aeth yn gelain farw, neu dywarchen oer, yr enaid a aeth i'w drigias dragywyddol; eithr i ba le, pa un ai i'w ddiddanu, ai i'w boeni, pwy a all ddywedyd? Os Gŵr duwiol oedd, efe a aeth yn ddïammeu i'r Nefoedd; Os ydych chwithau yn gyfryw rai, fe fydd eich Eneidiau ar fyr gŷd ag ef; Ond os gŵr annuwiol ydoedd, fe aeth yn ddiammeu i Uffern, ac y mae efe yn awr ym myſg y Cythreuliaid; ac os ydych chwithau yn gyfryw rai, chwi a fyddwch yno cyn y bo hîr hefyd. Gwîr yw na ddichon bod gan y meirw ddim meddyliau gŷd-a'r byw, ond y rhai byw a wyddant y byddant feirw, medd *Salomon Preg.* 9. 5. A chwi 'r ſawl ydych ieuainge, pan glywoch ſon am farwolaeth gŵr ieuange bywiog, heini, neu ferch ieuange deg hawddgar, ſefwch, meddyliwch ac yſtyriwch, oni ellwch chwithau fod fel hyn, chwi Wŷr, Gwragedd neu Blant, mewn ychydig iawn o amſer? Ni ddywedaf fi ddim yn rhagor mewn ffordd o hyfforddiad, yn unig mi ddymunaf arnoch ail olygu 'r pethau rhagddywededig, a chwi y rhai ydych Rieni a Phennau teuluoedd, y rhai 'ych yn gwneuthur Cydwybod o edrych at eneidiau y rhai a orchymynnwyd tan eich gofal,

gofal, a ellwch beri i'ch Plant a'ch Gwasanaeth-ddynion ddyſgu ar eu tafodau, y pethau yr wyf yn eu goſod i lawr yma.

1. *Fod yn dra diamai y bydd diwedd.*
2. *Yr a pob pêth a'r ſy'n y Byd hwn, ymaith oddiwrthych ar eich diwedd tros byth.*
3. *Holl ſwyniant pechod a ã ymaith, ac ni ad ddim ond colyn.*
4. *Yn unig yr hyn ſydd dragywyddol a wna i chwi leſſâd.*
5. *Yſtyriwch tu-ag at ba un o'r ddau Dragywyddoldeb yr ydych chwi yn myned.*
6. *Yr ydych chwi oll yn agos at eich annedd tragywyddol.*
7. *Ni wyddoch chwi mor ddiſymmwth neu mor ddirybudd y gall eich diwedd fod.*
8. *Fe ſydd eich eneidiau pan ddel angau, wedi eu ſefydlu fe ſydd eich tragywyddoldeb wedi ei fwrw.*
9. *Golwg ofnadwy a ſyn yw gweled Angrhedadyn heb Griſt yn anadlu allan ei anadl diweddaf.*

4. *Defnydd.* A all fod o gyſſur i bobl dlodion Dduw, y rhai, trwy ofn marwolaeth, ydynt holl ddyddiau eu bywyd mewn caethiwed. Na thralloder eich calonnau, nac ofnwch ac na chymmerwch fraw o achos

y

y Brenin Dychrynniadau hwn: eithr llawenhewch eich yſprydion, a diddenwch eich calonnau a hyn, ſef, na ddichon Angau er erchylled y mae i'r annuwolion, wneuthur i chwi ddim niwed. Gwell a fŷdd dŷdd eich marwolaeth na dŷdd eich genedigaeth, ac am hynny fe oſodir angau yn Infentori'r Credadyn, ac a gyfrifir ym myſg ei Ragorfreintiau ef, 1 *Cor.* 3. 22. Marwolaeth fydd elw i'r Duwiol, ſef, diwedd ar ei holl drueni preſennol, a dechreuad gogoniant diddiwedd. Y prŷd hynny y bŷdd yr Enaid gwîr edifeiriol, trallodus a lluddedig, wedi ei ryddhau yn berffaith o feddiant Satan, oddiwrth biccellau tanllyd a phrofedigaethau ofnadwy'r Fall. Y prŷd hynny y bŷdd yr hen Sarph tros fŷth tan eu traed. Y prŷd hynny y torrir ymaith gorph marwolaeth, a chyfanneddiad pechod oddifewn, y ffynnon naturiol honno o Lygredigaeth a ſychir i fynu yn berffaith. Ni achwynwch bŷth mwy rhag meddyliau ofer, neu galonnau celyd: Ni amheuwch bŷth mwy am wirionedd Gras, neu ffafor Duw: Y Credadyn a gaiff fod y prŷd hynny gŷd a Ieſu Grift, Dŷdd ei ddattodiad a fŷdd dŷdd ei Goroniad, efe gaiff y pryd hynny dderbyn y Goron, eiſtedd ar yr Orſeddfaingc, a myned i mewn i lawenydd ei Arglwydd,

yr

yr hyn yw digonolrwydd llawenydd a digrifwch yn dragywydd, *Pſal.* 16. 11.

Gwrthddadl. *Yr wyſi weithiau yn meddwl am Angau, ond y mae meddyliau am Angau a Barn yn ofnadwy iawn, mae arnaſi ofn nad wyſi ddim yn gymmwys i farw. Pa fodd y gwyddir hynny?*

Atteb Y mae cymmhwyſder greddfol erbyn marwolaeth, a chymmhwyſder gweithredol erbyn marwolaeth. Y mae pôb gŵr neu wraig berffaith-raſol yn y Bŷd, a'r ſy'n ofni Duw mewn gwirionedd, yn reddfol yn gymmwys i farw, wedi ei barottoi felly erbyn ei newidiad mawr, fel na ddichon colyn angau neu'r ail farwolaeth wneuthur iddo ddim niwed; wedi myned trwy'r porth cyfyng, a gadael y Gagendor, y mae efe allan o berygl. Cyn gynted ag y mae dŷn mewn cyflwr o Râs, wedi ei ail-eni, wedi ei wneuthur yn Greadur newydd, a chwedi ei uno trwy ffŷdd a'r Arglwydd, Ieſu Ghriſt; y mae Duw wedi cymmodi, ei berſon wedi ei gyfiawnhau, ei bechodau wedi eu maddeu, a'i ſgrifennu yn llŷs y Nefoedd, er na ddygwyd ei faddeuant i wared a'i ſgrifennu a'i ſelio yn llŷs ei Gydwybod ei hun. Mae'r enaid gwirddychweledig yn gyfaill anwyl i Dduw, ac a gaiff letteua yn ei fynwes ef, a bôd bŷth mwy hêb fod allan o'i ffafor ef: Gwîr

yw,

yw, ſe all y Nefoedd fod allan o olwg, ſe allai y ſorrai Duw weithiau, ond ni chondemnia efe byth. *Nid oes yn awr ddim damnedigaith i'r rhai ſy yng Hriſt Ieſu*, Rhuf. 8. 1. *O pecha nêb, y mae i ni eiriolwr gŷda'r Tâd, Ieſu Ghriſt y Cyfiawn*, 1 Joan 2. 1: *Pwy a rydd ddim yn erbyn Etholedigion Duw? Duw yw'r hwn ſydd yn cyfiawnhau, Criſt yw'r hwn a fu farw*, Rhuf. 8. 33, 34.

Cweſtiwn. *Pa bryd y mae'r Duwiol wedi ymbarodtoi yn weithredol erbyn marwolaeth?*

Atteb. Pan fo ei gyflwr yſprydol wedi ei ſefydlu yn dda, ſef, pan fo pob peth wedi ei wneuthur yn ddïogel rhwng Duw a'i Enaid ef yn neilltuol.

1. Pan fo dŷn yn gwybod yn dda ynddo ei hun iddo edifarhau yn bur, a thrwy lawer o ofid calon am yr holl bechodau a ŵyr efe iddo wneuthur cyn, neu wedi iddo ddychwelyd, felly fel nad oes dim euogrwydd hen na newydd yn aros arno ef. Y triſtwch duwiol hwn yw hyfrydwch y gŵr duwiol, y mae yn hoff ganddo hau mewn dagrau, y mae'n dda gan ei enaid ef amſer gwlybi hau, canys y rhai ſydd yn hau mewn dagrau a fedant gynhauaf o orfoledd, yr hwn a fydd amſer i orphywys o olwg yr

Ar-

Arglwydd; cyſtedlwch, *Pſal.* 126. 5, 6. ac *Act.* 3. 19.

2. Pan na bo pechod yn gymmaint baich a'i fod efe wedi blino ar y corph hwn o farwolaeth, ac yn fodlon i adael tynnu'r tŷ afiachus i lawr, fel y galler iachau 'r Gwahanglwyf, fel na bae iddo felly bechu neu droſſeddu bŷth mwy yn erbyn ei Dad. Meddyliau difrifol ac yſtyried am yr hyn ſy faich trwm iawn, ac achos o driſtwch a bair iddo ochneidio ac achwyn. Ninnau yn y babell hon ydym yn ochneidio yn llwythog: Ac Oh mor chwerw-doſt yr achwynodd St. *Paul. Rhuf.* 7. 24 *Yr truan o ddyn wyf fi, pwy am gwared i oddiwrth gorph y farwolaeth hon?* Fe fu mewn marwolaethau yn fynych er mŵyn ei Arglwydd anwyl, eithr y farwolaeth hon, y corph hwn o bechod a'i blinodd ef yn fwy na'r cwbl: Yr ydoedd yn gymmaint baich i *Ddaſydd* ſanctaidd, ag y clywodd efe ef hyd yn oed yn ei eſgyrn, *Pſal.* 38. 3.

3. Y mae'r Duwiol yn gymmwys i farw, pan fo gwaith gras wedi ei berffeithio, a gwaith ei genhedliad wedi ei orphen. Pan fo gan yr enaid credadwy ei leſtr yn llawn o Olew, a'r Wiſg-brïodas o gyfiawnder gogoneddus Criſt am danaw, y prŷd hyn-

ny

ny y bŷdd efe'n lleſtr i barch, wedi ei ragbarottoi i Ogoniant, *Rhuf.* 9. 23. wedi ei weithio i hyn yma, 2 *Cor.* 5. 5. A chwedi ei wneuthur yn gymmwys i gael rhan o etifeddiaeth y Sainct yn y goleuni, *Col.* 1. 12. Y Llong ſy wedi ei llwytho a'i llenwi ſy'n gymmwys i fyn'd i'r Mor, ac i hwylio oddiyma, neu i'w Phorthladd dymunol. Y mae'r gweithiwr yn gymmwys i dderbyn ei gyflog wedi iddo orphen ei waith. Felly wedi i'r enaid a anwyd er mwyn y Nefoedd waſanaethu ei genhedlaeth yn ffyddlon, a gwneuthur y gwaith yn ei le, ei alwad a'i berthynaſau, er mwyn yr hwn yr anfonodd Duw ef, ac yr ymddiriedodd iddo, (er bod y rhai goreu yn fyr, gan eu bod mewn rhai graddau yn weiſion anfuddiol) y prŷd hynny y bŷdd efe yn gymmwys i roeſawi Angau, er mai Brenin Dychrynniadau i'r cnawd ydyw. Pan gallo'r Duwiol yn fyw neu wrth farw appêlio at Dduw chwiliwr y calonnau, fel y gwnaeth *Hezeciah*, *Eſay* 38. A dywedyd, *Mi a gwpltheais y gwaith a roddaiſt i mi i'w wneuthur*, Joan 17. 4. *Mi a orphennais fy ngyrfa, a rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi*, 2 *Tim.* 4 8. Hyn a'i gwna ef yn gymmwys ac yn ewyllyſgar i ymadael, i fod gyd-a Chriſt.

4. Pan fo pechod wedi ei faddeu, a'r maddeuant

maddeuant wedi ei ſelio, hynny yw, pan fo ſwn uchel euogrwydd pechod yn y Gydwybod wedi ei dawelu a'i ddiſtewi trwy waed y tanellaid, a'i eglurder am y Nêf yn danbiad ac yn eglur, yn gymmaint na bod ei Wlad oreu mewn golwg iddo, a phorth Gogoniant yn agored yn ehang, ſef, mynediad helaeth i mewn i dragywyddol Deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Ieſu Ghriſt, 2 *Petr* 1. 11. Yr oedd gan *Lot* feddwl i yſtyn ei amſer yn *Sodoma*, Dinas dêg oedd hi, ac ni wyddai efe'n dda i ba le yr ae pan adawai efe hi. Ond pan fo'r enaid graſol yn ſicr o gael gwêll cyflwr, gwêll bywyd, yr hwn ſy'n guddiedig gŷda Chriſt yn Nuw, fel y gallo ddywedyd, fel y dywedodd gwr Duwiol enwog gynt wrth farw, *Ni wnaf fi ond newid fy lle, ni newidiaſi ddim o ngbyfeillion.* Fe all y prŷd hynny (gan ei fod wedi ei ſelio hŷd ddŷdd prynedigaeth) hiraethu am ei ddattodiad.

5. Pan fo'r galon wedi ei diddyfnu oddiwrth, ac wedi blino ar y Bŷd drygionus hwn, a chwedi ei enynnu felly gan gariad Criſt, fel na allo hi fyw hebddo ef, neu fod wedi ei diddyfnu oddiwrtho: Wedi proſt grawn-wîn *Eſcol*, fe fydd yn rhaid iddi fyn'd i *Ganaan* i wel'd y Wlad dda, y My-

wydd hyfryd hwnnw. Blaen golwg neu ragbrofiad o felysder, tegwch, a gogoniant yr Arglwydd Iesu, a wna chwant mawr o blys am fod gŷd-ag ef. Yr awr-hon, Arglwydd, gollwng dy was mewn tangnefedd, canys fy llygaid a welsant dy Iechydwriaeth, *Luc* 2. 29, 30. Canys am hynny yr ydym yn ochneidio. Ac oh mor hyderus, llonydd a chyssurol y gall y cyfryw enaid groesaso meddyliau am farwolaeth, a edifarhaodd yn ddiffuant am bob pechod, a'r hwn y mae pechod yn faych mor drwm ag y chwennychai farw er mwyn cael myn'd yn rhydd oddiwrtho. Ac enaid yr hwn sy wedi ei lenwi a'i lwytho a Gras, ac yn ficer o Ogoniant, a'i galon wedi ei hanfon megis Cennad o'i flaen ef i'r Nefoedd. Ac yn ddiamheu difrifol a dwys-ystyried ein cyflwr tragywyddol a'n hannogau ni i gyrchu yn daer at hyn.

I gloi'r cwbl i fynu, gadewch i mi ofyni chwi yngwydd Barnwr Mawr y Byw a'r Marw (ger bron gorseddfainge ofnadwy'r hwn y bydd yn rhaid i chwi oll sefyll ar fyr) yr ymofynnion hyn sy'n canlyn.

Ymofynniad 1.

Yn gyntaf, Pa un ai ymbarodtoad amserol

rol rhyn Marwolaeth a Barn, ſef, pa fodd y dieng wch rhag Uffern, a dyfod yn ddiogel i'r Nefoedd, ydyw'r gorchwyl angenrheidiaf a mwyaf ei bwys ſy gennych yn yr holl Fŷd? Barned ac arteſted eich Cydwybodau.

Ymofyniad 2.

Onid yw'r rhai hynny mewn cyflwr dedwydd iawn, a'r ſy'n credu, edifarhau a dychwelyd at Dduw a'u holl galonau? Y rhai trwy fyw mewn bywyd graſol ydynt wedi gwîr ymbarodoi erbyn marwolaeth, ac allan o'r enbydrwydd erchyll hwnnw o golli'r Nefoedd, *Rhuf.* 8. 1. *Pſal.* 37. 37.

Ymofyniad 3.

Onid ydym yn boſſibl i chwi, gan eich bod etto y tu yma i'r Bêdd ac Uffern, ymbarodoi erbyn y dŷdd drŵg hwn? Pe ymroſoldech i wneuthur hynny, chwi a'i gwnaech: Chwi a amcanaſoch ac a addawſoch yn fynych; pa brŷd y gwnewch ef? Ni attal ac ni lûdd nêb mo honoch, ond y Diafol a'ch cnawd chwi'ch hunain.

Ymofyniad 4.

A ydych chwi yn credu yn ſiwr y palla'r

pethau ſy yma, y daw angau, y brâth pechod, y diofryd beth hwnnw, ac y bydd cyflwr y pechaduriaid dïedifeiriol yn awr angau yn athriſt iawn ac yn ddïobaith? Gadewch i mi ddywedyd wrth yr holl gyfryw rai, nid oes noſwaith a orweddoch ar eich gwlau, nad ydych yn rhedeg mewn perygl mawr iawn: Pe galwai Angau, a chwithau heb ſod yn barod, ſe fyddai yn rhaid i chwi fyn'd, er y caech eich diferthu yn dragywydd, *Matth.* 25. 10, 11, 12, 30, 46.

Ymofynniad 5.

A ddârfu i chwi fyw felly mor gymmwys ag y galloch yn ddïbryder orwedd mewn Bedd, gyfodi drachefn, a ſefyll ger bron Duw, yr hwn ſydd dan yſſol? A wyddoch chwi eich bôd eich hunain mewn cyflwr o Ras, eich bôd newydd eni, fod eich eglurïadau am y Nefoedd yn eglur ac yn ſicer? A ydyw eich gwaith wedi ei orphen? A ydyw eich Lampau yn lloſgi? Ac oes gennych ſiccrwydd wedi ei ſeilio yn dda eich bod chwi'n rhai o'r nifer hynny i'r rhai y bydd marwolaeth yn rhagorfraint? *Phil.* 1. 21.

Ymofynniad 6.

A ellwch chwi yn gyſſurol ac yn ddïarſwyd

ſwyd roeſawi meddyliau am ddattodiad, ac am adel eich hôll hyfrydwch daiarol a chnawdol? Tybiwch yr anfonai'r Barnwr ofnadwy Angau yn awr i'r fangre hon, ag enwau pump neu chwech o honoch yn ei Writ neu ei dalcen, ac y dywedai Angau, Ti, a thi, y Gŵr hwn, a'r Wraig accw, ſy raid iddo ddyfod gŷd-a mi. Mi dderbyniais orchymmyn oddiwrth y Duw mawr ac ofnadwy (yr hwn ſydd a nerth marwolaeth ac Uffern ganddo) i'th ddŵyn di, ŵr ieuangc, neu ferch ieuangc, y dŷdd hwn neu'r nos hon ger bron y Frawdle. Mi a'th rybuddiais yn fynych trwy anfon fy nghennadon, a hynny'r deg, yr ugain neu 'r deugain mlhynedd hyn, pob Arch, pob Corph marw, neu Fedd a welaiſt ti, oeddynt cynnifer o arwyddion o nyfodiad i. Yn awr (medd Angau) mi a ddaethym fy hun, edrych yma a gwel fy Nghommiſſiwn, gwel fy Mhiccell a'm colyn. Y Biccell hon a ladd dy gorph, ac a enfyn dy Enaid i Dragywyddoldeb. Yr wyf fi yn gorchymmyn i ti'r awr hon ganu'n iach, gymmeryd dy gennad a Chyfeillion, Ceraint, Tai, Tiroedd, a Mwyniant pechod, unwaith tros oll. Ni chei di bŷth eu gweled na'u mwynhau mwy, *Luc.* 12. 19, 20. Oh pa fodd y gellwch chwi feddwl am eich marwolaeth

ſlofgi'r Byd, canu'r Udcorn, cyfodi'r meirw a ſefyll wrth y Bar, a bod heb ofni a chrynnu? Chwi feibion a merchaid hyfryd-wch! Pe yſtyriech pa ddychryn ac ofn fy'n eich annos wrth eich ſodlau, ac a ddaw ar-noch yn annocheladwy megis gwewyr un a fo'n eſgor, ni ddywedech wrth Dduw, dos ymaith, a thryſſori digofaint, a phen-tyrru ffrewyllau ac yſcorpionau i'ch enaid-iau cyſtuddiedig erbyn y dydd dïweddaf.

Ymofynniad 7.

Gadewch i mi ofyn i chwi y rhai ydych yn cael eich cyfrif yn Seingctiau, ac yn gobei-thio am y Nefoedd, beth na bod eich Cyd-wybodau yn y dirgel yn dywedyd wrthych, na wnaethoch ond parodtoad gwael erbyn Marwolaeth; ïe fe allai i chwi wneud llai am y Nefoedd nag a wnaeth llawer a'r a ſy'n awr yn Uffern.

Yr ydych yn dywedyd fod yn rhaid i chwi farw, a dyfod i Farn: Ond pa wedd y mae'r achos yn ſefyll oblegid y Byd arall? Os edrychwch i wared ar y Byd hwn, y mae yn dda, ond pa wedd y mae'ch enaid-iau gwerthfawr oddifewn? A ydych chwi yn credu fod y rhai Di-dduw, y rhai digred,

y

y Meddwon, y Tyngwŷr, y Llofruddion, y Lladron, yr Eilid-wŷr, y rhai Celwyddog, yr Anudonwŷr, y rhai ſy'n torri 'r Sabboth, y Godinebwŷr a'r rhai bydol, yn myned ar redeg i Uffern? A ydych chwi yn credu fod Praidd Crist yn fychan, ac heb Ofni eich hunain? A ydych chwi yn tybied fod *Eſau, Judas, Ahab, Agrippa, Herod, Simon Magus* a'r Morwynion ffolion yn Uffern, ac etto'n coelio'n hyderus eich bod chwi yn myned i'r Nef? Fe wnaeth y rhai'n fwy nag a wnaeth llawer o honoch chwi. Eſau *a wylodd ac a lefodd am y fendith*, Heb. 12. 17. Ahab *a ymoſtyngodd ger bron yr Arglwydd*, 1 Bren. 21. 29. Herod *a wnaeth lawer o bethau, ac a wrandawai ar* Joan Fedyddiwr *yn ewyllyſgar*, Marc 6. 20. *Nid oedd yr Yſgrifennydd bell oddiwrth Deyrnas Ddûw*, Marc 12. 34. *Yr oedd* Agrippa *o fewn ychydig i fod yn Gbriſtion*, Act. 26. 28. Simon Magus *a gredodd ac a fedyddiwyd*, Act. 8. 13. Nid oedd y Morwynion ffolion yn halogedig, hwy a gymmeraſant ofal i drwſio eu Lampau, ac a guraſant wrth y Drŵs. Yn awr pa bechodau a adawſoch? Pa Ras a ymarferaſoch? Pa ddyledſwyddau a gyflawnaſoch? A pha fodd? Gochelwch eich bod yn coel eich twyllo; *Ymdrechwch am fyned i mewn trwy'r porth cy-*

fyng, canys llawer a geisiant fyned i mewn, ac ni's gallant, Luc 13 14.

Ymofynniad 8.

Chwychwi wedi cael cynnifer o rybuddion, amser a moddion i ymbarottoi erbyn Marwolaeth a Barn, ac ni ymbarottowch, pwy a dosturia wrthych pan eich difethir? Ni thosturia Duw, *Dihar.* 1. 26, 27. Ni thosturia Crist, *Luc* 19. 27. Nithosturia Angylion, Seingctiau na Gweinidogion, pawb a ddywedant *ymaith a hwynt*, condemnier hwynt.

Ac Oh pa olwg yn lladd ac yn brawychu fydd dyfodiad Crist yn y Cymmylau i bobrhai a ddarfu iddynt naill ai gwadu ei ddyfodiad ef, neu ni fynnent ymbarottoi erbyn hynny. Yr oedd ei gnawdoliaeth ef yn ofnadwy, *Matth.* 2. 3. Yr oedd ei groeshoeliad ef yn fwy ofnadwy, *Luc* 23. 44, 45, 46, 47, 48. Eithr ei eisteddiad ef ar Orsedd barn a fydd fwyaf ofnadwy. *Yna y galara holl lwythau'r ddaiar*, *Matth.* 24. 30. A dynion a ddywedant wrth y Mynyddoedd a'r Creigian syrthiwch arnom ni, a chuddiwch ni o wydd yr hwn sydd yn eistedd ar yr Orseddfainge, ac oddiwrth

lld yr Oen, *Dat.* 6. 15, 16. Pan welont gynnifer miloedd a myrddiwnau o Wŷr a Gwragedd yn cael eu taflu bendramwnwgl gŷd-a holl Gythreuliaid Uffern, i'r Llyn hwnnw ſy'n lloſgi o Dan a Brwmſtan. Pa wedd y galarant y prŷd hynny gan ofid calon, ac udo gan orthrymder Yſpryd, ac a chwerwedd enaid, ddymuno na chlywſent erioed un gair ſon am Ghriſt, na buaſent wedi eu geni ym myſg y Cenhedloedd, neu na buaſent heb fod erioed, na mwynhau bywyd o hyfrydwch ar y ddaiar! Pa fodd y cur y pechadur truan ei ddwyfron, tynnu ei wallt, rhwygo ei ymyſgaroedd, gan weiddi (pan welo efe fod pob gobaith wedi ymadael) oh na buaſwn i yn awr heb un enaid! Neu na fuaſai'r enaid anfarwol hwn yn farwol! fel y buaſwn farw yn awr, a pheidio byw yn hwy! neu na fuaſai fy marn i letteus gŷd-a'r Cythreuliaid yn y Llyn-Tan hwn ond tros ddeng mîl o flynyddoedd, fel na buaſai i mi felly aros mewn cyflwr o allrudaeth o ŵydd a phreſennoldeb Duw hŷd bob Tragywyddoldeb.

Oh gan hynny gweddiwch, am fod difrifol feddyliau am farwolaeth bob amſer yn eich Calonnau; a pha le bynnag yr eloch

eloch chwi, aent i hwythau; ac yn mha le bynnag y lletyoch chwi, lletyent hwythau; fel y gallloch grybwyll am danynt wrth eich Plant a'ch Tylwyth, pan eisteddoch yn eich Tai, a phan gerddoch ar y ffordd, a phan orweddoch i lawr, a phan gyfodoch i fynu. Oh rhwymwch y pethau Mowrion hyn am Farwolaeth a Barn megis yn arwyddion ar eich dwy-law, byddant yn rhagdalau rhwng eich llygaid, ac ysgrifennwch hwynt ar bŷst eich tai, ac ar eich pyrth, fel y byddont bob amser ger bron eich llygaid er daioni i chwi yn wastad, fel yr ymgadwoch arnoch rhag anghofio o honoch yr Arglwydd eich Duw, a'i pethau tragywyddol a berthynant i'ch Eneidiau anfarwol, ac rhag i lid yr Arglwydd ennyn i'ch erbyn, a'ch difetha yn ebrwydd a chystudd dirfawr.

Ystyriwch beltach yr hyn a ddarfu i mi ei ddywedyd, a'r Arglwydd a roddo i chwi ddeall ym mhob peth, 2 *Tim.* 2. 7. Yr hyn yw'r peth y mae Duw yn ei dilymuno yn y Testun, *Oh na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu Diwedd.*

Y DIWEDD.

Llyfrau a Argraphwydd ac ydd ar werth gan R. MARSH, *yn* Ngwrecſam

1. LLYFR Teſtament Newydd yn Gymraeg gyd a'r cynhwyſiad o ſlaen y Pennodau.
2. Llyfr Gweddi Gyffredin, yn gymmwys i'r Llogell neu 'r *Bocced.*
3. Llyfr Hunan ymholiad.
4. Llyfr Cydymmaith yr Eglwyſwr, yn ymweled a'r Claf.
5. Llyfr Cydymmaith i'r Allor.
6. Llyfr Meſur Coed. &c.
7. Pattrwn y Gwir-Griſtion: Neu, Ddilyniad Ieſu Griſt.
8. Llyfr Saith o Bregethau gan *Robert Ruſſel.*
9. Y Llyfr Plygain, neu'r Primer Cymraeg.
10. Llyfr Taith y Pererin, gan *John Bunyan.*
11. Llyfr Taith Chriſtianes, neu'r ail rhann o Daith y Pererin, gan *John Bunyan.*
12. Geir Llyfr; neu Ddictionary Cymraeg a Saeſoneg, ſef Cymraeg o ſlaen y Saeſoneg.
13. Llyfr Ficcar *Llanddyfri* y Chweched Ran.
14. Llyfr A, B, C, neu Gatechiſm yr Eglwys.
15. Llyfr Hanes o fywyd a marwolaeth *Judas Iſcariot.*
16. Llyfr Hiſtori *Nicodemus*, &c.
17. Llyfr Hanes Tair Sir ar ddeg Cymru.
18. Llyfr Bardd Cwſg.
19. Llyfr Meddyginiaeth a Phyſygwriaeth i'r anafus a'r clwyfus.
20. Llyfr Myfyrdodau Bucheddol ar y Pedwar Beth Diweddaf
21. Llyfr Hiſtori'r Geiniogwerth Synnwyr.
22. Llyfr o Weddiau Duwiol,
23. Llyfr Tri aderyn, &c.

37/109

24 DE 67